Cyngor Sir Ddinbych

# Cynllun Datblygu Lleol 2006 - 2021

DRAFT

# Addroddiad ar Adolygiad o'r CDLl (Rhagfyr 2017)

Cyngor Sir Ddinbych
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Cynllunio Strategol a Thai
Blwch Swyddfa Bost 62
Rhuthun
LL 15 9AZ

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

## Cynnwys

tud. rhif


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagarweiniad | 3 |
| 2. | Cefndir | 4 |
| 3. | Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl | 6 |
| 4. | Strategaeth y CDLl | 7 |
| 5. | Canfyddiadau allweddol Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ar gyfer y CDLl | 15 |
| 6. | Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu Rhagfyr 2017) ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Rhagfyr 2017) | 19 |
| 7. | Gweithio ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos | 21 |
| 8. | Crynodeb | 22 |

Atodiadau I - II

| | | |
|---|---|---|
| Atodiad I | Dyraniadau tir preswyl yn y CDLl | 24 |
| Atodiad II | Crynodeb o berfformiad polisïau lleol y CDLl | 30 |

Atodiadau A - H

| | |
|---|---|
| Atodiad A | Papur Gwybodaeth - Parchu Cymeriad Unigryw |
| Atodiad B | Papur Gwybodaeth - Creu Cymunedau Cynaliadwy |
| Atodiad C | Papur Gwybodaeth - Hyrwyddo Economi Gynaliadwy |
| Atodiad D | Papur Gwybodaeth - Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd |
| Atodiad E | Papur Gwybodaeth - Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy |
| Atodiad F | Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu Rhagfyr 2017) |
| Atodiad G | Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Rhagfyr 2017) |
| Atodiad H | Cytundeb Darparu |


DRAFT

## 1. **Rhagarweiniad**

1.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i weithredu’r dull dan arweiniad y cynllun i wneud penderfyniadau yn lleol i sicrhau fod Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-1021 (CDLl) yn ateb y gofynion. Yn cefnogi Amcanion y CDLl a strategaethau corfforaethol y Cyngor, mae polisïau lleol a mapiau o gynigion yn nodi lle a sawl datblygiad a wneir yn y Sir hyd at 2021.

1.2 Mabwysiadwyd CDLl Sir Ddinbych ym Mehefin 2013, ac ar ôl 4 blynedd mae’n rhaid iddo fod yn destun adolygiad. Y rheswm dros adolygu’r CDLl yw nodi unrhyw newidiadau a diweddariadau i’r sail dystiolaeth gan gefnogi polisïau unigol a dyraniadau tir, deddfwriaeth newydd a digwyddiadau neu amgylchiadau lleol lle mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i newid elfennau unigol ohono.

1.3 Bwriad yr ‘Adroddiad Adolygu CDLl 2017’ yw dogfennu dull y Cyngor i’r ymarfer hwn a’r casgliadau a geir o ganlyniad i hynny. Cafwyd gwybodaeth a data, er enghraifft o hen Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMR), newidiadau mewn gofynion deddfwriaethol, cofnodion rheoli datblygu a thystiolaeth newydd.

1.4 Mae’r adroddiad yn dechrau gyda chefndir trefniadol i gynnal adolygiad; gan ddarparu manylion ar ffynonellau o ddeddfwriaeth a gofynion. Mae pennod 3 yn asesu Gweledigaeth CDLl ac Amcanion CDLl gan ddod i'r canlyniad bod y prif hwb yn parhau i fod yn ddilys. Mae penodau 4 a 5 yn canolbwyntio ar Strategaeth CDLl a pherfformiad y polisi lleol. Maent yn adnabod ac yn manylu ar y prif resymau i fynd am CDLl wedi’i adolygu: (1) tanberfformiad o ran cyflawni tai fforddiadwy a marchnad dai; (2) diffyg cyflenwad tai dros 5 mlynedd; (3) cyfeirio at anghenion llety Teithwyr a Sipsiwn; a (4) newidiadau i reoli gwastraff a mwynau. Cyflwynir ystyriaethau ar Arfarniad o Gynaliadwyedd a Gwerthusiad ar Reoliadau Cynefinoedd ym Mhennod 6, gyda Phennod 7 yn amlinellu dull o ddewis y Cyngor i weithio ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos.

1.5 Ymgynghorwyd â phrif randdeiliaid ac aelodau’r cyhoedd ar gynnwys yr Adroddiad Adolygu CDLl a’i atodiadau, yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol) – Adroddiad Ailystyried a Phosibiliadau, a’r Cytundeb Cyflawni drafft. Ystyriwyd yr holl sylwadau yn ofalus, a lle y gellir eu cyfiawnhau fe ddiwygiwyd y dogfennau drafft. Mae’r adroddiad ymgynghoriad llawn yn cynnwys yr holl sylwadau i’w cael gan dîm Cynllunio Strategol a Thai Sir Ddinbych ar e-bost: cynlluniopolisi@sirddinbych.gov.uk

1.6 Mae atodiadau A i E yn bump ‘papur gwybodaeth’ sy’n cyfateb i’r pump thema CDLl. Maent yn ychwanegiadau at y brif ddogfen ac yn cyflwyno gwybodaeth fanwl a data ar bolisïau lleol unigol, newidiadau mewn deddfwriaeth ac amgylchiadau lleol. Y rhesymwaith tu ôl i’r dull hwn yw cynnal y ‘dogfennau byw’ sy’n cael eu diweddaru’n rheolaidd i roi gwybod am yr adolygiad a wnaed o'r CDLl.

DRAFT

## 2. **Cefndir**

*Gofynion gweithdrefnol*

2.1 Mae 'Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiedig) 2015' yn nodi beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), gan gynnwys y camau gweithdrefnol. Cyfeirir yn benodol at adolygiadau CDLl yn Rheoliad 41 lle mae'n ofynnol cyflawni adolygiad CDLl bob pedair blynedd ac yn amlinellu dwy ffordd posibl o symud ymlaen. 'Adolygu yn defnyddio gweithdrefn lawn' neu 'Adolygu yn defnyddio gweithdrefn fer'. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddull yw'r cymhlethdod a nifer y newidiadau y cynigir yn y cynllun a fabwysiadir. Pa bynnag fath o adolygiad a ddewisir, cyn diwygio'r Cynllun neu gynhyrchu CDLl newydd, rhaid paratoi adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl yn rhoi'r rhesymau a'r dystiolaeth dros gynnig newidiadau i elfennau unigol o'r Cynllun.

2.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau pellach ar sut i ddilyn y darpariaethau yn y Rheoliadau, ar ffurf y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r ddogfen hon yn diffinio tri phrif sbardun ar gyfer adolygu CDLl mabwysiedig a chynhyrchu adroddiad i gofnodi'r broses:

(1) Newid cyd-destunol mawr (e.e. i bolisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol; yn y cyd-destun lleol e.e. safle cyflogaeth mawr yn cau sy'n tanseilio'r economi leol; ym mhwysau neu anghenion datblygu a strategaethau buddsoddi buddsoddwyr cyhoeddus a buddsoddwyr preifat mawr).

(2) Pryderon sylweddol o ganfyddiadau'r AMB o ran effeithiolrwydd polisïau, cyfraddau cynnydd, ac unrhyw broblemau gweithredu.

(3) A69 /Rheoliad 41 y gofyniad i gynnal adolygiad llawn.

[Ffynhonnell: Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 2, Awst 2015), paragraff 10.1.3]

2.3 Mae Rheoliad 41 (yn ei ffurf ddiwygiedig) yn rhagnodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol gychwyn adolygu eu CDLl bob pedair blynedd o ddyddiad y mabwysiadwyd y cynllun gwreiddiol. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 ei fabwysiadu ym Mehefin 2013 sy'n golygu bod dyletswydd ar y Cyngor i ddechrau adolygu'r cynllun yn 2017.

2.4 Fel rhan o'r broses adolygu mae awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu cynghori i sefydlu p'un ai fod y cynllun mabwysiedig yn parhau i gydymffurfio â'r tri phrawf o gywirdeb fel y disgrifir ym Mholisi Cynllunio Cymru ac, os oes angen, pa newidiadau fyddai'n cywiro'r diffygion amlwg. Y tri phrawf yw: (1) Ydy'r Cynllun mabwysiedig yn dal i gydymffurfio â deddfwriaeth, strategaethau neu raglenni sy'n berthnasol i'r ardal; (2) ydy holl elfennau'r Cynllun mabwysiedig wedi eu cadarnhau gan y dystiolaeth ddiweddaraf; a (3) a ellir defnyddio'r Cynllun mabwysiedig dros weddill y cyfnod?

2.5 Ar wahân i gynhyrchu prif ddogfen y CDLl a mapiau cynigion y CDLl, mae'r Cyngor hefyd wedi cyflawni nifer o asesiadau i werthuso effaith polisïau a dynodiadau safle lleol ar faterion fel seilwaith lleol, yr amgylchedd naturiol a diwylliant Cymru. Bydd Pennod 6 yn cyfeirio'n benodol at yr ymarferion sgrinio a wnaed ar gyfer yr Arfarniad

DRAFT

Cynaliadwyedd (SA), yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

2.6 Nid yw'r adroddiad Adolygu CDLl yn amlinellu cynigion penodol, hy geiriad ar gyfer polisïau lleol neu ddyraniadau tir presennol wedi'u diwygio ar y Mapiau Cynigion CDLl. Trefnwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ganlyniadau'r adolygiad ac nid cynigion sy'n niweidio adolygiad newydd o'r CDLl.

*Deddfwriaeth sylfaenol*

2.7 Ar 1 Ebrill 2016 daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym. O dan y Ddeddf mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus fel Cyngor Sir Ddinbych ystyried nid yn unig anghenion presennol ei gymunedau lleol ond hefyd sut y bydd ei benderfyniadau'n effeithio ar bobl yn y dyfodol. Y brif her i'r Cyngor yw gweithio tuag at bob un o'r saith nod lles yn y Ddeddf sef: (1) Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang; (2) Cymru lewyrchus; (3) Cymru wydn; (4) Cymru iachach; (5) Cymru fwy cyfartal; (6) Cymru o gymunedau cydlynol; a (7) Cymru gydag iaith Gymraeg a diwylliant byw a ffynniannus.

2.8 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu pecyn 'Asesu'r Effaith ar Les' i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gynllunio (Cymru) 2015. Dyluniwyd y pecyn i helpu gwneuthurwyr penderfyniadau i werthuso cynnig penodol yng ngoleuni'r nodau lles hyn. Yn unol â hynny, cyflawnir asesiad o'r effaith ar les ar holl elfennau'r CDLl newydd ac felly, lle bydd angen, bydd yr elfennau hyn yn cael eu diwygio'n unol ag argymhellion yr asesiad.

2.9 Derbyniodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 Gydnabyddiaeth Brenhinol ar 6 Mehefin 2015. Mae Rhan 3 yn cyflwyno hierarchaeth newydd o gynlluniau datblygu i system gynllunio Cymru: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) – Cynlluniau Datblygu Strategol (SDP) – Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl neu'r LDP). Y ddadl yw y bydd cyflwyno NDF a chynlluniau SDP yn caniatáu cynllunio ar gyfer materion mwy na rhai lleol, pethau fel niferoedd tai, dyraniadau tai strategol, safleoedd cyflogaeth strategol a'r seilwaith trafnidiaeth i gynnal hyn oll sy'n torri ar draws nifer o ardaloedd awdurdod cynllunio lleol. Er nad yw'r Ddeddf yn nodi pa feysydd yn benodol y bydd cynllun SDP yn ymdrin â hwy, gall Llywodraeth Cymru gyfarwyddo awdurdodau cynllunio lleol i baratoi dogfen o'r fath.

2.10 Ar hyn o bryd nid oes cynlluniau manwl i gyflwyno SDP ar gyfer Gogledd Cymru ond mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal ar y sgôp ar gyfer cefnffordd yr A55 fel sail i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru. Pe bai rhannau o'r Sir yn dod o dan gynllun SDP byddai gan hyn oblygiadau sylweddol i swyddogaeth a chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Sir Ddinbych.

2.11 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol i lunio cynlluniau datblygu lleol ar y cyd. Gallai hynny olygu bod Sir Ddinbych yn cael ei gyfeirio i gynhyrchu Cynllun newydd gydag awdurdod cynllunio lleol cyffiniol. Mae yna berygl o gyfeiriad o'r fath er gwaethaf yr ansicrwydd presennol ynghylch y Papur Gwyn ar 'Ddiwygio Llywodraeth Leol:

Cadernid ac Adnewyddiad' (Ionawr 2017). Mae Pennod 8 yn rhoi eglurder pellach ac yn amlinellu sefyllfa'r Cyngor.

## 3. Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl

3.1 Drwy fod wrth galon Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 (CDLl), mae Gweledigaeth y CDLl yn nodi cyfres uchelgeisiol o amcanion y dylent fod wedi cael eu cyflawni erbyn i gyfnod y cynllun ddod i ben yn 2021:

3.2 ‘Bod gan Sir Ddinbych, trwy gyfrwng datblygiad cynaliadwy, arfordir trefol bywiog, gyda threfi marchnad ac ardaloedd gwledig sy’n ffynnu. Bydd anghenion tai a chyflogaeth y Sir yn cael eu diwallu, a’r amgylchedd o ansawdd uchel yn cael ei hamddiffyn a’i gwella a safon bywyd uchel yn cael ei gynnal i bob cymuned, gyda chydnabyddiaeth lawn bod gennym iaith Gymraeg gref a diwylliant y dylid eu cynnal a’u gwarchod ledled y Sir.’

3.3 Cefnogir Gweledigaeth y CDLl gan nifer o Amcanion a Pholisïau Lleol y CDLl i ddarparu a gweithredu elfennau allweddol y Cynllun. Mae ei gynnydd yn cael ei fonitro’n agos fel rhan o’r Adroddiad Monitro Blynyddol. Dangosodd asesiadau cychwynnol, gweler Pennod 5 am ganfyddiadau allweddol Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, fod digon o gyfle i wella perfformiad blaenorol ac yn enwedig o ran cwrdd ag anghenion tai’r Sir. Ar y pwynt hwn yng nghyfnod y Cynllun, fodd bynnag, mater o farn yw penderfynu a oes angen diwygio Gweledigaeth y CDLl ar sail perfformiad gwael y polisïau lleol.

3.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi gosod y fframwaith i Lywodraeth Cymru i fformiwleiddio lles yr amcanion sydd nid yn unig yn dylanwadu polisi cenedlaethol ond hefyd yn rhoi cyfeiriad i awdurdodau lleol. Mae ymgorffori dull cyfannol i wneud penderfyniadau gydag amcanion lles yn adlewyrchu’r egwyddorion datblygu cynaliadwy sydd wedi arwain polisïau cynlluniau yn y gorffennol. Wrth ddrafftio Gweledigaeth CDLl newydd neu ddiwygio un sy’n ei le’n barod, rhaid rhoi mwy o bwyslais ar ddarpariaethau’r Ddeddf ac amcanion lles.

3.5 Mae Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) wedi mabwysiadu Cynllun Corfforaethol newydd i 2017-2022, ‘Gweithio gyda’n Gilydd dros Ddyfodol Sir Ddinbych’ ar 17 Hydref 2017. Mae’r Cynllun Corfforaethol newydd yn nodi pum prif flaenoriaeth sy’n cyflwyno fframwaith ar gyfer Strategaethau/Cynlluniau Corfforaethol pellach a fydd yn arwain yr awdurdod lleol yn sylweddol wrth wneud penderfyniadau i gyflawni amcanion heriol.

3.6 Mae Tabl 1 yn dangos sut mae’r Amcanion CDLl a fabwysiadwyd yn cefnogi’r Cynllun Corfforaethol newydd. Er nad oes amcanion anghyson, bydd y Cynllun Adnewyddu yn rhoi’r cyfle i gryfhau'r cysylltiad rhwng y ddwy ddogfen hyn.

DRAFT

3.7 Tabl 1 Gweler Amcanion y CDLl a fabwysiadwyd sy'n gefnogi Blaenoriaethau Corfforaethol unigol CSDd ar gyfer y cyfnod 2017 - 2022

| Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017 - 2022 | Amcanion CDLl Sir Ddinbych a Fabwysiadwyd |
|---|---|
| Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion | Amcan CDLl 1 'Poblogaeth a Chymuned' |
| Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da | Amcan CDLl 4 'Manwerthu'<br>Amcan CDLl 5 a 6 'Trafnidiaeth'<br>Amcan CDLl 7 'Yr Iaith Gymraeg'<br>Amcan CDLl 10 'Gwastraff'<br>Amcan CDLl 12 'Seilwaith' |
| Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i fagu annibyniaeth a chadernid | Amcan CDLl 11 'Ynni'<br>Amcan CDLl 13 'Datblygiad Defnydd Cymysg'<br>Amcan CDLl 14 'Dylunio' |
| Deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd | Amcan CDLl 8 'Mannau Agored Cyhoeddus'<br>Amcan CDLl 15 'Twristiaeth'<br>Amcan CDLl 16 'Ardaloedd Gwarchodaeth' |
| Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny | Amcan CDLl 1 'Poblogaeth a Chymuned'<br>Amcan CDLl 2 a 3 'Yr Economi a Swyddi' |

Ffynhonnell: Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2017-2022 'Gweithio gyda'n gilydd er lles dyfodol Sir Ddinbych', gwelwyd ar safle wê CSDd; 20fed Hydref 2017

3.8 Mae'r Cynllun yn cynnwys 16 o Amcanion sy'n adlewyrchu elfennau allweddol o Weledigaeth y CDLl er mwyn mynd i'r afael â'r materion allweddol oedd wedi eu nodi yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyn Adneuo blaenorol Sir Ddinbych (2008). Gan nad yw'r materion allweddol sy'n wynebu'r Sir wedi newid rhyw lawer, nid oes cynigion i'w newid ar hyn o bryd. Pe bai angen Gweledigaeth newydd ar gyfer y CDLl, mae'n debyg y byddai'r amcanion yn debygol o gael eu diwygio hefyd.

3.9 Atodiadau A i E, yn nodi mewn manylder sut y mae Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl yn cael eu hadlewyrchu mewn polisi lleol a fabwysiadwyd. Yn dibynnu ar ganlyniad y Gwerthusiad Cynaliadwyedd /Fframwaith Posibiliadau efallai bod angen newid geiriad Amcanion CDLl unigol.

## 4. Strategaeth y CDLl

4.1 Roedd strategaeth dwf a gofodol gyffredinol y CDLl mabwysiedig wedi cael ei goleuo gan nifer o astudiaethau a rhagolygon twf poblogaeth a chartrefi a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru Roedd y rhain yn cynnwys Rhagolygon Poblogaeth a Chartrefi Sir Ddinbych (Roger Tym & Partners 2005), Rhagolygon Cartrefi 2006 a 2008 Llywodraeth Cymru.  Mae'r ffynonellau data uchod wedi goleuo'r ffigur o 500 o dai'r

DRAFT

flwyddyn y cytunwyd arno fel lefel dwf yn y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd y lefel dwf yn y Cynllun Datblygu Lleol yn dal i fod yn is na'r amcan o'r angen blynyddol yn rhagolygon poblogaeth Llywodraeth Cymru ond roedd y lefel yn ystyried capasiti amgylcheddol y Sir ynghyd â'r ffaith nad oedd yn credu y gallai'r diwydiant adeiladu lleol godi mwy o dai na hynny.

4.2 Mae newid mewn poblogaeth a chartrefi'n digwydd o ganlyniad i newid naturiol; y cydbwysedd rhwng genedigaethau a marwolaethau yn y boblogaeth a'r ffigurau mudo net ar sail faint o bobl sy'n symud i mewn ac allan o'r Sir. Mae rhagolygon poblogaeth a chartrefi'n defnyddio data ar dueddiadau blaenorol ac yna, ar sail y duedd honno, yn darogan beth allai ddigwydd yn y dyfodol. Dylid nodi nad yw'r elfennau darogan hyn o newid yn y boblogaeth yn newid ac nad ydynt ychwaith yn ystyried unrhyw newid mawr i bolisi a allai ddylanwadu ar newid yn y boblogaeth.

4.3 Mewnfudo i Sir Ddinbych yw'r brif ffactor sy'n dylanwadu ar newid ym mhoblogaeth a chartrefi'r Sir. Gall lefelau mudo amrywio'n sylweddol dros gyfnod cymharol fyr. Yn aml iawn gwelir llai o fudo yn ystod cyfnod o dwf economaidd gwael. Mae'r dirywiad yn yr economi fyd-eang wedi cael effaith sylweddol ar gyfraddau mewnfudo i Sir Ddinbych.

4.4 Dengys y ffigurau yn nhabl 1 fod y rhagolygon twf poblogaeth blynyddol, yn defnyddio'r rhagolygon diweddaraf yn 2015, yn llawer is na'r ffigurau yn 2008 y seiliwyd y CDLl presennol arnynt. Bydd hyn eto'n cael effaith sylweddol ar y rhagolygon twf mewn cartrefi a'r gofyniad tai ar gyfer y CDLl newydd arfaethedig.

4.5 Tabl 2 Rhagolygon twf poblogaeth blynyddol ar sail rhagolygon 2008, 2011 a 2015 Llywodraeth Cymru

| Rhagolygon | Sir Ddinbych (wedi eu talgrynnu) |
|---|---|
| Tuedd fudo 5 mlynedd ar sail ffigurau 2008 | 590 |
| Tuedd fudo 5 mlynedd ar sail ffigurau 2011 | 350 |
| Tuedd fudo 5 mlynedd ar sail ffigurau 2015 | 120 |
| Tuedd fudo 10 mlynedd ar sail ffigurau 2015 | 270 |
| Tuedd fudo 15 mlynedd ar sail ffigurau 2015 | 410 |

Ffynhonnell: Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017

4.6 Pe bai lefel y boblogaeth yn aros yn statig, byddai cynnydd yn dal i fod yn nifer y cartrefi yn y Sir gan fod cartrefi newydd yn cael eu creu'n bennaf gan bobl ifanc sy'n gadael cartref neu wrth i deuluoedd chwalu. Dengys Tabl 3 isod y rhagolygon ar gyfer twf y boblogaeth yn y Sir.

4.7 Tabl 3 Rhagolygon twf poblogaeth blynyddol ar sail rhagolygon 2008, 2011 a 2015 Llywodraeth Cymru

| Rhagolygon | Sir Ddinbych (wedi eu talgrynnu) |
|---|---|
| Tuedd fudo 5 mlynedd ar sail ffigurau 2008 | 500 |
| Tuedd fudo 5 mlynedd ar sail ffigurau 2011 | 190 |
| Tuedd fudo 5 mlynedd ar sail ffigurau 2015 | 100 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Tuedd fudo 10 mlynedd ar sail ffigurau 2015 | 150 |
| Tuedd fudo 15 mlynedd ar sail ffigurau 2015 | 220 |

Ffynhonnell: Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017

4.8 Mae’r rhagolygon twf cartrefi blynyddol ar gyfer y Sir yn amrywio rhwng 20% a bron i 50% o’r rhagolygon twf ar gyfer y CDLl mabwysiedig. Mae Tabl 3 yn trosglwyddo’r twf cartrefi blynyddol yn rhagolygon gofyniad tai blynyddol ar gyfer y CDLl newydd arfaethedig.


4.9 Tabl 4 Rhagolygon gofyniad tai blynyddol ar sail rhagolygon 2008, 2011 a 2015 Llywodraeth Cymru

| Rhagolygon | Sir Ddinbych (wedi eu talgrynnu) |
|---|---|
| Tuedd fudo 5 mlynedd ar sail ffigurau 2008 | 530 |
| Tuedd fudo 5 mlynedd ar sail ffigurau 2011 | 200 |
| Tuedd fudo 5 mlynedd ar sail ffigurau 2015 | 100 |
| Tuedd fudo 10 mlynedd ar sail ffigurau 2015 | 160 |
| Tuedd fudo 15 mlynedd ar sail ffigurau 2015 | 230 |

Ffynhonnell: Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017

4.10 Mabwysiadwyd CDLl Sir Ddinbych ym Mehefin 2013 sydd yn llai na saith mlynedd ers dechrau cyfnod y Cynllun yn 2006. Dengys Ffigwr 1 faint o dai a gwblhawyd pob blwyddyn mewn cymhariaeth â lefelau twf yn y CDLl.

4.11 Ffigwr 1 Faint o dai a gwblhawyd pob blwyddyn mewn cymhariaeth â lefelau twf yn CDLl Sir Ddinbych ers 2006/2007




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

4.12 Nid yw’r nifer blynyddol o dai a gwblhawyd wedi cyrraedd y lleiafswm gofynnol blynyddol o 533 o dai (727 o dai am y cyfnod o 2016/17 ymlaen) ers i’r CDLl gael ei fabwysiadu ym Mehefin 2013. Mae trafodaethau cynhwysfawr gyda thirfeddianwyr

a darpar ddatblygwyr wedi awgrymu bod y galw yn y Sir am dai newydd yn gymharol isel ac adlewyrchir hyn yn y nifer blynyddol o dai a gwblhawyd.

4.13 Bydd angen i Strategaeth Dwf y CDLl adlewyrchu'r angen yn y dyfodol yng ngoleuni'r rhagolygon diwygiedig ar gyfer poblogaeth a chartrefi. Mae'n glir bod y lefelau twf blynyddol yn afrealistig ac na fyddant yn cwrdd â'r twf sydd wedi'i ddarogan yn gychwynnol dros weddill cyfnod y Cynllun.

4.14 Mae darparu'r nifer sydd ei angen, ac sydd wedi'i adnabod yn wrthrychol, o dai fforddiadwy a thai marchnad yn rhan greiddiol o weithredu Strategaeth Dwf y CDLl ond rhaid i'w pherfformiad hefyd ystyried y dosbarthiad gofodol a benderfynir gan y strategaeth aneddiadau a'r strategaeth ofodol gyfatebol ar gyfer y Sir.

4.15 Sefydlwyd y dosbarthiad gofodol cyffredinol o dai newydd yn y cam Cyn Adneuo, gyda'r twf wedi'i ganoli'n bennaf yng ngogledd y Sir gyda llai o dwf i gwrdd ag anghenion lleol ym mhob un o'r ardaloedd eraill.

4.16 Disgrifir y strategaeth aneddiadau ar gyfer y Sir ym mholisi lleol BSC 1 – Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych. Mae un Safle Strategol Allweddol wedi'i ddethol yn y Sir – Bodelwyddan. Mae trefi llai o dwf wedi eu hadnabod yn y Rhyl, Prestatyn, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun a Chorwen. Mae'r rhain i gyd yn drefi sefydledig gydag ystod o wasanaethau i gwrdd ag anghenion lleol neu ranbarthol. Prestatyn a'r Rhyl yw'r prif ganolfannau yn y Sir ond cyfyngir hwynt yn drwm gan faterion fel perygl llifogydd; topograffi; dynodiadau amgylcheddol a chapasiti seilwaith. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi arwain at lefelau twf is ar gyfer yr ardaloedd hyn na rhai a gafwyd yn y gorffennol.

4.17 Mae 31 o bentrefi lle cafodd safleoedd priodol ar gyfer defnydd preswyl, cyfleusterau cymunedol a mannau hamdden agored eu dyrannu o fewn ffiniau datblygu penodedig. Dangosir y rhain hefyd ar Fapiau Cynigion y CDLl. Cafodd 27 o bentrefannau hefyd eu hadnabod i ganiatáu ar gyfer twf tai fforddiadwy i ateb yr angen lleol mewn ardaloedd gwledig. Cyfyngir datblygu tai mewn pentrefannau i gwota ar gyfer pob anheddiad, wedi eu lleoli yn yr ardaloedd chwilio a ddiffinnir ar y Mapiau Cynigion, ac yn cyfateb i'r angen lleol.

4.18 Y tu allan i bentrefi a phentrefannau, mae ardaloedd gwledig eraill wedi eu dosbarthu fel cefn gwlad agored lle rheolir cyfleoedd datblygu'n unol â pholisi cenedlaethol. Bydd cyfraniad bach at anghenion tai'n cael ei wneud drwy drosi adeiladau segur yng nghefn gwlad a thrwy dai mewnlenwi.

4.19 Mae'r ddau dabl isod yn dangos nifer y tai sydd wedi cael eu cwblhau ers dechrau cyfnod y Cynllun yn 2006 yn unol â'u safle yn yr hierarchaeth aneddiadau (tabl 4) ac yn y strategaeth ofodol (tabl 5).

DRAFT

4.20 Tabl 4 Nifer y tai a gwblhawyd yn unol â strategaeth aneddiadau'r CDLl

| Strategaeth Dwf y CDLl | Nifer y tai | Canran |
|---|---|---|
| Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan | 0 | 0 |
| Trefi Llai o Dwf | 1648 | 73 |
| Pentrefi | 241 | 11 |
| Pentrefannau | 28 | 1 |
| Cefn Gwlad Agored | 326 | 15 |
| *Cyfanswm* | 2243 | 100 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

4.21 Dengys Tabl 4 fod nifer y tai a gwblhawyd wedi bod yn gyson iawn â'r hierarchaeth aneddiadau yn y CDLl mabwysiedig. Cwblhawyd mwy na 70% o'r tai newydd mewn Trefi Llai o Dwf. Dyma'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer tai newydd oherwydd maen nhw'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau hawdd eu cyrraedd.

4.22 Tabl 5 Nifer y tai a gwblhawyd yn unol â strategaeth ofodol y CDLl

| Lleoliad | Nifer y tai | Canran |
|---|---|---|
| Gogledd y Sir | 1220 | 54 |
| Canol y Sir | 728 | 33 |
| De'r Sir | 295 | 13 |
| *Cyfanswm* | 2243 | 100 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

4.23 Mae'r ddau dabl yn dangos bod y tai a gwblhawyd wedi eu lleoli'n unol â'r strategaeth aneddiadau a dosbarthiad gofodol yn y CDLl. Mae gweithrediad Strategaeth Dwf y CDLl yn dioddef yn bennaf o'r nifer isel iawn o gartrefi newydd sy'n cael eu cynnig drwy'r system gynllunio.

4.24 Y rhagolygon twf poblogaeth a chartrefi diweddaraf gan Lywodraeth Cymru fydd y man cychwyn ar gyfer datblygu Strategaeth Dwf y CDLl newydd ar gyfer y Sir. Oherwydd bod y rhagolygon twf blaenorol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer poblogaeth a chartrefi'r Sir yn ormodol o lawer (er hynny, dim ond rhagolygon ydynt), methodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 yn llwyr â chyflawni'r lefelau tai fel y nodwyd yn Strategaeth y Cynllun.

*Tai fforddiadwy*

4.25 Mae Nodyn Cyngor Technegol 2 – Cynllunio a Thai Fforddiadwy 2006 yn gofyn bod awdurdodau lleol yn cynnwys targed tai fforddiadwy yn eu cynlluniau datblygu ac yn dangos sut y bwriedir cyrraedd y targed hwn drwy ddulliau polisi penodol. Mae Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn creu tystiolaeth ar gyfer polisïau er mwyn darparu tai marchnad a thai fforddiadwy.

4.26 Nodwyd bod angen tai fforddiadwy ar draws y Sir a bydd Asesiad o Farchnad Dai Leol Sir Ddinbych yn cael ei ddiweddaru yn 2018 i oleuo'r targed tai fforddiadwy ar gyfer y CDLl newydd arfaethedig. Roedd Polisi BSC 4 'Tai Fforddiadwy' yn gosod

DRAFT

targed o ddarparu 2,250 - 3,000 o dai fforddiadwy dros gyfnod y cynllun rhwng 2006 a 2021. Ar hyn o bryd, gofynnir am 10% o dai fforddiadwy ar bob safle datblygu o dri neu fwy o unedau, naill ai drwy ddarpariaeth ar-y-safle ar gyfer safleoedd gyda mwy na 10 o unedau neu drwy gyfraniad ariannol ar gyfer safleoedd o 3-9 o unedau. Mae'r polisi'n caniatáu ar gyfer cynnydd yn y ganran o dai fforddiadwy y gofynnir amdani os bydd prisiau gwerthu tai'n codi 10% yn uwch na phrisiau sylfaenol 2009. Gofynnwyd am y lefel gyfraniad yma'n dilyn canlyniadau'r Astudiaeth o Hyfywedd Tai Fforddiadwy (Swyddfa'r Prisiwr Dosbarth, 2009). Bydd yr astudiaeth yn cael ei diweddaru i oleuo lefel y cyfraniadau y gofynnir amdanynt yn y CDLl newydd.

4.27 Safleoedd Eithriedig Gwledig – yn ôl polisi lleol BSC 8 gall pob anheddiad gyda ffiniau datblygu ddefnyddio'r polisi 'safleoedd eithriedig gwledig' i ddarparu 100% o dai fforddiadwy. Gwnaed y polisi hwn yn fwy hyblyg drwy ganiatáu i safleoedd 'eithriedig' gael eu cynnig lle mae safleoedd o fewn y ffin sydd heb eu datblygu, ar yr amod y gellid sefydlu bod y safleoedd hyn yn annhebygol o gael eu cynnig i'w datblygu. Ni ddaeth unrhyw safleoedd eithriedig gwledig gerbron i'w datblygu dros gyfnod y cynllun hyd yma a dylai'r CDLl newydd ystyried a oes dal angen y polisi hwn.

4.28 Roedd polisi lleol BSC 6 - Polisi Pentrefannau yn dyrannu lefel o dwf i bob un o'r aneddiadau ac yn nodi y byddai angen i bob datblygiad tai fod yn fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol. O ystyried natur wasgarog llawer o'r pentrefannau yn y Sir, roedd y polisi hwn wedi adnabod Ardal Chwilio oddi mewn ac o gwmpas yr anheddiad fel ag yr oedd, lle byddai datblygu'n cael ei ganiatáu. Drwy glymu tai i anghenion lleol, roedd y polisi hwn yn ceisio sicrhau bod anghenion pobl leol yn cael blaenoriaeth a bod tai gwledig yn gwneud cyfraniad at dai fforddiadwy. Ers ei fabwysiadu yn 2013 mae cyfanswm o dri thŷ fforddiadwy wedi eu darparu drwy'r polisi hwn. O ystyried y nifer isel o gartrefi newydd y mae'r polisi hwn wedi eu darparu a'r problemau a gafodd ymgeiswyr gyda sicrhau cyllid i ddatblygu cartrefi wedi eu clymu wrth dai fforddiadwy cysylltiad lleol, dylid adolygu'r polisi hwn ar gyfer y CDLl newydd. Mae Atodiad 1, tabl 1 'Pentrefannau' yn dangos cyfanswm y preswyliadau a ganiatawyd ers 2006; cyn mabwysiadu'r polisi lleol BSC6, ac yn cynnwys y farchnad dai agored.


4.29 Roedd polisi lleol BSC 9 – Polisi Mewnlenwi'n ehangu ar Bolisi Cenedlaethol i ganiatáu ar gyfer datblygu ychydig iawn o dai newydd mewn clystyrau a grwpiau bach presennol o dai. Er mwyn sicrhau bod pobl leol yn gallu parhau i fyw mewn ardaloedd gwledig, roedd pob datblygiad mewnlenwi i gael ei gyfyngu i dai fforddiadwy i ateb angen lleol. Fel gyda'r polisi Pentrefannau uchod, ychydig iawn o dai newydd y mae'r polisi hwn wedi'i ddarparu a dylid ei adolygu ar gyfer y CDLl newydd.

4.30 Dengys Ffigwr 2 faint o dai fforddiadwy a ddarparwyd mewn cymhariaeth â chyfanswm y tai newydd a ddarparwyd drwy'r system gynllunio. Mae cyfanswm o 481 o dai fforddiadwy wedi eu darparu ers 2006 drwy'r system gynllunio sydd o dan y targed o 2,250 ym mholisi BSC 4. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio oherwydd bod cyfanswm y nifer gyffredinol o dai a gwblhawyd ymhell o dan y targed o 500 y flwyddyn sy'n ofynnol yn y CDLl presennol, mai canran y tai fforddiadwy a

DRAFT

ddarparwyd yw 21%. Mae hyn ddwywaith y 10% sy'n ofynnol o dan bolisi BSC 4. Dylid nodi bod y Cyngor hefyd yn darparu tai fforddiadwy drwy ddulliau eraill ar wahân i'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys y Grant Tai Cymdeithasol, gwaith ar droi tai gwag yn gartrefi unwaith eto a gweithio gyda phartneriaid tai fel landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae cyfanswm o 691 o dai fforddiadwy wedi eu darparu yn Sir Ddinbych ers 2006.

4.31 Ffigwr 2 Y Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

*Tir ar gyfer cyflogaeth*

4.32 Daeth y dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd i'r casgliad bod angen cyflenwad tir o tua 50 hectar ar gyfer tai hyd at 2021. Penderfynwyd ar y ffigur hwn drwy gyfuno tri model rhagolygon cyflogaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth a wnaed gan Brifysgol Bangor yn 2007. Casglodd yr astudiaeth honno, i bwrpas blaengynllunio ffigur wrth gefn, y dylai Sir Ddinbych fod yn cynllunio ar sail tua 3 hectar y flwyddyn – hynny yw tua 45 hectar dros gyfnod y Cynllun (wedi'i dalgrynnu i 50 hectar ar gyfer y CDLl).

4.33 Tabl 6 Dyraniadau tir newydd ar gyfer cyflogaeth mewn Trefi Llai o Dwf

| Anheddiad | Dyraniad Cyflogaeth | Hectarau | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Bodelwyddan | Safle Strategol Allweddol | 26 | Cais cynllunio amlinellol (yn cynnwys Adran 106) wedi'i ganiatáu ym Mawrth 2016 |
| Y Rhyl | -- | 0 | Mae'r galw am dir cyflogaeth yn cael ei gwrdd drwy ddefnyddio adeiladau gwag neu a danddefnyddir, ar safleoedd presennol |
| Prestatyn | -- | 0 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llanelwy | Parc Busnes Llanelwy | 14 | Mae'r galw am le swyddfa'n cael ei gwrdd drwy ddefnyddio'r cyfleusterau presennol |
| Dinbych | Colomendy Gogledd | 8 | Dim cynnydd; mae'r safle wedi'i ddyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth ers 2002; ystyried ail-ddyrannu'r safle |
| Rhuthun | Lôn Parcwr | 5.5 | Mae'r galw am dir cyflogaeth yn cael ei gwrdd drwy ddefnyddio adeiladau gwag neu a danddefnyddir, ar safleoedd presennol |
| Corwen | Ty'n Llidiart | 6 | Cymerwyd y tir ar gyfer datblygu economaidd ym Mehefin 2017 |

Ffynhonnell: Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021, tud. 42

4.34 Yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun Datblygu Lleol, roedd y rhan fwyaf o'r tir newydd ar gyfer cyflogaeth wedi'i leoli yn y Safle Strategol Allweddol oedd wedi'i adnabod o dan bolisi lleol BSC 5 ym Modelwyddan, ac ym Mharc Busnes Llanelwy. Mae dyraniadau tir newydd ar gyfer cyflogaeth hefyd wedi cael eu hadnabod yn y trefi llai o dwf fel y mae mapiau cynigion y CDLl yn ei ddangos. Y nod oedd darparu amrywiaeth o safleoedd mewn gwahanol leoliadau. Ar wahân i ddyraniadau tir newydd, mae'r cynllun lleol yn pwysleisio bod angen diogelu safleoedd cyflogaeth presennol ar gyfer eu hailddefnyddio efallai yn y dyfodol.

4.35 Mae'r Cyngor yn cyflawni adolygiadau blynyddol o dir cyflogaeth yn y Sir. Mae hyn yn canolbwyntio ar argaeledd tir ar gyfer cyflogaeth, faint o dir sy'n cael ei ddefnyddio a chyfraddau cwblhau. Mae'r holl wybodaeth yn ymwneud â dyraniadau tir a ddangosir ar Fapiau Cynigion y CDLl. Ar y cyfan ychydig iawn o dir a ddefnyddiwyd yn y 5 mlynedd diwethaf, ac eithrio yn 2014, oherwydd y nifer o swyddfeydd ac unedau diwydiannol gwag oedd ar gael yn y Sir. Gall stoc bresennol y Sir gwrdd o hyd â'r galw gan fusnesau, heb orfod troi'r galw hwnnw'n angen am dir newydd.

4.36 Yn y bôn, mae darparu tir ar gyfer cyflogaeth yn dibynnu ar ba mor hyfyw yw'r datblygiad sydd mewn golwg a gwerth posib y tir ar gyfer defnyddiau eraill. Heriwyd y Cyngor i ryddhau safleoedd unigol ar gyfer defnyddiau eraill fel defnydd preswyl a defnydd manwerthu. Collwyd tua 2.1ha o dir cyflogaeth i ddefnydd preswyl yn Warren Drive ym Mhrestatyn a chollwyd tua 2.75ha o dir cyflogaeth i gynllun defnydd cymysg yn Ffordd Derwen yn y Rhyl. Er nad yw polisi lleol BSC 2 yn atal newid defnydd tir llwyd, mae defnyddiau manwerthu wedi eu sefydlu yn Rhuddlan a Phrestatyn ar dir oedd o'r blaen yn cael ei ddefnyddio'n draddodiadol ar gyfer cyflogaeth.

4.37 Bydd y Cyngor yn cyflawni adolygiad trylwyr o'r tir a ddyranwyd ar gyfer cyflogaeth yn y Sir, h.y. tir a ddangosir fel 'PSE 2' ar Fapiau Cynigion y CDLl. Bydd yn pwysleisio hyfywedd, seilwaith y safleoedd a chyfyngiadau posib fel perygl llifogydd. Bydd y wybodaeth yma'n goleuo'r adolygiad o PSE 2 a PSE 3, sy'n trafod diogelu safleoedd cyflogaeth.

5. **Canfyddiadau allweddol Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol**

5.1 O dan ymrwymiadau yn adran 76 o Ddeddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, yn ei ffurf ddiwygiedig, ac adran 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae gan y Cyngor ddyletswydd i gynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref pob blwyddyn.

5.2 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno tri adroddiad AMR i Lywodraeth Cymru ers mabwysiadu'r CDLl ym Mehefin 2013. Roedd yr adroddiadau yn nodi tri phrif faes pryder o ran perfformiad polisïau lleol y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt wrth ddrafftio polisïau lleol newydd.

(1) Strategaeth Dwf y CDLl – nifer isel iawn o dai wedi eu darparu a'r gofyniad 'cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai';
(2) Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr – ateb yr angen yn unol â'r Asesiad Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (Ionawr 2017); a
(3) Rheoli Gwastraff a Mwynau – gofynion newydd yn codi o ofynion deddfwriaethol.

5.3 Mae Atodiad II yn cynnwys tabl yn amlinellu'r rhesymau ar gyfer y posibilrwydd o gynnig newidiadau i bolisïau lleol unigol ar sail perfformiad polisi.

5.4 Mae Pennod 7 yn y CDLl yn cynnwys y fframwaith monitro a ddefnyddiwyd i asesu effaith polisïau lleol ac a yw datblygu cynaliadwy'n cael ei ddarparu'n unol â'r hyn oedd mewn golwg yn wreiddiol. Ar ôl cynhyrchu tri adroddiad AMR yn barod, daeth yn amlwg nid yn unig bod angen newid polisïau lleol unigol ond hefyd bod angen diwygio'r fframwaith monitro perthnasol. Mae'n cynnwys, er enghraifft, y targed yn y polisi cenedlaethol o 'Nifer y datblygiadau preswyl sy'n cwrdd â Lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy ac ennill 6 credyd o dan Ene 1 – Cyfradd Allyriadau o Gartrefi' sydd heb gael sylw mewn polisi cynllunio ers cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 7 (blwyddyn). Oherwydd bod gweithrediad cynlluniau lleol a pherfformiad polisïau lleol yn gallu dibynnu ar weithredoedd trydydd partïon, mae rhesymau sydd y tu allan i reolaeth awdurdodau cynllunio lleol sy'n egluro pam nad yw polisïau lleol yn perfformio fel y disgwylir iddynt ei wneud pan fabwysiedir hwynt.

*Strategaeth Dwf CDLl – diffyg cyflenwad tir ar gyfer tai dros 5 mlynedd*

5.5 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Tachwedd 2016), paragraff 9.2.3, yn pwysleisio bod angen i awdurdod cynllunio lleol ddangos bod gan y Sir gyflenwad pum mlynedd gwirioneddol o dir ar gyfer tai. Mae Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir

DRAFT

Ddinbych (JHLA) 2017 yn nodi cyflenwad o 1.79 o flynyddoedd sy'n llai na'r pum mlynedd sy'n ofynnol gan PPW. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 'Cyd-Astudiaethau Tir ar gyfer Tai', paragraffau 2.4 a 3.4, yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol i ystyried adolygu'r Cynllun os na ellir darparu'r cyflenwad.

5.6 Ni allai'r Cyngor gynnig digon o dir ar gyfer datblygiadau preswyl yn unol â'r gofyniad yn TAN 1 dros y 5 mlynedd diwethaf (gweler tabl 8). Roedd y cyflenwad oedd ar gael gryn dipyn yn llai na 5 mlynedd. Dyma'r prif reswm dros adolygu'r CDLl.

5.7 Tabl 8 Cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai gan CSDd (2013 – 2017)

| Blwyddyn | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai (dull gweddilliol TAN 1) | 3.49 | 1.80 | 2.10 | 2.02 | 1.79 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

5.8 Mae'r dull gweddilliol hwn yn canolbwyntio ar weddill y tai sydd i'w darparu dros weddill cyfnod y Cynllun, o'i gymharu â'r dull blaenorol o fesur y gyfradd gwblhau / adeiladu oedd yn adlewyrchu mwy beth oedd wedi'i ddarparu ar y ddaear gan y diwydiant adeiladu yn y Sir. Mae cymharu'r ddau ddull yn dangos bod gan Sir Ddinbych broblem sylweddol. Mae digon o dir ar gael ar gyfer datblygiadau preswyl ond mae darparu'r tai'n dibynnu ar ddatblygwyr. Nid yw'r diwydiant wedi cymryd y tir sydd ar gael i godi'r nifer ofynnol o dai yn unol â'r Cynllun; yn rhannol oherwydd pryderon am hyfywedd.

*Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr*

5.9 Mae dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r materion sy'n codi ganddynt, yn hanfodol i gynllunio'r ddarpariaeth yn iawn ac osgoi'r problemau sy'n gysylltiedig â gwersylla ad-hoc neu ddiawdurdod. Heb os bydd asesiad a strategaeth lety i ateb yr angen hwn, pe bai'n cael ei nodi, yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn fawr iawn i ymateb yn ddioed a phendant i wersylla a datblygiadau diawdurdod amhriodol ac yn helpu i osgoi mwy o wersylla a datblygiadau diawdurdod yn y dyfodol.

5.10 Daeth asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd ar eu cyfer lle mae'r asesiad yn nodi bod angen, yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

5.11 Cafodd Adroddiad y Sir ar yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) (2016) ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017 a chasglodd fod angen safle preswyl a safle tramwy, neu le aros, yng ngogledd y Sir, ac o dan ddarpariaethau Deddf Tai (Cymru) mae'n ofynnol i'r Cyngor ateb yr angen hwn.

5.12 Ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo asesiad y Cyngor o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, bwriad y Cyngor yw ceisio ateb yr angen drwy ddarparu safleoedd yn y Sir.

DRAFT

5.13 Felly, mae'r gwaith o fonitro polisi lleol BSC 10, 'Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr', wedi ystyried y newidiadau cyfreithiol a'r GTAA sydd wedi'i ddiweddaru a chanfod bod y dangosydd gwreiddiol a'r lefel 'sbarduno' a ddiffiniwyd yn CDLl Sir Ddinbych bellach yn ddiangen. Rhaid felly canfod dulliau monitro ac adolygu polisi perthnasol a'u gweithredu yn y CDLl diwygiedig.

*Rheoli Gwastraff a Mwynau*

5.14 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i gynhyrchu yng nghyd-destun y Strategaeth Wastraff Genedlaethol (2010) – Tuag at Ddyfodol Diwastraff (TZW) – a'r Adolygiad 1af o Gynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol yn berthnasol o hyd ond mae'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol bellach wedi eu tynnu'n ôl. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o Gynlluniau Sector i gynorthwyo gyda darparu'r Strategaeth Wastraff ac sy'n rhan o'r strategaeth wastraff gyffredinol ar gyfer Cymru, gan gynnwys y Cynllun Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd (2012) sy'n cynghori ar ofynion seilwaith rheoli gwastraff.

5.15 I adlewyrchu'r newidiadau i'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol, yn 2014 diwygiodd Llywodraeth Cymru Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff. Gwnaed i ffwrdd â'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol ac, ar wahân i'r Mapiau Ardaloedd Chwilio, nid yw'r rhain mwyach yn berthnasol i'r Cynlluniau Datblygu Lleol. Er nad yw'r cyfeiriad polisi cyffredinol wedi newid, bydd angen newid polisïau VOE7 a VOE8 i adlewyrchu'r newidiadau i'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol, yn enwedig er mwyn osgoi gorddarpariaeth o rai mathau o gyfleusterau ac i sicrhau y gall y CDLl ddarparu datblygiadau sy'n symud y broses o reoli gwastraff i fyny'r hierarchaeth wastraff.

5.16 Mae newidiadau pwysig yn digwydd ar lefel Ewropeaidd drwy'r Pecyn Economi Gylchol sy'n cynnwys cynigion deddfwriaethol diwygiedig ar gyfer gwastraff. Er bod y mesurau heb eu cadarnhau eto, mae'r economi gylchol yn cael ei chydnabod gan Lywodraeth Cymru fel datblygiad arbennig o bwysig i helpu i wireddu dyheadau hirdymor y Strategaeth Wastraff Genedlaethol drwy ei chefnogaeth i Gronfa Buddsoddi Cyfalaf yr Economi Gylchol. Roedd cyhoeddi Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi'r cefndir deddfwriaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy, rhywbeth y bydd economi gylchol yn gallu helpu i'w gyflawni.

5.17 Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru wedi cyhoeddi 'Circular Economy: Opportunities for the Welsh Built Environment' sy'n disgrifio sut y gall y sector adeiladu ddefnyddio cyn lleied â phosib o adnoddau ond gwneud y mwyaf o'r adnoddau a ddefnyddir ar yr un pryd. Er nad yw'n cyfeirio'n benodol at yr Economi Gylchol, mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 12.6.3) yn gofyn bod cynlluniau datblygu'n chwilio am gyfleoedd i leihau neu ailgylchu gwastraff fel rhan o ddylunio, adeiladu a rhedeg adeiladau newydd, gyda chyngor pellach ar hyn yn Nodiadau Cyngor Technegol 12 a 21.

DRAFT

5.18 Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol rôl bwysig efallai i'w chwarae gyda hwyluso symud tuag at economi gylchol ac mae Polisi RD1 yn cynnwys cyfres o feini prawf a fyddai'n berthnasol i bob datblygiad, gan gynnwys y gofyniad bod cynigion 'yn ystyried cynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff' (maen prawf (xiv)). Ni ystyrir bod y geiriad yn ddigon i sicrhau bod ymgeiswyr yn gwneud ymdrechion i ddylunio gwastraff allan o ddatblygiad ac yn rheoli unrhyw wastraff sy'n codi mewn ffordd gynaliadwy. Mae adolygiad o geisiadau cynllunio diweddar yn dangos bod ymgeiswyr yn talu fawr ddim o sylw i'r maen prawf hwn. Bydd angen adolygu polisi RD1 i roi sylw i hyn.

5.19 Mae Polisi VOE7 yn cynnwys dyraniadau ar sail y tir a gymerwyd yn ôl yr Adolygiad 1af o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ac nad ydynt mwyach yn berthnasol, ac nid yw'n darparu meini prawf digonol i asesu cynigion rheoli gwastraff oddi mewn i ffiniau datblygu yn eu herbyn. Er na ddylid ailadrodd y polisi cenedlaethol, byddai'n ddefnyddiol cael meini prawf sy'n dangos sut y bwriedir delio â materion fel angen, yr hierarchaeth wastraff ac effeithiau amwynder. Mae Polisi VOE8 yn cydnabod nad yw'n bosib lleoli pob datblygiad gwastraff oddi mewn i'r stadau diwydiannol presennol neu rai a ddyranwyd. Fodd bynnag mae geiriad y polisi'n rhy gyfyng ac yn dibynnu ar y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, sydd bellach yn amherthnasol, i nodi angen. Mae'r Monitro Blynyddol wedi cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar draws y rhanbarth o ran darparu'r capasiti i drin gwastraff bwyd a chapasiti i drin gwastraff gweddilliol, felly er bod angen diwygio'r polisïau mae cynnydd da iawn wedi'i wneud hyd yma o ran cwrdd â thargedau polisi.

5.20 Nid yw polisi cynllunio cenedlaethol wedi newid rhyw lawer ar fwynau hyd yma, ac eithrio drwy ymgorffori Polisi Cynllunio Mwynau Cymru o fewn y PPW, er na wnaed unrhyw newidiadau i'r polisi o ganlyniad. Ers mabwysiadu'r CDLl, mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu y bydd yn gwneud i ffwrdd yn raddol â gorsafoedd llosgi glo erbyn 2025. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y galw am lo brodorol. Er nad oes gan hyn arwyddocad mawr i'r CDLl oherwydd y dosbarthiad prin o lo bas yn y Sir, rydym yn deall bod adolygiad o'r polisi cynllunio mwynau ar y gweill er mwyn rhoi sylw i hyn ac y bydd unrhyw newidiadau'n debygol o ganolbwyntio ar ddiogelu glo, olew, nwy a thir.

5.21 Cynhyrchwyd y Cynllun Datblygu Lleol yn defnyddio Datganiad Technegol Rhanbarthol (2009) fel rhan o'r dystiolaeth, sydd erbyn hyn wedi'i ddiweddaru gan Ddatganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) (2014). Mae'r Adolygiad 1af o'r RTS yn nodi bod angen 0.1 miliwn tunnell y flwyddyn o dywod a gro o'r tir dros gyfnod y Cynllun ac am 7 mlynedd wedyn, a bod angen 0.89 miliwn tunnell o graig fâl y flwyddyn. Mae hyn yn trosi'n ofyniad i ddyrannu 2.2 miliwn tunnell o dywod a gro a 0.18 miliwn tunnell o graig fâl hyd at 2036. Mae hyn yn cymharu â chanfod 1 miliwn tunnell o dywod a gro oedd yn ofynnol gan Ddatganiad Technegol Rhanbarthol 2009. Mae Pennod 14 ym Mholisi Cynllunio Cymru'n disgrifio'r dulliau y dylid eu defnyddio i nodi'n glir lle y dylai, neu lle y bydd cloddio am fwynau'n debygol o ddigwydd. Roedd Polisi PSE17: Cloddio Mwynau yn y Dyfodol, yn adnabod yr 'Ardaloedd a Ffafrir' y byddai ceisiadau i dyllu hyd at 1 miliwn tunnell o dywod a gro oddi mewn iddynt yn cael eu cefnogi. Mae'r monitro blynyddol yn cynnwys 'sbardun' o 'Ni chaniateir cloddio erbyn 2017'. Ni roddwyd caniatâd i unrhyw

DRAFT

geisiadau cynllunio i gloddio mwynau hyd yma ac ni chafwyd unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio ychwaith. Bydd angen rhoi sylw i'r mater hwn drwy adolygu'r CDLl, felly hefyd yr angen am fwy o graig fâl.

5.22 Mae'r monitro blynyddol yn awgrymu bod y polisi diogelu – Polisi PSE15 – a'r polisi parthau clustog – Polisi 16 – yn effeithiol. Bydd yn bwysig parhau i adolygu'r mater hwn yng ngoleuni unrhyw newidiadau pellach i'r polisi cenedlaethol. Bydd hefyd angen ystyried goblygiadau unrhyw ddyraniadau ychwanegol y bydd angen eu gwneud, fel rhan o adolygu'r CDLl, yn erbyn y polisïau hyn.

## 6. Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd

*Rhagarweiniad*

6.1 Mae gofyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol sef cynllun defnydd tir statudol i fod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA), Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), ynghyd ag Arfarniad Rheoli Cynefinoedd (HRA). Yn unol â chanllawiau cenedlaethol mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r ddau asesiad SA/SEA mewn un ddogfen, h.y. 'Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd'. Rôl Arfarniad o Gynaliadwyedd (ymgorffori Arfarniad Amgylcheddol Strategol) yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy trwy asesu ehangder y bydd y cynllun ar ei newydd wedd, wrth ei gymharu ag atebion rhesymol eraill, yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol perthnasol. Mae'r Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yn parhau fel dogfen ar wahân. Rôl yr Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yw asesu effaith debygol y Cynllun ar Safleoedd Wedi'u Dynodi yn Ewrop sy'n berthnasol (amddiffyn safleoedd natur a rhywogaethau dan gadwraeth).

6.2 Fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl mae canlyniadau'r cynigion datblygu a ganiatawyd yn ystod y flwyddyn yn ogystal â thystiolaeth eraill yn cael eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei weithredu mewn harmoni ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae cynaliadwyedd CDLl Sir Ddinbych yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o'r Fframwaith Monitro Blynyddol y CDLl. Mae'r adran ganlynol yn edrych ar fframwaith sgrinio Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoli Cynefinoedd er mwyn nodi unrhyw newid yn y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu elfennau unigol o'r CDLl.

6.3 Bydd yn rhaid i'r CDLl newydd gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yn effeithio ar sut y cyflawnir asesiadau SA / SEA yn y dyfodol i gefnogi'r Cynllun. Bydd gwybodaeth bellach ar gael wrth i'r Cynllun diwygiedig symud tuag at gael ei fabwysiadu.

**Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu Rhagfyr 2017)**

6.4 Mae'r Llawlyfr CDLl (Rhifyn 2 Awst 2015) angen i Awdurdodau sydd yn ymgymryd ag adolygiad o'u CDLl i ailystyried yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae angen cyflawni'r ailystyriaeth ar y cyd â drafftio'r Adroddiad Adolygu CDLl. Mae

hynny cyn i'r gwaith o ddrafftio newidiadau ffurfiol i'r CDLl (CDLl i gymryd lle y fersiwn blaenorol). Mae'r canllaw yn amlinellu'r hyn sydd ei angen fel rhan o'r adolygiad ac mae'r camau hynny wedi'u hamlinellu isod:

- ystyried canlyniadau'r broses Monitro Blynyddol o'r Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys monitro os oes effeithiau sylweddol yn sgìl gweithredu'r cynllun datblygu;
- adolygu Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych presennol:
    - Posibiliadau Arfarniad o Gynaliadwyedd – cynlluniau, polisïau a rhaglenni a diweddariad gwybodaeth sylfaenol;
    - ystyried y prif newidiadau yn genedlaethol ac yn lleol ers mabwysiadu'r CDLl;
    - ystyried yr Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd wrth ystyried y newidiadau y cynigir yn y CDLl diwygiedig.

6.5 Cyflwynwyd Atodiad F, Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad ar Bosibiliadau) fel drafft i ymgynghori arno ynghyd â'r Adroddiad Adolygu CDLl. Tydi'r ailystyriaeth heb ystyried y dylanwadau newydd a nodwyd fel rhan o Adroddiad Adolygu Sir Ddinbych ac o ganlyniad bu effeithiau cynaliadwyedd sylweddol. Daethpwyd i'r casgliad bod Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd i gyd yn parhau i fod yn berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar.

6.6 Cafwyd ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n rhan o'r ymgynghori statudol ar Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau defnyddio tir lleol, i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Ailystyried a Phosibiliadau CDLl Sir Ddinbych (21 Awst 2017 – 20 Hydref 2017). Cefnogwyd y canlyniadau bod Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn parhau i fod yn berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd gan groesawu bod y gwaelodlin presennol wedi cael ei ddiwygio i helpu gyda'r gwaith monitro ac ailystyried. Nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio'r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith o newid y CDLl. Nid oes ganddynt wrthwynebiad i ddefnyddio'r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer newid y CDLl.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Rhagfyr 2017)**

6.7 Pwrpas ymarfer sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), gweler Atodiad G, oedd i edrych ar asesiadau HRA blaenorol a luniwyd i gefnogi'r CDLl a fabwysiadwyd; nodi newidiadau i safleoedd Ewropeaidd unigol ac edrych ar ba mor effeithiol oedd mesurau osgoi, canslo neu liniaru a awgrymwyd yn flaenorol. Nid oedd yr arfer wedi'i fwriadu ar gyfer llunio asesiad newydd o'r CDLl a fabwysiadwyd ond i ddysgu o brofiad blaenorol ac i nodi newidiadau a fyddai o bosib yn cael effaith ar waith yn y dyfodol.

6.8 Nid oes polisiau a dyraniadau tir lleol wedi eu cynnwys yn y CDLl sydd wedi arwain at effaith sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae mesurau a gynigir (lle bo hangen) i wrthbwyso'r effeithiau hyn yn weithredol ac

effeithiol. Rhaid gwneud gwaith ymchwilio pellach i weld os oes cyfle i wella ansawdd yr aer yn ne'r Sir; gan ganolbwyntio ar leihau gwaddodion nitrogen.

6.9 Mae'r arferiad sgrîno wedi nodi bod yn rhaid i Arfarniadau Rheoli Cynefinoedd roi ystyriaeth i'r estyniad arfaethedig o Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl a'r wybodaeth newydd am Ardal Cadwraeth Arbennig Coedwigoedd Dyffryn Alun. Efallai y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar lunio polisi lleol a defnyddiau posib o dir yn yr ardal.

## 7. Gweithio ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos

7.1 Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos ag awdurdodau cynllunio lleol eraill trwy gydol y broses llunio a gweithredu y CDLl mabwysiedig. Mae hynny wedi arwain at sefydlu rhwydwaith cynllunio proffesiynol gan ddod â buddion i'r holl gyfranogwyr gan sicrhau ymdriniaeth gyson o faterion ac amcanion rhanbarthol. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gydag awdurdodau cynllunio eraill i sicrhau bod y buddion yn barhaus.

7.2 Mae Deddf Gynllunio (Cymru) 2015, Rhan 3 – adran 14, yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo dau awdurdod cynllunio lleol neu fwy i gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd ar gyfer eu hardal. Tydi Gweinidogion Cymru heb ddefnyddio'r darpariaeth hwn eto, ond wedi dangos yr awydd i gynhyrchu Cynlluniau Ar y Cyd yn glir ym Mhennod 2.5 y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 2, Awst 2015) ac yn y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad (Ionawr 2017)'.

7.3 Gan fod yn ymwybodol o sefyllfa Llywodraeth Cymru, mae Sir Ddinbych wedi edrych ar nifer o ddewisiadau i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos. Y man cychwyn oedd edrych ar gamau unigol o baratoi'r Cynllun a gyflawnwyd hyd at Fehefin 2017:

- CBS Wrecsam: ymgynghoriad ar adnau'r CDLl yn fod i gymryd lle yn Hydref 2017;
- Cyngor Sir y Fflint: ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir a'r Dewisiadau yn Hydref 2017;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: Adolygu'r CDLl yn defnyddio gweithdrefn byr;
- Cyngor Sir Powys: Archwilio'r CDLl, ymgynghori ar Faterion-yn codi o-Newidiadau yn Hydref 2017;
- CBS Conwy: Adolygiad CDLl gydag Adroddiad Adolygu CDLl wedi'i gyflwyno i LC yng Ngaeaf 2017/2018; ac
- Cyngor Gwynedd / Ynys Môn: Mabwysiadu'r CDLl ym mis Gorffennaf 2017.

7.4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fyddai'r unig awdurdod cynllunio lleol a fyddai'n gallu cynnig y potensial i baratoi Cynllun ar y cyd; a heb achosi oedi sylweddol i'r Cytundebau Darparu rhwng yr awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru. Mae'r ddau dîm cynllunio strategol wedi datblygu perthynas waith gynhwysfawr sy'n

DRAFT

cynnwys cynhyrchu astudiaethau pwnc, casglu data a chyflawni asesiadau o’r dystiolaeth ar gyfer eu CDLl. Bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

7.5 Er hynny mae’r Cyngor wedi nodi nifer o bwyntiau sy’n rhaid eu hystyried yn ofalus pe bai Gweinidogion Cymru am wneud defnydd o’u pwerau i arwain Cynllun ar y cyd:

- Ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â Phapur Gwyn ar ‘Ddiwygio Llywodraeth Leol: Cadernid Cadernid ac Adnewyddiad' (Ionawr 2017) a chyfeiriadau strategol gwahanol a heriau yn gysylltiedig â Chynghorau.
- Byddai llunio CDLl ar y cyd yn golygu dechrau o’r newydd gyda strategaeth gynllunio newydd yn hytrach nag adolygiad o bolisïau a dyraniadau presennol. Gall hynny gymryd mwy o amser nac adolygu a newid y cynlluniau presennol.
- Effaith ar amseriad o ran symud ymlaen gyda CDLl ar y cyd. Mae CDLl presennol Sir Ddinbych yn dod i ben ym Mehefin 2021 ac os na fydd cynllun wedi’i fabwysiadu erbyn y dyddiad hynny bydd y Cyngor yn ddibynnol ar bolisi cynllunio Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau cynllunio. Mae’r rhaglen waith sy’n cael ei chynnig yn y Cytundeb Cyflenwi drafft yn heriol ond yn gyraeddadwy a byddai’n sicrhau bod cynllun yn cael ei mabwysiadu yn 2021 yn lle’r CDLl. Mae CDLl ar y cyd yn debygol o gymryd mwy o amser gyda’r angen i baratoi ac ymgynghori ar Gytundeb Cyflenwi drafft newydd ac adrodd yn ôl yn barhaus i’r ddau Gyngor. Os na fydd Cynllun Cyfnewid yn ei le erbyn 2021 bydd y ddau CDLl mewn perygl o fod heb unrhyw gyflenwad tir i adeiladu tai dros gyfnod o 5 mlynedd.
- Dim eglurder ynglŷn â buddion ariannol posib. Gweithio ar CDLl ar y cyd yn galluogi adnoddau (gan gynnwys staff) i gael eu rhannu ar draws y Cynghorau, er hynny mae profiad o’r CDLl ar y cyd rhwng Gwynedd/Sir Fôn wedi golygu costau sylweddol ac amser i ddatblygu’r Cynllun.

7.6 Mae’r ddau Gyngor yn gyrff hunan-lywodraethol annibynnol gyda Chynlluniau Corfforaethol, Blaenoriaethau a Strategaethau penodol. Oherwydd bod angen paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn unol â’r dogfennau Sirol hyn, gweler ‘profion cadernid’, mae’r Cynllun newydd yn annhebygol o fod yn ddogfen gryno, gwbl integredig a hawdd ei darllen os bydd angen cyfeirio drwy gydol y ddogfen at ddwy set wahanol o strategaethau ac amcanion gwleidyddol gan y ddau Gyngor.

7.7 Bydd y Cyngor yn parhau i weithio’n agos gyda’i awdurdodau cyfagos ond wedi penderfynu na fyddai’n hwylus i gynhyrchu Cynllun ar y Cyd y tro hwn.

8. **Crynodeb**

8.1 Pwrpas yr adroddiad ar yr Adolygiad o’r CDLl yw cofnodi ymdrechion y Cyngor i asesu perfformiad a pherthnasedd y Cynllun mabwysiedig. Edrychwyd ar newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol a pholisi cenedlaethol cyn archwilio’r cynnydd wrth weithredu Strategaeth Dwf y CDLl. Ar ôl darparu nifer isel iawn o dai ers cychwyn cyfnod y Cynllun yn 2006, mae wedi cael effaith andwyol ar ddarparu tai

DRAFFT

fforddiadwy a’r ffigwr cyflenwi tir i adeiladu tai dros gyfnod o 5 mlynedd fel y cyfrifir yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 1 Llywodraeth Cymru.

8.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 yn ddwy ffynhonnell o ddeddfwriaeth sylfaenol a ddaeth i rym yn y ddwy flynedd diwethaf. Er bod Llywodraeth Cymru yn y broses o gynhyrchu is-ddeddfwriaeth, ni wyddom eto sut y bydd y darpariaethau newydd hyn yn effeithio ar y Cynllun newydd. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a’r posibilrwydd o Gynllun Datblygu Strategol. Ar ôl ymchwilio’r amrywiol opsiynau ar gyfer paratoi CDLl newydd ag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos yn fanwl, y casgliad yw bod cyfleoedd i gasglu tystiolaeth ar y cyd ond nid i greu Cynllun ar y cyd.

8.3 Bydd y Cyngor yn defnyddio’r gweithdrefn llawn i adolygu Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Sir Ddinbych (2006-2021) yn llawn ar sail y wybodaeth a roddir yn yr adroddiad hwn ar yr Adolygiad o’r CDLl a’r tystiolaeth wedi’i gynnwys yn y Papurau Gwybodaeth CDLl cysylltiedig; a datblygu CDLl newydd yn unol â Rheoliad 70 o Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004.

DRAFFT

**Atodiad I – Dyraniadau Tir Preswyl yn y CDLl**

1.1 Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg ar y cynnydd gyda darparu dyraniadau tir preswyl yn y CDLl fel y cyflwynir hynny yn y cyfiawnhad dros bolisi lleol BSC 1 a pholisi lleol BSC 6.

1.2 Tabl 1 BSC 1 - dyraniadau tir preswyl, BSC 6 – ardaloedd chwilio

| Safle | Nifer enghreifftiol o dai* | Statws Cynllunio |
|---|---|---|
| ***Y Rhyl*** | | |
| Tir oddi ar Ffordd Trellewelyn / Bro Deg | 100 | Dyraniad safle'n unig |
| Cornel Sydenham Avenue a Rhodfa'r Gorllewin | 12 | Dyraniad safle'n unig |
| Ysgol Northgate | 22 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 22 o dai |
| Ffordd Russell | 15 | Dyraniad safle'n unig, caniatâd cynllunio wedi dod i ben |
| Rhodfa Westbourne | 16 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 16 o dai |
| Ocean Plaza | 230 | Mae gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer defnyddiau manwerthu, tai bwyta a hamdden |
| De-ddwyrain y Rhyl | 242 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 242 o dai, mae'r safle wrthi'n cael ei adeiladu |
| Ffordd Victoria | 13 | Dyraniad safle'n unig |
| Cyn Feithrinfa, Ffordd Rhuddlan | 15 | Safle wedi'i gwblhau |
| 85-90 Rhodfa'r Gorllewin | 20 | Dyraniad safle'n unig |
| Ffordd Brookdale | 18 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 18 o dai, mae'r safle wrthi'n cael ei adeiladu |
| Gwesty'r Grange | 20 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 44 o unedau |
| ***Prestatyn*** | | |
| Fferm Midnant (Prestatyn) | 65 | Dyraniad safle'n unig |
| Cefn Maes Meurig (Gallt Melyd) | 30 | Dyraniad safle'n unig |
| Cefn Ffordd Hendre / Fferm Mindale (Gallt Melyd) | 154 | Caniatâd cynllunio wedi'i wrthod ar gyfer 133 o dai, Apêl wedi'i wrthod (Hydref 2017) |
| Parc Carafanau Plas Dive (Gallt Melyd) | 30 | Dyraniad safle'n unig |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Cefn y Gwrych (Gallt Melyd) | 18 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 18 o dai, mae'r safle wrthi'n cael ei adeiladu |
| Tip Lane | 21 | Safle wedi'i gwblhau – 21 o dai |
| ***Llanelwy*** | | |
| Tir yn Ysbyty HM Stanley | 75 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 158 o unedau, gan gynnwys trosi'r adeilad hanesyddol. Mae'r safle wrthi'n cael ei adeiladu. |
| Tir ychwanegol yn HM Stanley | 201 | Dyraniad safle'n unig |
| Tir oddi ar y Padog | 16 | Dyraniad safle'n unig |
| Tir oddi ar Fryn Gobaith | 39 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar apêl ar gyfer 14 o unedau |
| Bishop's Walk | 10 | Safle wedi'i gwblhau |
| Meithrinfa Bronwylfa | 9 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 15 o dai, mae'r safle wrthi'n cael ei adeiladu |
| Ysgol St Winifred | 21 | Safle wedi'i gwblhau |
| ***Ddinbych*** | | |
| Tir yn Lodge Farm | 25 | Dyraniad safle'n unig |
| Tir yn cyffinio Ysgol Heulfre | 99 | Dyraniad safle'n unig |
| Tir rhwng hen Ffordd Rhuthun a 'r ffordd newydd Rhuthun | 73 | Caniatâd cynllunio wrthi'n cael ei ystyried gan y Cyngor |
| Tir oddi ar Eglwys Wen | 101 | Caniatâd cynllunio wedi'i wrthod ar gyfer 75 o dai, mae'r Cyngor yn aros am ganlyniad ymchwiliad cyhoeddus yn yr Hydref 2017 |
| Bryn Stanley | 25 | Dyraniad safle'n unig |
| Autoworld Garage, Ffordd y Fair | 6 | Safle wedi'i gwblhau |
| Smithfield Garage | 12 | Y safle'n cael ei ddefnyddio fel gwasanaeth golchi ceir ar y funud |
| ***Rhuthun*** | | |
| Glasdir, Cyfnod 2 | 167 | Dyraniad safle'n unig |
| Tir yn cyffinio Maes Hafod a Llys Famau | 69 | Dyraniad safle'n unig |
| Glasdir, Cyfnod 1 | 118 | Nid oes unrhyw gynnydd wedi bod ar y safle ers y llifogydd yn 2012 |
| ***Corwen*** | | |
| Depo'r Cyngor [Clawdd Poncen] | 128 | Dyraniad safle'n unig |
| Cyffinio Ysgol Caer Drewyn | 89 | Dyraniad safle'n unig |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| ***Llangollen*** | | |
| Tir yn Ffordd y Wern | 4 | Dyraniad safle'n unig |
| Cyffinio Trem y Gwernant | 14 | Dyraniad safle'n unig |
| Ffordd Vicarage | 47 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 95 o dai |
| Cefn Castle View a'r Hollies | 41 | |
| Hen Weithfeydd Berwyn | 24 | Safle wedi'i gwblhau |
| ***Rhuddlan*** | | |
| Tir yn cyffinio Hafod y Gân ac Ysgol Tir Morfa | 121 | Caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i roi ar gyfer 89 o dai |
| Maes y Castell | 21 | Safle wedi'i gwblhau |
| Tir oddi ar Ffordd y Rhyl | 10 | Safle wedi'i gwblhau |
| ***Pentrefi*** | | |
| Bodfari – Maes Parcio Dinorben Arms | 14 | Dyraniad safle'n unig, PH 'Dinorben Arms' wedi ailagor |
| Bodfari – Tir yng nghefn Bryn Orme | 15 | Dyraniad safle'n unig |
| Bodfari – Ffynnon y Chwarel | 2 | Safle wedi'i gwblhau |
| Bodfari – Tir wrth ymyl 16 Maes y Graig | 8 | Dyraniad safle |
| Bryneglwys – Trem y Foel | 12 | Caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i roi heb nodi faint o dai |
| Bryneglwys – Tir y tu ôl i Fryn Arwel | 10 | Dyraniad safle'n unig |
| Carrog – Tir yn cyffinio'r fynwent | 12 | Dyraniad safle'n unig |
| Carrog – Tir yn cyffinio Maes Sidan | 15 | Dyraniad safle'n unig |
| Clawddnewydd – Tir yn cyffinio Crud yr Awel | 10 | Dyraniad safle'n unig |
| Clawddnewydd – Tir y tu ôl Baradwys | 10 | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 2 o dai |
| Clocaenog – Nant y Celyn | 8 | Dyraniad safle'n unig |
| Cyffylliog – Tir y tu ôl Llys Heulog | 5 | Dyraniad safle'n unig |
| Cynwyd – Maes Glyndwr | 16 | Datblygiad wedi'i gwblhau |
| Cynwyd – Tir y tu ôl Bryn Gwynt | 15 | Dyraniad safle'n unig |
| Dyserth – Tir y tu ôl Stâd Glan Ffyddion | 99 | Dyraniad safle'n unig |
| Eryrys – Gwalia House | 17 | Caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i roi heb nodi faint o dai |
| Eryrys – Canol y Cae | 10 | Dyraniad safle'n unig |
| Gellifor – Tir ym Mheniarth | 10 | Dyraniad safle'n unig |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Glyndyfrdwy – Tir y tu ôl i New Inn Terrace | 30 | Dyraniad safle’n unig |
| Graigfechan – Tir i’r de o Dan y Graig | 10 | Caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 9 o dai (nifer awgrymol) |
| Gwyddelwern – Bryn Llan | 12 | Dyraniad safle’n unig |
| Gwyddelwern – Cefn Beuno Terrace | 12 | Dyraniad safle’n unig |
| Gwyddelwern – Tir i’r de o’r ysgol leol | 24 | Site under construction |
| Henllan – Hen Ganolfan Henllan | 30 | Caniatâd cynllunio wedi’i roi ar gyfer 37 o dai, mae’r safle wrthi’n cael ei adeiladu |
| Henllan – Tŷ Coch | 15 | Caniatâd cynllunio wedi’i roi ar gyfer 15 o dai |
| Llanarmon yn Iâl – Tir i’r de o Gam yr Alyn | 12 | Caniatâd cynllunio amlinellol wedi’i roi ar gyfer 12 o dai (nifer awgrymol) |
| Llanarmon yn Iâl – Tir y tu ôl i Stâd Maes Garmon | 34 | Dyraniad safle’n unig |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd – Cyffino Troed y Fenlli | 10 | Dyraniad safle’n unig |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd – Cefn Llwyn Derw | 10 | Dyraniad safle’n unig |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd – Tir rhwng y Rheithordy a Brakendene | 3 | Dyraniad safle’n unig |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd – Tir i’r gogledd-orllewin o Faes Derwen | 18 | Dyraniad safle’n unig |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd – Tir gerllaw’r Hen Reithordy | 29 | Dyraniad safle’n unig |
| Llandrillo – Cefn Bodowen | 20 | Caniatâd cynllunio amlinellol wedi’i roi ar gyfer 10 o dai (nifer awgrymol) |
| Llandyrnog – Cyffinio Maes Llan | 25 | Caniatâd cynllunio amlinellol wedi’i roi ar gyfer 40 o dai (nifer awgrymol) |
| Llanfair Dyffryn Clwyd – Cae’r Ficerdy | 25 | Dyraniad safle’n unig |
| Llanfair Dyffryn Clwyd – Tir y tu ôl i Fron y Clwyd | 20 | Caniatâd cynllunio wedi’i roi ar gyfer 63 o dai |
| Llanfair Dyffryn Clwyd – Tir y tu ôl i Crossroads a Bron y Clwyd | 39 | |
| Llanferres – Rectory Lane | 4 | Safle wedi’i gwblhau |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Llanferres – Cefn Bod Eryl | 10 | Dyraniad safle’n unig |
| Pentre Llanrhaeadr – Tir y tu ôl i Faeshwylfa | 10 | Caniatâd cynllunio wedi’i roi ar gyfer 15 o dai |
| Pentre Llanrhaeadr – Tir y tu ôl i Dolwar | 15 | Dyraniad safle’n unig |
| Pentre Llanrhaeadr – Tir yn cyffinio Dolwar | 8 | Dyraniad safle’n unig |
| Pwllglas – Tir i’r de o’r A494 | 15 | Dyraniad safle’n unig |
| Pwllglas – Tir ym Minffordd | 20 | Dyraniad safle’n unig |
| Rhewl (ger Rhuthun) – Hafod Ynys | 20 | Caniatâd cynllunio wedi’i roi ar gyfer 10 o dai |
| Rhewl (ger Rhuthun) – Tir y tu ôl i Rhyd y Byll | 20 | Caniatâd cynllunio wedi’i roi ar gyfer 20 o dai, y safle wrthi’n cael ei adeiladu |
| Rhuallt – Cefn Dyffryn Teg | 13 | Dyraniad safle’n unig |
| Rhuallt – Tir i’r gorllewin o Ddyffryn Teg | 12 | Dyraniad safle’n unig |
| Rhuallt – Tir i’r de o Ddyffryn Teg | 19 | Dyraniad safle’n unig |
| Trefnant – Tir yn cyffinio Maes Gruffydd | 15 | Dyraniad safle’n unig |
| Trefnant – Tir y tu ôl i Faes yr Erwain | 25 | Dyraniad safle’n unig |
| Trefnant – Gwesty Bryn Glas | 16 | Caniatâd cynllunio wedi dod i ben |
| Tremeirchion – Tir y tu ôl o Llys y Twysog | 10 | Dyraniad safle’n unig |
| ***PENTREFANNAU**** | | |
| Abbey Terrace (Llangollen) | 3 | caniateir 3 uned yn yr ardal chwilio |
| Aberwheeler | 4 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Bontuchel | 2 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Cefn Mairwen | 3 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Cwm | 2 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Derwen | 5 | caniateir 5 uned yn yr ardal chwilio |
| Graianrhyd | 3 | caniateir 2 uned yn yr ardal chwilio |
| Groesffordd Marli (incl. Cae Onnen) | 4 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Hendrerwydd | 2 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Hirwaen | 2 | caniateir 2 uned yn yr ardal chwilio |
| Llanelidan | 4 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Llangynhafal | 2 | caniateir 1 uned yn yr ardal chwilio |
| Llanrhaeadr yng Nghinmeirch | 6 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Llanrhydd | 1 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Llanynys | 4 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Loggerheads | 1 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Maeshafn | 2 | caniateir 3 uned yn yr ardal chwilio |
| Marian Cwm | 2 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Melin-y-Wig | 4 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Pant Pastynog | 1 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Peniel | 1 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Pentre Saron | 1 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Pentrecelyn | 2 | caniateir 3 uned yn yr ardal chwilio |
| Pentredwr | 12 | caniateir 4 uned yn yr ardal chwilio |
| Prion | 3 | ni chaniateir dim yn yr ardal chwilio |
| Tafarn y Gelyn | 3 | caniateir 2 uned yn yr ardal chwilio |
| Y Green (Dinbych) | 13 | caniateir 3 uned yn yr ardal chwilio |

* - mae'r ffigurau'n cynnwys trosiadau, tai cyfnewid etc

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2017)

DRAFFT

**Atodiad II – Crynodeb o berfformiad polisïau lleol y CDLl**

1.1 Pwrpas y tabl canlynol yw dangos y rhesymau dros efallai gynnig newidiadau i bolisïau lleol unigol ar sail perfformiad y polisïau yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ac ar sail profiad Swyddogion gyda Rheoli Datblygu. Newidiadau awgrymol yn unig yw'r rhain. Gellir eu diwygio ymhellach ar sail unrhyw dystiolaeth newydd. Rhoddir gwybodaeth hefyd am ba mor debygol yw ymchwil ychwanegol i ddiweddaru'r dystiolaeth.

1.2 Mae tabl 1 isod yn cynnwys tri phrif 'Cod Adolygu' i ddosbarthu'r newidiadau disgwyliedig:

1 - Pryderon sylweddol o ganfyddiadau'r AMR o ran effeithiolrwydd y polisi lleol;

2 - Mae newidiadau i ddeddfwriaeth, polisi neu nodiadau TAN yn gofyn gwneud diwygiadau fel bo'r polisi lleol yn cydymffurfio; a

3 - Newid i gyd-destun, profiad o gymhwyso polisi lleol.

1.3 Tabl 1 Perfformiad polisïau lleol

| Polisi Lleol | Sylw | Cod Adolygu |
|---|---|---|
| *Thema yn y CDLl: Parchu Gwahanolrwydd* | | |
| Polisi RD1 – Datblygiad cynaliadwy ac o safon dda | Ystyried ehangu'r polisi i gynnwys cynigion cynllunio y tu allan i'r ffin ddatblygu; mân newid i'r geiriad | 3 |
| Polisi RD2 – Rhwystrau Gleision | Mae'r Cyngor yn y broses o adolygu Rhwystrau Gleision | 3 |
| Polisi RD3 – Estyniadau a Newidia Anheddau | Mae swyddogaeth y polisi lleol yn unol â'r SPG mabwysiedig ar 'Ddatblygiadau Preswyl' | Amherthnasol |
| Polisi RD4 – Cyfnewid Anheddau Presennol | Mân newidiadau'n debygol, gan ddibynnu ar dystiolaeth newydd | 3 |
| Polisi RD5 – Yr iaith Gymraeg a chyfansoddiad cymdeithasol a gwead cymdeithasol a diywlliannol cymunedau | Sicrhau cydymffurfiad â Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017) | 2 |
| *Thema yn y CDLl: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy* | | |
| Polisi BSC1 – Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych | Gweler (adran 4) yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl | 1 |
| Polisi BSC2 – Blaenoriaeth datblygu tir llwyd | Ailystyried a oes angen polisi lleol, ydy o'n dyblygu polisi cenedlaethol? | 3 |
| Polisi BSC3 – Sicrhau cyfraniadau at seilwaith ar ddatblygiadau newydd | Mân newid i gynnwys cyfeirio at ganllawiau SPG yn yr Ymrwymiadau Cynllunio | 3 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Polisi BSC4 – Tai fforddiadwy | Gweler (adran 4.25) yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl; profi hyfywedd 10% o gyfraniadau tai fforddiadwy | 1 |
| Polisi BSC5 – Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan | Cais cynllunio amlinellol wedi derbyn caniatâd yn 2016 | Amherthnasol |
| Polisi BSC6 – Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn Pentrefannau | Gweler (adran 4.25) yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl | 1 |
| Polisi BSC7 – Tai Amlfeddiannaeth a Fflatiau Annibynnol | Ystyried polisi lleol yng ngoleuni'r Dosbarth Defnydd newydd ar gyfer tai aml-feddiannaeth | 2 |
| Polisi BSC8 – Safleoedd eithriedig gwledig | Gweler (adran 4.25) yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl | 1 |
| Polisi BSC9 – Tai Fforddiadwy Cysyllltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain | Gweler (adran 4.25) yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl | 1 |
| Polisi BSC10 – Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Gweler (adran 5.9) yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl | 1 |
| Polisi BSC11 - Adloniant a Mannau Agored | Mae'r Cygor yn y broses o gyflawni asesiad o fannau agored, fydd yn goleuo polisi lleol newydd | 3 |
| Polisi BSC12 – Cyfleusterau cymunedol | Gallai fod angen gwneud mân newidiadau | 3 |
| *Thema yn y CDLl: Hyrwyddo Economi Cynaliadwy* | | |
| Polisi PSE1 – Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru | Gweler adran 3.2 ym Mhapur Gwybodaeth y CDLl (Gorffennaf 2017) | 3 |
| Polisi PSE2 – Tir i ddibenion cyflogaeth | Ailystyried meini prawf unigol yn y polisi | 3 |
| Polisi PSE3 - Gwarchod tir ac adeiladau cyflogaeth | Ailystyried meini prawf unigol yn y polisi | 3 |
| Polisi PSE4 – Ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig yng nghefn gwlad agored | Ailystyried meini prawf unigol yn y polisi | 3 |
| Polisi PSE5 – Economi Gwledig | Ailystyried meini prawf unigol yn y polisi | 3 |
| Polisi PSE6 – Economi Manwerthu | Mae'r polisi lleol yn debygol o gael ei newid yng ngoleuni diweddaru'r dystiolaeth | 3 |
| Polisi PSE7 – Cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd | Mae'r polisi lleol yn debygol o gael ei newid yng ngoleuni diweddaru'r dystiolaeth | 3 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Polisi PSE8 – Datblygu yng nghanol trefi | Mae'r polisi lleol yn debygol o gael ei newid yng ngoleuni diweddaru'r dystiolaeth | 3 |
| Polisi PSE9 – Datblygiad manwerthu y tu allan i'r canol | Mae'r polisi lleol yn debygol o gael ei newid yng ngoleuni diweddaru'r dystiolaeth | 3 |
| Polisi PSE10 – Siopau a gwasanaethau lleol | Mae'r polisi lleol yn debygol o gael ei newid yng ngoleuni diweddaru'r dystiolaeth | 3 |
| Polisi PSE11 – Datblygiadau twristiaeth mawrion newydd | Ailystyried meini prawf unigol yn y polisi | 3 |
| Polisi PSE12 – Safleoedd cabanau, carafanau sefydlog a theithiol a gwersylla | Y polisi lleol i gael ei newid | 3 |
| Polisi PSE13 – Parthau amddiffyn twristiaeth arfordorol | Ei berthnasedd i'r polisi lleol i gael ei brofi | 3 |
| Polisi PSE14 – Twristiaeth gweithgareddau awyr agored | Mae'r polisi lleol yn gweithio'n effeithiol | Amherthnasol |
| Polisi PSE15 – Diogelu mwynau | Gweler adran 5.15 yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl | 1 |
| Polisi PSE16 – Parthau clustogi mwynau | Gweler adran 5.15 yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl | 1 |
| Polisi PSE17 – Echdynnu mwynau yn y dyfodol | Gweler adran 5.15 yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl | 1 |
| *Thema yn y CDLl: Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd* | | |
| Polisi VOE1 – Ardaloedd gwarchodaeth allweddol | Newid y polisi lleol i adlewyrchu darpariaethau Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 2 |
| Polisi VOE2 – Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ardal o Harddwch Eithriadol | Mae'r polisi lleol yn gweithio'n effeithiol; gallai fod angen ei newid o ran yr Ardal o Harddwch Eithriadol | 3 |
| Polisi VOE3 – Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte | Mae'r polisi lleol yn gweithio'n effeithiol | Amherthnasol |
| Polisi VOE4 – Datblygiad galluogi | Profi a yw'r polisi lleol yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol newydd yn TAN24 (Mai 2017) | 2 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Polisi VEO5 – Gwarchod adnoddau naturiol | Profi a yw'r polisi lleol yn cydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 3 |
| Polisi VOE6 – Rheoli dŵr | Ailystyried meini prawf unigol yn y polisi | 3 |
| Polisi VOE7 – Lleoliadau ar gyfer rheoli gwastraff | Gweler adran 5.15 yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl | 1 |
| Polisi VOE8 – Rheoli gwastraff y tu allan i ffiniau datblygu | Gweler adran 5.15 yn yr adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl | 1 |
| Polisi VOE9 – Ynni gwynt ar y tir | Mae'r polisi lleol yn gweithio'n effeithiol | Amherthnasol |
| Polisi VOE10 – Technolegau ynni adnewyddadwy | Mae'r polisi lleol yn gweithio'n effeithiol | Amherthnasol |
| *Thema yn y CDLl: Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy* | | |
| Polisi ASA1 – Isadeiledd cludiant newydd | Ailystyried meini prawf unigol yn y polisi | 3 |
| Polisi ASA2 – Darparu cyfleusterau trafnidiaeth gynaliadwy | A fyddai modd cyflwyno prif fyrdwn y polisi lleol mewn gwahanol ffordd? | 3 |
| Polisi ASA3 – Safonau parcio | Mae'r polisi lleol yn gweithio'n effeithiol | Amherthnasol |

DRAFT

DRAFT

Atodiad A

# Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021

## Papur Gwybodaeth:
## Parchu Nodweddion Unigryw

Cynllunio Strategol a Thai
Rhagfyr 2017

DRAFT

## Cynnwys

Tudalen


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cefndir** | |
| 1.1 | Pwrpas yr Adroddiad | 4 |
| 1.2 | Cyflwyniad i Thema ‘Parchu Nodweddion Unigryw’ | 4 |
| **2.** | **Cyd-destun y Polisi** | |
| 2.1 | Cyflwyniad | 5 |
| 2.2 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 5 |
| 2.3 | Polisïau Cynllunio Cenedlaethol | 6 |
| 2.4 | Cynllun Gofodol Cymru | 9 |
| 2.5 | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru (2017) | 10 |
| 2.6 | Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 | 11 |
| 2.7 | Mesur y Gymraeg 2011 | 11 |
| 2.8 | Cynlluniau a Strategaethau Perthnasol Eraill | 11 |
| 2.9 | Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych (2017-2022) | 12 |
| 2.10 | Strategaeth Iaith Gymraeg Sir Ddinbych 2017-2022 | 12 |
| 2.11 | Awdurdodau Lleol Cyfagos | 13 |
| **3.** | **Adolygiad Sylfaenol** | |
| 3.1 | Cyflwyniad | 14 |
| 3.2 | Dylunio a Datblygu Cynaliadwy | 14 |
| 3.3 | Ardaloedd wedi eu Diogelu | 14 |
| 3.5 | Y Gymraeg | 15 |
| **4.** | **Fframwaith Monitro Blynyddol y CDLl** | |
| 4.1 | Cyflwyniad | 18 |
| 4.2 | Perfformiad Polisïau Lleol | 18 |
| **5.** | **Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd** | |
| 5.1 | Cyflwyniad | 20 |
| 5.2 | Arfarniad o Gynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu Rhagfyr 2017) | 20 |
| 5.3 | Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Rhagfyr 2017) | 21 |
| **6.** | **Cyfeiriadau** | 21 |

**Atodiad 1 -** Data Cyfrifiad 2001 a 2011 ar y Gymraeg

**Atodiad 2 -** Cysylltiadau rhwng Cynllun Gofodol Cymru a Pholisïau Cenedlaethol a CDLl Sir Ddinbych - Parchu Nodweddion Unigryw


DRAFT

Map 1 Cyngor Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru



# 1. Cefndir

## 1.1 Pwrpas yr Adroddiad

1.1.1 Ym mis Awst 2011 cynhyrchodd Cyngor Sir Ddinbych 'bapurau gwybodaeth' i gefnogi themâu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021. Pwrpas y dogfennau hyn oedd crynhoi data sylfaenol, tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol am ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo. Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn 2013 gyda'r themâu canlynol:

- Parchu Nodweddion Unigryw (RD)
- Creu Cymunedau Cynaliadwy (BSC)
- Hybu Economi Gynaliadwy (PSE)
- Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd (VOE) a
- Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy (ASA)

1.1.2 Mae talfyriadau'r themâu wedi eu cynnwys yn nheitlau polisïau lleoli er mwyn nodi testunau cyffredin a'u canfod yn gyflym.

1.1.3 Yn unol ag Adran 69 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu ei gynllun defnydd tir o leiaf bob pedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys adolygu amcanion a themâu'r CDLl a pholisïau lleol gan edrych ar newid cyd-destunol sylweddol, pryderon sylweddol yn sgil yr Adroddiad Monitro Blynyddol a chyfrifoldebau cyfreithiol eraill sy'n effeithio ar berfformiad y CDLl.

1.1.4 Mae'r Cyngor newydd ddechrau adolygu'r CDLl. Ar hyn o bryd nod oes unrhyw amcan, thema na pholisi lleol drafft diwygiedig. Mae'r rhan fwyaf o'r testun yn ymwneud â deddfwriaethau, strategaethau a rhaglenni, dadansoddiadau ystadegol a pherfformiad polisïau fel y nodir yn y Adroddiad Monitro Blynyddol, ynghyd ag effaith bosibl ar bolisïau'r CDLl a fabwysiadwyd. Bwriad y Cyngor yw gwneud y Papurau Gwybodaeth yn 'ddogfennau byw' h.y. eu diweddaru gyda thystiolaeth a gwybodaeth wrth i'r CDLl newydd fynd drwy'r camau cynllunio unigol.

## 1.2 Cyflwyniad i Thema 'Parchu Nodweddion Unigryw'

Mae'r thema hon yn ymwneud â diogelu a gwella cymeriad unigryw dinas, trefi a phentrefi Sir Ddinbych. Mae'r thema yn ymdrin ag ystod o feysydd gwahanol, gan gynnwys:

- Dylunio adeiladau
- Gwahaniaeth ffisegol a diwylliannol rhwng aneddiadau
- Diogelu cymeriad hanesyddol
- Y Gymraeg

DRAFT

## 2. Cyd-destun y Polisi


### 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Ceir nifer fawr o bolisïau a fframweithiau cenedlaethol, cynlluniau rhanbarthol a strategaethau lleol sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r CDLl yn ogystal ag effeithio ar ddarparu cynigion datblygu unigol. Pwrpas yr adran hon yw cynnal adolygiad sylfaen o'r ddogfen, h.y. nodi newidiadau i ddogfennau presennol, asesu effaith dogfennau newydd ac amlygu anghysondebau posibl gyda pholisïau lleol. Bydd hwn yn gam hanfodol cyn trafod diwygio'r polisi lleol yn sgil newid mewn amgylchiadau lleol.

2.1.2 Disgwylir y bydd CDLlau yng Nghymru yn integreiddio gyda deddfwriaethau, strategaethau a chynlluniau eraill heb ailadrodd polisïau cynllunio cenedlaethol yn ddiangen. Mae'r polisi cenedlaethol wedi ei gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, sydd wedi ei ategu gan nifer o Nodiadau Cyngor Technegol.

### 2.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.2.1 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'n gofyn i gyrff cyhoeddus fel Cyngor Sir Ddinbych i ystyried anghenion presennol cymunedau lleol yn ogystal â sut bydd penderfyniadau a wneir rŵan yn effeithio ar bobl yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn gorfod gweithio tuag at gyrraedd saith nod lles a gynhwysir yn y Ddeddf, sef: (1) Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang; (2) Cymru ffyniannus; (3) Cymru wydn; (4) Cymru iachach; (5) Cymru fwy cyfartal; (6) Cymru â chymunedau cydlynol; a (7) Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith sy'n ffynnu.

2.2.2 


Wedi ei atgyfnerthu gan ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i weithredu egwyddorion datblygu cynaliadwy ymhob proses o wneud penderfyniadau. Fe wneir hyn drwy gadw at gyfres o 'amcanion lles' lleol i gyrraedd y saith nod lles cenedlaethol.

2.2.3 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu pecyn 'Asesu'r Effaith ar Les' i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae wedi ei ddylunio i gynorthwyo'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i werthuso cynnig penodol gan roi ystyriaeth i'r nodau lles. Yn unol â hynny, bydd pob elfen yn y CDLl newydd yn destun asesiad

o’r effaith ar les ac, os oes angen, yn cael eu diwygio yn unol ag argymhellion yr asesiad.

## 2.3 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

2.3.1 Mae’r polisi cynllunio lleol wedi ei nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru ac yn cynnwys Polisi Cynllunio Mwynau Cymru ym mhennod 14. Mae’r atodiadau yn cynnwys cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau. Mae’r Nodiadau Cyngor Technegol mwyaf perthnasol sydd wedi eu diweddaru ers mabwysiadu’r CDLl yn 2013 wedi eu nodi isod. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi ‘Llythyrau Egluro Polisi’ sy’n darparu cyngor ac arweiniad ar destunau penodol.

2.3.2 Yn ogystal â darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar lefel leol, fe all y polisi cenedlaethol fod yn berthnasol i gynigion cynllunio a benderfynir gan Weinidogion Cymru, Arolygwyr Cynllunio mewn apeliadau cynllunio neu yn absenoldeb polisi lleol perthnasol.

2.3.3 Polisi Cynllunio Cymru yw’r ffynhonnell wybodaeth fwyaf arwyddocaol wrth ddrafftio polisïau lleol. Mae’r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn nodi na ddylai CDLlau ailadrodd polisïau cenedlaethol ond fe all awdurdodau cynllunio lleol eu cynnwys fel atodiadau pan fo amgylchiadau lleol yn gofyn am ddehongli polisi lleol penodol. Mae tabl 1 yn nodi'r polisïau cenedlaethol hynny a ystyriwyd yn berthnasol ar adeg llunio thema ‘Parchu Nodweddion Unigryw’ y CDLl a pholisïau lleol cysylltiedig. Mae hefyd yn darparu sylfaen ar gyfer nodi unrhyw newid posibl mewn polisïau cenedlaethol ac effeithiau posibl ar y polisi lleol a fabwysiadwyd.

2.3.4 **Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio** (Mawrth 2016) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru drwy ddarparu canllaw pellach ar rôl awdurdodau cynllunio lleol wrth ddarparu dyluniadau cynaliadwy da. Mae’n pwysleisio na ddylai awdurdodau cynllunio lleol ailadrodd polisïau lleol ac y dylai gynnwys polisïau clir a chadarn ar faterion dylunio mewn cynlluniau datblygu sy’n mynd i’r afael â materion lleol a nodi disgwyliadau dylunio’r awdurdod. Mae’n nodi y gall cynlluniau gynnwys polisïau dylunio wedi eu targedu ar gyfer meysydd pwysig o newid neu ddiogelu, safleoedd strategol neu ddatblygiadau penodol. Anogir awdurdodau cynllunio i archwilio cyfleodd i hyrwyddo amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chreu adeiladau mwy cynaliadwy a di-garbon yng Nghymru. Ceir rhagor o gyngor yng Nghanllawiau Ymarfer – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (2014) Llywodraeth Cymru.

2.3.5 **Mae Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a’r Iaith Gymraeg** (Hydref 2017) yn darparu eglurder ynglŷn â sut y dylai ystyriaethau o ran y Gymraeg fwydo i mewn i gynlluniau datblygu. Mae’n nodi y dylai Arfarniadau o Gynaliadwyedd asesu tystiolaeth o effaith y strategaeth ofodol, polisïau a dyraniadau ar y Gymraeg. Wrth gynhyrchu CDLlau mae’n bosibl asesu, drwy gyfrwng yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, effaith gronnus a chyfunol nifer o ddatblygiadau ar draws ardal y cynllun ar y Gymraeg. Mae hyn yn darparu cyfle i ystyried yr effaith ar gymunedau

DRAFT

lleol ac ardal ehangach y cynllun, yn hytrach nag ystyried materion ieithyddol pan benderfynir ar gais cynllunio unigol.

2.3.6 Mae TAN 20 (2017) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cyd-fynd â Rhan B: Arweiniad Ymarferiad ac yn darparu canllaw pellach ar sut a phryd y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y Gymraeg wrth baratoi CDLlau.

2.3.7 Aseswyd sawl agwedd o'r CDLl yn erbyn yr amcan cynaliadwyedd; i ddiogelu a gwella'r Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ac Asedau Treftadaeth Sir Ddinbych. Cafodd safleoedd a ddyrannwyd yn CDLl Sir Ddinbych ar gyfer dibenion tir penodol eu sgrinio i weld a ydynt yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd wedi arwain at RD 5 y CDLl, 'Yr Iaith Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau', sy'n cynnwys cyraeddnodau a meini prawf pan fo ar awdurdod cynllunio lleol eisiau Datganiad Ieithyddol Cymuned neu Asesiad o'r Effaith Ieithyddol a Chymunedol fel dogfen ategol i gais cynllunio. Mae'r polisi yn gofyn am ddadansoddiad mwy manwl o'r effeithiau yn dibynnu ar leoliad a maint y datblygiad. Mae paragraff 3.1.3 TAN 20 yn egluro na ddylai ceisiadau cynllunio fel arfer fod yn destun asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg er mwyn osgoi ailadrodd elfennau o'r gwaith dethol safle a wnaed fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystod y broses o gynhyrchu'r cynllun.

2.3.8 Mae yna wrthdaro posibl rhwng polisi RD 5 y CDLl a TAN 20. Felly, bydd yn rhaid i'r Cyngor adolygu ei sefyllfa o ran RD 5.

2.3.9 Tabl 1 Cysylltiadau rhwng polisi cenedlaethol a thema 'Parchu Nodweddion Unigryw' y CDLl

| Polisi Cenedlaethol (gan gyfeirio at Rifyn 9 Polisi Cynllunio Cymru) | Lle y cyfeirir at hyn yn y CDLl? | A oes angen unrhyw newid i gydymffurfio â'r polisi cenedlaethol? | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Lleiniau Glas (Polisi Cynllunio Cymru 4.8) | Polisi RD 2: Rhwystrau Glas | Bydd angen adolygu rhwystrau glas fel rhan o adolygiad o'r CDLl er mwyn cydymffurfio â pharagraff 4.8.1 Polisi Cynllunio Cymru | Mae'r polisi hwn yn gorgyffwrdd â thema 'Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd' |
| (Polisi Cynllunio Cymru 4.7, 4.11 a TAN 12) | Polisi RD 1: Datblygu cynaliadwy a dylunio o safon dda | Bydd angen adolygu polisi PNU 1 i sicrhau y cydymffurfir ag adran 4.11 Polisi | Mae'r polisi hwn yn gorgyffwrdd â thema 'Creu Cymunedau Cynaliadwy' a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Polisi RD 2: Rhwystrau Glas<br>Polisïau RD 3 a 4: Estyn, addasu ac amnewid anheddau presennol<br>Polisi RD 5: Y Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau | Cynllunio Cymru a TAN 12. | 'Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd' |
| Ystyriaethau dylunio (Polisi Cynllunio Cymru 4.10 a TAN 12), TAN 21 (Gwastraff) | Polisi RD 1: Datblygu cynaliadwy a dylunio o safon dda<br>Polisïau RD 3 a 4: Estyn, addasu ac amnewid anheddau presennol | Mae TAN 21 (Gwastraff) yn gofyn am gynnwys cyfleusterau a mannau ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu gwastraff yn nyluniad unrhyw ddatblygiad. Dylid adolygu polisi PNU 1 i sicrhau bod fframwaith polisi priodol yn ei le i gyflawni hyn. | Mae'r polisi hwn yn gorgyffwrdd â thema 'Creu Cymunedau Cynaliadwy' a 'Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd' |
| Arbed ynni a chadwraeth (Polisi Cynllunio Cymru 4.11, 4.12 a TAN 12) | Polisi RD 1: Datblygu cynaliadwy a dylunio o safon dda<br>Polisïau RD 3 a 4: Estyn, addasu ac amnewid anheddau presennol | Dylid adolygu polisi RD 1 i sicrhau y cydymffurfir ag adran 4.12 Polisi Cynllunio Cymru a TAN 12 | Mae'r polisi hwn yn gorgyffwrdd â thema 'Creu Cymunedau Cynaliadwy' a 'Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd' |
| TAN 12 – Dylunio (yn cynnwys elfennau TAN 22, sydd wedi ei ddileu)<br>Hefyd, Canllawiau Ymarfer: Cynllunio ar | Polisi RD 1: Datblygu cynaliadwy a dylunio o safon dda<br>Polisïau RD 3 a 4: Estyn, addasu ac amnewid anheddau presennol | Dylid adolygu polisi RD 1 i sicrhau y cydymffurfir â TAN 12 a'r Canllawiau Ymarfer | Mae'r polisi hwn yn gorgyffwrdd â thema 'Creu Cymunedau Cynaliadwy' a 'Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd' |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gyfer Adeiladau Cynaliadwy | Nid yw elfennau TAN 12 wedi eu hailadrodd yn y CDLl, gan eu bod yn cynnwys polisi cenedlaethol | | | |
| Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Polisi Cynllunio Cymru 4.12 A tan 20 - Cynllunio a'r Iaith Gymraeg) | Polisi RD 5: Y Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau. Nid yw pwyntiau allweddol y TAN hwn wedi eu hailadrodd yn y CDLl, gan eu bod yn cynnwys polisi cenedlaethol | Bydd angen adolygu polisi RD 5 i sicrhau y cydymffurfir â Pholisi Cynllunio Cymru a TAN 20.Mae'n rhaid ystyried effaith debygol y CDLl ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. | Mae'r polisi hwn yn gorgyffwrdd â thema 'Creu Cymunedau Cynaliadwy' | |

## 2.4 Cynllun Gofodol Cymru

2.4.1 Wedi ei chyhoeddi'n wreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn 2004 a'i diweddaru fis Gorffennaf 2008, nod y ddogfen yw gweithredu blaenoriaethau polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru fel y nodir yn Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Cymru. Canolbwyntiwyd ar gysylltu gweithgareddau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; gan ddarparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio. Yr amcan oedd rhoi pwyslais cryf ar weithredu'r egwyddor 'datblygu cynaliadwy' ymhob proses o wneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus.

2.4.2 Mae Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (adran 62) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i ystyried Cynllun Gofodol Cymru wrth baratoi eu cynlluniau datblygu lleol. Mae hyn yn golygu bod gan Gynllun Gofodol Cymru sawl diben ym mhroses CDLl Sir Ddinbych: (1) casglu tystiolaeth; (2) ffurfio polisïau lleol; (3) sicrhau gwell ymgysylltu a llywodraethu rhwng cyrff; (4) hysbysu cynlluniau; a (5) alinio buddsoddiadau posibl yn yr ardal.

2.4.3 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn rhannu Cymru yn chwe rhanbarth gan amlinellu eu perthnasau trawsffiniol. Mae rhannau o Sir Ddinbych wedi eu dyrannu i ranbarth Gogledd Ddwyrain Cymru a rhanbarth Canol Cymru. Cydnabyddir hefyd bod yna berthynas gref gyda rhanbarth y Gogledd Orllewin. Mae pob rhanbarth, h.y. ardaloedd cynllun gofodol, wedi ei broffilio gan aneddiadau allweddol, dosbarthiad poblogaeth rhanbarthol mewnol, canolfannau economaidd-gymdeithasol, mannau gweithgareddau economaidd ac ati.

DRAFT

2.4.4 Er mwyn alinio CDLl Sir Ddinbych gyda Chynllun Gofodol Cymru, penderfynodd y Cyngor strwythuro ei gynllun defnyddio tir yn unol â phum thema Cynllun Gofodol Cymru:

- Parchu Nodweddion Unigryw
- Creu Cymunedau Cynaliadwy
- Hybu Economi Gynaliadwy
- Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd
- Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy

2.4.5 Mae system gynllunio Cymru ar hyn o bryd yn mynd trwy gyfnod newid. Mae deddfwriaeth sylfaenol newydd wedi ei chyflwyno ar gyfer cynllunio yn ogystal â deddfwriaethau treftadaeth adeiledig a diogelu'r amgylchedd. Arweiniodd hyn (ac mae hyn yn debygol o barhau) at gyflwyno rheoliadau is-ddeddfwriaethol, polisi cenedlaethol a nodiadau canllaw. Bydd cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru yn newid mawr i drefniadau cynllunio strategol. Bydd y fframwaith hwn yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ymhen rhyw ddwy flynedd. Felly, wrth lunio'r CDLl newydd, bydd yn rhaid i Sir Ddinbych roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru, a fydd yn newid cyn bo hir, yn ogystal â gweithio tuag at gydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd.

2.4.6 Ystyrir mai prif flaenoriaethau Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer thema 'Parchu Nodweddion Unigryw' yw cynnal cymeriad lleoedd, annog dyluniadau cynaliadwy sy'n adlewyrchu unigrwydd lleol, datblygu Cymru yn gymdeithas ddwyieithog a chadw amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae blaenoriaethau manwl wedi eu nodi yn niweddariadau 2008 Cynllun Gofodol Cymru.

2.4.7 Mae atodiad 2 yn darparu dadansoddiad o flaenoriaethau polisi cenedlaethol, gweledigaeth y CDLl, amcanion a sut y mae polisïau yn ceisio eu cyflawni, a dyraniadau.

## 2.5 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru

2.5.1 Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru yn deillio o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac mae'n darparu cyfarwyddyd ar gyfer cynlluniau datblygu strategol a lleol ac yn cefnogi'r gwaith o benderfynu ar ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Tra bo Cynllun Gofodol Cymru yn rhoi sylw mawr i'r egwyddor 'datblygu cynaliadwy' mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru yn mynd gam ymhellach i weithredu darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.5.2 Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn darparu mecanwaith ar gyfer ystyried materion strategol fel y Gymraeg ar lefel ehangach, gan adlewyrchu patrymau o'r defnydd o'r Gymraeg yn Nghymru.

2.5.3 Mae'r gwaith paratoi ar gyfer Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru newydd ddechrau gyda galwad gan Lywodraeth Cymru am dystiolaeth a phrosiectau posibl

i’w cynnwys. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar faterion, dewisiadau a’r dewisiadau a ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ym mis Ebrill, gydag ymgynghoriad ar y fframwaith drafft fis Gorffennaf 2019. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ddogfen ym mis Ebrill 2020 ac yn ei chyhoeddi, yn ôl pop tebyg, fis Medi 2020.

2.5.4 Mae’n anodd amlinellu unrhyw effaith y caiff y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar y CDLl newydd gan nad oes llawer o wybodaeth ar gael i’r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd.

**2.6 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

2.6.1 Am y tro cyntaf erioed cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) ddarpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer y Gymraeg yn y system gynllunio. Mae adrannau 11 a 13 o’r Ddeddf yn cyfeirio at yr iaith. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn gofyn i bobl ystyried y Gymraeg fel rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd yr holl ddogfennau gyda statws cynllun datblygu: y Fframwaith Datblygu Lleol, Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Y nod yw cryfhau’r wybodaeth a ddarperir yn y polisi presennol (Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017), sy’n annog awdurdodau cynllunio lleol i ystyried materion o ran y Gymraeg fel rhan o’r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae adran 31 o’r Ddeddf yn egluro y dylid ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, cyhyd â’u bod yn berthnasol i’r cais.

**2.7 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

2.7.1 Rhoddodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Gymraeg a chrëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg o ganlyniad i’r mesur. Mae’r comisiynydd annibynnol yn gyfrifol am hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg. Fe ymgynghorir â’r comisiynydd ynghylch CDLlau, ac mae gan y comisiynydd rôl benodol ar gam cynnar iawn i ystyried effaith cynigion a pholisïau CDLlau ar y Gymraeg.

**2.8 Cynlluniau a Strategaethau Perthnasol Eraill**

2.8.1 Mae yna sawl cynllun a strategaeth a all effeithio ar y CDLl. Pwrpas yr adran hon yw dangos sut y mae cynlluniau a strategaethau allweddol wedi eu hystyried yn ystod y gwaith o ddatblygu’r thema hon.

2.8.2 Cynhyrchwyd CDLl Sir Ddinbych 2016-2021 ar sail cynlluniau, strategaethau neu raglenni cenedlaethol a rhanbarthol a oedd ar gael y pryd. Mae’n bosibl bod rhai wedi eu disodli, eu dileu neu wedi dod i ddiwedd eu cyfnod. Mae’r paragraffau canlynol yn cyfeirio at y dogfennau sy’n berthnasol yn 2017.

**2.9 Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych (2017-2022): ‘Gweithio gyda’n gilydd er lles dyfodol Sir Ddinbych’**

DRAFT

2.9.1 Mae’r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu’r blaenoriaethau trosfwaol ar gyfer cyfnod y Cyngor. Caiff y blaenoriaethau eu cefnogi, eu gweithredu a’u darparu drwy nifer o strategaethau y mae CDLl yn offeryn hanfodol iddynt. Mae’r blaenoriaethau corfforaethol canlynol yn berthnasol i ‘Parchu Nodweddion Unigryw’:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy’n bodloni eu hanghenion
- Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i fagu annibyniaeth a chadernid
- Deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd
- Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

2.9.2 Mae’r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi’r Gymraeg a diwylliant Cymru, a'i nod yw diogelu a hyrwyddo’r Gymraeg ar hyd a lled Sir Ddinbych.

## 2.10 Strategaeth Iaith Gymraeg Sir Ddinbych 2017-2022

2.10.1 Mae’r Strategaeth Iaith Gymraeg yn nodi sut bydd yr awdurdod yn hyrwyddo ac yn gwella’r iaith dros y pum mlynedd nesaf. Cafodd ei hysgrifennu mewn ymateb i weithredu Safonau’r Gymraeg. Mae’r strategaeth wedi ei rhannu’n themâu allweddol – cynllunio’r Gymraeg yn strategol yn Sir Ddinbych, plant a phobl ifanc, busnes a’r economi, y gymuned a gweinyddiaeth fewnol y Cyngor.

2.10.2 Bwriad y strategaeth yw darparu datganiad clir o weledigaeth a nodau’r Cyngor ar gyfer y Gymraeg yn y sir am y 5 mlynedd nesaf:

- Mae Sir Ddinbych yn sir ddwyieithog yn bennaf, gyda diwylliant a threftadaeth gyfoethog. Rydym yn falch iawn o'r ffaith hon ac eisiau’r balchder hyn gael ei adlewyrchu yn ein hymgysylltiad o ddydd i ddydd gyda chymunedau, preswylwyr a’n staff.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod egwyddorion y Safonau Iaith Gymraeg yn ategu'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; rydym eisiau pobl allu cael mynediad i wasanaethau drwy eu dewis iaith yn naturiol, ym mhob cam o'u bywydau.
- Mae arnom eisiau gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i’n staff weithio yn y Gymraeg a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- Mae arnom eisiau gweithio gyda phartneriaid a’r gymuned ehangach i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith lewyrchus yn Sir Ddinbych.
- Mae gennym uchelgais i fod yn arweinwyr sector yn natblygiad yr iaith Gymraeg yng Nghymru.

DRAFT

2.10.3 Uchelgais y Cyngor yw atal y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych. O ganlyniad, y nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych 0.5% dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r bwriad o ystyried targed tymor hirach i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn pwysleisio y dylai'r Gymraeg fod yn elfen allweddol o wneud polisïau ymhob maes gwaith y Cyngor, gan gynnwys cynllunio, adfywio, addysg a gofal cymdeithasol.

2.10.4 Gweledigaeth thema 3 (y Gymuned) yw 'Mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yng nghymunedau Sir Ddinbych'. Mae'n cyfeirio'n benodol at y CDLl ac yn cynnwys y cam gweithredu canlynol: *'Fel rhan o'r arolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd arfarniad cynaliadwyedd a phrosesau asesu cysylltiedig yn asesu effaith strategaeth ofodol y cynllun, polisïau a dyraniadau ar yr iaith Gymraeg. Lle bod tystiolaeth yn dangos effaith andwyol, bydd newidiadau neu fesurau lliniaru yn cael eu hadnabod.'*

### 2.11 Awdurdodau Lleol Cyfagos

2.11.1 Er bod y CDLl dan sylw yn ymdrin â Sir Ddinbych, mae polisïau a chamau gweithredu awdurdodau lleol cyfagos yn gallu effeithio ar y sir. Felly mae'n bwysig eu hystyried yn ystod datblygiad CDLl newydd Sir Ddinbych. Mae sawl awdurdod yn gyfagos at Sir Ddinbych, sef Sir y Fflint, Wrecsam, Conwy, Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Phowys.

2.11.2 Mae'r awdurdodau hyn hefyd yn datblygu eu CDLlau ac ar wahanol gamau datblygu (gweler y tabl isod).

2.11.3 Tabl 2 Cynnydd cynlluniau datblygu Awdurdod Lleol cyfagos

| Awdurdod Cynllunio Lleol | Cam CDLl (Mehefin 2017) |
|---|---|
| Cyngor Sir y Fflint | Cam dewisiadau strategol |
| CBS Wrecsam | Cam cyn-adneuo |
| CBS Conwy | Adolygiad i ddechrau yn 2017 |
| Cyngor Gwynedd | Yn aros am adroddiad yr Arolygydd ar gynllun datblygu lleol ar y cyd |
| Ynys Môn | |
| Cyngor Sir Powys | Archwiliad |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Yr adolygiad wedi ei ddechrau |

## 3. Adolygiad Sylfaenol

### 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Tra'r oedd yr adran flaenorol yn canolbwyntio ar ddogfennau polisi a strategol, diben y paragraffau canlynol yw dadansoddi unrhyw newid yn y sir ers mabwysiadu'r CDLl fis Mehefin 2013. Bydd y ddwy adran yn darparu tystiolaeth hanfodol ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad y cynllun, pan fydd y Cyngor yn trafod y newidiadau arfaethedig yn fanylach.

DRAFT

DRAFT

3.1.2 Mae'r wybodaeth sylfaenol wedi ei rhannu'n destunau ar wahân fel dyluniad, ardaloedd i'w diogelu, gan gynnwys rhwystrau glas, a'r Gymraeg.

### 3.2 Dylunio a Datblygu Cynaliadwy

3.2.1 Mae gan Sir Ddinbych nifer o drefi a phentrefi deniadol, ynghyd ag asedau treftadaeth pwysig, sy'n gofyn am ddyluniadau a datblygiadau o'r ansawdd uchaf. Mae'r mater hwn yn cael sylw penodol yn y papur gwybodaeth sy'n cefnogi'r thema 'Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd'.

3.2.2 Oherwydd natur ansoddol asesu ansawdd dyluniadau, mae'r data presennol sydd ar gael ar gyfer polisïau dylunio yn gyfyngedig. Er bod enghreifftiau o ddylunio da mewn datblygiadau diweddar, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu nad oes llawer o welliant wedi ei wneud i safonau nac ansawdd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae yna hefyd angen gwella'r graddau y mae datblygiadau newydd yn adlewyrchu nodweddion unigryw lleol. Mae polisïau'r CDLl yn ceisio mynd i'r afael â hyn, yn arbennig oherwydd yr amgylchedd adeiledig o safon uchel sydd gennym ni, yr AHNE a'r Safle Treftadaeth y Byd.

3.2.3 Ar ôl mabwysiadu'r CDLl, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu nifer o friffiau datblygu safle a chanllawiau cynllunio atodol ar feysydd fel datblygiadau preswyl, coed a thirlunio a mannau agored. Mae'r rhain yn darparu canllawiau manylach er mwyn sicrhau bod datblygiadau o ansawdd gwell yn cael eu codi yn y sir.

### 3.3 Ardaloedd wedi eu Diogelu

3.3.1 Mae gan Sir Ddinbych dirweddau o ansawdd uchel a phwysig i fioamrywiaeth. Mae gan y sir amgylchedd naturiol o ansawdd uchel gydag ardaloedd cadwraeth a rhywogaethau a chynefinoedd bywyd gwyllt wedi eu diogelu. Mae nifer o'r rhain wedi eu cydnabod yn genedlaethol neu'n rhyngwladol a chanddynt statws gwarchodedig, megis Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd (AHNE) a'r Ardal o Harddwch Eithriadol. Mae yna hefyd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Yn arbennig, mae'r ardal o gwmpas Camlas Llangollen yn ne-ddwyrain y sir wedi ei dynodi gan UNESCO yn Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r materion sy'n berthnasol i ddiogelu'r ardaloedd hyn yn cael sylw penodol yn y papur gwybodaeth sy'n cefnogi'r thema 'Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd'.

3.3.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gofyn i awdurdodau lleol ystyried yr angen am nodi lleiniau glas, lletemau glas, neu gyffelyb mewn cynlluniau datblygu. Mae diben dynodiadau o'r fath yn amrywio ond yn bennaf maent yn ceisio cynnal cymeriad unigryw aneddiadau a diogelu mannau agored at ddibenion hamdden, amaeth, tirlunio ac ati. Felly mae dynodiadau o'r fath yn bwysig o ran cyfrannu at gymeriad nodedig aneddiadau a diogelu'r ardal o'u cwmpas.

3.3.3 Roedd Cynllun Datblygu Unedol blaenorol Cyngor Sir Ddinbych yn dynodi 8 rhwystr glas yn y sir. Adolygwyd y rhain fel rhan o'r gwaith ar y CDLl. Aseswyd pob rhwystr

glas yn erbyn nifer o feini prawf i weld a oedd modd cyfiawnhau eu statws fel rhwystr glas. O ganlyniad i'r asesiad hwn, cafodd dau rwystr glas ei ddiwygio. Bydd angen cynnal adolygiad llawn o'r rhwystrau glas fel rhan o broses adolygu'r CDLl er mwyn cydymffurfio â pharagraff 4.8.1 Polisi Cynllunio Cymru. Mae'r gwaith yma ar y gweill a bydd y canlyniadau o gymorth wrth lunio'r CDLl newydd.

## 3.4 Y Gymraeg

3.4.1 Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 22,236 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych (sef 24.6% o'r boblogaeth). Yn ôl Cyfrifiad 2001, roedd 23,760 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych (sef 26.4% o'r boblogaeth). Felly yn ystod y ddeng mlynedd rhwng 2001 a 2011 mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir wedi gostwng 1,524 (neu 1,8%). Mae'r canlyniadau yn dangos bod y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg i'w canfod yn ne orllewin y sir, yn adrannau etholiadol Llandrillo (59.2%), Efenechtyd (53.7), Llanrhaeadr yng Nghinmeirch (50.0% a Llanfair Dyffryn Clwyd (48.3%). Yr adrannau etholiadol gyda'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yw Gogledd Prestatyn (12.6%), Gorllewin y Rhyl (12.7%) a Dwyrain y Rhyl (13.0%). Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 1.

3.4.2 Mae tabl 3 yn dangos yr adrannau etholiadol gyda'r canrannau uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg.

3.4.3 Tabl 3 Canran y siaradwyr Cymraeg yn adrannau etholiadol Cyngor Sir Ddinbych

| Adran Etholiadol | % y siaradwr Cymraeg (2001) |
|---|---|
| Llandrillo | 59.2 |
| Efenechtyd | 53.7 |
| Llanrhaeadr yng Nghinmeirch | 50.0 |
| Llanfair DC / Gwyddelwern | 48.3 |
| Corwen | 47.9 |
| Rhuthun | 41.7 |
| Dinbych Isaf | 40.2 |
| … | |
| De Orllewin y Rhyl | 13.7 |
| De Orllewin Prestatyn | 13.7 |
| Dwyrain y Rhyl | 13.0 |
| Gorllewin y Rhyl | 12.7 |
| Gogledd Prestatyn | 12.6 |

Ffynhonnell: Sbectrwm

3.4.4 Yn annhebyg i'r adrannau etholiadau sydd â chanrannau uchaf, sy'n bennaf yn adrannau gwledig, mae'r tabl isod yn dangos bod y rhan fwyaf o'r adrannau etholiadau sydd â'r niferoedd mwyaf yn nhrefi marchnad Corwen, Rhuthun a Dinbych. Mae'n ymddangos felly bod y trefi hyn yn arwyddocaol iawn yn nhermau cynllunio ar gyfer y dyfodol yr iaith gan fod ganddynt nifer a chanran uchel o siaradwyr Cymraeg, felly hefyd adrannau fel Llanfair DC/Gwyddelwern ac

DRAFT

Efenechtyd. Yn ddiddorol iawn, er bod y ganran yn isel (15.5%), mae yna 1,000 o siaradwyr Cymraeg yn adran etholiadol De-ddwyrain y Rhyl.

3.4.5 Gwelodd 9 adran etholiadol gynnydd yn y niferoedd rhwng 2001 a 2011. Yn ogystal â'r adrannau a nodwyd, mae adran etholiadol Bodelwyddan (+3), Llanarmon yn Iâl/Llandegla (+20), De-ddwyrain y Rhyl (+5) a Rhuthun (+23) hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod y ddegawd. Gogledd a De-orllewin Prestatyn welodd y cynnydd mwyaf, fel yr amlinellir uchod.

3.4.6 Tabl 4 Cyfanswm y siaradwyr Cymraeg yr adrannau etholiadol

| Adran Etholiadol | Nifer y Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|
| Rhuthun | 2,195 |
| Dinbych Isaf | 1,777 |
| De-ddwyrain y Rhyl | 1,132 |
| Llanfair DC / Gwyddelwern | 1,044 |
| Corwen | 1,084 |
| Dinbych Uchaf | 998 |

Ffynhonnell: Sbectrwm

3.4.7 Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn amrywio yn ôl oed. Fel y dangosir yn y tabl isod, yn ôl Cyfrifiad 2011 mae dros 40% o blant 3-15 oed yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych. Yn anffodus mae'r ganran yn gostwng i 26% ar gyfer grŵp oed 15-30 ac i 21.3% ar gyfer grŵp oed 30-50. Grŵp oed 50-70 sydd â'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg, sef 18.3%. Mae'r grŵp oed 70+ ychydig yn uwch gyda 22.4% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Fel y gwelir, mae'r canrannau uchaf yn y grŵp oedran 4-15. Mae hyn fwy na thebyg yn adlewyrchu dylanwad y system addysg ar sgiliau iaith plant ysgol. Mae'r niferoedd yn y grŵp oed 20-70 yn weddol gyson ac yn amrywio o 1,032 i 1,340. Y cyfartaledd ar gyfer pob grŵp oed yw 1,174 o siaradwyr Cymraeg.

3.4.8 Yr hyn sy'n galonogol wrth edrych ar y data yw'r cynnydd sylweddol yng nghanran a nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n 3-4 oed, o 19.6% (417) yn 2001 i 27.6% (584) yn 2011, cynnydd o 8% neu 167 o blant. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o rieni neu aelodau eraill o'r teulu yn siarad Cymraeg gartref gyda'r plant neu bod mwy o blant yn mynychu grwpiau Ti a Fi neu gylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg.

3.4.9 Mae hefyd yn werth nodi bod cynnydd ers 2001 yng nghanran plant 5-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg, o 42.8% i 46.25%. O ran niferoedd mae yna ostyngiad yn y grŵp hwn o 309, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod llai o blant yn y grŵp oed hwn o gymharu â deng mlynedd yn ôl.

3.4.10 Tabl 5

| Grŵp Oedran | % y siaradwyr Cymraeg 2001 | % y siaradwyr Cymraeg 2011 | Nifer y Siaradwyr Cymraeg 2001 | Nifer y Siaradwyr Cymraeg 2011 |
|---|---|---|---|---|
| Pawb dros 3 oed | 26.4 | 26.4 | 23,760 | 22,236 |
| 3 – 4 oed | 19.6 | 27.6 | 417 | 584 |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 – 9 oed | 39.4 | 45.3 | 2,273 | 2,248 |
| 10 – 14 oed | 46.3 | 47.2 | 2,865 | 2,581 |
| 15 – 19 oed | 36.6 | 32.5 | 1,990 | 1,950 |
| 20 – 24 oed | 24.8 | 23.0 | 1,115 | 1,198 |
| 25 – 29 oed | 24.2 | 22.8 | 1,174 | 1,032 |
| 30 – 34 oed | 22.0 | 23.1 | 1,295 | 1,039 |
| 35 – 39 oed | 21.5 | 22.7 | 1,425 | 1,215 |
| 40 – 44 oed | 21.6 | 20.6 | 1,271 | 1,320 |
| 45 – 49 oed | 20.5 | 19.1 | 1,202 | 1,326 |
| 50 – 54 oed | 21.0 | 18.6 | 1,471 | 1,158 |
| 55 – 59 oed | 22.1 | 17.3 | 1,283 | 1,034 |
| 60 – 64 oed | 22.8 | 18.7 | 1,212 | 1,340 |
| 65 – 69 oed | 25.0 | 18.6 | 1,175 | 1,079 |
| 70 – 74 oed | 24.4 | 20.3 | 1,109 | 972 |
| 75 – 79 oed | 24.6 | 22.4 | 1,011 | 832 |
| 80 oed a hŷn | 26.9 | 24.6 | 1,472 | 1,328 |

Ffynhonnell: Sbectrwm

3.4.11 Yn unol â'r canllawiau oedd ar gael ar y pryd, roedd polisi'r CDLl yn gofyn i gynigion datblygu gynnwys 'Datganiad Ieithyddol Cymunedol' ac i gynigion mwy gynnwys 'Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol'. Yn dilyn mabwysiadu'r CDLl, cynhyrchwyd Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg i gefnogi'r polisi ac i ddiffinio'r cyraeddnodau ar gyfer datblygiadau 'bach' a 'mawr', ac i ddarparu canllawiau o ran cynhyrchu Datganiadau Ieithyddol Cymunedol ac Asesiadau o'r Effaith. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hefyd yn nodi amrywiaeth o fesurau lliniaru i gefnogi polisi'r CDLl. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol ar gyfer Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan.

3.4.12 Bydd yn rhaid i'r gwaith ar y CDLl newydd adlewyrchu'r canllawiau a'r polisïau cenedlaethol diweddaraf mewn perthynas â'r Gymraeg, ynghyd ag ystyried yr ystadegau a'r data diweddaraf sydd ar gael. Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r meini prawf asesu safle gynnwys yr effaith bosibl ar y Gymraeg. Gall dosbarthiad twf economaidd hefyd effeithio ar gymeriad cymdeithasol a chynaliadwyedd cymunedau. Gall polisïau sy'n sicrhau lefel ac amrywiaeth ddigonol o gyfleodd economaidd, gan gynnwys safleoedd ac eiddo, i gefnogi a datblygu cymunedau lleol, ynghyd â sicrhau digon o dai fforddiadwy, hefyd fod o fudd i'r Gymraeg.

# 4. Adroddiad Monitro Blynyddol Blaenorol

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mabwysiadwyd CDLl 2006-2021 Cyngor Sir Ddinbych ar 4 Mehefin 2013. Mae'n rhoi arweiniad clir ar sut y gall datblygiad newydd fynd i'r afael â'r heriau a wynebir ac yn nodi lle, pryd a faint o ddatblygiadau newydd y gellir eu creu hyd at 2021.

DRAFT

4.1.2 Dan rwymedigaethau adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac adran 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar ei wefan.

4.1.3 Mae'r adran hon yn nodi canfyddiadau perfformiad polisi lleol yn seiliedig ar y ddau adroddiad monitro sydd eisoes wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae pob adran isod wedi ei hategu gan dabl sy'n darparu trosolwg o'r dangosyddion a'r cyraeddnodau. Mae'r golofn olaf wedi ei galw'n 'Crynodeb o'r Perfformiad'. Os yw'n cynnwys y testun 'Nid oes angen adolygu'r polisi lleol' mae hynny'n golygu nad oes angen adolygu'r polisi lleol o ganlyniad i'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

## 4.2 Perfformiad Polisïau Lleol

4.2.1 Wedi eu rhannu'n is-destunau, mae pob adran isod wedi ei hategu gan dabl sy'n darparu trosolwg o'r dangosyddion a'r cyraeddnodau. Mae'r golofn olaf wedi ei galw'n 'Crynodeb o'r Perfformiad'. Os yw'n cynnwys y testun 'Nid oes angen adolygu'r polisi lleol' mae hynny'n golygu nad oes angen adolygu'r polisi lleol o ganlyniad i'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Nid yw hyn fodd bynnag yn esgeuluso adolygu polisi lleol ar sail ystyriaethau eraill megis polisi cenedlaethol.

*Dylunio*

4.2.2 Mae perfformiad y polisi lleol yn unol â'r dangosyddion a'r cyraeddnodau a nodwyd yn y CDLl. Efallai y bydd angen adolygu polisïau a dangosyddion i adlewyrchu TAN 12: Dylunio ac ar ôl mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol Datblygiadau Preswyl.

4.2.3 Tabl 6 Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl – Dylunio

| Polisi'r CDLl | Dangosydd | Cyrhaeddnod | Crynodeb o'r Perfformiad |
|---|---|---|---|
| RD 1 – Datblygu Cynaliadwy a Dylunio o Safon Dda | Dwysedd cyfartalog datblygiadau preswyl a ganiateir | Mae dwysedd cyfartalog datblygiad preswyl a ganiateir yn 35 annedd neu lai yr hectar oni cyfiawnheir mwy gan bolisi arall | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |
| | Cynhyrchu canllaw cynllunio atodol ar ddylunio | Canllaw Cynllunio Atodol heb ei gynhyrchu erbyn diwedd 2013 | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |

*Y Gymraeg*

4.2.4 Mae perfformiad y polisi lleol yn unol â'r dangosyddion a'r cyraeddnodau a nodwyd yn y CDLl. Fodd bynnag, efallai y bydd angen adolygu polisïau a

DRAFT

dangosyddion oherwydd newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol a deddfwriaethau ac yn dilyn mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Efallai y bydd angen adolygiad hefyd i adlewyrchu'r diwygiadau wedi cael eu gwneud i TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.

4.2.5 Tabl 7 Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl: Y Gymraeg

| Polisi'r CDLl | Dangosydd | Cyrhaeddnod | Crynodeb o'r Perfformiad |
|---|---|---|---|
| RD 5 – Y Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau | Cyflwyno canlyniadau'r asesiadau o'r effaith gymunedol ac ieithyddol | Unrhyw ddatblygiad a ganiateir lle mae'r Datganiad neu'r Asesiad o'r Effaith Gymunedol neu Ieithyddol yn dod i'r casgliad y byddai cymeriad Cymreig neu'r iaith yn cael ei niweidio a lle nad yw niwed o'r fath yn cael ei orbwyso gan ystyriaethau eraill. | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol yn seiliedig ar Adroddiad Monitro Blynyddol, ond bydd angen yn sgil newidiadau deddfwriaethol |
| | Y defnydd o arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog a defnyddio enwau lleoedd Cymraeg mewn ddatblygiadau newydd | Unrhyw ddatblygiad lle nad yw strydoedd neu leoedd newydd yn cynnwys enw Cymraeg neu arwyddion dwyieithog | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |
| | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol | Mabwysiadu'r CCA o fewn 12 mis i fabwysiadu'r CDLl | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |

# 5. Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd

## 5.1 Rhagarweiniad

5.1.1 Mae gofyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol sef cynllun defnydd tir statudol i fod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA), Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), ynghyd ag Arfarniad Rheoli Cynefinoedd (HRA). Yn unol â chanllawiau cenedlaethol mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r ddau asesiad SA/SEA mewn un ddogfen, h.y. 'Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd'. Rôl Arfarniad o Gynaliadwyedd (ymgorffori Arfarniad Amgylcheddol Strategol) yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy trwy asesu ehangder y bydd y cynllun ar ei newydd wedd, wrth ei gymharu ag atebion rhesymol eraill, yn helpu i gyflawni amcanion

amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol perthnasol. Mae'r Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yn parhau fel dogfen ar wahân. Rôl yr Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yw asesu effaith debygol y Cynllun ar Safleoedd Wedi'u Dynodi yn Ewrop sy'n berthnasol (amddiffyn safleoedd natur a rhywogaethau dan gadwraeth).

5.1.2 Fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl mae canlyniadau'r cynigion datblygu a ganiatawyd yn ystod y flwyddyn yn ogystal â thystiolaeth eraill yn cael eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei weithredu mewn harmoni ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae cynaliadwyedd CDLl Sir Ddinbych yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o'r Fframwaith Monitro Blynyddol y CDLl. Mae'r adran ganlynol yn edrych ar fframwaith sgrinio Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoli Cynefinoedd er mwyn nodi unrhyw newid yn y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu elfennau unigol o'r CDLl.

5.1.3 Bydd yn rhaid i'r CDLl newydd gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yn effeithio ar sut y cyflawnir asesiadau SA / SEA yn y dyfodol i gefnogi'r Cynllun. Bydd gwybodaeth bellach ar gael wrth i'r Cynllun diwygiedig symud tuag at gael ei fabwysiadu.

## 5.2 Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu Rhagfyr 2017)

5.2.1 Mae'r Llawlyfr CDLl (Rhifyn 2 Awst 2015) angen i Awdurdodau sydd yn ymgymryd ag adolygiad o'u CDLl i ailystyried yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae angen cyflawni'r ailystyriaeth ar y cyd â drafftio'r Adroddiad Adolygu CDLl. Mae hynny cyn i'r gwaith o ddrafftio newidiadau ffurfiol i'r CDLl (CDLl i gymryd lle y fersiwn blaenorol). Mae'r canllaw yn amlinellu'r hyn sydd ei angen fel rhan o'r adolygiad ac mae'r camau hynny wedi'u hamlinellu isod:

- ystyried canlyniadau'r broses Monitro Blynyddol o'r Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys monitro os oes effeithiau sylweddol yn sgìl gweithredu'r cynllun datblygu;
- adolygu Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych presennol:
  - Posibiliadau Arfarniad o Gynaliadwyedd – cynlluniau, polisïau a rhaglenni a diweddariad gwybodaeth sylfaenol;
  - ystyried y prif newidiadau yn genedlaethol ac yn lleol ers mabwysiadu'r CDLl;
  - ystyried yr Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd wrth ystyried y newidiadau y cynigir yn y CDLl diwygiedig.

5.2.2 Cyflwynwyd Atodiad F, Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad ar Bosibiliadau) fel drafft i ymgynghori arno ynghyd â'r Adroddiad Adolygu CDLl. Tydi'r ailystyriaeth heb ystyried y dylanwadau newydd a nodwyd fel rhan o Adroddiad Adolygu Sir Ddinbych ac o ganlyniad bu effeithiau cynaliadwyedd sylweddol. Daethpwyd i'r casgliad bod Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd i gyd yn parhau i fod yn berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar.

5.2.3 Cafwyd ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n rhan o'r ymgynghori statudol ar Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau defnyddio tir lleol, i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Ailystyried a Phosibiliadau CDLl Sir Ddinbych (21 Awst 2017 – 20 Hydref 2017). Cefnogwyd y canlyniadau bod Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn parhau i fod yn berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd gan groesawu bod y gwaelodlin presennol wedi cael ei ddiwygio i helpu gyda'r gwaith monitro ac ailystyried. Nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio'r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith o newid y CDLl. Nid oes ganddynt wrthwynebiad i ddefnyddio'r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer newid y CDLl.

### 5.3 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Rhagfyr 2017)

5.3.1 Pwrpas ymarfer sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), gweler Atodiad G, oedd i edrych ar asesiadau HRA blaenorol a luniwyd i gefnogi'r CDLl a fabwysiadwyd; nodi newidiadau i safleoedd Ewropeaidd unigol ac edrych ar ba mor effeithiol oedd mesurau osgoi, canslo neu liniaru a awgrymwyd yn flaenorol. Nid oedd yr arfer wedi'i fwriadu ar gyfer llunio asesiad newydd o'r CDLl a fabwysiadwyd ond i ddysgu o brofiad blaenorol ac i nodi newidiadau a fyddai o bosib yn cael effaith ar waith yn y dyfodol.

5.3.2 Nid oes polisiau a dyraniadau tir lleol wedi eu cynnwys yn y CDLl sydd wedi arwain at effaith sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae mesurau a gynigir (lle bo hangen) i wrthbwyso'r effeithiau hyn yn weithredol ac effeithiol. Rhaid gwneud gwaith ymchwilio pellach i weld os oes cyfle i wella ansawdd yr aer yn ne'r Sir; gan ganolbwyntio ar leihau gwaddodion nitrogen.

5.3.3 Mae'r arferiad sgrîno wedi nodi bod yn rhaid i Arfarniadau Rheoli Cynefinoedd roi ystyriaeth i'r estyniad arfaethedig o Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl a'r wybodaeth newydd am Ardal Cadwraeth Arbennig Coedwigoedd Dyffryn Alun. Efallai y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar lunio polisi lleol a defnyddiau posib o dir yn yr ardal.

## 6. Cyfeiriadau

Polisi Cynllunio Cymru (2010) (Rhifyn 9), Llywodraeth Cymru

Cynllun Gofodol Cymru – Pobl, Lleoedd, Dyfodol (2008), Llywodraeth Cymru

Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio (2016), Llywodraeth Cymru

Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005), Llywodraeth Cymru et al

Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017), Llywodraeth Cymru

Nodyn Cyngor Technegol 20 – Dylunio (2014), Llywodraeth Cymru

Cyngor Sir Ddinbych: Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych (2017-2021)

Cyngor Sir Ddinbych: Strategaeth Iaith Gymraeg (2017-2022)


## **Atodiad 1** Gwybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych


Data'r Cyfrifiad – Poblogaeth a nifer y siaradwyr Cymraeg fesul cymuned

| Cyngor Cymuned | 0-3 | 0-14 | 15-64 | 65+ | Cyfanswm Poblogaeth 2011 | Cyfanswm Poblogaeth 2001 | % Wedi eu geni yng Nghymru 2011 | % Siaradwyr Cymraeg 2011 | % Siaradwyr Cymraeg 2001 | % Siaradwyr Cymraeg 1991 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberchwiler | | 22 | 176 | 100 | 298 | 332 | 52.7 | 27.6 | 33 | 37 |
| Betws Gwerful Goch | | 77 | 224 | 50 | 351 | 364 | 59.3 | 59.8 | 60 | 57 |
| Bodelwyddan | | 411 | 1404 | 332 | 2147 | 2,103 | 57.4 | 17.9 | 18 | 17 |
| Bodfari | | 43 | 197 | 87 | 327 | 334 | 51.4 | 21.7 | 27 | 32 |
| Bryneglwys | | 47 | 254 | 68 | 369 | 351 | 50.7 | 36.0 | 50 | 51 |
| Cefn Meiriadog | | 47 | 259 | 83 | 389 | 437 | 60.7 | 30.4 | 33 | 41 |
| Clocaenog | | 53 | 167 | 34 | 254 | 232 | 64.6 | 54.4 | 49 | 56 |
| Corwen | | 340 | 1525 | 460 | 2325 | 2,397 | 64.7 | 47.9 | 51 | 58 |
| Cwm | | 79 | 244 | 55 | 378 | 387 | 65.6 | 27.5 | 31 | 31 |
| Cyffylliog | | 83 | 316 | 96 | 495 | 489 | 58.8 | 52.9 | 61 | 59 |
| Cynwyd | | 78 | 348 | 116 | 542 | 536 | 66.1 | 59.1 | 68 | 68 |
| Dinbych | | 1568 | 5877 | 1541 | 8986 | 8,808 | 72.9 | 35.3 | 40 | 45 |
| Derwen | | 71 | 261 | 94 | 426 | 456 | 58.0 | 46.7 | 43 | 41 |
| Dyserth | | 470 | 1622 | 445 | 2537 | 2,565 | 60.3 | 20.2 | 21 | 23 |
| Efenechtyd | | 132 | 403 | 120 | 655 | 610 | 66.0 | 54.6 | 54 | 51 |
| Gwyddelwern | | 70 | 332 | 98 | 500 | 501 | 65.0 | 60.8 | 69 | 69 |
| Henllan | | 136 | 560 | 166 | 862 | 743 | 66.7 | 42.4 | 45 | 44 |
| Llanarmon yn Iâl | | 167 | 638 | 257 | 1062 | 1,078 | 49.0 | 25.5 | 25 | 25 |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd | | 78 | 502 | 207 | 787 | 847 | 46.0 | 31.0 | 32 | 28 |
| Llandegla | | 97 | 378 | 92 | 567 | 508 | 49.7 | 27.1 | 34 | 28 |
| Llandrillo | | 80 | 355 | 145 | 580 | 584 | 61.2 | 59.2 | 61 | 64 |
| Llandyrnog | | 199 | 691 | 206 | 1096 | 971 | 62.6 | 33.1 | 35 | 34 |
| Llanelidan | | 47 | 219 | 39 | 305 | 317 | 53.4 | 44.9 | 44 | 49 |
| Llanfair Dyffryn Clwyd | | 150 | 666 | 237 | 1053 | 1,058 | 60.0 | 47.7 | 50 | 58 |
| Llanferres | | 111 | 577 | 139 | 827 | 678 | 40.7 | 20.1 | 21 | 21 |
| Llangollen | | 473 | 2263 | 922 | 3658 | 3,404 | 59.3 | 19.5 | 19 | 20 |
| Llangynhafal | | 86 | 387 | 161 | 634 | 660 | 59.9 | 37.2 | 37 | 35 |
| Llanrhaeadr yng Nghimeirch | | 177 | 600 | 261 | 1038 | 1,095 | 69.7 | 51.2 | 61 | 62 |
| Llandysilio | | 47 | 278 | 96 | 421 | 476 | 52.0 | 24.7 | 26 | 32 |
| Llanynys | | 157 | 488 | 117 | 762 | 779 | 68.4 | 47.8 | 52 | 55 |
| Gallt Melyd | | 436 | 1207 | 423 | 2066 | 217 | 48.7 | 15.1 | 19 | 14 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nantglyn | | 38 | 240 | 45 | 323 | 335 | 57.3 | 41.7 | 50 | 48 |
| Prestatyn | | 3082 | 10912 | 4587 | 18,581 | 18,497 | 48.7 | 15.1 | 16 | 11 |
| Rhuddlan | | 542 | 2213 | 954 | 3709 | 5,220 | 63.8 | 19.8 | 22 | 22 |
| Rhuthun | | 933 | 3333 | 1195 | 5461 | 4,298 | 67.8 | 41.7 | 43 | 44 |
| Llanelwy | | 528 | 2060 | 767 | 3355 | 3,492 | 63.8 | 22.9 | 24 | 20 |
| Trefnant | | 245 | 906 | 430 | 1581 | 1,386 | 60.7 | 28.0 | 33 | 31 |
| Tremeirchion | | 111 | 459 | 133 | 703 | 633 | 59.6 | 32.0 | 31 | 37 |
| Waen | | 31 | 160 | 50 | 241 | 254 | 62.2 | 24.4 | 34 | 38 |
| Y Rhyl | | 4651 | 15793 | 4705 | 25,149 | 24,887 | 54.7 | 14.2 | 15 | 11 |
| **Sir Ddinbych** | | **15757** | **58287** | **19690** | **93734** | **93,102** | **58.1** | **24.6** | | |

DRAFFT


Scale: 1: 160000
Date: 22/10/2013
Map Sheet:
1991
Cyfanswm Poblogaeth (Poblogaeth Siaradwyr Cymraeg)
Total Population (Welsh Speaking Population)
CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL
% siaradwyr Cymraeg / Welsh speakers
50 - 70
35 - 50
25 - 35
10 - 25
17132 (1885)
24911 (2740)
2397 (551)
3581 (788)
307 (95)
1712 (291)
3359 (672)
237 (90)
608 (225)
383 (157)
1340 (415)
305 (98)
325 (120)
763 (336)
8541 (3843)
929 (316)
604 (211)
620 (341)
625 (131)
1033 (640)
752 (211)
323 (155)
4994 (2197)
1043 (261)
458 (270)
596 (304)
223 (125)
1349 (782)
512 (143)
440 (180)
286 (140)
316 (180)
485 (335)
313 (180)
404 (129)
2374 (1377)
3470 (594)
537 (365)
518 (332)
Sir y Fflint
Flintshire
Conwy
Gwynedd
Wrecsam
Wrexham




Scale: 1: 160000
Date: 23/10/2013
Map Sheet:
2001
Cyfanswm Poblogaeth (Poblogaeth Siaradwyr Cymraeg)
Total Population (Welsh Speaking Population)
CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL
% siaradwyr Cymraeg / Welsh speakers
50 - 70
35 - 50
25 - 35
10 - 25
18497 (2960)
24887 (3733)
2565 (539)
4298 (903)
387 (120)
2103 (379)
3492 (838)
254 (86)
633 (196)
437 (144)
1386 (444)
334 (90)
332 (110)
Sir y Fflint
Flintshire
743 (334)
8808 (3523)
971 (340)
Conwy
660 (238)
779 (405)
678 (142)
1095 (668)
847 (271)
335 (168)
5220 (2245)
1078 (270)
489 (293)
610 (329)
232 (114)
1058 (529)
456 (196)
508 (168)
317 (139)
364 (218)
501 (346)
351 (176)
476 (124)
2397 (1222)
3404 (647)
536 (364)
Gwynedd
Wrecsam
Wrexham
584 (356)
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2013 Ordnance Survey 100023408

Scale: 1: 160000
Date: 23/10/2013
Map Sheet:

**2011**

**Cyfanswm Poblogaeth (Poblogaeth Siaradwyr Cymraeg)**
**Total Population (Welsh Speaking Population)**

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2013 Ordnance Survey 100023408

**Atodiad 2** Cysylltiadau rhwng Cynllun Gofodol Cymru a Pholisïau Cenedlaethol a CDLl Sir Ddinbych - Parchu Nodweddion Unigryw

| *Blaenoriaeth Cynllun Gofodol Cymru* | *Polisi Cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 9 a Nodiadau Cyngor Technegol)* | *Gweledigaeth y CDLl* | *Amcanion y CDLl* | *Polisi Lleol* | *Dyraniadau Tir* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal: Cymru Gyfan** | | | | | |
| Cadw a meithrin treftadaeth adeiledig a mannau i hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth | PCC 4.8 - Rhwystrau Glas<br>PCC 4.7 – Lleoli datblygiadau newydd<br>PCC 6.4, 6.5 – Amgylchedd Hanesyddol<br>PCC 4.12 – Cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy<br>PCC 4.11 – Dylunio da<br>TAN 12 – Dylunio | "...bydd yr amgylchedd o ansawdd uchel yn parhau i gael ei amddiffyn a'i wella trwy gyfeirio datblygiad tuag at ganolfannau sy'n bodoli eisoes... bydd safonau dylunio wedi eu gwella, gan wella amgylchedd safon uchel naturiol ac adeiledig y sir." | Amcan 14: Dylunio<br>Amcan 16: Ardaloedd i'w Gwrachod | PNU 1 – Datblygu cynaliadwy a dylunio o safon dda<br>PNU 2 – Rhwystrau Glas<br>PNU 3 - Estyn, addasu ac amnewid anheddau presennol | Rhwystrau Glas |
| Hyrwyddo'r Gymraeg i greu cymunedau dwyieithog | PCC 4.13 – Cefnogi'r Gymraeg<br>TAN 20 – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg | "...gyda chydnabyddiaeth lawn bod gennym iaith Gymraeg gref a diwylliant y dylid eu cynnal a'u gwarchod ledled y sir" | Amcan 7: Y Gymraeg | PNU 5 – Y Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau | Amh. |
| Hyrwyddo nodweddion unigryw drwy fentrau cynaliadwy a dylunio da | PCC 4.12 – Cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy<br>PCC 4.11 – Dylunio da<br>TAN 12 – Dylunio | "...bydd yr amgylchedd o ansawdd uchel yn parhau i gael ei amddiffyn a'i wella... bydd safleoedd datblygu newydd yn dangos lefelau uchel o ddatblygu | Amcan 14: Dylunio | PNU 1 – Datblygu cynaliadwy a dylunio o safon dda<br>PNU 3 - Addasiadau ac estyniadau i anheddau | Amh. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | cynaliadwy... bydd safonau dylunio wedi eu gwella, gan wella amgylchedd safon uchel naturiol ac adeiledig y sir.” | | PNU 4 - Amnewid anheddau presennol | |
| **Ardal: Gogledd Ddwyrain Cymru** | | | | | |
| Adeiladu ar natur amrywiol, amgylchedd hanesyddol a thirwedd o safon uchel | PCC 4.8 – Rhwystrau Glas<br>PCC 4.7 – Lleoli datblygiadau newydd<br>PCC 6.4, 6.5 – Amgylchedd Hanesyddol<br>PCC 4.12 – Cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy<br>PCC 4.11 – Dylunio da<br>TAN 12 – Dylunio | “...bydd yr amgylchedd o ansawdd uchel yn parhau i gael ei amddiffyn a’i wella... bydd safleoedd datblygu newydd yn dangos lefelau uchel o ddatblygu cynaliadwy... bydd safonau dylunio wedi eu gwella, gan wella amgylchedd safon uchel naturiol ac adeiledig y sir.” | Amcan 14: Dylunio<br>Amcan 16: Ardaloedd i’w Gwrachod | PNU 1 – Datblygu cynaliadwy a dylunio o safon dda<br>PNU 2 – Rhwystrau Glas<br>PNU 3 - Addasiadau ac estyniadau i anheddau<br>PNU 4 - Amnewid anheddau presennol | Rhwystrau Glas |
| Meithrin a manteisio ar y Gymraeg fel elfen o dreftadaeth ddiwylliannol | PCC 4.13 – Cefnogi’r Gymraeg<br>TAN 20 – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg | “...gyda chydnabyddiaeth lawn bod gennym iaith Gymraeg gref a diwylliant y dylid eu cynnal a’u gwarchod ledled y sir” | Amcan 7: Y Gymraeg | PNU 5 – Y Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau | Amh. |

DRAFT

Atodiad B

# Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych

DRAFT

## Papur Gwybodaeth: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy

Cynllunio Strategol a Thai
Rhagfyr 2017

| Cynnwys | | Tudalen |
|---|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cefndir** | **4** |
| 1.1 | Diben y ddogfen hon | 4 |
| 1.2 | Cyflwyniad i'r thema 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy' | 4 |
| **2.** | **Y Cyd-destun Polisi** | **5** |
| 2.1 | Cyflwyniad | 5 |
| 2.2 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 5 |
| 2.3 | Polisïau Cynllunio Cenedlaethol | 6 |
| 2.4 | Cynllun Gofodol Cymru (2008) | 10 |
| 2.5 | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (2017) | 11 |
| 2.6 | Cynlluniau a Strategaethau Perthnasol Eraill | 12 |
| 2.7 | Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych | 12 |
| 2.8 | Strategaeth Dai Sir Ddinbych | 12 |
| 2.9 | Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd | 12 |
| 2.10 | Asesiad o'r Farchnad Dai Leol | 13 |
| 2.11 | Astudiaeth o Hyfywedd Tai Fforddiadwy | 13 |
| 2.12 | Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Ddinbych | 13 |
| 2.13 | Awdurdodau Lleol Cyfagos | 13 |
| **3.** | **Adolygiad Sylfaenol** | **14** |
| 3.1 | Cyflwyniad | 15 |
| 3.2 | Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd y CDLl Cyfredol | 16 |
| 3.3 | Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd wedi'u Diweddaru | 16 |
| 3.4 | Cynnydd o ran Cyflawni Twf Tai | 17 |
| 3.5 | Dosbarthiad y Twf | 18 |
| 3.6 | Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan | 19 |
| 3.7 | Tai Fforddiadwy | 19 |
| 3.8 | Llety Sipsiwn a Theithwyr | 21 |
| 3.9 | Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd | 21 |
| 3.10 | Sicrhau Cyfraniadau Seilwaith ar Datblygiadau Newydd | 22 |
| 3.11 | Adloniant a Mannau Agored Cyhoeddus | 23 |
| 3.12 | Cyfleusterau Cymunedol | 24 |
| **4.** | **Fframwaith Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLl** | **25** |
| 4.1 | Cyflwyniad | 25 |
| 4.2 | Perfformiad polisïau lleol yn thema 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy' y CDLl | 25 |
| **5.** | **Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd** | **27** |
| 5.1 | Cyflwyniad | 27 |


DRAFT

5.2 Arfarniad o Gynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu) 28

5.3 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Sgriniad) 28

**6. Cyfeiriadau 29**

**Atodiad 1 – Cysylltiadau â Pholisïau Cenedlaethol a Lleol**
**Atodiad 2 – Alldro Tai Fforddiadwy 2006 - 2016**


DRAFFT

# 1. Cefndir

## 1.1 Diben y ddogfen hon

1.1.1 Lluniodd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) 'Bapurau Gwybodaeth' i ategu'r pum thema newydd yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) ym mis Awst 2011. Diben y dogfennau hyn oedd crynhoi data sylfaenol, tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol a oedd yn gysylltiedig â datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo. Cafodd y CDLl ei fabwysiadu wedyn yn 2013, ac roedd yn cynnwys y themâu canlynol:

- Parchu Gwahanolrwydd (RD)
- Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy (BSC)
- Hyrwyddo Economi Cynaliadwy (PSE)
- Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd (VOE), a hefyd
- Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy (ASA).

Caiff y talfyriad o bob thema ei adlewyrchu yn enwau polisïau lleol i grwpio testunau cysylltiedig ac er mwyn rhwyddineb cyfeirio.

1.1.2 Mae rhwymedigaeth ar CSDd i adolygu ei chynllun defnydd tir mabwysiedig o leiaf bob pedair blynedd o'r flwyddyn y cafodd ei fabwysiadu yn unol ag Adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae hyn yn cynnwys adolygu Amcanion y CDLl, Themâu'r CDLl, a pholisïau lleol ar sail newid cyd-destunol sylweddol, pryderon sylweddol o ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB), a chyfrifoldebau cyfreithiol eraill sy'n cael effaith ar berfformiad y CDLl.

1.1.3 Mae'r Cyngor newydd ddechrau ar y broses o adolygu'r CDLl. Ar y cam hwn nid oes diwygiadau drafft i Amcanion y CDLl, Themâu'r CDLl na pholisïau lleol. Mae'r rhan fwyaf o'r testun yn ymwneud â deddfwriaeth, strategaethau a rhaglenni, dadansoddiadau ystadegol, a pherfformiad polisïau a nodwyd yn yr AMB, ynghyd ag effaith bosibl ar bolisïau mabwysiedig y CDLl. Bwriad y Cyngor yw y bydd y Papurau Gwybodaeth hyn yn 'ddogfennau byw'; h.y. eu bod yn cael eu diweddaru â thystiolaeth a gwybodaeth wrth i'r CDLl newydd symud ymlaen trwy'r camau unigol sy'n rhan o baratoi'r Cynllun.

## 1.2 Cyflwyniad i'r thema "Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy''

1.2.1 Mae Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy (BSC) yn ymwneud â darparu tai a chyfleoedd cyflogaeth ynghyd â hamdden, mynd i'r afael ag amddifadedd ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae tai yn un o'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant pobl. Mae darparu cyfleoedd ar gyfer tai ar y raddfa gywir a'r cyfuniad cywir ohonynt i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n tyfu, gan gynnwys darparu tai fforddiadwy, yn ystyriaethau allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

DRAFT

Mae'r thema BSC yn cynnwys ystod o destunau. Yn eu plith mae'r canlynol:

- Strategaeth twf tai ar gyfer Sir Ddinbych, gan gynnwys dyraniadau tai yn y ddinas ac mewn trefi a phentrefi;
- Darparu tai fforddiadwy;
- Sicrhau cyfraniadau seilwaith ar ddatblygiadau newydd;
- Blaenoriaeth datblygu tir llwyd;
- Adloniant a mannau agored; a hefyd
- Cyfleusterau cymunedol.

## 2. Y Cyd-destun Polisi

### 2.1 Cyflwyniad


2.1.1 Ceir peth wmbredd o bolisïau a fframweithiau cenedlaethol, cynlluniau rhanbarthol, a strategaethau lleol sydd nid yn unig wedi bod yn sail i lunio'r CDLl ond sydd hefyd yn cael effaith ar gyflawni cynigion datblygu unigol. Diben yr adran hon yw adolygu llinell sylfaen y ddogfen, h.y. adnabod newidiadau i ddogfennau presennol, asesu effeithiau dogfennau sy'n newydd neu sy'n dod i'r amlwg, ac amlygu anghysonderau posibl â pholisïau lleol mabwysiedig. Bydd hyn yn gam hollbwysig cyn trafod diwygiadau i bolisïau lleol yng ngoleuni amgylchiadau lleol newidiol.

2.1.2 Mae disgwyl i Gynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru integreiddio â deddfwriaeth arall, a strategaethau a chynlluniau eraill a.y.b. heb ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol yn ddiangen. Caiff polisi cenedlaethol ei nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru, a ategir gan nifer o Nodiadau Cyngor Technegol.

### 2.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

2.2.1 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus megis Cyngor Sir Ddinbych ystyried nid dim ond anghenion presennol cymunedau lleol ond hefyd sut y bydd eu penderfyniadau'n effeithio ar bobl yn y dyfodol. Caiff y Cyngor ei herio'n bennaf i weithio tuag at bob un o'r saith nod llesiant sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf: (1) Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; (2) Cymru lewyrchus; (3) Cymru gydnerth; (4) Cymru iachach; (5) Cymru sy'n fwy cyfartal; (6) Cymru o gymunedau cydlynus; a (7) Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

2.2.2 Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor, a ategir gan ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, i roi egwyddorion datblygu cynaliadwy ar waith ym mhob proses benderfynu. Cyflawnir hyn trwy ymlynu wrth 'amcanion llesiant' a bennwyd yn lleol i gyrraedd y saith nod llesiant a ddiffiniwyd yn genedlaethol.




Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu'r pecyn cymorth 'Asesu Effaith ar Lesiant' er mwyn cydymffurfio â darpariaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae wedi'i fwriadu i gynorthwyo'r penderfynydd i werthuso cynnig penodol yng ngoleuni'r nodau llesiant. Yn unol â hynny, bydd yr holl elfennau sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl newydd yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ar lesiant ac, os yw'n ofynnol, byddant yn cael eu diwygio yn unol ag argymhellion sy'n deillio o'r asesiad.

## 2.3 Polisïau Cynllunio Cenedlaethol

2.3.1 Caiff polisi cynllunio cenedlaethol ei nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC), sy'n cynnwys y Polisi Cynllunio Mwynau Cymru a gyhoeddwyd yn flaenorol ym Mhennod 14, ac fe'i hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau. Mae Llywodraeth Cymru yn aml yn cyhoeddi 'Llythyrau Egluro Polisi' fel y'u gelwir, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ynghylch testunau penodol.

2.3.2 Ar wahân i ddarparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y lefel leol, gall polisi cenedlaethol fod yn berthnasol yn uniongyrchol i gynigion cynllunio y caiff penderfyniadau eu gwneud yn eu cylch gan Weinidogion Cymru, gan Arolygwyr Cynllunio mewn apeliadau cynllunio, neu yn niffyg unrhyw bolisi lleol perthnasol. Mae hefyd yn darparu llinell sylfaen ar gyfer adnabod unrhyw newidiadau mewn polisi cenedlaethol a'r effeithiau tebygol ar y CDLl newydd.

2.3.3 PCC yw'r ffynhonnell gwybodaeth fwyaf arwyddocaol wrth ddrafftio polisïau lleol. Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn nodi'r gofyniad na ddylai CDLliau ailadrodd polisi cenedlaethol ond y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno'u hategu o bosibl lle mae amgylchiadau lleol yn mynnu dehongliad lleol penodol o bolisi. Mae Tabl 1 yn nodi'r polisïau cenedlaethol hynny yr ystyrid eu bod yn berthnasol ar adeg llunio'r thema 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy' a pholisïau lleol cysylltiedig ar gyfer y CDLl. Mae hefyd yn darparu llinell sylfaen ar gyfer adnabod unrhyw newidiadau posibl mewn polisi cenedlaethol a'r effeithiau posibl ar y polisi lleol mabwysiedig.

DRAFT

2.3.4 Mae **Nodyn Cyngor Technegol 1: Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai** (2015) yn rhoi arweiniad ar baratoi Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Diben yr astudiaethau hyn yw darparu datganiad y cytunwyd arno o argaeledd tir preswyl i'w ddatblygu at ddibenion cynllunio datblygu a rheoli datblygu.
Mae'n adlewyrchu'r gofyniad ym mholisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru bod awdurdodau cynllunio lleol yn sicrhau bod digon o dir ar gael o ddifrif i ddarparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn nodi sut y mae'n rhaid i'r cyflenwad o dir oleuo'r strategaeth a gynhwysir yn y cynllun datblygu a'r broses o'i monitro wedyn trwy Adroddiadau Monitro Blynyddol.

2.3.5 Mae **Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy** (2006) yn rhoi arweiniad ynghylch rôl y system gynllunio o ran cyflawni tai fforddiadwy. Diben yr astudiaethau hyn yw darparu datganiad y cytunwyd arno o argaeledd tir preswyl i'w ddatblygu at ddibenion cynllunio datblygu a rheoli datblygu.
Mae'n adlewyrchu'r gofyniad ym mholisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru bod awdurdodau cynllunio lleol yn sicrhau bod digon o dir ar gael o ddifrif i ddarparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn nodi sut y mae'n rhaid i'r cyflenwad o dir oleuo'r strategaeth a gynhwysir yn y cynllun datblygu a'r broses o'i monitro wedyn trwy Adroddiadau Monitro Blynyddol.

2.3.6 Mae **Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy** (2010) yn rhoi arweiniad ynghylch sut y gall y system gynllunio gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy. Mae'n rhoi cyngor ynghylch meysydd megis cymunedau ac economïau gwledig cynaliadwy, tai fforddiadwy gwledig, anheddau ar gyfer busnesau gwledig, datblygiadau un blaned, gwasanaethau gwledig cynaliadwy ac amaethyddiaeth gynaliadwy.

2.3.7 Mae **Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored** (2009) yn rhoi arweiniad ynghylch cynllunio ar gyfer darpariaeth chwaraeon, hamdden a mannau agored fel rhan o gynigion ar gyfer datblygiadau newydd.
Mae'n rhoi cyngor ynghylch y maes yma gan gynnwys cyngor ynghylch paratoi Asesiadau o Fannau Agored, cadw cyfleusterau presennol, darparu cyfleusterau newydd a chynllunio ar gyfer rhandiroedd a mannau i blant a phobl ifanc chwarae ynddynt.
Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn trafod materion rheoli datblygu sy'n ymwneud â dylunio cyfleusterau a mannau, a sŵn a hygyrchedd. Mae hefyd yn ystyried sut y gall cytundebau cynllunio helpu i sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu darparu ac yn cael eu cynnal a'u cadw.

2.3.8 Mae **Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth** (2007) yn disgrifio sut i integreiddio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth. Mae'n egluro sut y dylai effeithiau trafnidiaeth gael eu hasesu a'u lliniaru. Mae'n cynnwys cyngor ynghylch materion sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth wrth gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd gan gynnwys integreiddio rhwng cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth, lleoliad datblygiad, parcio a dyluniad y datblygiad.

2.3.9 Mae **Cylchlythyr 30/2007 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr'** yn rhoi arweiniad ynghylch yr agweddau ar ddod o hyd i safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymwneud â chynllunio a sut y gall awdurdodau lleol a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyrraedd y nod yma.

2.3.10 **Tabl 1 Y cyswllt rhwng polisi cynllunio cenedlaethol a thema 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy' y CDLl**

| Polisi Cenedlaethol (gan gyfeirio at PPC - Rhifyn 9) | Ble y mae'n cael sylw yn y CDLl? | Unrhyw newidiadau'n ofynnol i gydymffurfio â Pholisi Cenedlaethol? | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Strategaeth Anheddu Gynaliadwy: lleoli datblygiadau newydd (para. 4.7)<br><br>Strategaeth Anheddu (para 9.2.5)<br><br>Yr angen am dai fforddiadwy (para 9.2.14)<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 1 – Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2012<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 2, Cynllunio a Thai Fforddiadwy 2006<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 6, Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy 2010<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth 2007 | BSC 1: Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych<br>BSC 2: Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd.<br>BSC 4: Tai Fforddiadwy<br>BSC 5: Safle Strategol Allweddol – Bodelwyddan<br>BSC 6 – Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn Pentrefannau<br>BSC 8: Safleoedd Eithriadau Gwledig<br>BSC 9: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain | Nid oes gofyniad i newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd gyda holl themâu'r CDLl gan fod y Strategaeth Dwf yn ganolog i'r Cynllun. |
| Datblygiadau yng nghefn gwlad (4.7.7 & 4.7.8) | BSC 1: Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych | BSC 1: Bydd angen i bentrefi a | Mae polisïau lleol yn cael eu cefnogi a'u rhoi ar waith ar y cyd |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nodyn Cyngor Technegol 1 – Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2012<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 2, Cynllunio a Thai Fforddiadwy 2006<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 6, Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy 2010 | BSC 6 – Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn Pentrefannau<br>BSC 8: Safleoedd Eithriadau Gwledig<br>BSC 9: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain | phentrefannau gael eu hailasesu i wirio hygyrchedd trwy ddulliau heblaw'r car yng ngoleuni newidiadau i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. | â thema 'Hyrwyddo Economi Cynaliadwy' y CDLl. |
| Ffafrio ailddefnyddio tir (Para 4.9) | BSC 2: Blaenoriaeth datblygu tir llwyd. | Nid oes gofyniad i newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Mae polisïau lleol yn cael eu rhoi ar waith ar y cyd â themâu 'Hyrwyddo Economi Cynaliadwy', 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd, a 'Parchu Gwahanolrwydd' y CDLl. |
| Yr angen am dai fforddiadwy (para 9.2.14)<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 2, Cynllunio a Thai Fforddiadwy 2006<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 6, Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy 2010 | BSC 4: Tai Fforddiadwy<br>BSC 6 – Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn Pentrefannau<br>BSC 8: Safleoedd Eithriadau Gwledig<br>BSC 9: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain | Nid oes gofyniad i newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | |
| Sicrhau y darperir seilwaith (PCC 3.5) | Polisi BSC 3: Sicrhau cyfraniadau seilwaith ar ddatblygiadau newydd | Nid oes gofyniad i newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Mae'r polisi hwn hefyd yn gorgyffwrdd â'r themâu 'Hyrwyddo Economi Cynaliadwy' a 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd'. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nodyn Cyngor Technegol 16 – Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored 2009 | Polisi BSC 11: Adloniant a Mannau Agored. | Nid oes gofyniad i newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Mae'r polisi hwn hefyd yn gorgyffwrdd â'r thema 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd'. |
| Cylchlythyr 30/2007 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr'<br><br>Yn ymgynghori ynghylch drafft diwygiedig ar hyn o bryd | Polisi BSC 10 – Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Bydd hynny'n ddibynnol ar gynnwys y cylchlythyr diwygiedig yr ymgynghorir yn ei gylch ar hyn o bryd. | |

## 2.4 Cynllun Gofodol Cymru

2.4.1 Nod y ddogfen hon, a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2004 ac a ddiweddarwyd wedyn ym mis Gorffennaf 2008, oedd gweithredu blaenoriaethau polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru a oedd wedi'u nodi yn *Cymru'n Un: Agenda Flaengar ar gyfer Cymru*. Roedd y ffocws ar gysylltu gweithgareddau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; gan ddarparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio. Amcan y ddogfen oedd rhoi pwyslais cryf ar weithredu'r egwyddor 'datblygu cynaliadwy' yn holl brosesau penderfynu'r sector cyhoeddus.

2.4.2 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (adran 62) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru wrth baratoi eu priod gynlluniau datblygu lleol. Mae hynny'n golygu bod CGC wedi ateb sawl diben yn y broses o baratoi cynllun Sir Ddinbych: (1) fe ddarparodd dystiolaeth; (2) fe ddylanwadodd ar bolisïau lleol; (3) fe sicrhaodd ymgysylltu a llywodraethu gwell rhwng cyrff; (4) fe oleuodd Gynlluniau; ac felly (5) fe aliniodd ddarpar fuddsoddiadau yn yr ardal.

2.4.3 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn rhannu Cymru'n chwe is-ranbarth; ac yn amlinellu eu perthnasoedd trawsffiniol. Yn unol â hynny mae rhannau unigol o Sir Ddinbych wedi cael eu neilltuo i ranbarth Gogledd Ddwyrain Cymru a Chanol Cymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod cysylltiadau cryf hefyd â rhanbarth Gogledd Orllewin Cymru. Mae pob un o'r chwe is-ranbarth, h.y. ardaloedd y cynllun gofodol, yn cael ei broffilio yn ôl aneddiadau allweddol, dosbarthiad y boblogaeth o fewn y rhanbarth, canolfannau economaidd-gymdeithasol, lleoedd â gweithgareddau economaidd a.y.b.

2.4.4 Er mwyn alinio Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych â Chynllun Gofodol Cymru, penderfynodd y Cyngor strwythuro'i gynllun defnydd tir yn unol â'r pum thema yn CGC:

- Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy;
- Hyrwyddo Economi Gynaliadwy;
- Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd;

- Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy; a hefyd
- Parchu Gwahanolrwydd;

2.4.5 Mae system gynllunio Cymru yn mynd trwy gyfnod o newid. Bu deddfwriaeth sylfaenol newydd nid yn unig ym maes Cynllunio ond hefyd mewn meysydd sydd â chysylltiad agos â chynllunio, sef y dreftadaeth adeiledig a diogelu'r amgylchedd. Fe arweiniodd hyn (ac mae'n debygol o barhau i arwain) at gyflwyno rheoliadau, polisi cenedlaethol a nodiadau cyfarwyddyd isradd. Un newid pwysig i gynllunio strategol fydd cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru, sy'n mynd i ddisodli Cynllun Gofodol Cymru ymhen rhyw ddwy flynedd. Felly bydd angen i Sir Ddinbych roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru sydd ar fin cael ei ddisodli gan weithio ar yr un pryd tuag at gydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd wrthi'n datblygu wrth baratoi'r CDLl newydd ar gyfer y Sir.

2.4.6 Y prif flaenoriaethau yng Nghynllun Gofodol Cymru ar gyfer y thema Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a ystyriwyd oedd adnabod 'Canolfan' twf sydd wedi'i chanoli ar y Rhyl, Llanelwy, Bodelwyddan a Phrestatyn. Fe arweiniodd hyn at ddyrannu'r Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan, dyraniad defnydd cymysg ar gyfer oddeutu 1,700 o dai a 26 hectar o dir cyflogaeth yn ogystal ag ysgol gynradd newydd ac ystod o gyfleusterau cymunedol.

Roedd angen ystyried graddfa twf realistig ac roedd angen i'r cyrchfannau arfordirol wella'u harlwy hamdden. Cafodd Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen eu hadnabod fel prif glwstwr anheddu. Cafodd blaenoriaethau manwl eu hadnabod yn y diweddariadau i Gynllun Gofodol Cymru yn 2008.

## 2.5 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru

2.5.1 Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru, sy'n deillio o ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn darparu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ac yn rhoi cymorth i benderfynu ynghylch Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Roedd CGC yn ymwneud â'r egwyddor 'datblygu cynaliadwy', ac mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru yn mynd yn bellach o ran rhoi darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith.

2.5.2 Mae'r broses o baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru newydd ddechrau gyda galwad gan Lywodraeth Cymru am dystiolaeth a phrosiectau posibl y gellid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ynghylch y Materion, yr Opsiynau a'r Opsiynau a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ym mis Ebrill 2018, gydag ymgynghoriad ar Fframwaith drafft ym mis Gorffennaf 2019, ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020 ac mae disgwyl i'r ddogfen derfynol gael ei chyhoeddi ym mis Medi 2020.

2.5.3 Mae'n anodd nodi unrhyw effeithiau y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd i Gymru yn eu cael ar y CDLl diwygiedig gan mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd.

## 2.6 Cynlluniau a Strategaethau Perthnasol Eraill

2.6.1 Ceir nifer fawr o gynlluniau a strategaethau sydd â'r potensial i gael effaith ar y Cynllun Datblygu Lleol. Diben yr adran hon yw dangos sut y mae cynlluniau a strategaethau allweddol wedi cael eu cymryd i ystyriaeth yn ystod y broses o ddatblygu'r thema hon.

2.6.2 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 ei gynhyrchu ar sail cynlluniau, strategaethau neu raglenni cenedlaethol a rhanbarthol a oedd yn gyfredol ar y pryd. Efallai y bydd rhai wedi cael eu disodli, eu tynnu'n ôl neu wedi dod i ben. Mae'r paragraffau canlynol yn cyfeirio dim ond at y dogfennau hynny sy'n berthnasol yn 2017.

### 2.7 Cyngor Sir Ddinbych: Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych (2017-2022): 'Gweithio gyda'n gilydd er lles dyfodol Sir Ddinbych'

2.7.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu'r blaenoriaethau trosfwaol ar gyfer cyfnod y Cyngor. Caiff y blaenoriaethau eu cefnogi, eu gweithredu a'u darparu drwy nifer o strategaethau y mae CDLl yn offeryn hanfodol iddynt. Mae'r blaenoriaethau corfforaethol canlynol yn berthnasol i thema 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy' y CDLl:':

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i fagu annibyniaeth a chadernid
- Deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd
- Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

2.7.2 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru, a'i nod yw diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg ar hyd a lled Sir Ddinbych.

### 2.8 Strategaeth Dai Sir Ddinbych 2016 - 2021

2.8.1 Mae sicrhau mynediad at dai o ansawdd da'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ac yn hanfodol i lesiant trigolion Sir Ddinbych. Mae'r Strategaeth Dai'n darparu'r fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â hyn. Bwriad y Strategaeth Dai yw darparu datganiad eglur o weledigaeth a nodau'r Cyngor ar gyfer tai yn y Sir am y 5 mlynedd nesaf. Mae'n nodi'r heriau a'r materion allweddol sy'n effeithio ar y Sir a'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i helpu i oresgyn yr heriau hyn.

2.8.2 Mae'r strategaeth yn cynnwys nodau sy'n berthnasol i'r CDLl:

- cynyddu'r cyflenwad o gartrefi newydd o bob math a deiliadaeth fel a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol;
- Mae anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw;
- Gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gweithio gyda phartneriaid i gynyddu datblygiadau tai fforddiadwy i'r eithaf;

DRAFT

- Gwella'r rheolaeth ar y defnydd o barciau carafanau gwyliau at ddibenion preswyl.

## 2.9 Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd

2.9.1 Cafodd y strategaeth twf a gofodol ar y cyfan yn y CDLl mabwysiedig ei goleuo gan nifer o astudiaethau ac amcanestyniadau o dwf y boblogaeth ac aelwydydd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Ddinbych (Roger Tym & Partners 2005), ac Amcanestyniadau Aelwydydd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2006 a 2008. Y ffynonellau data a nodir uchod oedd yn sail i'r 500 annedd y flwyddyn y cytunwyd arnynt fel lefel y twf yn y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd lefel y twf yn y Cynllun Datblygu Lleol yn dal i fod islaw'r gofyniad blynyddol a amcangyfrifwyd o amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru ond roedd hyn yn ystyried gallu amgylcheddol y Sir a gallu'r diwydiant adeiladu yn lleol i adeiladu ar unrhyw gyfradd uwch.

Nid yw'r lefelau uchel o ran twf y boblogaeth ac aelwydydd a ragwelwyd gan yr amcanestyniadau hyn wedi dod yn wir. Mae lefelau mewnfudo net i'r Sir wedi gostwng yn sylweddol o'r rhai a ddefnyddiwyd i oleuo'r amcanestyniadau a oedd yn seiliedig ar 2008. Mae gwybodaeth am yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf a'r goblygiadau posibl ar gyfer y CDLl newydd i'w gweld yn Adran 3 – Adolygiad Sylfaenol.

**2.10** **Yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol** (Prifysgol Glyndŵr 2011), roedd yr astudiaeth hon yn bwrw golwg ar anghenion tai, y galw am dai a fforddiadwyedd tai a bydd yn cael ei diweddaru yn 2018.

**2.11** **Astudiaeth o Hyfywedd Tai Fforddiadwy** (Swyddfa'r Prisiwr Dosbarth 2009) Astudiaeth a oedd yn archwilio hyfywedd cyflawni tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych ar draws amrywiaeth o safleoedd dan amodau gwahanol yn y farchnad. Daeth yr astudiaeth hon i'r casgliad bod 10% o'r tai fforddiadwy yn hyfyw ar safleoedd datblygiadau preswyl newydd yn 2013. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddiweddaru i oleuo'r CDLl newydd.

**2.12** **Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Ddinbych**, adroddiad blynyddol sy'n darparu tystiolaeth o nifer y tai a gwblhawyd yn y sir, ynghyd ac amcanestyniadau o niferoedd a ragwelir yn y blynyddoedd sydd i ddod.

## 2.13 Awdurdodau Lleol Cyfagos

Er bod y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â Sir Ddinbych, mae gan y polisïau a'r camau gweithredu mewn awdurdodau lleol cyfagos y potensial i effeithio ar y Sir. Roedd yn hanfodol felly bod y rhain yn cael eu hystyried yn ystod y broses o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae gan Sir Ddinbych nifer o wahanol awdurdodau cyfagos, gan gynnwys Sir y Fflint, Wrecsam, Conwy, Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Phowys.

2.13.1 Roedd gweithio ar draws ffiniau'n rhan annatod o broses y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd hyn fwyaf amlwg yn ymarfer dosrannu rhanbarthol gogledd Cymru. Mae

awdurdodau cyfagos wedi cyrraedd camau amrywiol o ran paratoi eu CDLl fel a ddangosir yn Nhabl 2 isod:

**Tabl 2 – Cynnydd gyda chynlluniau datblygu Awdurdodau Lleol cyfagos**

| Awdurdod | Cam y CDLl[1] |
|---|---|
| CS y Fflint | Cam yr Opsiynau Strategol |
| CBS Wrecsam | Y cam cyn-adneuo |
| CBS Conwy | Adolygiad i ddechrau yn 2017 |
| Cyngor Gwynedd | Yn disgwyl am Adroddiad yr Arolygydd ar y CDLl ar y Cyd |
| Ynys Môn | |
| CS Powys | Archwilio |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Adolygiad wedi dechrau |

## 3. Adolygiad Sylfaenol

### 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Tra'r oedd yr adran flaenorol yn canolbwyntio ar bolisi a dogfennau strategol, diben y paragraffau canlynol yw dadansoddi unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd yn y Sir ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ym mis Mehefin 2013. Bydd y ddwy adran yn darparu tystiolaeth hollbwysig ar gyfer y camau nesaf o'r broses o baratoi'r Cynllun, pan fo'r Cyngor yn mynd i drafod newidiadau arfaethedig mewn mwy o fanylder.

3.1.2 Mae'r wybodaeth sylfaenol wedi cael ei rhannu'n destunau ar wahân, megis: amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd; strategaeth dwf; strategaeth ofodol; cyflawni tai fforddiadwy; mannau agored a chyfleusterau cymunedol er rhwyddineb cyfeirio.

### 3.2 Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd

3.2.1 Cafodd CDLl mabwysiedig Sir Ddinbych 2006 – 2021 ei oleuo'n wreiddiol gan amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd arbenigol ar gyfer y Sir[2] a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 2001 – 2021 ac yn defnyddio canlyniadau Cyfrifiad 2001 fel y llinell sylfaen. Roedd canlyniadau'r astudiaeth hon yn dynodi, yn seiliedig ar y duedd ymfudo yn y 10 mlynedd flaenorol (1992 – 2002, sef 860 o bobl y flwyddyn), bod twf aelwydydd yn y Sir yn debygol o gynyddu 21% (8,546 o aelwydydd) yn y cyfnod o 2001 – 2021. Roedd y twf hwn ar y cyfan yn trosi'n dwf aelwydydd blynyddol o 427 y flwyddyn. Y gwaith hwn oedd y man cychwyn ar gyfer datblygu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol mewn perthynas ag anghenion tai.

3.2.2 Yn 2009, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol, a oedd yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn 2006. Cafodd yr amcanestyniadau hyn eu paratoi gan ddefnyddio methodoleg

[1] Yn gywir ym mis Mehefin 2017
[2] Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Ddinbych – Roger Tym & Partners 2005



DRAFT

ddiwygiedig a oedd yn seiliedig ar y duedd ymfudo dros 5 mlynedd. Mynegwyd pryder ynghylch y cyfnod byr a ddefnyddiwyd ar gyfer ymfudo gan fod hyn yn cynrychioli cyfnod â llawer o symud sydd wedi arwain at amcanestyniadau sy'n sylweddol uwch nag unrhyw rai a luniwyd yn flaenorol. Fe arweiniodd yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2006 at ofyniad blynyddol rhagamcanol o 653 annedd y flwyddyn ar gyfer y CDLl.

Yn 2010, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd a oedd yn seiliedig ar 2008 ac a oedd yn dynodi angen blynyddol am oddeutu 530 annedd.

3.2.3 Roedd yr amcanestyniadau a oedd yn seiliedig ar 2006 yn dangos lefel ddisgwyliedig uwch o dwf yn y boblogaeth ac mewn aelwydydd. Roedd newid yn y fethodoleg rhwng y ddwy set o amcanestyniadau a oedd o rywfaint o gymorth i egluro'r gwahaniaeth. Roedd yr amcanestyniadau a oedd yn seiliedig ar 2008 yn defnyddio man cychwyn is a hefyd cyfraddau ymfudo is na'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer y ffigyrau a oedd yn seiliedig ar 2006. Roedd peth o'r newid hwn yn deillio o'r ffaith bod data mwy cywir ar gael ar symudiad myfyrwyr.

3.2.4 Y ffynonellau data a nodir uchod oedd yn sail i'r 500 annedd y flwyddyn (7,500 dros gyfnod y CDLl 2006 – 2021) y cytunwyd arnynt fel lefel y twf yn y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd lefel y twf yn y Cynllun Datblygu Lleol yn dal i fod islaw'r gofyniad blynyddol a amcangyfrifwyd o amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru ond roedd hyn yn ystyried gallu amgylcheddol y Sir a gallu'r diwydiant adeiladu yn lleol i adeiladu ar unrhyw gyfradd uwch.

## 3.3 Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd wedi'u Diweddaru

3.3.1 Mae newid yn y boblogaeth ac mewn aelwydydd yn deillio o newid naturiol; y cydbwysedd rhwng genedigaethau a marwolaethau yn y boblogaeth ac ymfudiad net yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n symud i mewn i'r Sir ac allan o'r Sir. Mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn defnyddio data ynghylch tueddiadau yn y gorffennol ac yna'n treiglo'r duedd honno ymlaen i ragfynegi beth allai ddigwydd o bosibl yn y dyfodol. Dylid nodi bod y rhain yn tybio y bydd elfennau o'r newid yn y boblogaeth yn aros yr un fath a hefyd nad ydynt yn ystyried unrhyw newidiadau polisi pwysig a allai ddylanwadu ar newid yn y boblogaeth.

### 3.3.2 Ymfudo

3.3.3 Ymfudiad net i mewn i Sir Ddinbych yw'r brif elfen o newid yn y boblogaeth ac mewn aelwydydd yn y Sir. Gall cyfradd yr ymfudiad net amrywio'n sylweddol dros gyfnod cymharol fyr. Mae gostyngiad mewn cyfraddau ymfudo i'w weld yn aml yn ystod cyfnod o dwf economaidd gwael. Mae'r dirywiad economaidd byd-eang wedi cael effaith sylweddol ar gyfraddau mewnfudo i Sir Ddinbych.

### 3.3.4 Newid yn y Boblogaeth ac mewn Aelwydydd

Mae Tabl 3 isod yn dangos y twf rhagamcanol yn y boblogaeth ar gyfer Sir Ddinbych

DRAFT

**Tabl 3 Twf Blynyddol Rhagamcanol y Boblogaeth**[3]

| Wedi'i Dalgrynnu | Twf Blynyddol y Boblogaeth |
|---|---|
| Tuedd ymfudo dros 5 mlynedd yn seiliedig ar 2008 | 590 |
| Tuedd ymfudo dros 5 mlynedd yn seiliedig ar 2015 | 120 |
| Tuedd ymfudo dros 10 mlynedd yn seiliedig ar 2015 | 270 |
| Tuedd ymfudo dros 15 mlynedd yn seiliedig ar 2015 | 410 |

3.3.5 Mae'r ffigyrau uchod yn dangos yn glir bod y twf rhagamcanol yn y boblogaeth gan ddefnyddio'r amcanestyniadau diweddaraf sy'n seiliedig ar 2015 yn sylweddol is na'r ffigyrau a oedd yn seiliedig ar 2008 y seiliwyd y CDLl cyfredol arnynt. Bydd hyn yn cael effaith ar dwf rhagamcanol aelwydydd a'r gofyniad am anheddau ar gyfer y CDLl newydd.

**3.3.6 Newid mewn Aelwydydd**

3.3.7 Pe bai lefelau'r boblogaeth yn aros yn sefydlog byddai cynnydd yn dal i ddigwydd yn nifer yr aelwydydd yn y Sir gan fod aelwydydd newydd yn cael eu creu am fod pobl ifanc yn gadael cartref neu am fod teuluoedd yn chwalu. Mae Tabl 4 isod yn dangos twf rhagamcanol aelwydydd yn y Sir.

3.3.8 **Tabl 4 Twf Rhagamcanol Blynyddol Aelwydydd**[4]

| Wedi'i Dalgrynnu | Twf Blynyddol Aelwydydd |
|---|---|
| Tuedd ymfudo dros 5 mlynedd yn seiliedig ar 2008 | 500 |
| Tuedd ymfudo dros 5 mlynedd yn seiliedig ar 2015 | 100 |
| Tuedd ymfudo dros 10 mlynedd yn seiliedig ar 2015 | 150 |
| Tuedd ymfudo dros 15 mlynedd yn seiliedig ar 2015 | 220 |

3.3.9 Mae'r twf rhagamcanol mewn aelwydydd yn y dyfodol ar gyfer Sir Ddinbych yn amrywio o un rhan o bump i ychydig yn llai na hanner y twf a ragamcanwyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig. Mae Tabl 5 isod yn trosi hyn yn ofyniad rhagamcanol am aelwydydd ar gyfer y CDLl newydd. Wrth drosi amcanestyniadau aelwydydd yn ofynion am anheddau, gwneir lwfans ar gyfer anheddau gwag ac ail gartrefi/tai haf o ryw 5.1%[5]. Y rheswm dros hyn yw bod angen darparu mwy o anheddau nag sydd o aelwydydd i ddarparu ar gyfer cyfraddau symudiad o fewn y farchnad dai ac i ddarparu ar gyfer cartrefu aelwydydd a allai fod yn 'gudd'. Mae hyn yn gyson â thueddiadau yn y gorffennol[6] ac yn cael ei gymhwyso i'r stoc anheddau yn ei chyfanrwydd. Mae

[3] Ffynhonnell: Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017
[4] Ffynhonnell: Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017
[5] 4.3% ar gyfer yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2008
[6] Mae Cyfrifiadau Poblogaeth 2001 a 2011 yn rhoi cyfraddau o 4.3% a 5.1% yn y drefn honno

Llywodraeth Cymru yn argymell lwfans cyfartalog tybiannol ledled Cymru o ryw 4%, gyda'r lwfans yn amrywio rhwng 1.5% ac 8% gan ddibynnu ar dystiolaeth leol[7].

3.3.10 **Tabl 5 Gofyniad Rhagamcanol Blynyddol am Anheddau[8]**


| **Wedi'i Dalgrynnu** | **Sir Ddinbych** |
|---|---|
| Tuedd ymfudo dros 5 mlynedd yn seiliedig ar 2008 | 530 |
| Tuedd ymfudo dros 5 mlynedd yn seiliedig ar 2015 | 100 |
| Tuedd ymfudo dros 10 mlynedd yn seiliedig ar 2015 | 160 |
| Tuedd ymfudo dros 15 mlynedd yn seiliedig ar 2015 | 230 |

3.3.11 Yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2015 fydd y man cychwyn ar gyfer datblygu strategaeth dwf y CDLl newydd.

## 3.4 Cynnydd o ran Cyflawni Twf Tai

3.4.1 Cafodd y CDLl cyfredol 2006 – 2021 ei fabwysiadu yn 2013, tua hanner ffordd drwy gyfnod y cynllun. Mae'r siart isod yn dangos lefel y tai a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y cynllun yn[9].

**Ffigur 1 – Tai a Gwblhawyd 2006 - 2017**




3.4.2 Nid yw'r cyfraddau cwblhau wedi cyrraedd y 500/flwyddyn sy'n ofynnol i gyrraedd y targed twf yn y CDLl cyfredol mewn unrhyw flwyddyn cyn, nac ers, ei fabwysiadu yn 2013. Mae cyfanswm o 2,243 o anheddau wedi cael eu cwblhau ers 2006 ar gyfartaledd o 204 y flwyddyn. Mae trafodaethau gyda datblygwyr a thirfeddianwyr wedi dynodi

[7] Ymateb Llywodraeth Cymru i sesiwn ar Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd a oedd yn rhoi sylw i dai, 15 Ionawr 2015

[8] Ffynhonnell: Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017 Defnyddiwyd cyfradd trosi aelwydydd yn anheddau o 94.9% (Cyfrifiad 2011).

[9] Ffynhonnell: Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Ddinbych 2006 - 2017

bod y galw yn yr ardal am dai newydd yn isel a bod cyfraddau cwblhau'n adlewyrchu'r galw hen a hefyd y dirywiad economaidd ehangach sy'n cael ei brofi'n genedlaethol.

3.4.3 Bydd angen i'r strategaeth dwf ar gyfer y CDLl cyfredol gael ei ailasesu yng ngoleuni'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig; a'r lefelau twf y dangoswyd bod modd eu cyflawni hyd yma.

### 3.5 Dosbarthiad y Twf

3.5.1 Roedd Strategaeth y CDLl a Pholisi BSC 1 'Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych' yn nodi hierarchaeth aneddiadau ar gyfer y Sir.

Adnabuwyd **Safle Strategol Allweddol** ym Modelwyddan ar hyd coridor yr A55. Roedd disgwyl i'r safle allweddol hwn ddarparu tua 1,700 o dai a 26 hectar o dir cyflogaeth ynghyd ag ystod o gyfleusterau cymunedol.

Adnabuwyd cyfres o **Drefi Twf Is** gan gynnwys Y Rhyl; Prestatyn; Llanelwy; Dinbych; Rhuthun a Chorwen. Cafodd Rhuddlan a Llangollen eu hychwanegu at yr haen hon yn yr hierarchaeth yn dilyn dyraniadau tai ychwanegol yn ystod cam archwilio proses y CDLl. Mae'r Trefi Twf Is hyn yn gweithredu fel canolfannau gwasanaethau lleol neu ranbarthol ac roedd disgwyl iddynt wneud cyfraniad sylweddol i ddiwallu anghenion tai'r Sir.

Adnabuwyd 31 o **Bentrefi** gyda dyraniadau tai i ddiwallu anghenion lleol yn bennaf. Adnabuwyd 27 o **Bentrefannau** fel aneddiadau cynaliadwy a allai ddarparu cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu tai anghenion lleol, fforddiadwy dan Bolisi BSC 6 – 'Tai fforddiadwy cysylltiad lleol mewn pentrefannau'.

Ystyrir bod gweddill y Sir yn Gefn Gwlad Agored. Byddai cyfraniadau at gyfanswm y tai yn yr ardaloedd hyn yn gyfyngedig i ddatblygiadau mewnlenwi ac addasu adeiladau gwledig. Mae polisïau BSC 9 'Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain' a PSE 4 – 'Ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig yng nghefn gwlad agored' yn berthnasol yma.

3.5.2 Mae Tabl 6 isod yn dangos dosbarthiadau tai a gwblhawyd dros gyfnod y CDLl, a'r rheiny wedi'u rhannu yn ôl haenau yn yr hierarchaeth aneddiadau.

3.5.3 **Tabl 6 Tai a Gwblhawyd yn ôl Haenau yn yr Hierarchaeth Aneddiadau**

| Strategaeth Dwf y CDLl | Nifer y Tai a Gwblhawyd | Canran (wedi'i thalgrynnu) |
|---|---|---|
| Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan | 0 | 0 |
| Trefi Twf Is, gan gynnwys Bodelwyddan gyffredinol, Llangollen a Rhuddlan | 1648 | 73 |
| Pentrefi | 241 | 11 |
| Pentrefannau | 28 | 1 |
| Cefn Gwlad Agored | 326 | 15 |
| **Cyfanswm** | **2243** | **100** |

3.5.4 Mae'r modd y cyflawnwyd tai wedi bod yn gyson i raddau helaeth â'r hierarchaeth aneddiadau a nodir yn y CDLl cyfredol. Mae dros 70% o dai newydd wedi cael eu

DRAFT

cyflawni yn y Trefi Twf Is, fel y prif ganolfannau gwasanaethau yn y Sir; dyma'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd gan eu bod yn cynnig ystod o wasanaethau a chyfleusterau sy'n hygyrch iawn.

**3.5.5 Strategaeth Ofodol**

3.5.6 Roedd y Strategaeth Ofodol yn y CDLl cyfredol yn cydgrynhoi twf yng ngogledd y Sir; cafodd hyn ei ddiffinio fel coridor yr A55 a'r ardal arfordirol. Adnabuwyd Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan ar hyd coridor yr A55 dan Bolisi BSC 5 yn y CDLl. Roedd y safle hwn i fod i ddarparu tua 1,700 o dai newydd, 26 hectar o dir cyflogaeth ac ystod o gyfleusterau cymunedol.

3.5.7 Dangosir dadansoddiad o ddosbarthiad gofodol tai a gwblhawyd dros gyfnod y CDLl (o 2006 i'r presennol) yn Nhabl 7 isod:

**Tabl 7: Dosbarthiad Gofodol Tai a Gwblhawyd**

| **Lleoliad** | **Nifer y Tai a Gwblhawyd** | **Canran (wedi'i thalgrynnu)** |
|---|---|---|
| Gogledd y Sir | 1220 | 54 |
| Ardal Ganolog | 728 | 32 |
| De'r Sir | 295 | 13 |
| **Cyfanswm** | **2243** | **99** |

3.5.8 Mae'r mwyafrif o ddatblygiadau tai, sef 54%, wedi bod yng ngogledd y Sir sy'n gyson â'r strategaeth ofodol yn y CDLl cyfredol.

3.5.9 Mae dosbarthiad daearyddol tai newydd a gyflawnwyd a'u rhaniad ar draws yr hierarchaeth aneddiadau wedi bod yn gyson â'r strategaeth yn y CDLl cyfredol. Mae hyn yn dangos bod y strategaeth ofodol yn gadarn yn y bôn a'i bod wedi bod yn effeithiol o ran cyflawni twf mewn modd wedi'i gynllunio.

## 3.6 Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan

3.6.1 Adnabuwyd Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan ar hyd coridor yr A55 dan Bolisi BSC 5 yn y CDLl. Roedd y safle hwn i fod i ddarparu tua 1,700 o dai newydd, 26 hectar o dir cyflogaeth ac ystod o gyfleusterau cymunedol. Cafodd briff datblygu safle[10] ar gyfer y safle ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2014 a rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ym mis Mawrth 2016 dan god 40/2013/1585 .

## 3.7 Tai Fforddiadwy

3.7.1 Mae Nodyn Cyngor Technegol 2 – Cynllunio a Thai Fforddiadwy 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys targed tai fforddiadwy yn eu cynlluniau datblygu a dynodi sut y bydd y targed hwn yn cael ei gyrraedd gan ddefnyddio dulliau polisi dynodedig. Mae Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer polisïau i gyflawni tai'r farchnad a thai fforddiadwy.

[10] http://www.denbighldp.co.uk/Webfiles/SPG/Bodelwyddan%20-%20Adopted%20Site%20Development%20Brief%20(English).pdf

3.7.2 Ceir angen dynodedig am dai fforddiadwy ledled y Sir, a bydd yr Asesiad o Farchnad Dai Leol Sir Ddinbych yn cael ei ddiweddaru yn 2018 i oleuo'r targed ar gyfer cyflawni yn y CDLl newydd. Mae Polisi BSC 4 'Tai Fforddiadwy' yn nodi'r targed i gyflawni 2,250 – 3,000 o gartrefi fforddiadwy dros gyfnod y cynllun o 2006 – 2021. Ceisir tai fforddiadwy yn ôl cyfradd o 10% ar hyn o bryd ar yr holl safleoedd datblygu â 3 neu fwy o unedau naill ai trwy ddarpariaeth ar y safle ar safleoedd â mwy na 10 uned neu drwy gyfraniad ariannol ar safleoedd â 3-9 uned. Mae'r polisi'n darparu ar gyfer cynnydd yng nghanran y tai fforddiadwy a geisir os bydd prisiau gwerthu tai'n codi 10% uwchlaw prisiau sylfaenol 2009. Cafodd y lefel hon o ran y cyfraniad a geisir ei phennu yn dilyn canlyniadau'r Astudiaeth o Hyfywedd Tai Fforddiadwy (Swyddfa'r Prisiwr Dosbarth 2009). Bydd yr astudiaeth hon yn cael ei diweddaru i oleuo lefel y cyfraniadau y gellir eu ceisio yn y CDLl newydd.

### 3.7.3 Tai Fforddiadwy mewn Ardaloedd Gwledig

3.7.4 Mewn ardaloedd gwledig mae datblygiadau tai fel arfer ar raddfa fach a gall llawer fod yn is na'r trothwy o 3 uned. Yn yr ardaloedd hyn rhoddwyd ystyriaeth i ddefnyddio dull gwahanol.

**3.7.5** **Safleoedd Eithriadau Gwledig** – Mae Polisi BSC 8 yn nodi y gall yr holl aneddiadau sydd â ffiniau datblygu wneud defnydd o'r polisi 'eithriadau gwledig' i ddarparu tai fforddiadwy yn ôl cyfradd o 100%. Gwnaed y polisi'n fwy hyblyg trwy alluogi safleoedd 'Eithriadau' i gael eu cyflwyno lle ceir safleoedd o fewn y ffiniau sydd heb eu datblygu ar yr amod y gellid cadarnhau bod y safleoedd hyn yn annhebygol o gael eu cyflwyno. Nid oes unrhyw safleoedd eithriadau gwledig wedi cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y cynllun hyd yma a dylai'r CDLl newydd ystyried a oes angen y polisi hwn o hyd.


3.7.6 Roedd y **Polisi Pentrefannau** – Polisi BSC 6 yn dosrannu lefel o dwf i bob un o'r aneddiadau dynodedig ac yn datgan y byddai angen i'r holl ddatblygiadau tai fod yn fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. O ystyried natur wasgaredig llawer o bentrefannau'r Sir, roedd y polisi hwn yn adnabod Ardal Chwilio yn ac o amgylch yr anheddiad presennol lle byddai datblygiadau'n cael eu caniatáu. Trwy gysylltu tai â'r angen lleol roedd y polisi hwn yn ceisio sicrhau bod anghenion pobl leol yn cael blaenoriaeth a bod tai gwledig yn gwneud cyfraniad at dai fforddiadwy. Mae cyfanswm o 3 uned o dai fforddiadwy wedi cael eu cyflawni trwy'r polisi hwn ers ei fabwysiadu yn 2013. O ystyried y nifer cyfyngedig o gartrefi newydd y mae'r polisi hwn wedi'u cyflawni a'r problemau a brofwyd gan ymgeiswyr o ran sicrhau cyllid i ddatblygu cartrefi sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy cysylltiad lleol dylid adolygu'r polisi hwn ar gyfer y CDLl newydd.

3.7.7 Roedd y Polisi **Mewnlenwi** – Polisi BSC 9 yn ehangu ar Bolisi Cenedlaethol sy'n darparu ar gyfer datblygu tai newydd cyfyngedig iawn o fewn grwpiau a chlystyrau bychain presennol. Er mwyn sicrhau bod pobl leol yn gallu parhau i fyw mewn ardaloedd gwledig roedd yr holl ddatblygiadau mewnlenwi i fod i gael eu cyfyngu i dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. Yn yr un modd â'r polisi Pentrefannau uchod, ychydig iawn o dai newydd y mae'r polisi hwn wedi'u cyflawni a dylid ei adolygu'n feirniadol ar gyfer y CDLl newydd.

DRAFT

3.7.8 Mae'r graff isod yn dangos y tai fforddiadwy a gyflawnwyd mewn perthynas â chyfanswm yr anheddau newydd a gyflawnwyd trwy'r system gynllunio. Mae cyfanswm o 481 o unedau o dai fforddiadwy wedi cael eu cyflawni ers 2006 trwy'r system gynllunio sy'n is na'r targed o 2,250 ym mholisi BSC 4. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, gan fod cyfanswm y tai a gwblhawyd ar y cyfan ymhell islaw'r 500 y flwyddyn sy'n ofynnol yn y CDLl cyfredol, mai 21% yw canran y tai fforddiadwy a gyflawnwyd. Mae hyn ddwywaith yn fwy na'r 10% sy'n ofynnol gan bolisi BSC 4. Mae'r Cyngor hefyd yn cyflawni tai fforddiadwy trwy fecanweithiau heblaw am y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol, gwaith i ddefnyddio cartrefi gwag unwaith eto a gwaith gyda phartneriaid tai megis landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae cyfanswm o 691 o unedau o dai fforddiadwy wedi cael eu cyflawni yn Sir Ddinbych ers 2006. Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn nodi'r Alldro Tai Fforddiadwy 2006 - 2016.

**Ffigur 2 – Cyflawni Tai Fforddiadwy**




## 3.8 Llety Sipsiwn a Theithwyr

3.8.1 Mae dealltwriaeth gynhwysfawr am anghenion a materion llety Sipsiwn a Theithwyr yn hanfodol i wneud penderfyniad a gynlluniwyd yn briodol ac osgoi'r problemau sy'n gysylltiedig â gwersylloedd ad hoc neu ddiawdurdod. Bydd asesiad a strategaeth llety i ddiwallu'r angen, os canfuwyd angen, yn gwneud cyfraniad mawr o ran cryfhau gallu awdurdodau lleol i ymateb yn gyflym ac yn gadarn i ddatblygiadau a gwersylloedd diawdurdod amhriodol ac yn helpu i osgoi gwersylloedd a datblygiadau diawdurdod yn y dyfodol.

3.8.2 Daeth asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd lle mae'r asesiad yn nodi angen, yn ofyniad statudol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Cafodd Adroddiad Asesu Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 Sir Ddinbych ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017, a daeth i'r casgliad bod angen am safle preswyl a safle dros dro neu fan aros yng ngogledd y Sir ac o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Tai (Cymru), mae'n ofynnol bod y Cyngor yn diwallu'r angen hwn.

3.8.3 Ystyrir bod y mater hwn yn fater rhanbarthol o ystyried symudiad Sipsiwn a Theithwyr ar hyd prif ffyrdd yng Ngogledd Cymru a'r swm cyfyngedig o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae canllawiau cenedlaethol newydd ynghylch Grant Cyfalaf ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn nodi bod awdurdodau lleol yn cael eu 'hannog i ystyried dull rhanbarthol mewn perthynas â datblygu safleoedd dros dro newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr'. Ac yntau wedi cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i'r asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, mae'r Cyngor yn gweithio tuag at ddiwallu'r anghenion dynodedig trwy ddarparu safleoedd.

## 3.9 Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd

3.9.1 Mae'r CDLl cyfredol yn cynnwys polisi sy'n ymwneud â blaenoriaeth i ailddefnyddio tir llwyd. Polisi BSC 2 Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd sy'n rhoi sylw i hyn. Cafodd tri safle penodol eu hadnabod dan y polisi hwn:


**Triongl Rhuddlan**: Cafodd briff datblygu safle ei baratoi a'i fabwysiadu ar gyfer y safle hwn ac mae archfarchnad newydd wrthi'n cael ei hadeiladu ar ran o'r safle ar hyn o bryd.

**Ocean Plaza gynt, Y Rhyl**: mae gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar y safle ar gyfer datblygiad manwerthu newydd mawr yn y Rhyl.

**Hen Waith Nwy Prestatyn**: mae rhan o'r safle'n cael ei hailddatblygu ar gyfer archfarchnad ar hyn o bryd.

3.9.2 Mae Tabl 8 isod yn dangos y ganran o dai a gwblhawyd ar safleoedd maes glas a thir llwyd yng nghyfnod y CDLl cyfredol.

**Tabl 8: Tai a Gwblhawyd ar Safleoedd Tir Llwyd a Maes Glas 2013 - 2017**



3.9.3 Mae Polisi BSC 2 'Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd' wedi cyflawni rhwng 51% ac 82% o ddatblygiadau tai newydd ar safleoedd tir llwyd ers mabwysiadu'r CDLl cyfredol yn 2013.

## 3.10 Sicrhau Cyfraniadau Seilwaith ar Ddatblygiadau Newydd

3.10.1 Mae Polisi BSC 3 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau wneud cyfraniadau seilwaith lle y bo angen. Gall y rhain gynnwys cyfraniadau ar gyfer tai fforddiadwy, mannau agored, addysg a chludiant ymhlith eraill. Cafodd y Canllawiau Cynllunio Atodol 'Rhwymedigaethau Cynllunio' eu mabwysiadu yn 2016, ac mae'r rhain yn darparu canllawiau manwl ynghylch y gofynion a'r mecanweithiau ar gyfer sicrhau cyfraniadau seilwaith.

## 3.11 Adloniant a Mannau Agored Cyhoeddus

3.11.1 Mae Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi asesiad o fannau agored yn seiliedig ar anghenion lleol ac archwiliad o'r ddarpariaeth gyfredol. Mae'r asesiad a gwblhawyd yn ddiweddar gan y Cyngor yn amlygu'r ardaloedd yn y Sir sydd â diffyg a digon o fannau agored o'u cymharu â'r safonau a nodir gan Feysydd Chwarae Cymru (Meysydd Chwarae Cymru, 2016). Bydd canlyniadau'r asesiad yn mynd tuag at oleuo Safonau Sirol newydd ar gyfer mannau agored.

3.11.2 Mae'n bwysig nodi, er nad oes unrhyw fannau agored wedi cael eu colli i ddatblygiadau newydd yn ystod cyfnod y cynllun, bod yr asesiad yn dangos diffyg ar y cyfan o ran mathau penodol o fannau agored ar hyd a lle Sir Ddinbych, gan gynnwys; darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, cyfleusterau chwaraeon awyr agored a pharciau a gerddi cyhoeddus. Fodd bynnag, oherwydd natur wledig y Sir, mae'n cynnwys digon o fannau gwyrdd amwynder a mannau gwyrdd naturiol a lled naturiol.

3.11.3 Cafodd ansawdd safleoedd ei asesu hefyd trwy broses ymgynghori helaeth ac archwiliadau o safleoedd. Fe amlygodd y broses hon ardaloedd yr oedd angen rhoi sylw iddynt a buddsoddi ynddynt i helpu i wella apêl a defnyddioldeb mannau agored. Mae astudiaethau wedi dangos bod creu a gwella mannau agored yn gallu gwella llesiant meddyliol a chorfforol grwpiau agored i niwed. Mae'r asesiad felly'n nodi bod angen diogelu mannau agored presennol a, lle bynnag y bo'n bosibl, darparu mannau agored newydd.

3.11.4 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol: Mannau Agored Cyhoeddus at Ddibenion Adloniant (2017) wedi cael eu paratoi yn dilyn yr asesiad hwn. Maent yn nodi'r trothwyon diwygiedig ar gyfer darparu mannau agored mewn datblygiadau newydd â 30 annedd neu fwy. Bydd angen i bolisi newydd adlewyrchu'r trothwyon diwygiedig hyn. Mae'r gofynion ar gyfer darparu mannau agored i'w gweld yn Nhabl 9 isod:

3.11.5 **Tabl 9: Gofynion ar gyfer darparu mannau agored**

DRAFT

| Mathau o fannau agored | Trothwy ar gyfer darpariaeth ar y safle | Trothwy ar gyfer cyfraniadau ariannol |
|---|---|---|
| Chwaraeon awyr agored, gan gynnwys caeau chwarae | 200 neu fwy o anheddau | 1- 200 annedd |
| Mannau chwarae wedi'u hofferu ar gyfer plant | 30 neu fwy o anheddau | 1 – 30 annedd |
| Mannau anffurfiol ar gyfer plant | 30 neu fwy o anheddau | 1 – 30 annedd |

3.11.6 Mae Polisi BSC 11 Adloniant a Mannau Agored wedi bod o fudd i ardaloedd gwledig y Sir, gan ei bod yn ofynnol i'r holl ddatblygiadau, beth bynnag fo'u maint, wneud cyfraniad at ddarparu mannau agored. Ceir ffafriaeth gref o blaid darpariaeth ar y safle yn y polisi, y mae angen ei adolygu. Byddai hyn yn sicrhau nad yw'n cael ei ffafrio yn lle cyfraniadau tuag at fannau agored oddi ar y safle yn yr ardal gyfagos a gwelliannau i safleoedd presennol a allai ddwyn budd ehangach i drigolion yr ardal.

3.11.7 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hefyd yn nodi canllawiau ar gyfer dyluniad a chynllun mannau agored newydd i sicrhau bod ardaloedd o fannau agored yn cael eu cynllunio a'u bod yn rhan annatod o'r cynllun preswyl. Mae'r canllawiau hyn yn darparu enghreifftiau o arfer gorau o ran mannau agored a chyfleusterau sydd wedi'u bwriadu i annog pobl i'w defnyddio a chreu profiadau gwell i drigolion y gallai datblygiadau newydd effeithio arnynt.

### 3.12 Cyfleusterau Cymunedol

Roedd y polisi'n ceisio cefnogi cynigion i ddatblygu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd er mwyn helpu i wneud cymunedau'n fwy cynaliadwy a gwella cydlyniant cymunedol. Roedd cyfleusterau cymunedol presennol i fod i gael eu gwarchod ac nid oedd defnyddiau eraill i fod i gael eu hystyried oni bai y gellid dangos yn glir bod y cyfleusterau yn anhyfyw. Roedd y polisi hwn yn gysylltiedig â pholisïau eraill megis BSC 3 – Sicrhau Cyfraniadau Seilwaith ar Ddatblygiadau Newydd lle gallai fod yn ofynnol gwneud cyfraniadau ariannol neu ddatblygu'r cyfleusterau eu hunain fel rhan annatod o ddatblygiadau newydd.

## 4. Fframwaith Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLl

### 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) ei fabwysiadu ar 4 Mehefin 2013. Mae'n darparu gweledigaeth eglur o ran sut y gall datblygiadau newydd fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan y Sir a ble, pryd a sut y gall datblygiadau newydd ddigwydd hyd at 2021.

4.1.2 Dan rwymedigaethau adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac adran 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae dyletswydd ar y Cyngor i baratoi adroddiad monitro blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi ar ei wefan.

4.1.3 Mae’r adran hon yn dwyn ynghyd ganfyddiadau am berfformiad polisi lleol ar sail adroddiadau monitro blynyddol ar y CDLl sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.

### 4.2 Perfformiad polisïau lleol yn thema ‘Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy’ y CDLl

4.2.1 Mae’r holl Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) wedi dynodi nad yw lefel y twf tai y darperir ar ei chyfer yn y CDLl wedi cael ei chyflawni. Mae lefelau’r tai a gwblhawyd a’r caniatadau yn sylweddol is na’r 500 y flwyddyn a ragwelwyd. Mae’r gyfradd twf uchel a ragwelwyd a’r lefelau isel o ran y tai a gyflawnwyd wedi golygu nad yw Sir Ddinbych yn gallu dangos cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. Mae hyn creu perygl y bydd y Sir yn wynebu datblygiadau ar hap ac y cefnir ar system rheoli datblygu a arweinir gan gynllun. Mae’r tai fforddiadwy a gyflawnir wedi syrthio islaw’r lefelau a ragwelwyd hefyd gan eu bod fel rheol yn cael eu darparu fel canran o dai’r farchnad ar safleoedd. Mae’r AMB wedi dod i’r casgliad y dylai’r strategaeth dwf a pholisïau BSC 1, BSC 4, BSC 6, BSC 8 a BSC 9 gael eu hadolygu yn y CDLl newydd.

4.2.2 Caiff pob adran isod ei hategu gan dabl sy’n rhoi trosolwg o ddangosyddion a lefelau sbarduno. Mae’r golofn olaf wedi’i labelu â’r enw ‘Crynodeb o Berfformiad’. Os yw’n cynnwys y testun ‘Nid yw’n ofynnol adolygu’r polisi lleol’ mae hynny’n golygu na fyddai adolygiad o’r polisi lleol yn ofynnol o ganlyniad i’r AMB.

### 4.2.3 Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych

4.2.4 Mae’r adran ‘Adolygiad Sylfaenol’ uchod yn amlygu’r newidiadau yn y rhagolygon o’r boblogaeth ac aelwydydd sydd wedi dod i’r amlwg ers mabwysiadu’r CDLl cyfredol yn 2013. Ceir gostyngiad sylweddol (tua 50%) yn y rhagolygon hyn a’r gofynion o ran anheddau o ganlyniad a fydd yn goleuo datblygiad y CDLl newydd. Mae’r gostyngiad yn y lefelau twf a brofwyd yn Sir Ddinbych yng nghyfnod y CDLl cyfredol o’i gymharu â’r lefelau a ragwelwyd wedi arwain at gyflawni llai o dwf tai nag a ragwelwyd. Mae’r lefelau is o ran twf tai ar y cyfan wedi effeithio ar gyflawni tai fforddiadwy yn ystod cyfnod y CDLl cyfredol hefyd. Mae Tabl 10 isod yn cyflwyno trosolwg o ddangosyddion monitro a lefelau sbarduno fel a nodir yn y Fframwaith Monitro Blynyddol.

4.2.5 **Tabl 10: AMB y CDLl – Strategaeth Dwf (gan gynnwys tai fforddiadwy)**

| Polisi yn y CDLl | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Crynodeb o Berfformiad |
|---|---|---|---|
| BSC 1 – Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych | Nifer y tai newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer; nifer y cartrefi newydd a gwblhawyd yn flynyddol | Yn achos y ddau ddangosydd: Llai na 500 y flwyddyn am 3 blynedd o’r bron yng Ngham 2 a llai na 750 y flwyddyn am 3 blynedd o’r bron yng Ngham 3 | Mae’r caniatadau cynllunio a roddwyd a’r tai a gwblhawyd wedi bod yn sylweddol is na’r lefelau targed sy’n ofynnol i gyflawni’r strategaeth dwf yn |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynnal y cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai | Cyflenwad llai na 5 mlynedd o dir ar gyfer tai | y CDLl cyfredol. Mae'r cyflenwad o dir ar gyfer tai wedi syrthio islaw 5 mlynedd ers mabwysiadu'r CDLl yn 2013. **Dylid adolygu'r strategaeth dwf a'r polisïau lleol ar gyfer y CDLl newydd.** |
| BSC 4 – Tai Fforddiadwy; BSC 6 – Pentrefannau; BSC 8 – Safleoedd Eithriadau Gwledig; BSC 9 – Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn Grwpiau Bychain | Cynyddu nifer yr anheddau fforddiadwy a gaiff eu hadeiladu yn y Sir. | Yn achos y ddau ddangosydd: Llai na 165 o anheddau fforddiadwy wedi'u caniatáu y flwyddyn am 3 blynedd o'r bron yng Ngham 2 a llai na 225 y flwyddyn am 3 blynedd o'r bron yng Ngham 3 | Mae'r caniatadau cynllunio a roddwyd a'r tai a gwblhawyd wedi bod yn sylweddol is na'r lefelau targed sy'n ofynnol i gyrraedd y targedau o ran tai fforddiadwy yn y CDLl cyfredol. **Dylid adolygu'r strategaeth dwf a'r polisïau lleol ar gyfer y CDLl newydd.** |
| BSC 10 – Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Diwallu anghenion sipsiwn a theithwyr | Lle mae angen am safleoedd parhaol a/neu dros dro wedi'i adnabod ar gyfer Sir Ddinbych yn yr Asesiad o Farchnad Dai Leol Gogledd Orllewin Cymru. Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau cyfagos i gychwyn chwiliad am safleoedd. Bydd safle addas yn cael ei ganfod a chaniatâd cynllunio'n cael ei roi o fewn 18 mis i gael Asesiad o Farchnad Dai Leol Gogledd Orllewin Cymru, os bydd yn nodi angen penodol. | Cafodd Adroddiad Asesu Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 Sir Ddinbych ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017. Mae hwn wedi disodli'r dangosydd a'r mecanwaith monitro yn y CDLl cyfredol a'r AMB.<br><br>**Dylai polisïau lleol a mecanweithiau monitro perthnasol gael eu hadolygu yn y CDLl newydd.** |

DRAFT

4.2.6 **Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd**

Mae dadansoddiad o ddata ynghylch tai a gwblhawyd mewn datblygiadau preswyl newydd yn dynodi bod cyfran sylweddol ohonynt yn cael eu cwblhau ar dir llwyd, sef 69% ar gyfartaledd ers mabwysiadu'r CDLl. Mae ailddefnyddio safleoedd tir llwyd mewn aneddiadau presennol ac addasiadau wedi cyfrannu'n sylweddol at hyn. Mae Tabl 11 isod yn cyflwyno trosolwg o ddangosyddion monitro a lefelau sbarduno fel a nodir yn y Fframwaith Monitro Blynyddol.

4.2.7 **Tabl 11 – AMB y CDLl – Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd**

| Polisi yn y CDLl | Dangosydd | Lefel Sbarduno | Crynodeb o Berfformiad |
|---|---|---|---|
| BSC 2 – Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd | Nifer y datblygiadau newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer ar safleoedd tir llwyd | Gostwng islaw 60% ar gyfer tai a chyflogaeth (heb gynnwys SSA Bodelwyddan) | Mae datblygiadau ar dir llwyd wedi bod yn uwch na 60% ar gyfartaledd ac nid yw'n ofynnol adolygu polisïau lleol ar gyfer y CDLl newydd. |

## 5. Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd

### 5.1 Rhagarweiniad

5.1.1 Mae gofyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol sef cynllun defnydd tir statudol i fod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA), Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), ynghyd ag Arfarniad Rheoli Cynefinoedd (HRA). Yn unol â chanllawiau cenedlaethol mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r ddau asesiad SA/SEA mewn un ddogfen, h.y. 'Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd'. Rôl Arfarniad o Gynaliadwyedd (ymgorffori Arfarniad Amgylcheddol Strategol) yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy trwy asesu ehangder y bydd y cynllun ar ei newydd wedd, wrth ei gymharu ag atebion rhesymol eraill, yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol perthnasol. Mae'r Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yn parhau fel dogfen ar wahân. Rôl yr Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yw asesu effaith debygol y Cynllun ar Safleoedd Wedi'u Dynodi yn Ewrop sy'n berthnasol (amddiffyn safleoedd natur a rhywogaethau dan gadwraeth).

5.1.2 Fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl mae canlyniadau'r cynigion datblygu a ganiatawyd yn ystod y flwyddyn yn ogystal â thystiolaeth eraill yn cael eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei weithredu mewn harmoni ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae cynaliadwyedd CDLl Sir Ddinbych yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o'r Fframwaith Monitro Blynyddol y CDLl. Mae'r adran ganlynol yn edrych ar fframwaith sgrinio Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoli Cynefinoedd er mwyn nodi unrhyw newid yn y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu elfennau unigol o'r CDLl.



DRAFT

5.1.3 Bydd yn rhaid i'r CDLl newydd gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yn effeithio ar sut y cyflawnir asesiadau SA / SEA yn y dyfodol i gefnogi'r Cynllun. Bydd gwybodaeth bellach ar gael wrth i'r Cynllun diwygiedig symud tuag at gael ei fabwysiadu.

## 5.2 Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu Rhagfyr 2017)

5.2.1 Mae'r Llawlyfr CDLl (Rhifyn 2 Awst 2015) angen i Awdurdodau sydd yn ymgymryd ag adolygiad o'u CDLl i ailystyried yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae angen cyflawni'r ailystyriaeth ar y cyd â drafftio'r Adroddiad Adolygu CDLl. Mae hynny cyn i'r gwaith o ddrafftio newidiadau ffurfiol i'r CDLl (CDLl i gymryd lle y fersiwn blaenorol). Mae'r canllaw yn amlinellu'r hyn sydd ei angen fel rhan o'r adolygiad ac mae'r camau hynny wedi'u hamlinellu isod:

- ystyried canlyniadau'r broses Monitro Blynyddol o'r Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys monitro os oes effeithiau sylweddol yn sgìl gweithredu'r cynllun datblygu;
- adolygu Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych presennol:
- Posibiliadau Arfarniad o Gynaliadwyedd – cynlluniau, polisïau a rhaglenni a diweddariad gwybodaeth sylfaenol;
- ystyried y prif newidiadau yn genedlaethol ac yn lleol ers mabwysiadu'r CDLl;
- ystyried yr Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd wrth ystyried y newidiadau y cynigir yn y CDLl diwygiedig.

5.2.2 Cyflwynwyd Atodiad F, Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad ar Bosibiliadau) fel drafft i ymgynghori arno ynghyd â'r Adroddiad Adolygu CDLl. Tydi'r ailystyriaeth heb ystyried y dylanwadau newydd a nodwyd fel rhan o Adroddiad Adolygu Sir Ddinbych ac o ganlyniad bu effeithiau cynaliadwyedd sylweddol. Daethpwyd i'r casgliad bod Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd i gyd yn parhau i fod yn berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar.

5.2.3 Cafwyd ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n rhan o'r ymgynghori statudol ar Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau defnyddio tir lleol, i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Ailystyried a Phosibiliadau CDLl Sir Ddinbych (21 Awst 2017 – 20 Hydref 2017). Cefnogwyd y canlyniadau bod Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn parhau i fod yn berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd gan groesawu bod y gwaelodlin presennol wedi cael ei ddiwygio i helpu gyda'r gwaith monitro ac ailystyried. Nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio'r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith o newid y CDLl. Nid oes ganddynt wrthwynebiad i ddefnyddio'r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer newid y CDLl.

## 5.3 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Rhagfyr 2017)

DRAFFT

5.3.1 Pwrpas ymarfer sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), gweler Atodiad G, oedd i edrych ar asesiadau HRA blaenorol a luniwyd i gefnogi'r CDLl a fabwysiadwyd; nodi newidiadau i safleoedd Ewropeaidd unigol ac edrych ar ba mor effeithiol oedd mesurau osgoi, canslo neu liniaru a awgrymwyd yn flaenorol. Nid oedd yr arfer wedi'i fwriadu ar gyfer llunio asesiad newydd o'r CDLl a fabwysiadwyd ond i ddysgu o brofiad blaenorol ac i nodi newidiadau a fyddai o bosib yn cael effaith ar waith yn y dyfodol.

5.3.2 Nid oes polisiau a dyraniadau tir lleol wedi eu cynnwys yn y CDLl sydd wedi arwain at effaith sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae mesurau a gynigir (lle bo hangen) i wrthbwyso'r effeithiau hyn yn weithredol ac effeithiol. Rhaid gwneud gwaith ymchwilio pellach i weld os oes cyfle i wella ansawdd yr aer yn ne'r Sir; gan ganolbwyntio ar leihau gwaddodion nitrogen.

5.3.3 Mae'r arferiad sgrîno wedi nodi bod yn rhaid i Arfarniadau Rheoli Cynefinoedd roi ystyriaeth i'r estyniad arfaethedig o Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl a'r wybodaeth newydd am Ardal Cadwraeth Arbennig Coedwigoedd Dyffryn Alun. Efallai y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar lunio polisi lleol a defnyddiau posib o dir yn yr ardal.

## 6. Cyfeiriadau


### Cenedlaethol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Llywodraeth Cymru (2013): Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
Llywodraeth Cymru (2008): Pobl, Lleoedd Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru - Diweddariad 2008
Llywodraeth Cymru (2016): Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 9
Llywodraeth Cymru (2015) Nodyn Cyngor Technegol 1: Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai
Llywodraeth Cymru (2006) Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy
Llywodraeth Cymru (2010) Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored
Llywodraeth Cymru (2007) Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth
Deddf Tai (Cymru) (2014) – Rhwymedigaeth o ran Sipsiwn a Theithwyr
Cylchlythyr 30/2007: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd) – newidiadau i statws Tai Amlfeddiannaeth

### Lleol

Cyngor Sir Ddinbych: Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych (2017- 2021)
Strategaeth Dai Sir Ddinbych 2016 - 2021
Amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd Sir Ddinbych (Roger Tym & Partners) 2005
Asesiad o Farchnad Dai Leol Sir Ddinbych (Prifysgol Glyndŵr 2011)
Astudiaeth o Hyfywedd Tai Fforddiadwy (Y Prisiwr Dosbarth 2009)

Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Ddinbych
Rhagolygon ar gyfer y boblogaeth, aelwydydd ac anheddau – Conwy CBC 2017
Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLl Sir Ddinbych

DRAFFT

**ATODIAD 1**

**Cysylltiadau rhwng Cynllun Gofodol Cymru a Pholisi Cenedlaethol a CDLl Sir Ddinbych – 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy'**

| Blaenoriaeth yn CGC | Polisi Cenedlaethol[11] | Gweledigaeth y CDLl | Amcan | Polisi | Dyraniadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan:** | | | | | |
| Cadw cymunedau cytbwys trwy sicrhau mynediad at dai fforddiadwy – i'w prynu neu i'w rhentu – mewn lleoliadau sy'n gyfleus ar gyfer gwaith a gwasanaethau lleol a thrwy sicrhau bod ystod o fathau o dai ar gael mewn amgylcheddau o ansawdd da. | PCC 4.7 – Strategaeth anheddu gynaliadwy<br>PCC 4.7 – Lleoli datblygiadau newydd<br>PCC 4.9 Ffafrio ailddefnyddio tir<br>TAN 1 – Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015<br>TAN 2 – Cynllunio a Thai Fforddiadwy 2006<br>TAN 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy 2010<br>TAN 15 – Datblygu a Pherygl Llifogydd 2004 | "…Bod gan Sir Ddinbych, trwy gyfrwng datblygiad cynaliadwy, arfordir trefol bywiog, gyda threfi marchnad ac ardaloedd gwledig sy'n ffynnu. Bydd anghenion tai a chyflogaeth y Sir yn cael eu diwallu, a'r amgylchedd o ansawdd uchel yn cael ei hamddiffyn a'i gwella a safon bywyd uchel yn cael ei gynnal i bob cymuned...<br>Caiff proffil demograffig y Sir ei ddylanwadu trwy ddarparu cyflenwad digonol o dai o safon...<br>Bydd y **Rhyl** yn lle deniadol i fyw a gweithio ynddo gyda | Amcan 1: Poblogaeth a Chymuned<br>Amcan 13: Datblygiad Defnydd Cymysg | BSC 1: Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych<br>BSC 4: Tai Fforddiadwy<br>BSC 5: Safle Strategol Allweddol – Bodelwyddan<br>BSC 6: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn Pentrefannau<br>BSC 7: Tai Amlfeddiannaeth a Fflatiau Annibynnol<br>BSC 8: Safleoedd Eithriadau Gwledig<br>BSC 9: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau | Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan.<br><br>Dyraniadau tai mewn Ardaloedd Twf Is a phentrefi.<br><br>Diffiniad o ardaloedd chwilio ar gyfer pentrefannau. |

[11] PCC Rhifyn 9 2016

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | TAN 18 – Trafnidiaeth 2007 | gwell stoc dai... a thrwy ganolbwyntio cyfleoedd datblygu ar safleoedd tir llwyd o fewn cyfyngiadau presennol trefi...<br>Bydd **Bodelwyddan** yn dod yn anheddiad sydd wedi ehangu, yn gwasanaethu llawer o anghenion tai a chyflogaeth gogledd y Sir | | neu glystyrau bychain<br>BSC 10: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. | |

**<u>Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru:</u>**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cryfhau canolfannau allweddol gan gynnwys canolfan y Rhyl/Prestatyn/Llanelwy/Bodelwyddan fel ffocws ar gyfer buddsoddi mewn cyflogaeth, tai, manwerthu, hamdden a gwasanaethau yn y dyfodol. Y tu allan i'r canolfannau, bydd cymunedau cynaliadwy cryf yn cael eu meithrin o fewn trefi a phentrefi arfordirol, ffiniol a gwledig i ddarparu swyddi a gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol. | PCC 4.7 – Lleoli datblygiadau newydd<br>TAN 1 – Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015<br>TAN 2 – Cynllunio a Thai Fforddiadwy 2006 | "…**Bodelwyddan** yn dod yn anheddiad sydd wedi ehangu, yn gwasanaethu llawer o anghenion tai a chyflogaeth gogledd y Sir.<br>Bydd dyraniadau cyflogaeth **Bodelwyddan** a **Llanelwy** yn cefnogi adfywiad y Rhyl a hefyd yn darparu cyfle deniadol ar gyfer buddsoddiad mewnol ac ehangu busnesau ansawdd uchel o fewn y Sir. …" | Amcan 1: Poblogaeth a Chymuned<br>Amcan 13: Datblygiad Defnydd Cymysg | BSC 1: Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych<br>BSC 2 – Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd<br>BSC 4: Tai Fforddiadwy<br>BSC 5: Safle Strategol Allweddol – Bodelwyddan<br>BSC 6: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn Pentrefannau<br>BSC 7: Tai Amlfeddiannaeth a Fflatiau Annibynnol | Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan.<br><br>Dyraniadau tai mewn Ardaloedd Twf Is a phentrefi.<br><br>Diffiniad o ardaloedd chwilio ar gyfer pentrefannau.<br><br>Adnabod a gwarchod ardaloedd adloniant<br><br>Safleoedd cyfleusterau cymunedol. |

DRAFT

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | BSC 8: Safleoedd Eithriadau Gwledig<br>BSC 9: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain<br>BSC 10: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.<br>BSC 11: Adloniant a Mannau Agored<br>BSC 12: Cyfleusterau Cymunedol | |
| Ffocws ar ardaloedd y mae angen eu hadfywio | PCC 4.9 – Ffafrio ailddefnyddio tir | "…Bydd dyraniadau cyflogaeth **Bodelwyddan** a **Llanelwy** yn cefnogi adfywiad y Rhyl … Bydd y **Rhyl** yn lle deniadol i fyw a gweithio ynddo gyda gwell stoc dai a gostyngiad yn lefelau'r amddifadiad lluosog a welir ar hyn bryd. Bydd y CDLl yn chwarae rhan | Amcan 2 a 3: Economi a Swyddi<br>Amcan 4: Manwerthu<br>Amcan 5 a 6 Trafnidiaeth<br>Amcan 12: Seilwaith | BSC 1: Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych<br>BSC 2 – Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd<br>BSC 3: Sicrhau cyfraniadau seilwaith ar ddatblygiadau newydd<br>BSC 7: Tai Amlfeddiannaeth a Fflatiau Annibynnol<br>BSC 11: Adloniant a Mannau Agored | Dyraniadau newydd cyfyngedig yn y Rhyl, Prestatyn, Dinbych, Llangollen lle mae tir llwyd wedi cael ei adnabod.<br><br>Gwaith Nwy Prestatyn a Thriongl Rhuddlan wedi'u dyrannu'n safleoedd blaenoriaeth tir llwyd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | yn hyn trwy annog adfywio trwy roddi cefnogaeth i flaengareddau sy'n codi o ddynodiad Ardal Adfywio Strategol a thrwy ganolbwyntio cyfleoedd datblygu ar safleoedd tir llwyd o fewn cyfyngiadau presennol trefi. Bydd perfformiad manwerthu'r Rhyl wedi ei wella trwy ailddatblygu marchnad 'Queen's Arcade', gan atgynhyrchu ei rôl fel canolfan siopa isranbarthol. ." | | BSC 12 – Cyfleusterau Cymunedol | Adnabod a gwarchod ardaloedd adloniant<br><br>Safleoedd cyfleusterau cymunedol. |
| Gwella cysylltiadau rhwng ardaloedd o gyfleoedd ac ardaloedd o angen. | PCC 4.7 – Strategaeth anheddu gynaliadwy<br>PCC 4.7 – Lleoli datblygiadau newydd<br>PCC 4.9 ffafrio ailddefnyddio tir<br>PCC 8.6 Trafnidiaeth | Bydd cysylltiadau trafnidiaeth rhwng **coridor yr A55** a'r arfordir wedi eu gwella trwy gyfrwng gwell hyfywedd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus oherwydd y | Amcanion 2 a 3: Economi a Swyddi<br>Amcanion 5 a 6: Trafnidiaeth<br>Amcan 12: Seilwaith<br>Amcan 13: Datblygiad Defnydd Cymysg | BSC 2: Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd<br>BSC 3: Sicrhau cyfraniadau seilwaith ar ddatblygiadau newydd.<br>BSC 5: Safle Strategol Allweddol – Bodelwyddan | Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | cynnydd yn y boblogaeth yn yr ardal hon. | | BSC 7 – Tai Amlfeddiannaeth a Fflatiau Annibynnol<br>BSC 12 – Cyfleusterau Cymunedol | |
| **Ardal Canol Cymru:** | | | | | |
| Adeiladu ar ganolfannau allweddol, gwella cysyllteddau a lledaenu manteision i gefnwledydd a chymunedau gwledig ehangach. Gwella dengarwch fel lle i fyw a gweithio'n gynaliadwy | PCC 4.7 – Strategaeth anheddu gynaliadwy<br>PCC 4.7 – Lleoli datblygiadau newydd<br>PCC 4.9 ffafrio ailddefnyddio tir | Bydd trefi marchnad **Dinbych**, **Rhuthun** a **Chorwen** wedi eu cryfhau trwy gyfrwng datblygiad tai ar y farchnad a thai fforddiadwy newydd a safleoedd cyflogaeth i ddiwallu anghenion lleol. Bydd **Llangollen** yn cael ei chefnogi yn ei rôl fel both twristiaeth pwysig trwy warchod a gwella'r dref a'r amgylchedd ehangach. | Amcan 1: Poblogaeth a Chymuned<br>Amcan 12: Seilwaith<br>Amcan 16: Ardaloedd Gwarchodaeth | BSC 1: Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych<br>BSC 2 – Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd<br>BSC 3: Sicrhau cyfraniadau seilwaith ar ddatblygiadau newydd<br>BSC 4: Tai Fforddiadwy<br>BSC 6: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn Pentrefannau<br>BSC 8: Safleoedd Eithriadau Gwledig<br>BSC 9: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain<br>BSC 11: Adloniant a Mannau Agored<br>BSC 12: Cyfleusterau Cymunedol | Dyraniadau tai mewn Ardaloedd Twf Is a phentrefi.<br><br>Diffiniad o ardaloedd chwilio ar gyfer pentrefannau.<br><br>Adnabod a gwarchod ardaloedd adloniant<br><br>Safleoedd cyfleusterau cymunedol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Galluogi twf a datblygiadau priodol ac integredig mewn cymunedau gwledig. | PCC 4.7 – Strategaeth anheddu gynaliadwy<br>PCC 4.7 – Lleoli datblygiadau newydd<br>TAN 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy 2010 | Bydd yr **ardaloedd gwledig** yn fwy cynaliadwy oherwydd iddynt gael lefel briodol o dwf i helpu cefnogi gwasanaethau a chyfleusterau gwledig. Bydd cynnydd wedi digwydd ar ddiwallu anghenion tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol. | Amcan 1: Poblogaeth a Chymunedau<br>Amcanion 2 a 3 : Economi a Swyddi<br>Amcan 4: Manwerthu<br>Amcan 5: Trafnidiaeth<br>Amcan 7: Yr Iaith Gymraeg<br>Amcan 8: Mannau Agored Cyhoeddus<br>Amcan 12: Seilwaith<br>Amcan 16; Ardaloedd Gwarchodaeth | BSC 1: Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych<br>BSC 2 – Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd<br>BSC 3: Sicrhau cyfraniadau seilwaith ar ddatblygiadau newydd<br>BSC 4: Tai Fforddiadwy<br>BSC 6: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn Pentrefannau<br>BSC 8: Safleoedd Eithriadau Gwledig<br>BSC 9: Tai Fforddiadwy Cysylltiad Lleol mewn grwpiau neu glystyrau bychain<br>BSC 11: Adloniant a Mannau Agored<br>BSC 12: Cyfleusterau Cymunedol | Dyraniadau tai mewn Ardaloedd Twf Is a phentrefi.<br><br>Diffiniad o ardaloedd chwilio ar gyfer pentrefannau.<br><br>Adnabod a gwarchod ardaloedd adloniant<br><br>Safleoedd cyfleusterau cymunedol. |

DRAFT

## Atodiad 2 – Alldro Tai Fforddiadwy 2006 – 2016

| | | GTC | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwydd-yn | A106 PCI | Cartrefi Gwag (GTC) | Tai Rhent Cym-deith-asol | Tai Rhent Canol-radd | Cym-orth Prynu | Gofal Ychwa-negol | Achub Morgeisi | Cyllid Arbennig LlC (AAS, CBCS) | Symiau Gohiriedig | Partneriaeth Tai Cymru (Partneriaid sy'n LCC) | Cartrefi Gwag Heblaw am GTC) | Prydlesi Digartr-efedd | Datblyg-wr Preifat (Tai Rhent Canol-radd) | GCT II | Cyfanswm |
| **2006/07** | 20 | 0 | 41 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 69 |
| **2007/08** | 18 | 0 | 5 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 31 |
| **2008/09** | 12 | 0 | 12 | 0 | 2 | 59 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 86 |
| **2009/10** | 2 | 0 | 6 | 0 | 1 | 0 | 4 | 6 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 23 |
| **2010/11** | 9 | 0 | 46 | 0 | 0 | 59 | 1 | 38 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 155 |
| **2011/12** | 4 | 0 | 13 | 9 | 0 | 21 | 1 | 1 | 1 | 4 | 1 | 0 | 3 | 0 | 58 |
| **2012/13** | 7 | 3 | 29 | 4 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 | 5 | 5 | 0 | 2 | 0 | 61 |
| **2013/14** | 0 | 4 | 3 | 0 | 5 | 0 | 1 | 3 | 0 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | 21 |
| **2014/15** | 0 | 8 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 | 0 | 3 | 2 | 22 | 10 | 0 | 74 |
| **2015/16** | 0 | 8 | 0 | 6 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 10 | 0 | 22 | 57 |
| **2016/17** | 2 | 15 | 11 | 1 | 3 | 0 | 0 | 4 | 0 | 3 | 0 | 17 | 0 | 0 | 56 |
| **Cyfan-swm** | 74 | 38 | 186 | 20 | 34 | 139 | 9 | 63 | 7 | 19 | 14 | 49 | 17 | 22 | **691** |

DRAFT

Atodiad C

# Sir Ddinbych
# Cynllun Datblygu Lleol
# 2006 -2021

DRAFT

## Papur Gwybodaeth:
## Hyrwyddo Economi Gynaliadwy

Cynllunio a Thai Strategol
Rhagfyr 2017

**Cynnwys**


1. *Cefndir*

1.1 Pwrpas y ddogfen 4
1.2 Cyflwyno thema 'Hybu Economi Gynaliadwy' 4

2. *Cyd-destun y polisi*

2.1 Cyflwyniad 5
2.2 Polisi Cenedlaethol 6
2.3 Cynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008) 8
2.4 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru 10
2.5 Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau sy'n berthnasol i thema'r CDLl 10
2.6 Awdurdodau Cynllunio Lleol Ffiniol 15

3. *Adolygiad Gwaelodlin*

3.1 Cyflwyniad 18
3.2 Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru 18
3.3 Economi leol 19
3.4 Economi Manwerthu 25
3.5 Economi ymwelwyr 30
3.6 Mwynau 31

4. *Adroddiadau Monitro Blynyddol Blaenorol*

4.1 Cyflwyniad 41
4.2 Perfformiad polisi lleol 41

5. *Gwerthusiad Cynaliadwyedd a Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd*

5.1 Cyflwyniad 45
5.2 Gwerthusiad Cynaliadwyedd 46
5.3 Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Rhagfyr 2017) 46

*Atodiad 1 - Polisi lleol a dyraniadau tir sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Cynllun Gofodol Cymru*


DRAFFT

Map 1 Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru



# 1. Cefndir

## 1.1 Pwrpas y ddogfen

1.1.1 Bu i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) gynhyrchu 'Papurau Gwybodaeth' (PG) er mwyn ategu pum thema Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych ym mis Awst 2011. Pwrpas y dogfennau hyn oedd crynhoi data gwaelodlin, tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo. Yn dilyn hynny mabwysiadwyd y CDLl yn 2013, oedd yn cynnwys y themâu canlynol:

- Parchu Gwahanolrwydd (RD);
- Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy (BSC);
- Hyrwyddo Economi Gynaliadwy (PSE);
- Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd (VOE); a
- Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy (ASA).

Mae talfyriadau'r themâu yn cael eu hadlewyrchu yn enwau polisïau lleol er mwyn grwpio testunau perthynol ac er hwyluso cyfeiriadau.

1.1.2 Mae CSDd yn ymrwymedig i adolygu ei gynllun defnydd tir mabwysiedig fesul pedair blynedd ar y mwyaf o'r adeg y caiff ei fabwysiadu, yn unol ag Adran 69 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae hynny yn cynnwys adolygu amcanion CDLl, themâu'r CDLl, a pholisïau lleol ar sail newid cyd-destunol arwyddocaol, pryderon arwyddocaol o ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB), a chyfrifoldebau cyfreithiol eraill sy'n effeithio ar berfformiad y CDLl.

1.1.3 Mae'r Cyngor newydd gychwyn ar y broses o adolygu'r CDLl. Ar hyn o bryd nid oes yna amcanion na themâu yn y CDLl na pholisïau lleol sy'n destun adolygiad drafft. Mae'r rhan fwyaf o'r testun yn ymwneud â deddfwriaeth, strategaethau a rhaglenni, dadansoddiadau ystadegol, a pherfformiadau polisi fel y nodir hynny yn yr AMB, ynghyd ag effaith bosibl ar bolisïau'r CDLl a fabwysiadir. Bwriad y Cyngor yw i'r Papurau Gwybodaeth yma fod yn 'ddogfennau byw'; h.y. maent yn cael eu diweddaru gyda thystiolaeth a gwybodaeth wrth i'r CDLl adolygedig fynd rhagddo drwy gamau unigol cynhyrchu Cynllun.

## 1.2 Cyflwyno thema 'Hybu Economi Gynaliadwy'

1.2.1 Mae Hybu Economi Gynaliadwy (HEG) yn ymwneud â chefnogi'r economi leol yn Sir Ddinbych. Nid yw'n gyfyngedig i ddarparu ystod o gyfleoedd cyflogaeth, ond mae'n mynd i'r afael ag amddifadedd, gweithgareddau adfywio ac addasu. Yn fras, mae'r thema yn cael ei rhannu i'r testunau canlynol:

- Economi Leol (canolbwyntio ar fangreoedd cyflogaeth);
- Economi manwerthu;
- Economi ymwelwyr (twristiaeth); a
- Mwynau.

1.2.2 Mae polisïau lleol o fewn y thema hon nid yn unig wedi cael eu dylunio i gefnogi busnesau traddodiadol sydd wedi'i hen sefydlu, ond maent hefyd yn darparu'r

DRAFFT

fframwaith cynllunio ar gyfer endidau newydd a sectorau twf economaidd. Yr ymgyrch yw symud tuag at strwythur poblogaeth cytbwys ac annog cadw aelodau iau, sgiliedig ac economaidd actif o'r gymdeithas. Drwy hynny, bydd cadw pobl iau yn arwain at oblygiadau allweddol mewn perthynas ag atgyfnerthu cymeriad diwylliannol ac ieithyddol y Sir.

## 2. Cyd-destun y polisi

### 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Awst 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, megis Cyngor Sir Ddinbych, ystyried nid yn unig anghenion presennol cymunedau lleol, ond hefyd sut mae eu penderfyniadau yn effeithio yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cael ei herio'n bennaf i weithio tuag at saith nod llesiant sy'n gynwysedig yn y Ddeddf: (1) Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang; (2) Cymry ffyniannus; (3) Cymru gydnerth; (4) Cymru iachach; (5) Cymru fwy cyfartal; (6) Cymru o gymunedau cydlynol; a (7) Cymru o ddiwylliant bywiog ac Iaith Gymraeg ffyniannus.

2.1.2 Wedi ei atgyfnerthu gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i weithredu egwyddorion datblygiad cynaliadwy ym mhob proses benderfynu. Mae hynny'n cael ei gyflawni drwy gadw at 'amcanion llesiant' a bennir yn lleol er mwyn cyrraedd y saith nod llesiant a ddiffinnir yn genedlaethol.

2.1.3 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu pecyn 'Asesiad o Effaith Llesiant' er mwyn cydymffurfio â darpariaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Fe'i dyluniwyd er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n penderfynu wrth werthuso cynnig penodol yng ngoleuni'r nodau llesiant. Yn unol â hynny, bydd holl elfennau'r CDLl newydd yn destun asesiad o'r effaith ar lesiant, ac os bydd angen, yn destun addasiadau yn unol â'r argymhellion fydd yn deillio o'r asesiad.

2.1.4 Mae yna nifer fawr o bolisïau a fframweithiau cenedlaethol, cynlluniau rhanbarthol a strategaethau lleol a hysbysodd y broses o gynhyrchu'r CDLl, ond sydd hefyd yn effeithio ar ddarparu cynigion datblygu unigol. Pwrpas yr adran hon yw adolygu gwaelodlin y ddogfen, h.y. nodi newidiadau i ddogfennau presennol, asesu effeithiau dogfennau newydd neu arfaethedig, ac amlygu anghysonderau posibl â pholisïau lleol a fabwysiadwyd. Bydd hwn yn gam allweddol cyn trafod adolygu polisi lleol yng ngoleuni amgylchiadau lleol newidiol.

2.1.5 Disgwylir y bydd Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru yn cael eu hintegreiddio â deddfwriaethau, strategaethau, cynlluniau eraill etc. heb ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol o reidrwydd. Mae'r polisi cenedlaethol yn cael ei nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru, a ategir gan nifer o Nodiadau Cyngor Technegol.

DRAFT

## 2.2 Polisi Cenedlaethol

2.2.1 Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cael ei nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC), ac mae'n ymgorffori Polisi Cynllunio Mwynau Cymru a gyhoeddwyd eisoes ym Mhennod 14, ac fe'i ategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a Nodiadau Cyngor Technegol ar Fwynau. Mae Llywodraeth Cymru yn aml yn cyhoeddi 'Llythyrau Egluro Polisi' sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar destunau penodol.

2.2.2 PCC yw'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf arwyddocaol wrth ddrafftio polisïau lleol. Mae'r Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r gofyniad na ddylai CDLlau ailadrodd polisi cenedlaethol, ond gall awdurdodau lleol ddymuno eu hategu pan fo amgylchiadau lleol yn golygu bod angen dehongliad lleol penodol o bolisi. Mae Tabl 1 yn nodi'r polisïau cenedlaethol hynny yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol ar adeg cynhyrchu thema 'Hybu Economi Gynaliadwy' y CDLl a pholisïau lleol cysylltiedig. Mae'n gweithredu fel gwaelodlin er mwyn canfod unrhyw newidiadau mewn polisi cenedlaethol a'r effeithiau tebygol ar y cynllun lleol.

2.2.3 Nid yw polisi cynllunio cenedlaethol wedi newid yn sylweddol hyd yma mewn perthynas â mwynau, ac eithrio ymgorffori Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn PCC, fodd bynnag nid oedd yna newidiadau polisi mewn gwirionedd o ganlyniad i hynny. Ers mabwysiadu'r CDLl mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd gorsafoedd pŵer llosgi glo yn cael eu cau fesul cam erbyn 2025. Bydd hynny'n effeithio'n sylweddol ar y galw am lo cynhenid. Er mai arwyddocâd cyfyng sydd gan hynny i'r CDLl oherwydd dosbarthiad cyfyng glo bas yn y Sir, mae'n ddealledig y byddir yn adolygu polisi cynllunio mwynau ar fyrder er mwyn delio â hynny ac y bydd newidiadau yn debygol o ganolbwyntio ar lo, olew, nwy a diogelu ardaloedd penodol.

2.2.4 Nodyn Cyngor Technegol 4: Mae Datblygiad Manwerthu a Masnachol (Tachwedd 2016) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru wrth bennu amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer canolfannau manwerthu a masnachol. Mae'n darparu dehongliad polisi a chanllawiau ar brofi angen am fanwerthu a'r ymagwedd dilyniannol tuag at ddatblygu, gofynion manwl ar gyfer asesiadau o'r effaith ar fanwerthu a manteision cynnal 'gwiriadau iechyd' rheolaidd. Anogir Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) i gynhyrchu polisïau lleol ar fanwerthu sy'n ddigon hyblyg i ymdopi â newidiadau yn anghenion y cwsmeriaid, patrymau siopa, ac sy'n caniatáu am fathau ategol o ddefnydd tir er mwyn cynnal hyfywedd y Stryd Fawr.

2.2.5 Nodyn Cyngor Technegol 23: Mae Datblygiad Economaidd (Chwefror 2014) yn darparu cyngor ar amryw bynciau mewn perthynas â datblygu amcanion cynllunio economaidd lleol uchel, asesu buddion economaidd datblygiadau newydd a datblygiadau economaidd mewn ardaloedd gwledig. Mae hefyd yn nodi sut y dylid ystyried datblygiad economaidd drwy gydol proses y Cynllun Datblygu Lleol. Mae mwy o wybodaeth ar bennu cyflenwad tir cyflogaeth a monitro tir cyflogaeth yn cael ei ddarparu mewn nodyn arweiniol ymarferol ychwanegol.

DRAFT

2.2.6 Tabl 1 Cysylltiad rhwng polisi cenedlaethol a lleol

| Polisi Cenedlaethol (gyda chyfeiriad at PPW Argraffiad 9) | Ble ymdrinnir â hynny yn y CDLl? | Angen unrhyw newidiadau er mwyn cydymffurfio â Pholisi Cenedlaethol? | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Strategaeth Aneddiadau Cynaliadwy: lleoli datblygiadau newydd (paragraff 4.7) | PSE 1: Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru;<br>PSE 2: Tir ar gyfer defnydd cyflogaeth | Mae angen adolygu PSE 1 oherwydd newidiadau ffeithiol (gweler adran 3.2). | Mae yna droshaenu â holl themâu'r CDLl oherwydd bod y Strategaeth Twf yn rhan ganolog o'r Cynllun. |
| Datblygiad Economaidd Cynaliadwy (Pennod 7 a Nodyn Cyngor Technegol 23) | PSE 1: Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru;<br>PSE 2: Tir ar gyfer defnydd cyflogaeth;<br>PSE 3: Gwarchod safleoedd cyflogaeth ac adeiladau;<br>PSE 4: Ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig segur mewn cefn gwlad agored;<br>PSE 5: Economi gwledig | Mae angen adolygu PSE 1 oherwydd newidiadau ffeithiol (gweler adran 3.2). Nid oes angen newid polisïau lleol eraill yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Mae polisïau lleol yn cael eu cymhwyso ar y cyd â themâu 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy', 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd', a 'Pharchu Nodweddion Unigryw' y CDLl. |
| Lleoliadau newydd ar gyfer datblygiadau peryglus a defnydd diwydiannol arbennig (paragraff 7.6.4) | PSE 2: Tir ar gyfer defnydd cyflogaeth | Nid oes angen adolygu polisïau lleol eraill yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Mae polisi lleol yn cael ei ategu a'i gymhwyso mewn cyfuniad â thema 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd' y CDLl. |
| Datblygiad Manwerthu a Masnachol (Pennod 10 a Nodyn Cyngor Technegol 23) | PSE 6: Economi manwerthu;<br>PSE 7: Cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd;<br>PSE 8: Datblygiadau o fewn Canol Trefi;<br>PSE 9: Datblygiad manwerthu y tu allan i ganol trefi;<br>PSE 10: Siopau a gwasanaethau lleol | Nid oes angen adolygu polisïau lleol eraill yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Mae polisïau lleol yn ategu thema 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy' y CDLl. |
| Cynigion Datblygu Amaethyddol (paragraff 7.6.5 a Nodyn Cyngor Technegol 6) | PSE 4: Ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig mewn cefn gwlad agored;<br>Economi gwledig | Nid oes angen adolygu polisïau lleol eraill yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Mae polisi lleol yn cael ei ategu a'i gymhwyso mewn cyfuniad â themâu 'Adeiladu |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cymunedau Cynaliadwy' a 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd' y CDLl. |
| Twristiaeth (paragraff 11.1 a Nodyn Cyngor Technegol 13) | PSE 1: Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru; PSE 11: Datblygiadau twristiaeth mawr newydd; PSE 12: Safleoedd cabannau gwyliau, carafanau statig a theithiol a champio; PSE 13: Ardaloedd gwarchod twristiaeth arfordirol; PSE 14: Twristiaeth gweithgareddau awyr agored | Mae angen adolygu PSE 1 oherwydd newidiadau ffeithiol (gweler adran 3.2). | Mae polisi lleol yn cael ei ategu a'i gymhwyso mewn cyfuniad â themâu 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy' ,'Parchu Nodweddion Unigryw' a 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd' y CDLl. |
| Mwynau (Pennod 14 a Nodiadau Cyngor Technegol ar Fwynau 1 a 2) | PSE 15: Diogelu Mwynau; PSE 16: Ardaloedd Byffer Mwynau; PSE 17: Echdynnu Mwynau yn y Dyfodol | Mae'r angen am fwynau agregiad wedi cael ei arenwi ar y lefel ranbarthol drwy Adolygiad 1af RTS. Felly mae'n ofynnol bod adolygiad y CDLl yn bodloni angen rhanbarthol a arenwyd er mwyn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol. | Mae polisi lleol yn cael ei ategu a'i gymhwyso mewn cyfuniad â themâu 'Parchu Nodweddion Unigryw' a 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd' y CDLl. |

## 2.3 Cynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008)

2.3.1 Fe'i cyhoeddwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlC) ym mis Tachwedd 2004, ac yn dilyn hynny fe'i diweddarwyd ym mis Mehefin 2008, ac mae'r ddogfen yn amcanu at weithredu blaenoriaethau polisi cyffredinol LlC fel y nodir hynny yn Cymru'n Un: Agenda Blaengar i Gymru. Roedd y ffocws ar gysylltu gweithgareddau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; darparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio. Ei amcan oedd rhoi pwyslais mawr ar weithredu egwyddor 'datblygu cynaliadwy' ym mhob proses benderfynu yn y sector cyhoeddus.

2.3.2 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Adran 62) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol Cymru i roi ystyriaeth i Gynllun Gofodol Cymru (CGC) wrth iddynt baratoi eu cynllun datblygu lleol. Mae hynny'n golygu bod CGC wedi

DRAFT

cyfrannu at sawl diben yn y broses o lunio cynlluniau yn Sir Ddinbych: (1) cynhyrchodd dystiolaeth; (2) siapiodd bolisïau lleol; (3) sicrhaodd well ymgysylltu a llywodraethiant rhwng cyrff; (4) hysbysodd Gynlluniau; ac felly (5) aliniodd fuddsoddiadau arfaethedig yn yr ardal.

2.3.3 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn rhannu Cymru yn chwe is-ranbarth; ac yn amlinellu eu cydberthynas trawsffiniol. Yn unol â hynny mae rhannau unigol o Sir Ddinbych wedi cael eu haseinio i ranbarth Gogledd Ddwyrain Cymru a rhanbarth Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod yna hefyd gydberthynas gref â rhanbarth Gogledd Orllewin (Cymru). Mae'r chwe is-ranbarth, h.y. ardaloedd y cynllun gofodol, yn cael eu proffilio gan aneddiadau allweddol, dosbarthiad poblogaeth mewnranbarthol, canolfannau economaidd gymdeithasol, mannau gweithgaredd economaidd, etc.

2.3.4 Er mwyn alinio Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych â Chynllun Gofodol Cymru, penderfynodd y Cyngor strwythuro ei ddefnydd tir yn unol â phum thema CGC:

- Parchu Gwahanolrwydd;
- Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy;
- Hyrwyddo Economi Gynaliadwy;
- Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd; a
- Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy.

2.3.5 Mae CGC yn nodi y dylai datblygu eiddo sy'n gysylltiedig â chyflogaeth gael ei leoli yn agos i drafnidiaeth gyhoeddus ac yn agos i dai a datblygiadau seilwaith. Mae yna hefyd bryder bod datblygiadau manwerthu y tu allan i drefi yn bygwth tanseilio adfywio a hyfywedd canol trefi yn ogystal â chyfrannu at batrymau traffig anghynaladwy.

2.3.6 Y weledigaeth ar gyfer is-ranbarth Gogledd Ddwyrain Cymru yw 'ardal sy'n harneisio ysgogyddion economaidd ar ddwy ochr y ffin, gan leihau anghydraddoldeb a gwella ansawdd ei asedau naturiol a ffisegol.' Ystyrir bod ehangu'r sylfaen economaidd yn bwysig er mwyn darparu cyfleoedd cyflogaeth o safon uchel yn Sir Ddinbych.

2.3.7 Elfen allweddol o'r strategaeth ofodol yw datblygu a chefnogi canolfannau strategol, yn cynnwys un yn ardal Y Rhyl - Llanelwy - Bodelwyddan - Prestatyn fel canolbwynt ar gyfer buddsoddiad mewn cyflogaeth, manwerthu tai, hamdden a gwasanaethau. Ystyrir bod priffordd yr A55 a'r rhwydwaith rheilffordd yn allweddol o ran cysylltu cyfleoedd rhwng y rhanbarthau a chreu mwy o dwf cyflogaeth.

2.3.8 Mae Atodiad 1 yn arenwi sut yr ystyriwyd y blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru, a phan fo'n gymwys, ble yr ymdriniwyd â hwy drwy bolisïau lleol a dyraniadau tir yn CDLl Sir Ddinbych.

2.3.9 Ar hyn o bryd mae system gynllunio Cymru yn mynd drwy gyfnod pontio. Bu deddfwriaeth sylfaenol newydd ym maes Cynllunio a hefyd ym meysydd

DRAFT

treftadaeth adeiledig a gwarchodaeth amgylcheddol, sydd â chysylltiad agos â chynllunio. Bu i hynny arwain (ac mae'n debygol o barhau) at gyflwyno is-reoliadau, polisi cenedlaethol a nodiadau arweiniol. Newid mawr o ran cynllunio strategol yw cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru yn 2021. Felly yr her i Sir Ddinbych yw ystyried darpariaethau CGC tra'n gweithio ar gydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol arfaethedig wrth ddatblygu'r CDLl diwygiedig ar gyfer y Sir.

2.4 **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru**

2.4.1 Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (FfDCC) yn deillio o ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, a bydd yn darparu cyfeiriad i Gynlluniau Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ac yn ategu pennu datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Tra bod CGC yn ymwneud ag egwyddor 'datblygiad cynaliadwy', mae FfDCC yn mynd ymhellach wrth weithredu darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.4.2 Mae'r broses o baratoi'r FfDCC newydd gychwyn gyda galwad gan Lywodraeth Cymru am dystiolaeth a phrosiectau posibl y gellid eu hystyried i'w cynnwys. Mae Llywodraeth Cymru yn amcanu at gynnal ymgynghoriad ar y Materion, Opsiynau a'r Opsiynau a Ffafrir ar gyfer y FfDCC ym mis Ebrill 2018, ac ymgynghoriad ar y Fframwaith drafft ym mis Gorffennaf 2019, ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020 a disgwylir y bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi ym mis Medi 2020.

2.4.3 Mae'n anodd amlinellu unrhyw effeithiau fydd yn deillio o'r FfDCC arfaethedig ar y CDLl adolygedig, a gwybodaeth gyfyng iawn sydd ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd.

2.5 **Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau sy'n berthnasol i thema'r CDLl**

2.5.1 Mae yna nifer fawr o gynlluniau a strategaethau sydd â'r potensial i effeithio ar y Cynllun Datblygu Lleol. Diben yr adran hon yw dangos sut yr ystyriwyd cynlluniau a strategaethau allweddol wrth ddatblygu'r thema hon.

2.5.2 Cynhyrchwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021 ar sail cynlluniau, strategaethau neu raglenni cyfredol cenedlaethol a rhanbarthol. Mae rhai wedi cael eu disodli, eu tynnu'n ôl neu wedi dod i ddiwedd eu hoes. Mae'r paragraffau canlynol yn cyfeirio'n unig at y dogfennau hynny sy'n gyfredol yn 2017.

*Cyngor Sir Ddinbych:*
*Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych (2017-2022): 'Gweithio gyda'n gilydd er lles dyfodol Sir Ddinbych'*

2.5.3 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu'r blaenoriaethau trosfwaol ar gyfer cyfnod y Cyngor. Caiff y blaenoriaethau eu cefnogi, eu gweithredu a'u darparu drwy nifer o strategaethau y mae CDLl yn offeryn hanfodol iddynt. Mae'r

DRAFT

blaenoriaethau corfforaethol canlynol yn berthnasol i 'Hyrwyddo Economi Gynaliadwy':

- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i fagu annibyniaeth a chadernid;
- Deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd; a
- Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

*Cyngor Sir Ddinbych:*
*Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol 2013 - 2023*

2.5.6 Datblygwyd y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol er mwyn egluro sut fydd y Cyngor yn cyflawni blaenoriaeth gorfforaethol 'Datblygu'r economi leol'. Ei amcan trosfwaol yw helpu busnesau i fynd o nerth i nerth; cynnig swyddi boddhaus o safon dda gyda chyflog da ar gyfer cymunedau lleol; a darparu ffordd i breswylwyr fwynhau safon bywyd da mewn trefi a mannau gwledig.

2.5.7 Mae yna chwe thema yn y ddogfen sy'n manylu ar uchelgais y Cyngor, camau dethol a chamau monitro.

- Seilwaith ar gyfer twf;
- Busnesau a gefnogir sydd â chysylltiadau da;
- Cyfleoedd i dyfu;
- Gweithlu sgiliedig o safon uchel;
- Trefi a chymunedau bywiog; a
- Sir Ddinbych a hyrwyddir yn dda.

2.5.8 Er bod polisïau lleol mewn perthynas â dyrannu gwarchod tir cyflogaeth yn mynd i'r afael â chyfleoedd ar gyfer twf (gofodol) a darparu seilwaith, mae polisïau lleol mewn perthynas â manwerthu yn amcanu at gynnal a gwella bywiogrwydd trefi a chymunedau. Yn unol â hynny mae'r CDLl yn symbol o ddimensiwn gofodol yr ECAS drwy ddyrannu tir ar gyfer defnydd cyflogaeth, datblygiadau manwerthu a chyfleusterau cymunedol.

*Astudiaeth Galw am Fusnesau Sir Ddinbych (Ionawr 2015)*

2.5.9 Diben yr astudiaeth hon oedd darparu gwerthusiad o'r economi wledig yn Sir Ddinbych, gan edrych yn bennaf ar gyflenwad a galw am fangreoedd cyflogaeth. Roedd yn eithrio aneddiadau Rhyl, Prestatyn, Meliden a Dyserth. Roedd yr ymchwil yn awgrymu bod rhai o'r safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn annhebygol o gael eu darparu oherwydd ansicrwydd o ran hyfywedd. Byddai angen cadarnhau hynny drwy gynnal mwy o brofion hyfywedd ar safleoedd unigol.

2.5.10 Gan adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 23, argymhellir bod y Cyngor yn ystyried ble gallai hyfywedd fod yn destun pryder drwy ddefnyddio dulliau i ganfod bylchau ariannol. Yn absenoldeb dulliau canfod bylchau, un ffordd o hybu gwerthoedd fyddai sicrhau elfen o ddatblygiad defnydd cymysg gwerth uwch fel rhan (ategol) o gynllun mwy. Yn y cyd-destun hwn, mae

DRAFT

defnydd gwerth uwch yn golygu opsiynau manwerthu a anelir yn bennaf at fodloni anghenion busnesau lleol. Yn ogystal â hybu gwerth datblygiad, bydd parc busnes a wasanaethir yn dda yn fwy atyniadol i feddianwyr arfaethedig nag un sy'n cynnig dim byd ond tir ac eiddo.

2.5.11 Bydd y Cyngor yn ystyried argymhellion yr Astudiaeth pan fydd yn adolygu dyraniadau safleoedd unigol ac yn gwahodd aelodau'r cyhoedd i gyflwyno safleoedd posibl gyda mwy o bwyslais ar hyfywedd o gychwyn y broses.

*Sir Ddinbych: Astudiaeth o Seilwaith y Sector Twf (Awst 2016)*

2.5.12 Roedd yr Astudiaeth o Seilwaith y Sector Twf yn edrych yn fanwl ar fangreoedd ym Mharc Busnes Llanelwy drwy ganolbwyntio ar gynrychiolwyr sy'n gweithio yn y sector gweithgynhyrchu uwch, biodechnoleg a'r sectorau gwyddorau bywyd. Ei nod oedd cadarnhau'r gofynion tir priodol ar gyfer y sectorau twf dethol a datblygu dealltwriaeth fanylach o natur y galw am lety yn cynnwys maint a swm y llety fyddai ei angen ar gyfer cwmnïau hybu twf cynhenid a chwmnïau arfaethedig fydd yn lleoli eu hunain.

2.5.13 Mae canfyddiadau allweddol yr astudiaeth yn nodi bod nifer o'r busnesau presennol yn gyffredinol fodlon ag ansawdd ac addasrwydd y mangreoedd. Fodd bynnag, roedd rhai busnesau yn adolygu eu hanghenion eiddo neu'n debygol o fod yn gwneud hynny yn y dyfodol agos iawn. Problem allweddol iddyn nhw oedd argaeledd cyfyngedig cyfleusterau storio ychwanegol a chyfleusterau dosbarthu er mwyn ategu eu labordai a'u gofod gweithgynhyrchu ysgafn.

2.5.14 Mae'r mangreoedd sydd ar gael ym Mharc Busnes Llanelwy yn ofod swyddfeydd yn bennaf. Mae'r math yma yn gymharol ddrud i'w trawsnewid a'u defnyddio ar gyfer gweithgynhyrchu ysgafn neu ddibenion storio. Felly mae'n cyfyngu ar atyniad Parc Busnes Llanelwy i fusnesau technegol sydd angen mwy o ofod hyblyg. Roedd cyfranogwyr yr astudiaeth hefyd yn credu bod y safle hefyd yn cael ei ddal yn ôl gan wasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus gwael, signal ffonau symudol gwael iawn, cyfleusterau hamdden cyfyngedig a gweledEDD/arwyddion gwael.

*Strategaeth Tir Cyflogaeth Rhanbarthol ar Gyfer Gogledd Cymru -*
*Dogfen Strategaeth (Mehefin 2014)*

2.5.15 Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y blaenoriaethau tymor byr a nodwyd yn 'Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: Strategaeth ar Gyfer Newid' sy'n cydnabod bod Mewnfuddsoddiad a Menter yn ddau ysgogydd economaidd allweddol. Rhan ganolog o hyn yw'r angen i ddeall rôl a swyddogaeth safleoedd cyflogaeth strategol ar draws y rhanbarth a chynllunio blaenoriaethau buddsoddi clir er mwyn sicrhau cyflenwad ddigonol o dir cyflogaeth strategol yn ystod cyfnod y strategaeth.

2.5.16 Mae'r ddogfen wedi arenwi nifer o safleoedd strategol ar draws Gogledd Cymru sy'n cynnig posibilrwydd ar gyfer buddsoddiad mewn sectorau allweddol yn y

DRAFT

tymor byr, canolig a hir. Mae yna ddau safle tir cyflogaeth sy'n rhanbarthol bwysig yn Sir Ddinbych: Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan a Pharc Busnes Llanelwy. Mae'r ddau wedi'u rhagarfaethu ar gyfer canolbwyntio ar weithgynhyrchu uwch, gan adeiladu ar y buddsoddiad cyffrous yn y diwydiant Optoelectroneg / ffotoneg yn Llanelwy.

2.5.17 Yn ogystal ag arenwi safleoedd strategol, mae'r adroddiad yn nodi nifer o argymhellion all ategu darparu safleoedd unigol a chreu'r amgylchedd busnes sydd ei angen ar gyfer twf. Argymhellir y dylai holl awdurdodau cynllunio lleol Gogledd Cymru gynnwys digon o bolisïau hyblyg yn eu cynlluniau datblygu lleol er mwyn cefnogi tir cyflogaeth strategol fydd yn cael eu cyflwyno pe ystyrid ei bod yn hanfodol cefnogi rhaglen neu fuddsoddwr arfaethedig sydd â gofynion safle penodol.

*Gweledigaeth o Dwf ar Gyfer Economi Gogledd Cymru (Gorffennaf 2016)*

2.5.18 Mae hon yn weledigaeth unigol gydgysylltiedig ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth yng Ngogledd Cymru; yn seiliedig ar nifer o strategaethau a rhaglenni lleol sy'n amcanu at dwf economaidd a gwelliannau seilwaith mewn gwahanol leoliadau yn y rhanbarth. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cydweithredu a phartneriaeth wrth wireddu ei amcanion fel y nodir hynny yn y weledigaeth:

- Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gogledd Cymru;
- Cynorthwyo a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth;
- Mynd i'r afael ag anweithgarwch ac anweithgaredd ar draws y rhanbarth;
- Cynorthwyo a galluogi buddsoddiad y sector preifat yn y rhanbarth er mwyn hybu cynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth Gogledd Cymru.

2.5.19 Mae'r Weledigaeth, a gydlynir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn cael ei gefnogi gan Gyngor Sir Ddinbych a'r pum awdurdod lleol eraill hefyd, sefydliadau addysg uwch sy'n bwysig i'r rhanbarth a Chyngor Busnes Gogledd Cymru.

2.5.20 Mae'r ddogfen yn arenwi tri chlwstwr economaidd o werth uchel sy'n debygol o elwa o fwy o raglenni cyllido ac a allai ffurfio rhan o gynnig am Ddêl Twf gyda Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig.

(1) Bydd gan y *clwstwr ynni* arbenigedd mewn perthynas â chynhyrchu ynni, technolegau a phrosesau carbon isel, a bydd gan fusnesau'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd o ganlyniad i fuddsoddiad yn Wylfa Newydd, Adweithyddion Modiwlaidd Bach Trawsfynydd a phrosiectau gwynt oddi ar y tir, biomas a llanwol.

(2) Bydd cwmnïau angor yn y *clwstwr gweithgynhyrchu uwch* yn cael eu cyflenwi gan SMEau yn y rhanbarth sydd ag enw da am safon uchel. Bydd twf yn cael ei ysgogi yn benodol gan Ardaloedd Menter (megis Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy) yn ogystal â buddsoddiad newydd ym Mhorth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy; Parc Busnes Llanelwy; Parc Bryn Cegin, Bangor, a Pharc Cybi, Caergybi.



DRAFT

(3) Y *clwstwr digidol* fydd peiriant twf Gogledd Cymru a bydd yn adeiladu ar fanteision cystadleuol o ran academia, safon bywyd a harddwch naturiol eithriadol, a seilwaith o safon. Bydd diwydiannau creadigol, datblygu meddalwedd, technoleg iechyd a gwyddorau ariannol yn rhan o glwstwr o'r fath, gan adeiladu eu momentwm eu hunain ar gyfer twf.

2.5.21 Y gyfradd twf a ragamcanir ar gyfer economi'r rhanbarth yw 1.9% rhwng 2016 a 2035 - yn seiliedig ar dueddiadau presennol - a byddai gwerth yr economi yn cynyddu 56% mewn llai na 20 mlynedd. Mae hefyd yn amcangyfrif y bydd lefelau twf o'r fath yn cynhyrchu o leiaf 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth ychwanegol. Bydd lefelau twf o'r fath nid yn unig yn effeithio ar seilwaith lleol ond bydd yn arwain hefyd at oblygiadau i ddyraniadau safleoedd preswyl ychwanegol fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynlluniau Datblygu Lleol arfaethedig.

2.5.22 Ar ôl sefydlu gweledigaeth o dwf cryf ar gyfer yr ardal, mae partneriaid allweddol wedi cytuno i sefydlu corff rhanbarthol newydd fydd â chyfrifoldebau a phwerau newydd ynghylch penderfyniadau allweddol fydd yn effeithio ar y rhanbarth. Yn ogystal â chyflawni swyddogaethau awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol a thîm cymorth busnes a masnach, gallai'r corff newydd hefyd ymgorffori cynllunio defnydd tir strategol. Dadleuir y gallai'r broses o arenwi cyflenwad tir ar gyfer tai a thwf economaidd gael ei gynnal yn well yn rhanbarthol ac yn strategol, yn ogystal ag arenwi safleoedd strategol.

*Astudiaeth Manwerthu Sir Ddinbych 2013: Capasiti Manwerthu (Mehefin 2013)*

2.5.23 Cynhyrchwyd yr astudiaeth gan Adran Ymchwil Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ynghyd â Gwasanaeth Polisi Cynllunio Sir Ddinbych er mwy darparu diweddariad ar y gofynion manwerthu a gyflwynwyd gan Roger Tym a'i bartneriaid yn 2003 a 2006. Roedd yn ystyried newidiadau yn y boblogaeth, amcangyfrif o dwf yn y boblogaeth a gynhyrchir drwy ddatblygiad preswyl fel y nodir hynny yn y CDLl, a datblygiadau manwerthu a gymeradwywyd eisoes.

2.5.24 Mae'r holl gyfrifiadau ac argymhellion a geir yn y ddogfen yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd twf poblogaeth y CDLl yn cael ei wireddu ac y bydd twf twristiaeth yn parhau ar lefel 2013. Dangoswyd yn bendant ei bod yn debygol y bydd yna gynnydd bychan mewn capasiti cyfleuster a chymharol yn y Sir yn yr hirdymor.

2.5.25 Er bod nifer o ddatblygiadau wedi derbyn caniatâd cynllunio o dan y Cynllun Datblygu Lleol presennol, nid yw'r CDLl wedi cyflawni'r nifer disgwyliedig o anheddau ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae twf y boblogaeth yn parhau i fod cryn dipyn y tu ôl i ragamcanion poblogaeth 2011 Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd i bennu gofynion y CDLl.

2.5.26 Mae'r tueddiadau dargyfeiriol hynny wedi arwain at gomisiynu astudiaeth o gapasiti manwerthu newydd sy'n darparu trosolwg ar gyfer 2018. Yn ddibynnol ar ganfyddiadau'r ddogfen, efallai y bydd raid i'r Cyngor adolygu'r hierarchaeth manwerthu ac ystyried mwy o ddyraniadau tir yn y CDLl arfaethedig.

DRAFT

*Rheoli Cyrchfannau Sir Ddinbych 2013-2017*

2.5.27 Yn seiliedig ar ddarpariaethau 'Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013 - 2020', mae'r Cyngor yn amcanu at ddatblygu economi ymwelwyr ffyniannus yn Sir Ddinbych sy'n dathlu cryfderau unigryw'r lle, sy'n cefnogi swyddi, cynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth a gwella ystod ac ansawdd yr amwynderau sydd ar gael i ymwelwyr a phobl leol tra'n cynnwys mesurau diogelu er mwyn cynnal yr amgylchedd lleol.

2.5.28 Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau yn ddatganiad o fwriad ar y cyd ar gyfer rheoli cyrchfan yn ystod cyfnod o amser penodol, gan fynegi rolau gwahanol randdeiliaid ac arenwi camau clir y byddant yn eu cymryd. Felly, mae'r ddogfen yn nodi pum blaenoriaeth:

- Creu model effeithiol er mwyn sicrhau ymagwedd gydlynol tuag at reoli cyrchfannau;
- Sicrhau bod Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael eu cysylltu â'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau;
- Sicrhau bod rheoli cyrchfannau yn berthnasol i'r gymuned fusnes;
- Archwilio ein cynnyrch twristiaeth er mwyn sefydlu data gwaelodlin;
- Hyrwyddo Sir Ddinbych drwy frand Gogledd Ddwyrain Cymru ymysg y gymuned fusnes; a
- Datblygu ymagwedd gydlynol tuag at ddigwyddiadau sy'n bwydo i mewn i Strategaeth Digwyddiadau Cyngor Sir Ddinbych 2014 - 2020.

## 2.6 Awdurdodau Cynllunio Lleol Ffiniol

2.6.1 Tra bod y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â Sir Ddinbych, mae gan bolisïau a dyraniadau tir a geir yng nghynlluniau lleol ACLlau ffiniol y potensial i effeithio ar y Sir. Felly mae'n hanfodol eu bod yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir Ddinbych.

2.6.2 *Parc Cenedlaethol Eryri* – Mae Parc Cenedlaethol Eryri ar hyn o bryd yn y broses o adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Drwy ystyried y strategaeth datblygu ac uchelgeisiau economaidd, cydnabyddir y deilliodd y rhan fwyaf o'r cyfleoedd cyflogaeth o dwristiaeth antur ac mae hynny'n debygol o barhau gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi ar wasanaethau iechyd a llesiant. Mae dau safle wedi cael eu dyrannu yn y CDLl, sy'n cynnwys Ardal Fenter Eryri, a byddant yn creu mwy o gyfleoedd cyflogaeth ac yn gymorth o ran digolledu am y rhai a gollwyd o ganlyniad i weithgareddau blaenorol ar y safleoedd.

2.6.3 Mae tystiolaeth yr ACLl mewn perthynas â manwerthu wedi dangos bod cyfraddau llefydd gwag yn cynyddu ac y gall defnydd amgen fod yn ddymunol mewn mangreoedd gwag yn y Canolfannau Gwasanaethau ac Aneddiadau Gwasanaethau. Mae yna ddau anheddiad ble mae trigolion Sir Ddinbych yn debygol o yrru i siopa ynddynt - Y Bala a Betws y Coed (craidd manwerthu sy'n seiliedig ar dwristiaeth parhaus). Nodwyd bod Y Bala wedi cael ei arenwi fel lleoliad

DRAFT

ar gyfer archfarchnad oherwydd ei fod yn un o'r lleoliadau mwyaf addas a chynaliadwy a hygyrch drwy ddefnyddio'r rhan fwyaf o ddulliau trafnidiaeth yn rhan ddwyreiniol Parc Cenedlaethol Eryri.

2.6.4 *Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* – Fel yn achos Sir Ddinbych, mae Conwy yn y broses o adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ym mis Hydref 2013. Mae'r cynllun lleol wedi arenwi'r gofynion tir cyflogaeth mewn perthynas â thwf economaidd cynaliadwy: Mae angen hyd at uchafswm o tua 20.5 hectar, gyda lefel wrth gefn o hyd at 22.5 hectar o dir cyflogaeth er mwyn bodloni'r newid yn y boblogaeth a ragamcanir. Er mwyn cyfrannu at y gostyngiad yn y lefelau allgymudo, bydd 15.5 hectar arall o dir cyflogaeth, gyda lefel wrth gefn o hyd at 17 hectar yn cael ei ddarparu. Bydd canolfan strategol Conwy, Cyffordd Llandudno, Bae Colwyn a lleoliad hygyrch a chynaliadwy Abergele yn cael eu defnyddio er mwyn bodloni'r angen hwn.

2.6.5 Mae CDLl Conwy yn cydnabod bod canolfan ranbarthol Llandudno a chanol trefi pwysig eraill yn y Cynllun yn teimlo pwysau gan ddefnydd nad yw'n fanwerthu. Mae yna angen i gynnal a, phan fo'n briodol, gwella Llandudno fel canolfan fanwerthu ar gyfer y rhanbarth, hyrwyddo adfywiad Bae Colwyn, yn ogystal â chanolfannau manwerthu eraill a, phan fo'n bosibl, gwella bywiogrwydd, atyniad a dichonolrwydd cyffredinol y canolfannau drwy brofiad siopa mwy amrywiol.

2.6.6 Fel yn achos economi ymwelwyr Sir Ddinbych, mae'r sector twristiaeth yn arwain at gynnydd mewn diweithdra yn ystod misoedd y gaeaf yng Nghonwy. Mae angen annog, a phan fo'n bosibl, diogelu'r sector twristiaeth, yn arbennig yn y cyrchfannau arfordirol, a gwneud y mwyaf o botensial twristiaeth, yn arbennig mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, er mwyn annog twristiaeth drwy gydol y flwyddyn.

2.6.7 *Cyngor Sir y Fflint* – Mae Cyngor Sir y Fflint yn y broses o gwblhau cam Opsiynau Strategol (Opsiynau Twf a Gofodol) ei Gynllun Datblygu Lleol newydd. Cynhyrchwyd papur testun y CDLl ar ddatblygiad economaidd yn 2015 ac mae'n cydnabod rôl y Sir fel canolbwynt allweddol ar gyfer economi rhanbarthol ehangach Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, gan ddarparu, er enghraifft, cyflogaeth 'gwerth uchel' ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a Brychdyn.

2.6.8 Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod, mewn cynlluniau datblygu blaenorol, y bu'n arferiad gorddyrannu tir cyflogaeth er mwyn darparu ar gyfer ystod o safleoedd cyflogaeth yn ôl lleoliad, maint a math er mwyn caniatáu elfen o hyblygrwydd. Mae angen adolygiad cydnerth o safleoedd presennol ynghyd ag asesiad o nifer a math y safleoedd y mae'n debygol y bydd eu hangen yn ystod cyfnod y Cynllun, er mwyn penderfynu a yw'r safleoedd presennol yn dal yn gallu bodloni anghenion cyflogwyr modern.

2.6.9 Rhagwelir y bydd y CDLl arfaethedig yn hybu canol trefi fel y prif leoliadau ar gyfer manwerthu datblygiadau manwerthu, swyddfeydd, hamdden, iechyd newydd a datblygiadau cysylltiedig eraill, yn seiliedig ar ddull dilyniannol o ddewis safleoedd.

DRAFT

Bydd y CDLl hefyd yn canolbwyntio datblygu mewn canol trefi presennol er mwyn creu mwy o ddewis o ran cyfleusterau a chreu mwy o resymau i bobl ymweld â'r canolfannau hynny.

2.6.10 *Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam* – Bu i'r awdurdod cynllunio lleol gynhyrchu nifer o bapurau testun sy'n cefnogi cynhyrchu CDLl Adneuo, fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod hydref 2017. Mae opsiwn twf y CDLl a gynigir gan y Cyngor yn arwain at ofyniad tai o 10,650 o anheddau yn ystod cyfnod y CDLl (2013-2028). Yn nhermau effaith economaidd byddai'r opsiwn twf a gynigir yn cyfateb i dwf swyddi o tua 7,550 yn ystod cyfnod y CDLl, a gofyniad canlyniadol am dir cyflogaeth o tua 52.9 hectar.

2.6.11 Mewn perthynas â Strategaeth a ffafrir ac Opsiwn Twf y Cyngor, dadleuir y dylid trafod cynigion ar gyfer safleoedd strategol allweddol yn cynnwys ardal chwilio ar gyfer safle cyflogaeth ar Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam. Er y gellir dad-ddyrannu safleoedd nad oes ganddynt obaith rhesymol o gael eu defnyddio ar gyfer datblygiad economaidd, mae angen i'r CDLl ddiogelu safleoedd/dyraniadau cyflogaeth presennol.

2.6.12 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd CDLl Adneuo Wrecsam yn nodi strategaeth glir ar gyfer datblygu manwerthu a fframwaith ar gyfer dyfodol canol trefi, rhanbarth a phentrefi. Fel yn achos yr hierarchaeth aneddiadau, bydd hierarchaeth bresennol canolfannau a'u swyddogaeth ar gyfer yr ardaloedd cyfagos yn cael eu sefydlu gyda rolau wedi eu diffinio'n glir. Mae angen datblygu camau er mwyn ymateb i'r pwysau a'r cyfleoedd fydd yn deillio o newidiadau sylweddol yn y sector. Bydd manwerthu yn tanategu canol trefi ond dylai polisïau annog amryw o ddefnyddiau mewn canolfannau. Anogir datblygiadau defnydd cymysg o ran manwerthu, adloniant, tai bwyta a thai.

2.6.13 *Cyngor Powys* – Roedd Cynllun Datblygu Lleol Powys yn destun archwiliad gan Arolygydd Cynllunio annibynnol yn ystod Gwanwyn 2017. Mae'n debyg y byddir yn ymgynghori ar newidiadau fydd yn digwydd yn ystod y broses archwilio yn ystod Haf 2017. Mae'r cynigion a geir yn y cynllun lleol arfaethedig yn annhebygol o effeithio ar Sir Ddinbych oherwydd topograffeg a dyraniadau tirwedd ar hyd ffiniau'r Siroedd, er enghraifft Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a dau safle a warchodir gan Ewrop ar gyfer cadwraeth byd natur.

2.6.14 *Cyngor Gwynedd* – Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn wedi penderfynu paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r ddau Gyngor yn disgwyl y bydd y Cynllun yn cael ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2017. Mae strategaeth y Cynllun yn fras yn disgwyl y newid economaidd gweddnewidiol disgwyliedig fydd yn deillio o faint unigryw prosiectau seilwaith mawr ar Ynys Môn, a statws Ardal Fenter yr Ynys fydd ysgogydd mwyaf y newid gofodol a chymdeithasol yn ystod cyfnod y Cynllun (2011 - 2026).

DRAFT

2.6.15 Nodwyd bod dyraniad statws Ardal Fenter ar Ynys Môn yn ategu Rhaglen Ynys Ynni bresennol Ynys Môn. Mae naw safle allweddol wedi cael eu clustnodi ar yr Ynys mewn perthynas â bod yn destun cefnogaeth ffocysedig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi arenwi Ardal Fenter Eryri, ac er ei bod wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, gallai daenu ffyniant y tu hwnt i ffiniau gweinyddol y Parc.

2.6.16 Er nad ydynt yn agos iawn at ffin y Sir, mae datblygiadau pwysig yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn debygol o effeithio ar yr economi leol yn Sir Ddinbych. Mae yna gyfle i elwa o nifer cynyddol o SMEs fydd yn gweithredu yn yr amgylchedd economaidd fydd yn cael ei greu o gwmpas y canolfannau cyflogaeth hynny.

2.6.17 Mae Strategaeth Aneddiadau'r CDLl yn cydnabod bod canol trefi a dinasoedd yn elfennau hanfodol o'r economi leol ac maent yn parhau i ddarparu canolbwynt i gymunedau. Felly mae'n bwysig sicrhau bod yna fframwaith cynllunio yn bodoli sy'n diogelu a gwella sefyllfa canol trefi fel lleoliadau ar gyfer gwasanaethau manwerthu a masnachu. Bu i astudiaeth manwerthu a gynhaliwyd yn 2013 amlygu dylanwad cryf Bangor fel canolfan fanwerthu is-ranbarthol. Mae hefyd yn cydnabod bod yr ardal yn cael ei gwasanaethu gan hierarchaeth fanwerthu sy'n cynnwys canolfannau y tu allan i ardal y Cynllun, er enghraifft Llandudno a Chaer.

# 3. Adolygiad Gwaelodlin

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Tra bod yr adran flaenorol wedi canolbwyntio ar ddogfennau polisi a strategol, diben y paragraffau canlynol yw dadansoddi unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd yn y Sir ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ym Mehefin 2013. Bydd y ddwy adran yn darparu tystiolaeth allweddol ar gyfer camau nesaf cynhyrchu'r Cynllun, pan fydd y Cyngor yn trafod newidiadau arfaethedig yn fanylach.

3.1.2 Mae'r wybodaeth waelodlin wedi ei rhannu'n destunau ar wahân megis dyraniadau tir cyflogaeth a manwerthu, er mwyn hwylustod cyfeirio a defnyddio.

## 3.2 Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru

3.2.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021 (CDLl) yn cynnwys polisi lleol PSE1 a gynhwyswyd er mwyn cefnogi cynigion datblygu sy'n amcanu at fynd i'r afael ag amddifadedd ac sy'n cynnig buddion economaidd ehangach i gymunedau lleol o fewn fframwaith rhaglen Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru (NWCSRA) Llywodraeth Cymru (LlC).

3.2.2 Daeth rhaglen gyllido 'Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru' Llywodraeth Cymru i ben ym mis Mawrth 2014 ond mae'r problemau a arenwyd yn flaenorol a'r anfanteision yn dal yn bodoli yn yr ardal. Amcan gyffredinol y CDLl mabwysiedig yw mynd i'r afael â materion megis cefnogi amrywiaeth economaidd yn ein canol trefi a darparu tai o safon uchel.

DRAFT

3.2.3 Er nad yw'r rhaglen gyllido wreiddiol yn bodoli mwyach, mae'r prif amcanion oedd yn tanlinellu'r hen NWCSRA yn cael eu hadlewyrchu yn nogfennau a strategaethau corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych, er enghraifft Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017 a Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol 2013 - 2033. Mae'r ddwy dogfen yn mynegi'r angen am weithgareddau sy'n cynhyrchu cyflogaeth, tai o safon uchel i aelodau'r gymuned leol, cefnogaeth i dwristiaeth, a mynd i'r afael ag amddifadedd yn y Sir. Felly, mae pwrpas a nod cyffredinol polisi lleol PSE1 yn dal yn berthnasol.

3.2.4 Yn wahanol i raglen LlC, nid yw dogfennau corfforaethol Sir Ddinbych yn gyfyngedig i ardal Arfordir Gogledd Cymru, ond maent yn cynnwys y Sir gyfan. Maent yn ymestyn yn gadarnhaol y tu hwnt i gyfyngiadau gofodol PSE1, h.y. coridor yr A55 a'r ardal arfordirol. Os yw ymgeiswyr arfaethedig yn dymuno cyfeirio at bolisi lleol PSE1 er mwyn ategu eu cynigion cynllunio byddai'r Cyngor yn eu hannog i arddangos sut fydd y datblygiad yn cefnogi strategaethau unigol a rhaglenni gweithredu a amlinellir yn nogfennau corfforaethol y Sir.

3.2.5 Mae yna gyfle i ystyried pwrpas a geiriad polisi lleol PSE1 fel rhan o broses adolygu'r CDLl; er mwyn adlewyrchu'r newidiadau uchod a lleihau'r ddibyniaeth ar raglen adfywio benodol LlC.

## 3.3 Economi leol

*Trosolwg Economaidd*

3.3.1 Roedd tua 94,700 o bobl yn byw yn Sir Ddinbych yn 2015, ac mae'r ardal yn 844 cilomedr sgwâr. Mae hynny'n gynnydd o tua 770 o bobl ers 2011. Dwysedd y boblogaeth yw 112 o bobl am bob cilomedr sgwâr, ond mae'r gwasgariad yn gwahaniaethu'n sylweddol yn y sir gyda rhimyn arfordirol trefol o gwmpas trefi glan môr Prestatyn a'r Rhyl, ac ardal fewndirol wledig yn bennaf gyda nifer o drefi marchnad pwysig a phrif bentrefi i'r de o goridor trafnidiaeth yr A55.

3.3.2 Roedd tua 55,000 o'r 94,700 o breswylwyr (neu 58.6%) mewn oedran gweithio (16 i 64 oed) yn y Sir. Mae'r ganran o 58.6% yn is na'r 61.9% ar gyfer Cymru, a llawer yn is na'r 63.3% ar gyfer Prydain Fawr. Amcangyfrifwyd bod diweithdra ar sail model yn Sir Ddinbych yn 4.6% neu 1,900 o bobl yn ystod y flwyddyn hyd at Ragfyr 2016. Mae hynny yn cynnwys ystod ehangach o bobl na ffigyrau mwy cyfyngedig Lwfans Ceisio Gwaith, yr effeithiwyd arnynt yn ystod y blynyddoedd diweddar gan gyflwyno Credyd Cynhwysol yn raddol. Bu i ddiweithdra yn y Sir barhau i godi ar ôl yr argyfwng ariannol hyd at y flwyddyn oedd yn diweddu yn Rhagfyr 2013, ond mae wedi gostwng yn ystod pob cyfnod ers hynny.

3.3.3 Tabl 2 Cyfradd diweithdra (yn seiliedig ar fodel)

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Ddinbych | 7.2 | 8.4 | 7.4 | 7.3 | 7.8 | 6.4 | 5.2 | 4.2 |
| Cymru | 8.2 | 8.3 | 8.3 | 8.3 | 7.9 | 6.8 | 5.9 | 4.6 |

DRAFT

Ffynhonnell: Cyfradd Diweithdra 2009-2016; Nomis, © Hawlfraint y Goron

3.3.4 Nifer y busnesau actif yn Sir Ddinbych yn 2015 (y pwynt mesur mwyaf diweddar) oedd 3,330 o fusnesau; mae hynny yn gynnydd o 80 o fusnesau actif ers y flwyddyn flaenorol ac yn 175 o fusnesau ers 2006 (gweler tabl 3). Mae'r newidiadau fesul blwyddyn ers 2006 yn adrodd stori am yr amgylchedd economaidd heriol oedd yn bodoli ar yr adeg honno. Bu cynnydd mewn busnesau hyd at 2008 cyn y gostyngiadau yn dilyn hynny. Y cynnydd a gafwyd yn 2013 oedd y cynnydd cyntaf ers 2008 a gallai o bosib fod yn arwydd o dirwedd economaidd gwell.

3.3.5 Tabl 3 Nifer y Busnesau Actif yn Sir Ddinbych (2006 - 2015)

| Blwyddyn | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 3155 | 3225 | 3320 | 3260 | 3195 | 3135 | 3115 | 3195 | 3250 | 3330 |

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, © Hawlfraint y Goron

3.3.6 Mae Gwerth Gros Ychwanegol (GVA) yn mesur maint economi ardal ar lefel NUTS3. Mae hon yn uned ddaearyddol yr Undeb Ewropeaidd sy'n cynrychioli grwpiau bach o awdurdodau lleol. Amcangyfrifwyd ffigyrau awdurdodau lleol drwy dybio eu bod yr un faint â'r ffigyrau ar gyfer lefel ardal NUTS3. Dyma'r rheswm pam fod Conwy a Sir Ddinbych wedi'u grwpio a bod ganddynt yr un GVA y pen. Yn 2015, sef y pwynt mesur mwyaf diweddar sydd ar gael, y GVA y pen yn Sir Ddinbych oedd £15,978 y flwyddyn (gweler tabl 4). Mae hynny yn gynnydd o £2,390 ers ffigyrau 2006. Fodd bynnag, dylid trin GVA gyda phwyll bob amser oherwydd gallant gael eu hystumio gan lifoedd cymudo rhwng awdurdodau lleol ac ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

3.3.7 Tabl 4 Gwerth Gros Ychwanegol y Pen yn Sir Ddinbych (2006 - 2015)

| Blwyddyn | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GVA y pen | 13,588 | 13,933 | 14,294 | 13,709 | 13,636 | 14,063 | 14,917 | 15,217 | 15,278 | 15,978 |

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, © Hawlfraint y Goron

3.3.8 Mae pob diwydiant yn cael ei godio yn unol â Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 1992. Mae'r math o waith a wneir gan gyflogai yn diffinio'r grŵp galwedigaeth ac mae beth mae menter yn ei wneud yn diffinio'r diwydiant. Y ddau ddiwydiant mwyaf o ran cyflogaeth yn Sir Ddinbych yw Manwerthu / atgyweirio ceir (6,000 o bobl) gwasanaethau a'r sector iechyd (10,000 o bobl) (gweler tabl 5). Mae maint y sector iechyd yn cael ei danlinellu'n fwy wrth gymharu % y cyflogeion yn ôl Diwydiannau yn Sir Ddinbych (27) a ffigyrau ar gyfer Cymru (16.2) a Phrydain Fawr (13.3).

3.3.9 Tabl 5 Swyddi cyflogeion yn ôl diwydiant yn Sir Ddinbych (2015)

| Swyddi cyflogeion yn ôl Diwydiant | Sir Ddinbych (cyfanswm) | Sir Ddinbych (%) | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cloddio a Chwarela | 0 | 0.0 | 0.1 | 0.2 |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithgynhyrchu | 3,500 | 9.5 | 12.0 | 8.3 |
| Trydan, Nwy, Stêm a Chyflenwi Tymheru Aer | 75 | 0.2 | 0.9 | 0.4 |
| Cyflenwad Dŵr; Carthffosiaeth, Rheoli Gwastraff a Gweithgareddau Adfer | 225 | 0.6 | 1.1 | 0.7 |
| Adeiladu | 2,000 | 5.4 | 4.2 | 4.6 |
| Masnach Cyfanwerthu a manwerthu; Atgyweirio Cerbydau a Beiciau Modur | 6,000 | 16.2 | 15.9 | 15.8 |
| Cludiant a Storio | 1,000 | 2.7 | 3.6 | 4.7 |
| Llety a Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd | 3,500 | 9.5 | 7.6 | 7.2 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 300 | 0.8 | 1.7 | 4.2 |
| Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant | 400 | 1.1 | 2.3 | 3.6 |
| Gweithgareddau Eiddo Tirol | 600 | 1.6 | 1.2 | 1.7 |
| Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 1,750 | 4.7 | 5.1 | 8.4 |
| Gweithgareddau Gweinyddol a Gwasanaethau Cymorth | 1,500 | 4.1 | 6.4 | 8.9 |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn; Nawdd Cymdeithasol Gorfodol | 1,750 | 4.7 | 7.1 | 4.4 |
| Addysg | 3,500 | 9.5 | 10.4 | 9.2 |
| Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol | 10,000 | 27.0 | 16.2 | 13.3 |
| Celfyddydau, Adloniant a Hamdden | 600 | 1.6 | 2.7 | 2.4 |
| Gweithgareddau Gwasanaethau Eraill | 600 | 1.6 | 1.5 | 2.0 |

Ffynhonnell: Cofrestr Busnes ac arolwg Cyflogaeth ONS; © Hawlfraint y Goron

*Amddifadedd*

3.3.10 Mae Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (WIMD) yn mesur amddifadedd cymharol ar draws amryw o themâu megis incwm, iechyd, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, cyflogaeth etc. Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAs) sy'n cynnwys Cymru gyfan. Mae yna gyfanswm o 1,909 LSOA. Mae ardal yn cael ei dosbarthu fel ardal o amddifadedd os oes ynddi grynodiad o bobl sy'n dioddef unrhyw un o'r mathau hynny o amddifadedd.

DRAFT

3.3.11 Tabl 6 Nifer yr LSOA yn Sir Ddinbych yn y 10% uchaf (cyfanswm o 190) mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl math o amddifadedd

| Math o Amddifadedd | Nifer | Fel % o'r holl LSOA |
|---|---|---|
| Incwm | 8 | 13.8% |
| Cyflogaeth | 7 | 12.1% |
| Iechyd | 6 | 10.3% |
| Addysg | 5 | 8.6% |
| Mynediad i Wasanaethau | 8 | 13.8% |
| Diogelwch Cymunedol | 8 | 13.8% |
| Amgylchedd ffisegol | 1 | 1.7% |
| Tai | 8 | 13.8% |
| Mynegrif Cyffredinol | 8 | 13.8% |

Ffynhonnell: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

3.3.12 Mae Amddifadedd lluosog yng Ngorllewin a De Orllewin Y Rhyl ymysg yr uchaf yng Nghymru ac mae'n cynnwys diweithdra, incwm isel a deilliannau addysgol gwael ymysg eraill. Mae rhannau eraill o'r Rhyl, y De a'r dwyrain yn benodol, yn llai difreintiedig ac yn fwy ffyniannus. Yn ychwanegol at ddirywiad hanesyddol y diwydiant twristiaeth, mae Rhyl wedi dioddef o ganlyniad i ddarpariaeth manwerthu sy'n dirywio yng nghanol y dref yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae buddsoddiadau diweddar wedi canolbwyntio ar adfywio ffisegol a datblygu Ysgol Uwchradd Y Rhyl. Mae rhannau o Ddinbych / Henllan hefyd yn dioddef amddifadedd lluosog ac maent yn gynwysedig yn ardal Cymunedau'n Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych. Mae yna lefelau uchel o ddiweithdra, incwm aelwydydd isel a deilliannau iechyd ac addysgol gwael. Bydd yr LDP yn parhau i gefnogi gweithgareddau adfywio, strategaethau corfforaethol a materion cynllunio sy'n amcanu at daclo amddifadedd yn y Sir.

*Tir Cyflogaeth*

3.3.13 Bu i gronfa dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig gasglu bod angen tir cyflogaeth o tua 50 ha hyd at 2021. Sefydlwyd y rhif ar sail uno tri model rhagfynegi cyflogaeth, a nodwyd yn yr astudiaeth a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor yn 2007. O ran unrhyw gynlluniau wrth gefn wrth gynllunio ymlaen, daeth yr astudiaeth i'r casgliad y dylai Sir Ddinbych fod yn cynllunio ar sail tua 3 ha y flwyddyn - sydd yn tua 45 ha yn ystod cyfnod y cynllun (wedi ei dalgrynnu i 50 ha ar gyfer y CDLl). Mae Tabl 7 yn rhestru'r holl ddyraniadau tir cyflogaeth newydd mewn Trefi Twf Is. Roedd llawer o'r galw masnachol am dir cyflogaeth wedi cael ei ganolbwyntio yng ngogledd y Sir, ar goridor yr A55 yn benodol oherwydd ei fod yn agos i:

- fynediad cyflym i'r rhwydwaith traffyrdd yng ngogledd orllewin Lloegr a'r Ardal Fenter yng Nglannau Dyfrdwy;
- Rhwydwaith Traws Ewropeaidd
- canolfannau poblogaeth mawr yn y Sir ac ar hyd arfordir Gogledd Cymru;
- safleoedd cyflogaeth presennol, er enghraifft Parc Busnes Llanelwy;
- yr ysbyty ranbarthol 'Ysbyty Glan Clwyd' ym Modelwyddan; a

DRAFT

- rheilffordd arfordir Gogledd Cymru sy'n darparu cysylltiadau â Manceinion, Llundain a Chaerdydd.

3.3.14 Tabl 7 Dyraniadau tir cyflogaeth newydd mewn Trefi Twf Is

| Anheddiad | Dyraniad Cyflogaeth | Hectares | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Bodelwyddan | Safle Strategol Allweddol | 26 | Cais cynllunio amlinellol (yn cynnwys Adran 106) wedi ei gymeradwyo ym Mawrth 2016 |
| Y Rhyl | -- | 0 | Mae'r galw am dir cyflogaeth yn cael ei fodloni drwy ddefnyddio mangreoedd gwag neu a danddefnyddir ar safleoedd presennol. |
| Prestatyn | -- | 0 | |
| Llanelwy | Parc Busnes Llanelwy | 14 | Mae'r galw am swyddfeydd yn cael ei fodloni drwy ddefnyddio cyfleusterau presennol. |
| Dinbych | Gogledd Colomendy | 8 | Dim datblygiad; mae'r safle wedi cael ei ddyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth ers 2002; ystyried ailddyrannu'r safle. |
| Rhuthun | Lon Parcŵr | 5.5 | Mae'r galw am dir cyflogaeth yn cael ei fodloni drwy ddefnyddio mangreoedd gwag neu a danddefnyddir ar safleoedd presennol. |
| Corwen | Ty'n Llidiart | 6 | Mae'r tir wedi cael ei dderbyn ar gyfer datblygiad economaidd ym Mehefin 2017. |

Ffynhonnell: Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021, t42

3.3.15 Yn unol â Strategaeth Gofodol y Cynllun Datblygu Lleol roedd y rhan fwyaf o'r tir cyflogaeth newydd wedi cael ei leoli o fewn y safle strategol Allweddol a arenwyd o dan bolisi lleol BSC5 ym Modelwyddan, ac ym Mharc Busnes Llanelwy. Mae dyraniadau tir cyflogaeth newydd wedi cael eu harenwi hefyd yn y trefi twf is fel y dangosir hynny ar fapiau cynigion y CDLl. Y nod oedd darparu amrywiaeth o safleoedd mewn gwahanol leoliadau. Ar wahân i ddyraniadau tir newydd, mae'r cynllun lleol yn pwysleisio gwarchod mangreoedd cyflogaeth presennol ar gyfer eu hailddefnyddio o bosibl yn y dyfodol.

DRAFT

3.3.16 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod bod adeiladau gwledig traddodiadol yn gwneud cyfraniad pwysig i ansawdd y tirlun yn Sir Ddinbych, a gall sicrhau defnydd newydd i adeiladau gwag helpu eu cadw. Mae polisi lleol PSE4 yn amcanu at sicrhau mai ailddefnyddio ar gyfer defnydd cyflogaeth fydd y flaenoriaeth gyntaf bob amser yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Blaenoriaeth allweddol yw'r angen i gynnal cyflogaeth wledig yn y Sir drwyddi draw. Mae'r polisi yn gofyn am ddangos achos busnes ar gyfer datblygu, er mwyn sefydlu buddion y cynllun mewn perthynas â chynnal cyflogaeth leol a'r economi wledig. Mae'r buddion yn cynnwys darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol, defnyddio ffynonellau cynaliadwy lleol ar gyfer deunydd crai, posibilrwydd o werthu cynnyrch lleol, a darparu gwasanaethau i gymunedau lleol.

3.3.17 Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiadau blynyddol o'r tir cyflogaeth yn y Sir. Mae'r ymarferiad hwn yn canolbwyntio ar argaeledd tir cyflogaeth, faint o dir a ddefnyddir a chyfraddau cwblhau. Mae'r holl wybodaeth yn gysylltiedig â dyraniadau tir a ddangosir ar fapiau Cynigion y CDLl. Mae'r arolwg yn canolbwyntio ar 31 safle cyflogaeth; gan gyfeirio at ddyraniadau tir a gynhwysir yn y CDLl o dan Bolisïau PSE2, BSC2 A BSC5 y CDLl. Felly mae'n mesur newidiadau mewn perthynas â mangreoedd busnes ar safleoedd oedd eisoes yn gynwysedig mewn cynlluniau defnydd tir blaenorol.

3.3.18 Tabl 8 Tir a ddefnyddir fesul polisi CDLl 2006 - 2016

| *Polisi CDLl* | *2008* | *2009* | *2010* | *2011* | *2012* | *2013* | *2014* | *2015* | *2016* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PSE 2 | 5.2 | 4.4 | 9.1 | 0.0 | 3.3 | 0.0 | 7.95 | 0.00 | 2.21 |
| BSC 2 | 0.0 | 0.0 | 1.4 | 0.0 | 0.0 | 0.1 | 0.00 | 0.00 | 0.0 |
| BSC 5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.00 | 0.00 | 0.0 |

3.3.19 Mae'r defnydd o dir wedi bod yn eithaf araf yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac eithrio 2014 o ganlyniad i nifer y swyddfeydd gwag a'r unedau diwydiannol oedd ar gael yn Sir Ddinbych. h.y. gall y stoc presennol fodloni'r galw gan fusnesau heb droi y galw yn ofynion tir newydd.

3.3.20 Tabl 9 Cyfraddau cwblhau fesul polisi CDLl 2007 - 2016

| *Polisi CDLl* | *2008* | *2009* | *2010* | *2011* | *2012* | *2013* | *2014* | *2015* | *2016* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PSE 2 | 4.8 | 9.5 | 0.0 | 0.0 | 0.2 | 1.9 | 0.00 | 0.8 | 0.0 |
| BSC 2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.3 | 0.0 | 0.0 | 2.89 | 0.0 | 0.0 |
| BSC 5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.00 | 0.0 | 0.0 |

3.3.21 Gan fyfyrio ar y cyfraddau defnyddio tir fel y dangosir hynny yn nhabl 9, mae swm y tir cyflogaeth sydd wedi ei gwblhau wedi bod yn isel iawn yn ystod y naw mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae yna arwydd y gall cyfraddau cwblhau blynyddol godi yn seiliedig ar ffigyrau 2014.

3.3.22 Mae darparu tir cyflogaeth yn dibynnu'n sylweddol ar hyfywedd y datblygiad a gynigir a gwerth posibl y tir ar gyfer defnydd amgen. Heriwyd y Cyngor i ryddhau safleoedd unigol ar gyfer defnydd amgen megis defnydd manwerthu a phreswyl. Collwyd tua 2.1 ha o dir cyflogaeth i ddefnydd preswyl yn Warren Drive ym

DRAFT

Mhrestatyn a thua 2.75ha o dir cyflogaeth i gynllun defnydd cymysg ar Ffordd Derwen yn Y Rhyl. Er nad yw polisi lleol BSC2 yn atal newid defnydd tir ar dir llwyd, mae defnydd manwerthu wedi cael ei sefydlu yn Rhuddlan a Phrestatyn ar dir oedd cyn hynny yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflogaeth draddodiadol.

3.3.23 Gan gadarnhau canlyniadau 'Sir Ddinbych: Astudiaeth Seilwaith y Sector Twf (Awst 2016)' (gweler paragraffau 2.5.11 - 2.5.13), mae'r Cyngor yn rheolaidd yn derbyn ymholiadau busnes fyddai'n golygu bod angen newidiadau i waharddiadau Dosbarthiadau Defnydd B1 a B2 ar rannau o Barc Busnes Llanelwy. [Gellir cael mwy o wybodaeth am ddefnydd tir sy'n perthyn i Ddosbarthiadau Defnydd B yng Ngorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd) ar gyfer Cymru]. Oherwydd bod Parc Busnes Llanelwy wedi cael ei arenwi fel safle cyflogaeth strategol ar gyfer amryw o weithgareddau economaidd, mae angen adolygu geiriad polisi lleol PSE2 mewn perthynas â'r posibilrwydd o fodloni galw yn y dyfodol ar gyfer defnydd amgen o fewn y Dosbarthiadau Defnydd B.

3.3.24 Bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad sylweddol o dir cyflogaeth a ddyrannwyd yn y Sir h.y. tir a ddangosir ar hyn o bryd fel 'PSE2' ar Fapiau Cynigion y CDLl. Bydd yn pwysleisio hyfywedd, seilwaith y safleoedd a chyfyngiadau posibl megis risg llifogydd. Bydd y wybodaeth hon yn hysbysu adolygiad o PSE 2 a PSE 3, sy'n ymdrin â gwarchod mangreoedd cyflogaeth.

## 3.4 Economi Manwerthu

3.4.1 Mae manwerthu yn chwarae rôl economaidd bwysig yn y Sir; ac mae'n un o'r cyflogwyr mwyaf yn lleol. Mae'r mwyafrif o'r cyfleusterau manwerthu wedi eu lleoli yn yr wyth brif aneddiad: Y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Ruthun, Corwen a Llangollen. Mae manwerthu ar raddfa fach hefyd yn cael ei gefnogi yn y pentrefi, sy'n chwarae rôl economaidd a chymdeithasol allweddol yn eu cymunedau lleol.

3.4.2 Er eu bod yn draddodiadol wedi canolbwyntio ar fanwerthu, cydnabyddir bod canol trefi yn cyflawni amryw o swyddogaethau nid yn unig ar gyfer preswylwyr ond ymwelwyr dydd ac ymwelwyr ar wyliau hefyd. Mar Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn annog awdurdodau cynllunio lleol i ganolbwyntio ar arallgyfeirio mewn canol trefi gyda manwerthu'n parhau i fod yn brif swyddogaeth. Ystyrir mai'r rhain yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd oherwydd gell niferoedd mawr o bobl gael mynediad i ganol trefi drwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

3.4.3 Mae PCC yn amcanu at atgyfnerthu canol trefi fel y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer datblygiad manwerthu newydd, tra'n cydnabod y rôl bwysig y gall datblygiadau manwerthu graddfa fach ei chwarae mewn ardaloedd gwledig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr fodloni tri phrawf ar gyfer cynigion manwerthu: (1) angen am fanwerthu - ansoddol a/neu feintiol; (2) ymagwedd ddilyniannol tuag at ddewis

DRAFT

safle; a (3) asesiad o effaith manwerthu. Y diben yw dangos na fydd yn effeithio'n niweidiol ar iechyd canol trefi a dinasoedd presennol.

3.4.4 Bu i Roger Tym a'i bartneriaid ddarparu Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Sir Ddinbych i'r Cyngor yn 2003 a ddiweddarwyd yn 2006, ac roedd yn cynnwys rhagamcanion o ofynion arwynebedd llawr ar gyfer y sectorau manwerthu cymharol a chyfleus hyd at 2011. Roedd yr argymhellion a amlinellwyd yn y ddogfen yn ffynhonnell ar gyfer hysbysu cynhyrchu polisi lleol a'r hierarchaeth manwerthu.

3.4.5 Mae polisi cenedlaethol (PCC Argraffiad 9 - paragraff 10.2.3) yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu lleol sefydlu hierarchaeth mewn canol trefi, a nodir yn nhabl 10 ar gyfer Sir Ddinbych fel y'i cynhwysir yn y CDLl. Sefydlwyd hierarchaeth manwerthu'r Sir er mwyn arenwi'r rôl strategol fyddai'n cael ei chwarae gan y prif ganolfan. Y nod oedd cyfeirio datblygiad manwerthu ar raddfa fawr tuag at Y Rhyl. Mae'r dref hefyd yn gweithredu fel cyrchfan i dwristiaid, ac er bod ei phwysigrwydd wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diweddar, bydd y rôl hon yn cael ei hatgyfnerthu ymhellach drwy ailddatblygu yr ardal forol o gwmpas yr harbwr.

3.4.6 Ystyriwyd bod canol trefi eraill yn Sir Ddinbych yn bwysig yn lleol, er bod gan Prestatyn a Llangollen rôl strategol o ran twristiaeth, a gall twristiaeth chwarae rhan yn hynny. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn amcanu at gefnogi'r rôl twristiaeth y mae Prestatyn a Llangollen yn ei chwarae drwy annog datblygu manwerthu sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a manwerthu penodol.

3.4.7 Tabl 10 Hierarchaeth manwerthu yn Sir Ddinbych (polisi lleol PSE6)

| Position | Type of Centre | Settlement |
|---|---|---|
| Canolfan Is-ranbarthol | Mae'r Rhyl yn darparu ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethu sy'n cyflawni swyddogaeth fel canolbwynt ar gyfer y gymuned leol a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r ganolfan yn gwasanaethu dalgylch is-ranbarthol y mae'r CDLl yn amcanu at ei wella. | Y Rhyl |
| Canol Trefi | Mae'n darparu ystod o gyfleusterau a gwasanaethu sy'n cyflawni swyddogaeth fel canolbwynt ar gyfer y gymuned leol a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. | Prestatyn, Ruthun, Llangollen, Dinbych |
| Canolfannau Ardal | Grwpiau o siopau sydd fel arfer yn cynnwys o leiaf un archfarchnad fwyd neu siop fawr, a gwasanaethau nad ydynt yn manwerthu megis banciau, cymdeithasau tai a thai bwyta. | Llanelwy, Corwen, Rhuddlan |
| Canolfannau Lleol | Grwpiau bach fel arfer yn cynnwys siop papurau newydd, siop nwyddau cyffredinol, is swyddfa'r post a fferyllfa ar | Pentrefi a Phentrefannau |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | brydiau, lle trin gwallt a siopau bach eraill o natur leol. | |

3.4.8 Comisiynwyd astudiaeth capasiti manwerthu arall yn 2013 er mwyn ystyried y newid yn y boblogaeth a datblygiadau manwerthu newydd fel yr amlinellir hynny yn y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo. Er ei bod yn darparu diweddariad cynhwysfawr, ni fu i ddogfen 2013 ystyried y newid mwyaf yn natblygiad manwerthu'r Sir - parc siopa 'Parc Prestatyn' sy'n cynnwys nifer o gadwyni manwerthu cenedlaethol megis Tesco, M&S, Next, SportDirect a River Island. Mae'r datblygid hwn wedi cynyddu atyniad y dref yn fawr iawn fel canolfan fanwerthu, ond ar yr un pryd mae wedi arwain at gau rhai manwerthwyr allweddol yn Y Rhyl.

3.4.9 Ers mabwysiadu'r Cynllun, mae datblygu manwerthu, cyfleuster yn bennaf, wedi digwydd ar hen safle 'Iard yr Orsaf' yn Ninbych, yn yr hen waith argraffu yn Llangollen, ar safle 'Triongl Rhuddlan' a safle'r 'Gwaith Nwy' yng nghanol Prestatyn. Mae datblygu yn mynd rhagddo ar dir a ddyrannwyd naill ai o dan bolisi lleol PSE 7 ' Cynigion ar gyfer datblygiad manwerthu newydd' neu BSC2 'Blaenoriaeth datblygu tir llwyd'.


3.4.10 Mae yna nifer o ddatblygiadau manwerthu y tu allan i ganol trefi sy'n gwneud cyfraniad pwysig i ddarpariaeth manwerthu cyffredinol y Sir, er enghraifft allfa Ffatri Tweedmill a Pharc Manwerthu Clwyd. Nid oedd y CDLl yn cynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ymestyn mwy oherwydd yr effaith bosibl ar ganol trefi a dinas yn y Rhyl, Rhuddlan a Llanelwy. Er hynny, mae'r Ffatri Tweedmill wedi gwneud rhai gwelliannau i'r fangre bresennol, a thrwy hynny mae wedi amrywio'r ddarpariaeth fanwerthu o fewn ei ofod presennol.

3.4.11 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn y broses o gomisiynu astudiaeth newydd er mwyn deall effeithiau'r datblygiadau newydd ar yr hierarchaeth fanwerthu, y sector leol ac unrhyw alw am fwy o ddyraniadau tir. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio er mwyn hysbysu polisi lleol yn y dyfodol yn y Sir.

3.4.12 Mae'r cyngor yn cynnal arolygon o'r prif ganol trefi yn rheolaidd, gan nodi cyfraddau llefydd gwag a natur y defnydd (gweler siart 1 isod a thabl 11). Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol oherwydd mae'n rhoi arwydd o iechyd y dref a lefel y defnydd manwerthu yn y dref.

3.4.13 Siart 1 Cyfraddau Llefydd Gwag Canol Trefi Sir Ddinbych (2006 - 2016)

DRAFT


Cyfraddau Llefydd Gwag 2006 - 2016
Y nifer sy'n wag mewn canrannau o gyfanswm yr eiddo
30
25
20
15
10
5
0
2006
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
Blwyddyn
Corwen
Llangollen
Rhuthun
Dinbych
Llanelwy
Rhuddlan
Prestatyn
Y Rhyl

DRAFFT

Tabl 11: Crynodeb o ganlyniadau arolwg Canol Trefi a Dinasoedd blynyddol

| **Canol Tref** | **Allfeydd Cymharol** | | **Allfeydd Cyfleus** | | **Allfeydd Eraill** | | **Unedau Preswyl** | | **Allfeydd Gwasanaethau** | | **Allfeydd Gwag** | | **Cyfanswm Unedau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | *Canran* | Nifer | *Canran* | Nifer | *Canran* | Nifer | *Canran* | Nifer | *Canran* | Nifer | *Canran* | |
| **Corwen** | 10 | *21.7* | 6 | *13.0* | 3 | *6.5* | 4 | *8.7* | 11 | *12.0* | 12 | *26.1* | 46 |
| **Llangollen** | 36 | *25.5* | 10 | *7.1* | 19 | *13.5* | 24 | *17.0* | 41 | *29.1* | 11 | *7.8* | 141 |
| **Rhuthun** | 47 | *26.3* | 12 | *6.7* | 13 | *7.3* | 46 | *25.7* | 46 | *25.7* | 15 | *8.4* | 179 |
| **Dinbych** | 27 | *24.5* | 7 | *6.4* | 9 | *8.2* | 11 | *10.0* | 36 | *32.7* | 20 | *18.2* | 110 |
| **Llanelwy** | 4 | *7.1* | 5 | *8.9* | 8 | *14.3* | 15 | *26.8* | 18 | *32.1* | 6 | *10.7* | 56 |
| **Rhuddlan** | 11 | *21.6* | 1 | *2.0* | 7 | *13.7* | 6 | *11.8* | 24 | *47.1* | 2 | *3.9* | 51 |
| **Prestatyn** | 56 | *30.1* | 15 | *8.1* | 21 | *11.3* | 8 | *4.3* | 76 | *40.9* | 10 | *5.4* | 186 |
| **Y Rhyl** | 115 | *29.9* | 20 | *5.2* | 31 | *8.1* | 27 | *7.0* | 112 | *29.1* | 80 | *20.8* | 385 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych, Tachwedd 2016

DRAFT

## 3.5 **Economi ymwelwyr**

3.5.1 Mae gan Sir Ddinbych ddarpariaeth twristiaeth amrywiol o ganolfannau arfordirol Y Rhyl a Phrestatyn i gyfoeth o drefi marchnad yn Nyffryn Clwyd; a hynny mewn amgylchedd o safon uchel gydag enw da cynyddol yn y sector gweithgareddau awyr agored. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau safon uchel sy'n ategu a gwella'r economi ymwelwyr yn y Sir yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y Cyngor.

3.5.2 Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig yn economi Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd mae'n cyfateb i 10% o gyflogaeth Sir Ddinbych. Mae hynny'n cynrychioli tua 5,000 o swyddi, er bod llawer o'r swyddi yn y sector hon yn tueddu i fod yn dymhorol ac yn cynnig cyflog isel. Roedd cyfanswm y refeniw a gynhyrchwyd gan dwristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych yn 2014 yn agos i £428 miliwn, gyda dros 5 miliwn yn ymweld â'r Sir y flwyddyn honno.

3.5.3 Mae mentrau parhaus i adfywio'r Rhyl yn dechrau effeithio'n sylweddol o ran gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, a bydd hynny yn y pen draw yn arwain at fwy o ffyniant economaidd. Felly, mae'r cynllun lleol yn amcanu at gyfyngu ar ddefnydd tir yn yr ardaloedd gwarchod twristiaeth arfordirol i defnydd sy'n gysylltiedig â'r economi ymwelwyr er mwyn ategu amcanion adfywio'r ardal.

3.5.4 Mae mentrau parhaus i adfywio'r Rhyl yn dechrau effeithio'n sylweddol o ran gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, a bydd hynny yn y pen draw yn arwain at fwy o ffyniant economaidd. Felly, mae'r cynllun lleol yn amcanu at gyfyngu ar ddefnydd tir yn yr ardaloedd gwarchod twristiaeth arfordirol i defnydd sy'n gysylltiedig â'r economi ymwelwyr er mwyn ategu amcanion adfywio'r ardal.

3.5.5 Mae'r sector gweithgareddau awyr agored yn un sydd â photensial sylweddol i dyfu yn Sir Ddinbych. Mae yna ardal o arbenigedd gweithgareddau awyr agored yn datblygu o gwmpas Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Ardudwy - yn seiliedig ar y canolfannau beicio mynydd a saethu ar draws y Sir; i ardaloedd Mynydd Hiraethog a llyn Brennig. Yn aml mae gwariant gan gyfranogwyr ar weithgareddau awyr agored yn uchel ac mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi datblygiadau fydd yn annog twf cynaliadwy yn y sector yma o fewn ffiniau capasiti amgylcheddol.

3.5.6 Mae safleoedd carafanau teithiol a statig a chabannau gwyliau a safleoedd campio yn ffynhonnell bwysig o lety gwyliau, a gall hynny fod yn allweddol i lwyddiant y diwydiant twristiaeth, er yr ystyrir bod safleoedd o'r fath yn weledol ymwthiol. Teimlir hynny yn arbennig ym mhrif ganolfannau gwyliau Y Rhyl a Phrestatyn, ble mae cyfres o safleoedd ffiniol yn amlwg iawn ac mewn amrywiol leoliadau cefn gwlad. Mewn rhai ardaloedd gellir ystyried bod effaith gronnol safleoedd presennol yn weledol ymwthiol ac yn amlwg yn y tirlun, felly bydd y Cyngor yn annog cynlluniau tirlunio er mwyn gwella a sgrinio safleoedd.

3.5.7 Mae polisi lleol PSE12 yn amcanu at sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol ond yn cael eu caniatáu pan na fyddai'r cynnig yn arwain at orgrynodiad o ddefnydd tebyg

DRAFT

yn yr ardal, a phan gyfoethogir bioamrywiaeth yr ardal yn sylweddol. Bydd meddiannaeth carafanau statig a chabannau gwyliau yn cael ei gyfyngu i ddefnydd gwyliau yn unig a bydd unrhyw ddefnydd preswyl yn destun camau gorfodi.

3.5.8 Eisoes mae yna orddarpariaeth o ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â charafanau yng ngogledd y Sir, ac mae llawer o hynny o safon isel. Mae llawer o'r ardal arfordirol yn agored gydag ychydig o gysgod coed sy'n golygu bod cymhathu safleoedd carafanau i'r tirlun yn anodd. Yn yr ardaloedd gwledig mewndirol, gall datblygiadau sy'n gysylltiedig â charafanau, yn arbennig carafanau statig, fod yn ymwthiol yn y tirlun, a gallant niweidio cymeriad yr ardal wledig oni bai eu bod yn cael eu rheoli yn gaeth.

3.5.9 Mae safleoedd carafanau teithiol a safleoedd campio yn effeithio llai oherwydd nad ydynt yn cael eu meddiannu'n barhaus, ac yn ystod misoedd y gaeaf efallai nad oes yno ond ychydig dystiolaeth o weithgaredd. Fodd bynnag, yn ystod misoedd yr haf gallant fod yn ymwthiol yn y tirlun a gallant ychwanegu at bwysau ymwelwyr ar ardaloedd penodol os nad ydynt yn cael eu rheoli. Ble mae pwysau ymwelwyr yn llai, gellir eu caniatáu, yn ddibynnol ar ystyriaethau amgylcheddol eraill.

## 3.6 **Mwynau**

3.6.1 Mae defnyddio mwynau yn cyfrannu at economi Cymru; fodd bynnag gall echdynnu mwynau effeithio ar gymunedau lleol a'r amgylchedd. Mae mwynau yn adnodd y mae pen draw iddynt, a gellir ond cloddio amdanynt ble maent ar gael, ac mae hynny yn achosi heriau penodol yn Sir Ddinbych oherwydd gwasgariad mwynau a'r ffaith eu bod yn bresennol yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB). Felly, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn amcanu at leihau'r angen am fwynau drwy arferion adeiladu cynaliadwy a gwneud y defnydd mwyaf o agregau wedi'u hailgylchu yn hytrach nag agregau sylfaenol.

3.6.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru Pennod 14, Nodyn Cyngor Technegol ar Fwynau 1: Nodyn Cyngor Technegol ar Agregau a Mwynau 2: Glo, yn darparu canllawiau cenedlaethol i awdurdodau cynllunio lleol, sy'n gosod y gofynion canlynol ar awdurdodau cynllunio lleol:

- Darparu adnoddau mwynau er mwyn bodloni anghenion y gymdeithas a diogelu adnoddau rhag sterileiddio;
- Arenwi ardaloedd ble na ddylid cloddio am lo;
- Gwarchod ardaloedd sy'n bwysig i'r dreftadaeth naturiol neu adeiledig;
- Cyfyngu ar effaith amgylcheddol echdynnu mwynau;
- Arenwi parthau byffer o gwmpas gweithfeydd mwynau presennol er mwyn osgoi cyd leoli defnyddiau tir sy'n gwrthdaro â'i gilydd;
- Sicrhau gwaith adfer o safon uchel a defnydd buddiol dilynol; ac
- Annog defnydd effeithlon a phriodol o fwynau ac ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau addas.

DRAFT

3.6.3 Un o ofynion allweddol Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau, yw cynhyrchu datganiad Technegol Rhanbarthol, sy’n dadansoddi gofynion polisi cenedlaethol ac yn eu troi i fod yn berthnasol ar lefelau rhanbarthol a lleol. Allbwn allweddol dogfen 2009 oedd dosrannu agregau sylfaenol ar draws y rhanbarth yn seiliedig ar dueddiadau galw tebygol yn y rhanbarth. Mae'r dosraniadau yn cael eu sbarduno gan yr angen i ddarparu cerrig am 15 mlynedd a thywod/gro am 12 mlynedd. Bu i’r RTS glustnodi gofyniad cymharol fychan o dywod a gro ar gyfer Sir Ddinbych.

3.6.4 Ers mabwysiadu’r CDLl mae’r Gweithgor Agregau Rhanbarthol wedi cyhoeddi Adolygiad o’r RTS (2014) sy’n nodi’r angen am agregau am gyfnod o 25 mlynedd. Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi llythyr o eglurhad, CL-05-14 yn 2014, sy’n hysbysu na fydd dyraniadau newydd yn ofynnol ble ceir banciau tir sy’n dal gwerth 25 mlynedd o agregau. Mae argymhellion Adolygiad o’r RTS (2014) yn cael eu cynnig yn seiliedig ar hynny ac mae’n arenwi mwy o ddyraniadau ar gyfer tywod a gro o 2.2 miliwn tunnell, yn ogystal â’r angen i ddyrannu 0.8 miliwn tunnell ar gyfer creigiau mâl.

3.6.5 Er mwyn bodloni’r angen a arenwyd gan yr RTS, mae’r CDLl wedi arenwi ardaloedd a ffafrir ar gyfer echdynnu tywod a gro. Er hynny, nid oes unrhyw gais ar gyfer echdynnu tywod a gro wedi cael ei gyflwyno ac nid oes dim ymholiad cyn ymgeisio wedi cael eu gwneud ychwaith. Nifer cyfyngedig o safleoedd echdynnu tywod a gro a geir yn yr is-ranbarth, yn cynnwys Maes Mynan yn Sir y Fflint ger y ffin â Sir Ddinbych, a gafodd ganiatâd cynllunio yn ddiweddar ar gyfer estyniad er mwyn darparu 659,000 tunnell yn ychwanegol o dywod a gro.

3.6.6 Er bod yr RTS (2009) wedi argymell dyrannu 1 miliwn tunnell o dywod a gro yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, ystyriwyd y byddai’n wrthgynhyrchiol arenwi un safle mawr ar gyfer tywod a gro oherwydd y gellir cloddio am dywod a gro ar raddfa cymharol fychan. Oherwydd yr hinsawdd economaidd presennol, cwestiynwyd hefyd a fyddai sefydlu un safle mawr yn bosibl. Felly, mae’r awdurdod cynllunio lleol wedi cytuno i arenwi ardaloedd a ffafrir (fel y diffinnir hynny ym Mholisi Cynllunio Cymru ar gyfer Mwynau) ble mae yna adnoddau hysbys sydd â pheth potensial masnachol, a ble gellid disgwyl yn rhesymol cael caniatâd cynllunio. Bwriad hyn oedd darparu hyblygrwydd yn y farchnad, tra’n darparu elfen o sicrwydd mewn perthynas â lleoliad tebygol gwaith yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw gais i echdynnu tywod a gro ac felly mae’n ymddangos bod y polisi yn methu â chyflawni ei amcanion. Felly bydd angen adolygu’r polisi hwn. Mae dyraniad bach ar gyfer creigiau mâl wedi cael ei arenwi hefyd yn ôl gofyniad Adolygiad o RTS (2014) a byddai angen ystyried hynny fel rhan o broses adolygu’r polisi.

3.6.7 Mae’r Cygor yn cydnabod y bydd angen sicrhau bod y banc tir o fwynau yn cael ei gynnal. Bydd monitro gwaith mwynau yn ardal yr awdurdod lleol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod banciau tir yn parhau i fod yn ddigonol.

DRAFT

3.6.8 Y brif ffynhonnell mewn perthynas ag adnoddau mwynau yn y Sir yw Map Adnoddau Mwynau Cymru Cymdeithas Daeareg Prydain (BGS). Mae'r mapiau, sy'n cynnwys Cymru gyfan, yn cael eu cyhoeddi ar raddfa o 1:100,000, ac maent yn cynnwys deunydd o ddiddordeb economaidd cynhenid. Mae'r wybodaeth a ddangosir ar y map yn cynnwys adnoddau mwynau sy'n deillio o wybodaeth ddaearegol sydd ar gael, ble mae lefelau hyder mewn perthynas ag ansawdd, swm a hygyrchedd yr adnoddau yn isel. Felly, efallai y bydd angen mwy o waith ymchwil yn ystod y cam cais cynllunio.

3.6.9 Mae yna nifer o ddyddodion tywod a gro ar draws y Sir, a'r rhai mwyaf arwyddocaol yn Nyffryn Chwiler, Dyffryn Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Defnyddiwyd dull map gogrwn er mwyn pennu'r ardaloedd mwyaf priodol. Gwrthodwyd yr ardaloedd canlynol:

- *Ardal o Hyrddwch Naturiol Eithriadol (AONB).* Mae polisi cenedlaethol yn amcanu at gyfeirio gwaith mwynau newydd oddi wrth yr AONB.
- *Tir amaethyddol gradd 1 a 2.* Mae polisi cenedlaethol yn amcanu at gyfeirio datblygiad oddi wrth dir amaethyddol o ansawdd da. (Nid yw gradd tri wedi ei wrthod oherwydd bod y rhan fwyaf o'r dyddodion ar dir graddau 1, 2 a 3). Nid oes unrhyw ddyddodion arwyddocaol ar dir graddfa is.);
- *Ardaloedd risg llifogydd (C1 aC2).* Gall datblygu gwaith tywod a gro ar y gorlifdir arwain at greu corff o ddŵr. Pwrpas gwrthod ardaloedd risg llifogydd yw osgoi creu cyrff o ddŵr allai fod yn amhriodol yn y tirlun ac osgoi denu adar allai wrthdaro ag ardal ddiogelu'r maes awyr. Byddai creu cyrff o ddŵr hefyd arwain at golli tir amaethyddol am byth; a
- *Safleoedd â dynodiad Rhyngwladol/cenedlaethol* (er enghraifft, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Penodol). Byddai echdynnu tywod a gro yn annerbyniol mewn ardaloedd sensitif oherwydd y posibilrwydd o effeithio ar y rheswm dros y dynodiad.

3.6.10 Ystyriwyd ffactorau eraill, megis agosrwydd at anheddau, adeiladu hanesyddol ac yn y blaen. Hefyd, byddai unrhyw gais cynllunio fyddid yn ei dderbyn yn ddarostyngedig i bolisïau eraill sy'n gynwysedig yn y Cynllun Datblygu Lleol.

3.6.11 Bu i Strategaeth a Ffafrir y Cynllun Datblygu Lleol nodi y bydd datblygiadau yn bennaf yn cael eu cyfeirio tuag at ogledd y Sir, felly, ystyriwyd y byddai'n fwy tebygol y byddai'r angen mwyaf am dywod a gro yng ngogledd y Sir. Er y byddai yna elfen o angen yn Ne'r Sir, ystyriwyd y byddai'n fwy tebygol y byddai hynny'n cael ei fodloni gan weithfeydd tywod a gro mawr presennol yn Chwarel Borras, Wrecsam, neu gan waith graddfa fychan ar ffermydd. Ystyriwyd bod ardal Bodfari/Dinbych yn addas a bod ganddynt y potensial mwyaf o ran economeg eu datblygu. Mae ganddynt fynediad cymharol dda i'r canolfannau poblogaeth a defnyddwyr tebygol y deunyddiau. Mae yna gyfyngiadau'n gysylltiedig â holl ddyddodion tywod a gro sylweddol, ac mae effaith weledol yn gyfyngiad a gysylltir â'r rhan fwyaf o ardaloedd. Ystyrir mai'r ardal hon yw'r un lleiaf cyfyngedig, a'i bod felly yn cynnig y potensial mwyaf ar gyfer datblygu yn y dyfodol ac fe'i nodwyd fel ardal a ffafrir ar y Map Cynigion.

DRAFT

3.6.12 Nid oes yna ragamcan o angen a dim banc tir o gyflenwadau glo a ganiateir fel yn achos agregau. Mae'n ofynnol ar awdurdodau lleol i arenwi'r ardaloedd hynny ble na fyddai'n dderbyniol cloddio am lo ac i ddynodi parthau byffer o gwmpas safleoedd cloddio am lo presennol ac arfaethedig er mwyn eu diogelu.

3.6.13 Nid oes gan Sir Ddinbych hanes o gloddio am lo, a hynny'n fwyaf tebyg oherwydd adnoddau cyfyngedig a safon cyfyngedig o'i gymharu â meysydd glo Sir y Fflint a Wrecsam. Hefyd, ni fu pwysau gan y diwydiant i gloddio am lo yn Sir Ddinbych.

3.6.14 Mae yna ddwy ardal o adnoddau glo bas trydyddol yn ardal Prestatyn/Dyserth ac ardal Trefnant/Henllan, sy'n 753 hectar a 76 hectar yn ôl eu trefn. Nid yw union natur yr adnoddau yn hysbys, a byddai angen mwy o archwilio er mwyn canfod yr union ansawdd, gwasgariad a dyfnder yr adnoddau glo.

3.6.15 Mae'r adnodd glo yn ardal Prestatyn/Dyserth yn bennaf wedi ei leoli o dan aneddiadau Prestatyn, Dyserth a Meliden. Mae yna ardaloedd bychan nad ydynt wedi'u datblygu; fodd bynnag mae eu hagosrwydd at dai yn rhagwahardd eu datblygu oherwydd gofyniad MTAN 2 i gynnal byffer o 500m rhwng glofeydd brig a datblygiadau preswyl.

3.6.16 Mae'r adnodd glo yn ardal Trefnant yn bennaf wedi ei leoli mewn cefn gwlad agored, er bod rhan ogleddol yr adnodd wedi ei leoli o dan anheddiad Trefnant. Mae yna nifer o gyfyngiadau yn ardal yr adnodd glo sy'n golygu nad yw'n addas i'w echdynnu, yn cynnwys agosrwydd datblygiad preswyl, Coedwigoedd Dyffryn Elwy SAC, Coedwigoedd Ac Ogofau Elwy A Meirch SSSI, Parc Hanesyddol Plas Heaton, coetir lled-naturiol hynafol, risg llifogydd a phresenoldeb dyfrhaen sylweddol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn rhagwahardd echdynnu'r adnodd, sy'n golygu bod yr adnodd yn ei gyfanrwydd yn aneconomaidd i'w gloddio.

3.6.17 Yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru, bydd y dyddodion mwynau y bydd cymdeithas eu hangen efallai yn Sir Ddinbych yn cael eu diogelu a'u gwarchod rhag datblygiad fyddai'n eu sterileiddio neu'n rhwystro echdynnu yn y dyfodol.

3.6.18 Gwnaethpwyd dyfarniad mewn perthynas â pha fwynau ddylid eu diogelu ar sail gwasgariad a swm hysbys a'r galw hanesyddol a phresennol. Gwnaethpwyd hynny er mwyn gwahardd datblygu yn ddiangen tra'n sicrhau bod mwynau pwysig yn cael eu diogelu'n briodol. Mae tabl 12 yn nodi'r sail resymegol i ddiogelu mwynau (ac eithrio glo yr ymdriniwyd â hynny yn y paragraffau blaenorol).

3.6.19 Tabl 12 Mwynau a ddiogelwyd yn Sir Ddinbych

| Mwynau | Trafodaeth | Casgliad |
|---|---|---|
| Calchfaen | Gwasgariad cymharol fawr o ardal Bodelwyddan yn y gogledd heibio Ruthun yn y De. Dyddodion unigol i'r dwyrain o Rhuallt. Mae calchfaen wedi bod yn fwyn pwysig yn Sir Ddinbych ac mae nifer o chwareli yn dal i fodoli yn yr AONB a chwarel yn Ninbych. | Mae dyddodion calchfaen wedi eu diogelu yn y CDLl. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Tywod a Gro | Gwasgariad cymharol fawr o dywod a gro o safon amrywiol. Mae yna nifer fawr o ddyddodion bach (llai na 100m o led). Mae'r angen i arenwi ardal ar gyfer echdynnu tywod a gro wedi cael ei nodi yn y RTS. Cloddiwyd am y mwyn yn y Sir ac nid oes yr un chwarel yn agored ar hyn o bryd, ac mae gwaith adfer yn cael ei wneud ar un chwarel. | Mae dyddodion Tywod a Gro yn cael eu diogelu yn y CDLl. |
| Glo | Mae glo yn bodoli yn ddwfn iawn o dan Dyffryn Clwyd. Nid oes yna'r un bloc o adnoddau sylfaenol nac eilaidd wedi eu harenwi yn Sir Ddinbych, ac oherwydd dyfnder y glo, nid oes yna fawr o obaith o gloddio brig. Deellir bod y glo yn denau ac nid oes yna fawr o wybodaeth wedi ei gyhoeddi am y glo yma. Nid yw datblygiad ar yr wyneb o reidrwydd yn sterileiddio glo a glo a gloddiwyd o ddyfnder. Ar hyn o bryd nid oes cyfiawnhad dros ddiogelu adnoddau glo. | Ni ddylid diogelu glo yn y CDLl. Fodd bynnag, petai mwy o archwilio yn datgelu bod yna ardaloedd o lo fyddai'n deilwng o'u diogelu, dylai'r polisi alluogi diogelu'r ardaloedd hynny. |
| Twffa | Mae'r gwasgariad yn amrywiol a lleol iawn. Fe'i ceir yn bennaf yn Sir y Fflint. Ni chanfuwyd dim yn Sir Ddinbych hyd yma. | Nid oes adnodd hysbys, felly ni ddylid ei ddiogelu yn y CDLl. |
| Calchfaen brith is triasig | Mae dyddodion o galchfaen coch i'w gael o dan Dyffryn Clwyd o'r Rhyl yn y gogledd i Bentre Celyn yn y De, ond mae'r galw yn gyfyng iawn ac mae'n debyg ei fod wedi ei gyfyngu i ddefnydd cadwraeth adeiladau yn unig. Nid yw'n addas fel agregiad oherwydd ei fod yn rhy feddal ac nid oes ganddo ddigon o gryfder cywasgol a thynnol, ond gellir ffurfio tywod ohono os caiff ei falu. O ystyried argaeledd dyddodion tywod a gro gorchuddiol, ac absenoldeb galw am dywod synn deillio o greigiau wedi eu malu, nid oes cyfiawnhad dros ddiogelu'r graig hon. | Heb ei diogelu yn y CDLl. |
| Mwynau metalifferaidd | Mae dyddodion hysbys o fwynau carbonifferaidd (galena, bareitiau, calsit yn bennaf) wedi cael eu cloddio'n helaeth yn ystod y 18fed/19eg ac yn gynnar yn yr 20fed ganrif, a bydd dyddodion economaidd | Heb ei diogelu yn y CDLl. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | hygyrch wedi cael eu defnyddio i raddau helaeth. Efallai bod gwythiennau o fwynau heb eu cofnodi yn bodoli, ond byddai hynny yn golygu bod angen cynnal rhaglen geoffisegol, geogemegol a drilio sylweddol er mwyn canfod ansawdd a swm. Oherwydd bod gwaith o’r fath yn cael ei wneud o dan y ddaear yn gyffredinol, nid yw datblygiadau ar y wyneb o reidrwydd yn sterileiddio’r dyddodion hyn. | |
| Siertfaen | Nid oes yna angen cenedlaethol am y math yma o graig, yr arferid ei defnyddio fel deunydd ysgrafellol a gwrthsafol diwydiannol. Nid yw’r dyddodion yn helaeth yn Sir Ddinbych, ac maent yn bodoli mewn dau leoliad ger Prestatyn a Llandegla. Fe’i cloddiwyd yn bennaf yn Sir y Fflint yn y gorffennol. Ystyrir nad oes rheswm dros ei diogelu yn Sir Ddinbych oherwydd yr angen economaidd cyfyngedig. Agregiaid gwael oherwydd ei fod yn frau. | Heb ei diogelu yn y CDLl. |
| Craig Silica | Grut melinfaen diraddiedig lleol yw hon â phurdeb silica uchel. Nid yw’n unigryw, ond mae’n dal yn cael ei chloddio ger Eryrys. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael ynghylch ble mae’r graig silica ‘ddiraddiedig’ yn bodoli, felly byddai’n rhaid diogelu’r holl grut melinfaen, ac mae’n hynny’n anghymesur a diangen. Mae gorchmynion gwahardd wedi diddymu hen ganiatadau cynllunio, sy’n awgrymu nad oes bwriad i’w chloddio, ac felly mae hynny’n arwydd o ddiffyg galw economaidd. | Heb ei diogelu yn y CDLl. |
| Siâl a Llechi Silwraidd | Cloddiwyd am siâl a llechi Silwraidd yn hanesyddol fel ffynhonnell o gerrig adeiladu lleol, agregiaid, fflagenni a llechi. Mae’r dyddodion yn gyffredinol frau, meddal a gwan. Gall rhai ffurfiau gynhyrchu agregiaid o werth isel neu ddeunydd llenwi swmp. Mae’r creigiau yma’n bodoli yn eang ar draws Gogledd, canolbarth a Gorllewin Cymru, ac maent yn ffurfio rhan helaeth o Fynyddoedd Cambria. Yn lleol mae gwelyau penodol yn cynnwys dyddodion llechi bras, a bu iddynt werth sylweddol yn ystod oes Fictoria, a bu chwareli llechi hefyd yng Ngharrog/Dyffryn Dyfrdwy ac yn Llantysilio, Maesyrychen a | Heb ei diogelu yn y CDLl. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | mynyddoedd y Berwyn. Mae'r diwydiant llechi wedi dirywio ac mae'r gweithfeydd wedi eu cyfyngu i ddau safle sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ailweithio gwastraff llechi gydag allbwn cyfyngedig. Nid yw'r mapiau daearegol sydd wedi eu cyhoeddi yn gwahaniaethu rhwng y gwythiennau da o lechi sy'n bodoli. O ystyried yr adnodd helaeth yma ar draws Cymru, a'i ansawdd isel yn gyffredinol, a bod y brigiadau yn bennaf mewn ardaloedd anghysbell ac uchel, ni ystyrir y byddai'r adnodd hwn yn cael ei beryglu gan bwysau datblygiadau eraill, ac oherwydd hynny nid oes cyfiawnhad dros ei ddiogelu. | |
| Cerrig grut Silwraidd | Mae Grutiau Sir Ddinbych yn cael ei arenwi fel agregiaid cerrig llathredig iawn (PSV) sy'n darparu gwrthiant sgidio a thraul uchel ar gyfer ffyrdd. Mae'r grutiau yn cydfodoli â siâl ac ni ellir gwahaniaethu rhyngddynt nes bod mwy o fapio daearegol yn cael ei wneud. Mae'r prif frigiadau yn bodoli yng Nghoedwig Clocaenog hyd at bentrefi Clawdd Newydd a Betws Gwerfyl Goch, a cheir brigiad llai rhwng Dyserth a Rhuallt. Mae'r grutiau yma hefyd yn bodoli'n helaeth yng Nghonwy a Phowys, ond oherwydd seilwaith a thopograffeg, maent yn fwy hygyrch yn Sir Ddinbych. Er nad oes gweithfeydd yn bodoli ar hyn o bryd, o ystyried safon uchel Grutiau Sir Ddinbych, mae'n briodol eu diogelu er mwyn galluogi asesu effaith cynigion datblygu eraill er mwyn atal sterileiddio'r adnodd yn amhriodol a diangen. | Wedi eu diogelu yn y CDLl. |
| Craig Igneaidd a Folcanig | Ychydig o ddyddodion igneaidd a folcanig sy'n bodoli yn Sir Ddinbych, a hynny i'r de o Landrillo yn unig ar lethrau Mynyddoedd Berwyn ar y ffin â Phowys. Mae gwythiennau o dyffiau folcanig a micro-gabron igneaidd yn bodoli mewn siâl Ordoficiaidd. Yn aml mae gan y strata yma nodweddion gwytnwch rhagorol, ac o ystyried eu presenoldeb prin, dylid ei diogelu. | Wedi eu diogelu yn y CDLl. |

3.6.20 Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) yn argymell bod y Cynllun Datblygu Lleol yn diogelu tywod a gro a chreigiau (yn arbennig calchfaen). Er bod gan Sir Dinbych amryw o fathau o fwynau gwahanol, ystyriwyd ei bod yn briodol diogelu

DRAFT

mathau economaidd hyfyw o fwynau, felly mae tywod a gro, calchfaen, cerrig grut Silwraidd a chraig igneaidd a folcanig yn cael eu diogelu yn y Cynllun Datblygu Lleol.

3.6.21 Er bod yna nifer o fwynau eraill yn y Sir, penderfynwyd peidio â'u diogelu er mwyn cadw'r map cynigion mor syml â phosibl a sicrhau bod diogelu ond yn cael ei gynnwys pan fo diogelu'r adnodd yn angenrheidiol er mwyn gwarchod yr adnodd rhag datblygiadau yn y dyfodol. Pan ystyrir mai gwerth isel sydd i'r mwynau, neu bod iddo wasgariad helaeth, nid ydynt wedi'u diogelu.

3.6.22 Cynhaliwyd ymarferiad er mwyn pennu'r ardaloedd mwyaf priodol o fwynau i'w diogelu. Daeth cyfanswm y galchfaen, Tywod a Gro, Cerrig Grut Silwraidd a cherrig Igneaidd a Folcanig yn Sir Ddinbych o ddata daeareg Arolwg Daearegol Prydain. Cafodd dyddodion bach ac ynysig sydd â lled llai na 100m eu tynnu allan oherwydd byddai eu hyfywedd economaidd yn amheus, gallai effaith echdynnu'r mwynau wrthbwyso'r buddion ac mae'r tebygolrwydd o fodolaeth y mwynau yn llai mewn gwirionedd (oherwydd y raddfa a ddefnyddir ar y mapiau). Ni ddewiswyd trothwy mwy er mwyn sicrhau bod safleoedd bach oedd yn gwasanaethu'r ardal leol yn cael eu nodi. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos tywod a gro, ble gall echdynnu ddigwydd ar ffermydd er mwyn gwasanaethu'r ardal leol.

3.6.23 Cyn mabwysiadu'r CDLl, ond ar ôl cyflwyno'r CDLl i Lywodraeth Cymru, cynhyrchodd y Gymdeithas Ddaearegol Brydeinig (BGS) Fap Diogelu Agregau Cymru. Bu i'r Arolygydd fynegi hynny yn ystod Archwiliad y CDLl er mwyn sicrhau bod y mapiau o gynigion yn dal i fod yn briodol o ystyried y dystiolaeth newydd. Gwnaethpwyd rhai addasiadau o ganlyniad i gyhoeddi'r mapiau diogelu agregau, yn benodol mewn perthynas â chalchfaen PSV uchel. Mae monitro blynyddol yn dangos bod cynigion mewn ardaloedd a ddiogelir wedi cael eu hystyried yn ddigonol a bod caniatâd wedi cael ei roi pan nad yw cynigion yn gwrthdaro â pholisi lleol PSE15. Er hynny, byddai'n briodol ailymweld â'r diogelu fel rhan o broses adolygu'r CDLl er mwyn sicrhau bod y polisi'n parhau i fod yn effeithiol heb fod yn ddiangen o gyfyngol.

3.6.24 Roedd ardaloedd trefol wedi eu heithrio rhag diogelu oherwydd yr angen i gynnal byffer o gwmpas y gwahanol fwynau. Er mwyn cynnal byffer o 100m o gwmpas tywod a gro, byddai angen ailddatblygu ardal drefol sy'n fwy na 9ha (gan gymryd bod yna ddyddodiad o 100m x 100m o leiaf), ac yn achos calchfaen byddai angen ailddatblygu ardal drefol sy'n fwy na 25 ha. Nid arenwyd yr un ardal ar gyfer ailddatblygu ar y raddfa hon yn y Sir. Petai cais cynllunio am ardaloedd mwy na 9ha yn cael eu cyflwyno, dylid ystyried presenoldeb mwynau, yn ogystal â phriodoldeb echdynnu'r mwynau cyn datblygu.

3.6.25 Mae nifer o ddyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol mewn ardaloedd ble ceir mwynau sydd wedi'u diogelu. Fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol, ystyriwyd y dyraniadau yn erbyn y polisi diogelu, er mwyn penderfynu a fyddai echdynnu ymlaen llaw yn ofynnol. Mae'r angen am dai a thir cyflogaeth ychwanegol wedi cael ei arenwi gan yr awdurdod lleol, a'r safleoedd a gyflwynwyd yw'r rhai yr ystyrir sy'n fwyaf priodol a thebygol o gael eu cyflawni yn ystod oes y Cynllun Datblygu

Lleol. Mae Tabl 13 yn nodi'r prif aneddiadau yn y Sir ac mae'n darpar trafodaeth er mwyn egluro sail resymegol y dyraniadau mewn perthynas â'r polisi diogelu.

3.6.26 Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol fu cyfeirio'r mwyafrif o'r datblygiadau i ogledd y Sir i aneddiadau presennol, a phan fo'n ddichonadwy, defnyddio tir llwyd. O ganlyniad i hynny, mae'r mwyafrif o'r dyraniadau yn agos i ddatblygiadau sensitif sy'n golygu eu bod yn anaddas ar gyfer echdynnu ymlaen llaw. Hefyd, y tu allan i'r prif drefi a'r safleoedd strategol allweddol, mae maint y dyraniadau yn fychan ac nid ydynt yn ddigon mawr i gyfiawnhau echdynnu ymlaen llaw, yn arbennig yn achos craig galed.

3.6.27 O bwyso a mesur, ystyriwyd bod y gofyniad am dyraniadau a gynigwyd yn gorbwyso'r angen i warchod yr adnodd oherwydd natur gyfyngedig y Sir. Roedd y rhan fwyaf o'r adnoddau yn y dyraniadau wedi'u sterileiddio eisoes, ac er y byddai ymestyn yr ardal drefol yn sterileiddio mwy ar yr adnodd, byddai sterileiddio o'r fath yn gyfyngedig i'r ardaloedd hynny sy'n annhebygol o fod yn addas ar gyfer echdynnu mwynau beth bynnag. Ystyriwyd bod echdynnu ymlaen llaw yn anaddas oherwydd agosrwydd datblygiad arfaethedig i ardaloedd trefol presennol a'r effaith debygol ar amwynderau preswyl a gweledol, y tirwedd canlyniadol ac effeithiau ar y priffyrdd.

3.6.28 Nid yw diogelu dyddodion mwynau yn rhagwahardd datblygiadau eraill, ond yn hytrach mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr a'r Cyngor ystyried effaith y datblygiad ar yr adnodd mwynau. Pan fyddai datblygiad arfaethedig yn sterileiddio'r adnodd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, dylid echdynnu'r mwynau cyn datblygu, gwrthod y cais cynllunio neu ganiatáu'r cais os oes angen gor-redol am y datblygiad. Mae polisi lleol PSE17 yn nodi'r meini prawf ar gyfer asesu cynigion ar gyfer echdynnu mwynau.

3.6.29 Tabl 13 Dyraniadau mwynau yn agos i brif aneddiadau

| Map CDLl | Anheddiad | Ffynhonnell Mwyn | Trafodaeth |
|---|---|---|---|
| 40A | Bodelwyddan | Calchfaen | Mae'r brigiad calchfaen yn rhedeg wrth ochr y Safle Strategol Allweddol, ond nid yw'n rhan o'r dyraniad. Mae'r galchfaen eisoes wedi'i sterileiddio yn yr ardal hon gan ddatblygiad sensitif a'r A55. |
| 05A | Corwen | Tywod a Gro | Mae'r dyraniadau yn yr ardal hon wedi'u datblygu'n helaeth ac felly nid yw echdynnu ymlaen llaw yn addas. Mae Dyraniad Tai BSC-HSG 05A-01 a BSC-HSG 05A - 02 yn gymharol fychan ac yn agos iawn i ddatblygiad sensitif, felly nid ystyrir eu bod yn addas ar gyfer echdynnu ymlaen llaw. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 01A | Dinbych | Cymysgedd o Dywod a Gro, a Chalchfaen | Cynigwyd bod y dyraniad ar gyfer gwastraff, VOE-WST 01A-05, fel ôl-ddefnydd i'r chwarel yn dilyn terfynu echdynnu. Felly nid oes gwrthdaro rhwng y dyraniad hwn a'r angen i ddiogelu mwynau. Mae'r rhan fwyaf o ddyraniad PSE-EMP 01A-03 wedi ei ddatblygu, ac mae rhan bach o dir heb ei ddatblygu. Felly, ystyrir nad yw'n addas ar gyfer echdynnu ymlaen llaw. |
| 46A | Llanelwy | Tywod a Gro | Ni ystyriwyd ei bod yn ddichonadwy gofyn am echdynnu ymlaen llaw. |
| 03A | Llangollen | Tywod a Gro | Mae'r dyraniadau o fewn yr adnodd tywod a gro yn rhannol ar dir a ddatblygwyd eisoes, neu maent ar gyfer hamdden a mannau agored ac nid ydynt felly'n gwrthdaro â'r gofyniad diogelu. Mae'r adnodd tywod a gro ar y gorlifdir a byddai felly'n creu corff o ddŵr petai angen echdynnu ymlaen llaw. Felly, ystyrir nad yw'n addas ar gyfer echdynnu ymlaen llaw. |
| 43A | Prestatyn | Glo, Tywod a Gro, a Chalchfaen | Mae'r dyraniadau ym Mhrestatyn yn rhannol ar dir a ddatblygwyd eisoes. Felly ni ystyrir bod echdynnu blaenorol yn ddichonadwy. |
| 02A | Rhuthun | Tywod a Gro | Mae'r dyraniadau yn Rhuthun yn cynnwys safleoedd presennol sydd â chaniatâd cynllunio. Nid oes yna unrhyw ddyraniadau tir gwyrdd yn y dref o fewn yr adnodd tywod a gro. Felly, nid yw'n bosibl gofyn am echdynnu ymlaen llaw. |
| 45A | Y Rhyl | Ddim yn berthnasol | Dim dyraniadau newydd o fewn mwynau sydd i'w diogelu. |
| Pentrefi a Phentrefannau | | Tywod a Gro, Calchfaen, Carreg Grut a Chraig Folcanig Igneaidd | Oherwydd maint bychan y dyraniadau hyn maent wedi cael eu cyflwyno gyda'i gilydd. Mae'r dyraniadau wedi'u lleoli yn agos iawn i dderbynyddion sensitif, wedi eu cyfyngu gan nifer o ffactorau megis dyraniad tirlun a hygyrchedd, ac felly ni fyddid yn ystyried eu bod yn addas ar gyfer echdynnu ymlaen llaw. |

DRAFT

3.6.30 Mae parthau byffer wedi'u cymhwyso i chwareli sydd â chaniatâd cynllunio, yn unol â pharagraff 14.7.16 Polisi Cynllunio Cymru er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng cloddfeydd mwynau a defnydd tir arall. Yn achos chwareli creigiau caled cymhwyswyd byffer o 200m, ac yn achos tywod a gro cymhwyswyd byffer o 100m. Ers mabwysiadu'r CDLl, mae Pentre Uchaf (Tywod a Gro) ac Aberduna (Calchfaen) wedi cael eu hadfer ac felly nid ydynt bellach angen parth byffer. Mae polisi lleol PSE 16 yn nodi'r ymagwedd polisi ac ystyrir bod hynny'n addas i'r diben, fodd bynnag, byddai angen i'r mapiau cynigion gael eu diweddaru yn unol â hynny.

# 4. Adroddiadau Monitro Blynyddol Blaenorol

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych 2006 - 2021 (CDLl) ar 4 Mehefin 2013. Mae'n darparu gweledigaeth glir ynghylch sut y gall datblygiadau newydd ymdrin â'r heriau a wynebir gan y Sir a ble, pryd a faint o ddatblygu newydd all digwydd hyd at 2021.

4.1.2 O dan ymrwymiadau Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac Adran 37 Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi ar ei wefan.

4.1.3 Mae'r adran hon yn uno canfyddiadau perfformiad polisi lleol ar sail y ddau adroddiad monitro blynyddol sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Mae pob adran isod yn cael eu hategu gan dabl sy'n darparu trosolwg o ddangosydd a chyrhaeddnod. Mae'r golofn olaf wedi ei labelu â 'Crynodeb o Berfformiad'. Os yw'n cynnwys y testun 'Nid oes angen adolygiad o bolisi lleol' mae hynny'n golygu na fyddai angen adolygiad o bolisi lleol o ganlyniad i'r AMR.

## 4.2 Perfformiad polisi lleol

4.2.1 Wedi eu rhannu'n destunau, mae pob adran isod wedi eu hategu gan dabl sy'n darparu trosolwg o ddangosyddion a chyraeddnodau. Mae'r golofn olaf wedi ei labelu â 'Crynodeb o Berfformiad'. Os yw'n cynnwys y testun 'Nid oes angen adolygiad o bolisi lleol' mae hynny'n golygu na fyddai angen adolygiad o bolisi lleol o ganlyniad i'r AMR. Fodd bynnag, nid yw hynny yn rhagwahardd adolygiad o bolisi lleol ar sail ystyriaethau eraill megis polisi cenedlaethol.

*Economi leol*

4.2.2 Mae yna gyfle i ailystyried rhai dangosyddion a chyraeddnodau mewn perthynas â dyraniadau tir cyflogaeth fel rhan o'r Adolygiad o'r CDLl. Er enghraifft, mae gan Sir Ddinbych nifer o safleoedd cyflogaeth presennol ym mhrif aneddiadau Y Rhyl, Prestatyn, Dinbych, Rhuthun etc. Mae gan y safleoedd yma fangreoedd gwag ac

maent yn elwa o ddarpariaeth seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae polisi lleol BSC2 'Blaenoriaeth Datblygu Tir Llwyd' yn cyfeirio datblygiadau newydd tuag at y safleoedd hynny ar gyfer y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o dir. Fodd bynnag, mae polisi lleol PSE 2 yn cael ei fesur mewn perthynas â faint o dir cyflogaeth h.y. tir gwyrdd sy'n cael ei ddefnyddio. Felly, mae yna wrthdaro rhwng cefnogi'r flaenoriaeth datblygu tir llwyd a chyflenwi tir cyflogaeth ar safleoedd tir gwyrdd. Mae tabl 14 yn cyflwyno trosolwg o ddangosyddion monitro a chyraeddnodau fel y nodir hynny yn y Fframwaith Monitro Blynyddol.

4.2.3 Tabl 14 LDP AMR – Tir Cyflogaeth

| Polisi CDLl | Dangosydd | Cyrhaeddnod | Crynodeb o Berfformiad |
|---|---|---|---|
| PSE 2 - Tir ar gyfer Defnydd Cyflogaeth | Faint o dir cyflogaeth newydd, mewn hectarau, a gafodd ganiatâd cynllunio | Llai na 3 hectar y flwyddyn am 3 blynedd yn olynol | Argymhellir adolygu'r polisi lleol yn seiliedig ar ddefnydd isel o dir cyflogaeth (newydd). |
| PSE 1 - Ardal Adfywio Strategol Gogledd Cymru; PSE 3 - Gwarchod Tir ac Adeiladau Cyflogaeth | Faint o dir cyflogaeth, mewn hectarau, a gollwyd i ddefnydd nad yw'n gysylltiedig â chyflogaeth | Mwy na 5% wedi ei golli oherwydd gwrthdaro â Pholisi PSE3 o'i gymharu â faint o dir cyflogaeth oedd ar gael, mewn hectarau, ym mlwyddyn mabwysiadu'r CDLl | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |
| PSE 5 - Economi Wledig | Lefelau Diweithdra | Cynnydd mewn lefelau diweithdra mewn ardaloedd gwledig yn 5% yn uwch na lefelau 2011 | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |

*Economi Manwerthu*

4.2.3 Mae perfformiad polisi lleol wedi bod yn unol â'r dangosyddion a'r cyraeddnodau a nodwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl am y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, gall y Cyngor ddymuno ailystyried cynnwys cyraeddnodau megis 'cynnydd o 5% mewn defnydd nad yw'n gysylltiedig â manwerthu mewn canol tref am 3 blynedd yn olynol' ar gyfer polisi lleol PSE8 yn y CDLl nesaf oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod natur a swyddogaeth newidiol canol trefi wrth hyrwyddo mwy o amrywiaeth o ran defnydd tir.

4.2.4 Felly, bydd dangosyddion a chyraeddnodau unigol yn destun adolygiad ac addasu er mwyn adlewyrchu newidiadau ffeithiol mewn perthynas â chynlluniau a

DRAFT

roddwyd ar waith neu ddatblygiadau manwerthu a gymeradwywyd eisoes. Efallai y bydd hefyd angen ystyried cyflwyno polisïau lleol newydd yn ddibynnol ar argymhellion yr astudiaeth capasiti manwerthu arfaethedig a strategaethau corfforaethol. Mae Tabl 15 yn cyflwyno trosolwg o ddangosyddion monitro a chyraeddnodau fel y nodir hynny yn y Fframwaith Monitro Blynyddol.

4.2.5 Tabl 15 LDP AMR - Manwerthu

| Polisi CDLl | Dangosydd | Cyrhaeddnod | Crynodeb o Berfformiad |
|---|---|---|---|
| PSE 6 – Economi Manwerthu;<br>PSE 9 – Datblygiad Manwerthu Tu Allan i Dref | Swm yr arwynebedd llawr newydd sylweddol heb ei ddyrannu ar gyfer manwerthu, swyddfeydd a hamdden a ganiateir y tu allan i ganol trefi | 1 datblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr newydd wedi ei ganiatáu y tu allan i ganol tref, yn groes i bolisi'r CDLl | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |
| PSE 7 - Cynigion ar gyfer Datblygiadau Manwerthu Newydd | Darpariaeth arwynebedd llawr newydd nad yw'n gysylltiedig â bwyd yn Y Rhyl, Prestatyn a Dinbych | Dim prosiectau wedi eu cyflawni erbyn 2015. | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |
| PSE 8 – Datblygiadau mewn Canol Trefi | Nifer y siopau a gollwyd o ganlyniad i newid defnydd | Cynnydd o 5% mewn defnydd nad yw'n fanwerthu mewn canol tref am 3 blynedd yn olynol | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |
| PSE 6 – Economi Manwerthu;<br>PSE 8 - Datblygiad mewn Canol Trefi; PSE 9 - Datblygiad Manwerthu Tu Allan i Ganol Tref | Nifer yr unedau manwerthu gwag mewn canol trefi | Cyfradd unedau gwag o 15% neu uwch am 3 blynedd yn olynol | Mae yna un canol tref sydd â chyfradd unedau gwag sy'n uwch na 15% am 3 blynedd yn olynol. Gall y polisi lleol neu'r cyrhaeddnod fod yn destun adolygiad |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| PSE 10 – Siopau a Gwasanaethau Lleol | Nifer y siopau a gwasanaethau lleol a gollwyd o ganlyniad i newid defnydd | Colli unrhyw siop neu wasanaeth lleol yn groes i bolisi | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |

*Economi ymwelwyr*

4.2.6 Mae tabl 16 yn cyflwyno trosolwg o ddangosyddion monitro a chyraeddnodau ar gyfer polisïau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth fel y nodir hynny yn y Fframwaith Monitro Blynyddol.

4.2.7 Tabl 16 LDP AMR - Twristiaeth

| Polisi CDLl | Dangosydd | Cyrhaeddnod | Crynodeb o Berfformiad |
|---|---|---|---|
| PSE 1 - Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru | Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd o ganlyniad i newid defnydd | Colli unrhyw gyfleuster twristiaeth ac eithrio pan gyfiawnheir hynny yn unol â pholisi | Ni fyddai angen adolygu'r polisi lleol yn seiliedig ar yr elfen dwristiaeth. I gael mwy o wybodaeth gweler y paragraffau hefyd |
| | Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd ac a gwblhawyd yn unol â pholisïau PSE1 maen prawf iii), PSE 11, PSE 12 a PSE 14 | Dim caniatadau cynllunio wedi eu caniatáu dros gyfnod o 3 blynedd yn unol â'r polisïau penodol | |

*Mwynau*

4.2.8 Cynhyrchwyd y Cynllun Datblygu Lleol drwy ddefnyddio Datganiad Technegol Rhanbarthol (2009) fel rhan o'r gronfa dystiolaeth sydd bellach wedi cael ei diweddaru gan Ddatganiad Technegol Rhanbarthol (2014). Mae Adolygiad 1af RTS yn nodi angen am 0.1 miliwn tunnell y flwyddyn o dywod a gro drwy ennill tir yn ystod cyfnod y cynllun ac am 7 mlynedd wedi hynny, ac angen am 0.89 tunnell o greigiau mâl bob blwyddyn. Mae hynny'n golygu gofyniad i ddyrannu 2.2 miliwn tunnell o dywod a gro a 0.18 miliwn tunnell o greigiau mâl hyd at y flwyddyn 2036. Mae hyn yn cymharu â gofyniad i arenwi i miliwn tunnell o dywod a gro fel sy'n ofynnol o dan Ddatganiad Technegol Rhanbarthol 2009.

4.2.9 Mae Pennod 14 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi dulliau y dylid eu defnyddio er mwyn egluro ble dylai echdynnu mwynau ddigwydd neu ble fyddai'n fwyaf tebygol. Polisi PSE17: Echdynnu Mwynau yn y Dyfodol, 'Ardaloedd a Ffafrir' a arenwyd y byddai ceisiadau i echdynnu hyd at 1 miliwn tunnell o dywod a gro ynddynt yn cael eu cefnogi. Mae'r monitro blynyddol yn cynnwys cyrhaeddnod o

DRAFT

'Dim echdynnu yn cael ei ganiatáu erbyn 2017'. Nid oes dim caniatâd cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau wedi cael ei roi hyd yma ac ni chynhaliwyd dim trafodaeth cyn ymgeisio. Bydd angen ymdrin â'r mater hwn drwy adolygiad y CDLl, yn ogystal â'r angen am fwy o greigiau mâl.

4.2.10 Mae monitro blynyddol yn dangos bod y polisi diogelu, Polisi PSE 15, a'r polisi parth byffer, Polisi 16, yn effeithiol. Bydd yn bwysig adolygu'r mater hwn yng ngoleuni unrhyw newid mewn polisi cenedlaethol yn y dyfodol. Hefyd, bydd angen ystyried goblygiadau dyraniadau ychwanegol fydd yn ofynnol fel rhan o Adolygiad o'r CDLl yn erbyn y polisïau hyn. Mae tabl 17 yn cyflwyno trosolwg o ddangosyddion monitro a chyraeddnodau fel y nodir hynny yn y Fframwaith Monitro Blynyddol. Ar hyn o bryd nid oes dim cynigion i'w hadolygu na'u hailddiffinio.

4.2.11 Tabl 17 LDP AMR - Mwynau

| Polisi CDLl | Dangosydd | Cyrhaeddnod | Crynodeb o Berfformiad |
|---|---|---|---|
| PSE 15 – Diogelu Mwynau | Arwynebedd mwynau a gollwyd i ddatblygu | Faint o fwynau a gollwyd ac eithrio pan gyfiawnheir hynny yn unol â pholisi | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |
| PSE 16 – Parthau byffer mwynau | Nifer y caniatadau cynllunio a roddwyd i ddatblygiadau sensitif mewn parthau byffer | Un neu ragor o ganiatadau cynllunio wedi'u rhoi i ddatblygiadau sensitif mewn parth byffer | Nid oes angen adolygu'r polisi lleol |
| PSE 17 - Echdynnu Mwynau yn y Dyfodol | Tunelli o dywod a gro y caniateir i'w hechdynnu. Cynnal gwerth 10 mlynedd o fanc tir o graig galed | Dim echdynnu wedi ei ganiatáu hyd at 2017. Banciau tir yn cwympo'n is na 10 mlynedd | Efallai y bydd polisi lleol yn destun adolygiad, yn ddibynnol ar gyflwyno unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol |

## 5. Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd

### 5.1 *Rhagarweiniad*

5.1.1 Mae gofyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol sef cynllun defnydd tir statudol i fod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA), Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), ynghyd ag Arfarniad Rheoli Cynefinoedd (HRA). Yn unol â chanllawiau cenedlaethol mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r ddau asesiad SA/SEA mewn un ddogfen, h.y. 'Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd'. Rôl Arfarniad o Gynaliadwyedd (ymgorffori Arfarniad Amgylcheddol Strategol) yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy trwy asesu ehangder y bydd y cynllun ar ei newydd wedd, wrth ei gymharu ag atebion rhesymol

DRAFT

eraill, yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol perthnasol. Mae'r Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yn parhau fel dogfen ar wahân. Rôl yr Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yw asesu effaith debygol y Cynllun ar Safleoedd Wedi'u Dynodi yn Ewrop sy'n berthnasol (amddiffyn safleoedd natur a rhywogaethau dan gadwraeth).

5.1.2 Fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl mae canlyniadau'r cynigion datblygu a ganiatawyd yn ystod y flwyddyn yn ogystal â thystiolaeth eraill yn cael eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei weithredu mewn harmoni ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae cynaliadwyedd CDLl Sir Ddinbych yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o'r Fframwaith Monitro Blynyddol y CDLl. Mae'r adran ganlynol yn edrych ar fframwaith sgrinio Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoli Cynefinoedd er mwyn nodi unrhyw newid yn y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu elfennau unigol o'r CDLl.

5.1.3 Bydd yn rhaid i'r CDLl newydd gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yn effeithio ar sut y cyflawnir asesiadau SA / SEA yn y dyfodol i gefnogi'r Cynllun. Bydd gwybodaeth bellach ar gael wrth i'r Cynllun diwygiedig symud tuag at gael ei fabwysiadu.

## 5.2 Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu Rhagfyr 2017)

5.2.1 Mae'r Llawlyfr CDLl (Rhifyn 2 Awst 2015) angen i Awdurdodau sydd yn ymgymryd ag adolygiad o'u CDLl i ailystyried yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae angen cyflawni'r ailystyriaeth ar y cyd â drafftio'r Adroddiad Adolygu CDLl. Mae hynny cyn i'r gwaith o ddrafftio newidiadau ffurfiol i'r CDLl (CDLl i gymryd lle y fersiwn blaenorol). Mae'r canllaw yn amlinellu'r hyn sydd ei angen fel rhan o'r adolygiad ac mae'r camau hynny wedi'u hamlinellu isod:

- ystyried canlyniadau'r broses Monitro Blynyddol o'r Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys monitro os oes effeithiau sylweddol yn sgìl gweithredu'r cynllun datblygu;
- adolygu Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych presennol:
    - Posibiliadau Arfarniad o Gynaliadwyedd – cynlluniau, polisïau a rhaglenni a diweddariad gwybodaeth sylfaenol;
    - ystyried y prif newidiadau yn genedlaethol ac yn lleol ers mabwysiadu'r CDLl;
    - ystyried yr Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd wrth ystyried y newidiadau y cynigir yn y CDLl diwygiedig.

5.2.2 Cyflwynwyd Atodiad F, Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad ar Bosibiliadau) fel drafft i ymgynghori arno ynghyd â'r Adroddiad Adolygu CDLl. Tydi'r ailystyriaeth heb ystyried y dylanwadau newydd a nodwyd fel rhan o Adroddiad Adolygu Sir Ddinbych ac o ganlyniad bu effeithiau cynaliadwyedd sylweddol. Daethpwyd i'r casgliad bod Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd i gyd yn parhau i fod yn berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar.

5.2.3 Cafwyd ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n rhan o'r ymgynghori statudol ar Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau defnyddio tir lleol, i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Ailystyried a Phosibiliadau CDLl Sir Ddinbych (21 Awst 2017 – 20 Hydref 2017). Cefnogwyd y canlyniadau bod Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn parhau i fod yn berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd gan groesawu bod y gwaelodlin presennol wedi cael ei ddiwygio i helpu gyda'r gwaith monitro ac ailystyried. Nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio'r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith o newid y CDLl. Nid oes ganddynt wrthwynebiad i ddefnyddio'r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer newid y CDLl.

## 5.3 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Rhagfyr 2017)

5.3.1 Pwrpas ymarfer sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), gweler Atodiad G, oedd i edrych ar asesiadau HRA blaenorol a luniwyd i gefnogi'r CDLl a fabwysiadwyd; nodi newidiadau i safleoedd Ewropeaidd unigol ac edrych ar ba mor effeithiol oedd mesurau osgoi, canslo neu liniaru a awgrymwyd yn flaenorol. Nid oedd yr arfer wedi'i fwriadu ar gyfer llunio asesiad newydd o'r CDLl a fabwysiadwyd ond i ddysgu o brofiad blaenorol ac i nodi newidiadau a fyddai o bosib yn cael effaith ar waith yn y dyfodol.

5.3.2 Nid oes polisiau a dyraniadau tir lleol wedi eu cynnwys yn y CDLl sydd wedi arwain at effaith sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae mesurau a gynigir (lle bo hangen) i wrthbwyso'r effeithiau hyn yn weithredol ac effeithiol. Rhaid gwneud gwaith ymchwilio pellach i weld os oes cyfle i wella ansawdd yr aer yn ne'r Sir; gan ganolbwyntio ar leihau gwaddodion nitrogen.

5.3.3 Mae'r arferiad sgrîno wedi nodi bod yn rhaid i Arfarniadau Rheoli Cynefinoedd roi ystyriaeth i'r estyniad arfaethedig o Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl a'r wybodaeth newydd am Ardal Cadwraeth Arbennig Coedwigoedd Dyffryn Alun. Efallai y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar lunio polisi lleol a defnyddiau posib o dir yn yr ardal.

DRAFT

**Atodiad I** – Polisi lleol a dyraniadau tir sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Cynllun Gofodol Cymru

| *Blaenoriaeth Cynllun Gofodol Cymru* | *Polisi Cenedlaethol [PCC Argraffiad 9 a Nodiadau Cyngor Technegol (TANau)]* | *Gweledigaeth CDLl* | *Amcan CDLl* | *Polisi Lleol* | *Dyraniadau Tir* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal: Cymru Gyfan** | | | | | |
| Economi arloesol â gwerth ychwanegol uchel ar gyfer Cymru sy'n defnyddio a datblygu sgiliau a gwybodaeth y bobl; sy'n creu cyfoeth ac sy'n hyrwyddo gwasgariad y ffyniant hwnnw drwy Gymru gyfan; sy'n ychwanegu at ansawdd bywyd yn ogystal â safon byw a'r amgylchedd gwaith. Dylai datblygu eiddo sy'n gysylltiedig â chyflogaeth gael ei leoli yn agos i | Adran 4.7 - Strategaeth aneddiadau cynaliadwy: lleoli datblygiadau newydd;<br>Paragraff 4.9.1 - Defnydd a ffafrir ar gyfer tir a ddatblygwyd eisoes;<br>Pennod 10 - Datblygiad Manwerthu a Masnachol;<br>TAN 4 – Datblygiad Manwerthu a Masnachol;<br>TAN 12 – Dyluniad;<br>TAN 6 – Cynllunio Cymunedau Gwledig Cynaliadwy;<br>TAN 15 – Datblygiadau a Risg Llifogydd;<br>TAN 18 - Trafnidiaeth | "...Bydd gan Sir Ddinbych, drwy ddatblygu cynaliadwy, arfordir trefol bywiog, a threfi marchnad ffyniannus ac ardaloedd gwledig. Bydd anghenion tai a chyflogaeth y Sir yn cael eu bodloni, bydd yr amgylchedd o safon uchel yn cael ei warchod a'i gyfoethogi a bydd safon bywyd uchel yn cael ei gynnal ar gyfer pob cymuned...Bydd proffil demograffig y Sir yn deillio o gyflenwad digonol o dai safonol...bydd Y Rhyl yn lle deniadol i fyw a gweithio ynddo a bydd yno well stoc o dai....gan ganolbwyntio cyfleoedd datblygu ar safleoedd tir | Amcan 1: Poblogaeth a Chymunedau;<br>Amcan 2 a 3: Economi a Swyddi;<br>Amcan 4: manwerthu;<br>Amcan 13: Datblygiad Defnydd Cymysg | PSE 1:Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru;<br>PSE 2: Tir ar gyfer Defnydd Cyflogaeth;<br>PSE 3: Gwarchod tir cyflogaeth ac adeiladau;<br>PSE 4: Ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig segur mewn cefn gwlad agored;<br>PSE 5: Economi Gwledig | Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan<br><br>Dyraniadau tir cyflogaeth mewn Trefi Twf Is<br><br>Opsiynau a ffafrir ar gyfer ailddefnyddio mangreoedd at ddibenion cyflogaeth<br><br>Strategaeth datblygiad gwledig<br><br>Siopau a gwasanaethau lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| drafnidiaeth gyhoeddus ac yn agos i dai a datblygiadau seilwaith. | | llwyd o fewn ffiniau presennol y dref...Bydd Bodelwyddan yn anheddiad llawer mwy fydd yn gwasanaethu anghenion tai a chyflogaeth gogledd y Sir:...” | | | Mathau o dwristiaeth a gweithgareddau awyr agored cynaliadwy |

| *Blaenoriaeth Cynllun Gofodol Cymru* | *Polisi Cenedlaethol [PCC Argraffiad 9 a Nodiadau Cyngor Technegol (TANau)]* | *Gweledigaeth CDLl* | *Amcan CDLl* | *Polisi Lleol* | *Dyraniadau Tir* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal: Gogledd Ddwyrain Cymru** | | | | | |
| Cryfhau canolfannau allweddol yn cynnwys Y Rhyl/ Prestatyn/ Llanelwy / Bodelwyddan fel canolbwynt ar gyfer buddsoddi mewn cyflogaeth, tai, manwerthu, hamdden a gwasanaethau yn y dyfodol. Y tu allan i’r canolfannau, bydd cymunedau cynaliadwy cryf yn | Adran 4.7 - Strategaeth aneddiadau cynaliadwy: lleoli datblygiadau newydd;<br>Pennod 7 - datblygiad Economaidd;<br>Pennod 10 - Datblygiad Manwerthu a Masnachol;<br>TAN 4 – Datblygiad Manwerthu a Masnachol;<br>TAN 12 – Dyluniad;<br>TAN 23 - Datblygiad Economaidd | “...Bydd Bodelwyddan yn anheddiad llawer mwy fydd yn gwasanaethu llawer o anghenion tai a chyflogaeth gogledd y Sir. Bydd dyraniadau cyflogaeth ym Modelwyddan a Llanelwy yn cefnogi adfywio’r Rhyl a hefyd yn darparu cyfleoedd deniadol ar gyfer mewnfuddsoddiad ac ehangu busnesau safon uchel yn y Sir:...” | Amcan 1: Poblogaeth a Chymunedau; Amcan 2 a 3: Economi a Swyddi; Amcan 4: manwerthu; Amcan 13: Datblygiad Defnydd Cymysg | PSE 1: Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru;<br>PSE 2: Tir ar gyfer Defnydd Cyflogaeth;<br>PSE 3: Gwarchod tir cyflogaeth ac adeiladau;<br>PSE 4: Ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig segur mewn cefn gwlad agored; | Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan<br><br>Dyraniadau tir cyflogaeth mewn Trefi Twf Is<br><br>Gwarchod mangreoedd cyflogaeth presennol |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| cael eu meithrin mewn trefi a phentrefi arfordirol, gwledig ac ar y ffin er mwyn darparu swyddi a gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol. | | | | PSE 5: Economi Gwledig;<br>PSE 10: Siopau a Gwasanaethau Lleol | |
| Canolbwyntio ar ardaloedd sydd angen eu hadfywio | Paragraff 4.9.1 - Defnydd a ffafrir ar gyfer tir a ddatblygwyd eisoes;<br>Pennod 7 - datblygiad Economaidd;<br>TAN 23 - Datblygiad Economaidd | "...Bydd dyraniadau cyflogaeth ym Modelwyddan a Llanelwy yn cefnogi adfywio'r Rhyl ...bydd Y Rhyl yn lle deniadol i fyw a gweithio ynddo a bydd yno well stoc o dai, a bydd gostyngiad yn y lefelau amddifadedd lluosog presennol. Bydd y CDLl yn chwarae rhan yn hyn drwy annog adfywiad drwy gefnogi'r mentrau fydd yn deillio o ddyraniad Ardal Adfywio Strategol a thrwy ganolbwyntio cyfleoedd datblygu ar safleoedd tir llwyd o fewn ffiniau presennol y dref. Bydd perfformiad manwerthu Y Rhyl wedi gwella o ganlyniad i ailddatblygu Arcêd y | Amcan 2 a 3: Economi a Swyddi;<br>Amcan 4: Manwerthu;<br>Amcan 5 a 6: Trafnidiaeth;<br>Amcan 12: Seilwaith | PSE 1: Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru<br>;<br>PSE 2: Tir ar gyfer Defnydd Cyflogaeth;<br>PSE 3: Gwarchod tir cyflogaeth ac adeiladau;<br>PSE 4: Ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig segur mewn cefn gwlad agored;<br>PSE 5: Economi Gwledig | Mae dyraniadau tir newydd wedi cael eu pennu yn Y Rhyl, Prestatyn, Dinbych a Llangollen ble gellid arenwi safleoedd tir llwyd |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Frenhines, ac atgyfnerthu ei rôl fel canolfan siopa is-ranbarthol.” | | | |
| Gwella cysylltiadau rhwng ardaloedd ble ceir cyfleoedd ac ardaloedd ble ceir angen | Adran 4.7 - Strategaeth aneddiadau cynaliadwy: lleoli datblygiadau newydd;<br>Paragraff 4.9.1 - Defnydd a ffafrir ar gyfer tir a ddatblygwyd eisoes;<br>Pennod 7 - datblygiad Economaidd;<br>Pennod 10 - Datblygiad Manwerthu a Masnachol;<br>TAN 4 – Datblygiad Manwerthu a Masnachol;<br>TAN 12 – Dyluniad;<br>TAN 23 - Datblygiad Economaidd | Bydd cysylltiadau trafnidiaeth rhwng coridor yr A55 a'r<br>Arfordir wedi cael eu gwella drwy hyfywedd cynyddol gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus o ganlyniad i gynnydd ym mhoblogaeth yr ardal. | Amcanion 2 a 3: Economi a Swyddi;<br>Amcanion 5 a 6: Trafnidiaeth;<br>Amcan 12: Seilwaith;<br>Amcan 13: Datblygiad Defnydd Cymysg | PSE 1: Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru;<br>PSE 2: Tir ar gyfer Defnydd Cyflogaeth;<br>PSE 3: Gwarchod tir cyflogaeth ac adeiladau | Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan |

DRAFT

| *Blaenoriaeth Cynllun Gofodol Cymru* | *Polisi Cenedlaethol [PCC Argraffiad 9 a Nodiadau Cyngor Technegol (TANau)]* | *Gweledigaeth CDLl* | *Amcan CDLl* | *Polisi Lleol* | *Dyraniadau Tir* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal: Canolbarth Cymru** | | | | | |
| Adeiladu ar ganolfannau allweddol, gwella cysylltiadau a gwasgaru buddion i gefn gwlad ehangach a chymunedau gwledig. Cyfoethogi apêl fel lle i fyw a gweithio ynddo'n gynaliadwy. | Adran 4.7 - Strategaeth aneddiadau cynaliadwy: lleoli datblygiadau newydd; Paragraff 4.9.1 - Defnydd a ffafrir ar gyfer tir a ddatblygwyd eisoes; Pennod 11- Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden; TAN 12 – Dyluniad; TAN16 - Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored | Bydd trefi marchnad Dinbych, Rhuthun a Chorwen wedi cael eu hatgyfnerthu drwy ddatblygu marchnad newydd a thai fforddiadwy a safleoedd cyflogaeth er mwyn bodloni anghenion lleol. Bydd Llangollen wedi cael cefnogaeth o ran ei rôl fel canolfan dwristiaeth bwysig drwy warchod a chyfoethogi'r dref a'r amgylchedd ehangach. | Amcan 1: Poblogaeth a Chymuned; Amcan 2 a 3: Economi a Swyddi; Amcan 12: Seilwaith; Amcan 15: Twristiaeth; Amcan 16: Ardaloedd Gwarchodaeth; | PSE 4: Ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig segur mewn cefn gwlad agored; PSE 5: Economi Gwledig; PSE 10: Siopau a Gwasanaethau Lleol | Dyraniadau cyflogaeth mewn Ardaloedd Twf Is<br><br>Opsiynau a ffafrir ar gyfer ailddefnyddio mangreoedd at ddibenion cyflogaeth<br><br>Strategaeth datblygiad gwledig<br><br>Siopau a gwasanaethau lleol<br><br>Mathau o dwristiaeth a gweithgareddau awyr agored cynaliadwy |
| Galluogi twf priodol ac integredig a datblygiadau | Adran 4.7 - Strategaeth aneddiadau cynaliadwy: lleoli | Bydd yr ardaloedd gwledig yn fwy cynaliadwy drwy ganiatáu lefel briodol o | Amcan 1: Poblogaeth a Chymunedau; Amcanion 2 a 3: | PSE 4: Ailddefnyddio ac addasu | Dyraniadau cyflogaeth mewn Ardaloedd Twf Is |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| mewn cymunedau gwledig. | datblygiadau newydd;<br>TAN 12 – Dyluniad | dwf er mwyn helpu i gefnogi gwasanaethau a cyfleusterau gwledig. Bydd cynnydd wedi ei wneud o ran bodloni anghenion<br>tai fforddiadwy i bobl leol | Economi a Swyddi;<br>Amcan 4: Manwerthu;<br>Amcan 5: Trafnidiaeth;<br>Amcan 7: Iaith Gymraeg;<br>Amcan 12: Seilwaith;<br>Amcan 15: Twristiaeth;<br>Amcan 16: Ardaloedd Gwarchodaeth | adeiladau gwledig<br>segur mewn cefn gwlad<br>agored;<br>PSE 5: Economi Gwledig;<br>PSE 10: Siopau a Gwasanaethau Lleol | Opsiynau a ffafrir ar gyfer ailddefnyddio mangreoedd at ddibenion cyflogaeth<br><br>Strategaeth datblygiad gwledig<br><br>Siopau a gwasanaethau gwasanaethau<br><br>Mathau o dwristiaeth a gweithgareddau awyr agored cynaliadwy |

DRAFT

DRAFT

Atodiad D

# Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych2006-2021

## Papur Gwybodaeth: Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd

Cynllunio Strategol a Thai
Rhagfyr 2017

| | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cefndir** | 2 |
| 1.1 | Pwrpas y ddogfen | 2 |
| 1.2 | Cyflwyniad i thema 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd' | 2 |
| 2. | **Cyd-destun Polisi** | **3** |
| 2.1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2.2 | Polisi, Cynlluniau a Rhaglenni Rhyngwladol | 3 |
| 2.3 | Polisi Cenedlaethol | 4 |
| 2.4 | Cynllun Gofodol Cymru | 9 |
| 2.5 | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru | 10 |
| 2.6 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 10 |
| 2.7 | Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau perthnasol eraill | 11 |
| 2.8 | Awdurdodau Lleol cyfagos | 15 |
| 3. | **Arolwg Llinell Sylfaen** | 16 |
| 3.1 | Cyflwyniad | 16 |
| 3.2 | Yr amgylchedd naturiol | 16 |
| 3.3 | Yr amgylchedd adeiledig | 19 |
| 3.4 | Y newid yn yr hinsawdd | 19 |
| 3.5 | Defnyddio adnoddau | 20 |
| 4. | **Fframwaith Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLl** | 22 |
| 4.1 | Cyflwyniad | 22 |
| 4.2 | Perfformiad polisi lleol | 22 |
| 5. | **Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd** | 25 |
| 5.1 | Cyflwyniad | 25 |
| 5.2 | Arfarniad o Gynaliadwyedd (sgrinio) | 26 |
| 5.3 | Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (diweddariad Gorffennaf 2017) | 26 |
| 6. | **Cyfeiriadau** | **27** |
| | **Atodiad 1 – Cysylltiadau Polisi Cenedlaethol a Lleol** | 30 |

# 1. Cefndir

## 1.1 Pwrpas y ddogfen hon

1.1.1 Roedd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) wedi llunio 'Papurau Gwybodaeth' i ategu'r pum thema a oedd yn datblygu yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 yn Awst 2011. Pwrpas y dogfennau hyn oedd crynhoi data llinell sylfaen, tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol mewn cysylltiad â datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo. Mabwysiadwyd y CDLl wedyn yn 2013, ac roedd yn cynnwys y themâu canlynol:

- Parchu Gwahanolrwydd (RD)
- Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy (BSC)
- Hyrwyddo Economi Gynaliadwy (PSE)
- Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd (VOE)
- Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy (ASA).

Mae byrfodd y themâu wedi'i gynnwys yn enw'r polisïau lleol er mwyn dangos topigau cyffredin a'i gwneud yn haws cyfeirio atynt.

1.1.2 Mae'n ofynnol i CSDd adolygu ei gynllun defnydd tir mabwysiedig bob pedair blynedd o leiaf ar ôl ei fabwysiadu yn unol ag Adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae hyn yn cynnwys adolygu Amcanion y CDLl, Themâu'r CDLl, a pholisïau lleol ar sail newidiadau arwyddocaol yn y cyd-destun, pryderon arwyddocaol yng nghanfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB), a chyfrifoldebau cyfreithiol eraill sy'n effeithio ar gyflawni'r CDLl.

1.1.3 Mae'r Cyngor newydd ddechrau'r broses o adolygu'r CDLl. Ar hyn o bryd, nid oes Amcanion CDLl, Themâu CDLl, neu bolisïau lleol sydd wedi'u diwygio ar ffurf drafft. Mae'r rhan fwyaf o'r testun yn ymwneud â deddfwriaeth, strategaethau a rhaglenni, dadansoddiadau ystadegol, a pherfformiad ar bolisi sydd wedi'i nodi yn yr AMB, ynghyd ag effeithiau dichonol ar bolisïau'r CDLl mabwysiedig. Bwriad y Cyngor yw y bydd y Papurau Gwybodaeth hyn yn 'ddogfennau byw', h.y. byddant yn cael eu diweddaru ar sail tystiolaeth a gwybodaeth wrth fynd drwy gamau'r broses o gynhyrchu'r CDLl newydd.

## 1.2 **Cyflwyniad i thema 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd'**

1.2.1 Mae Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd (VOE) yn ymwneud â diogelu, cadw a gwella'r asedau hynny sy'n rhan o amgylchedd hanesyddol a naturiol unigryw Sir Ddinbych. Mae'r CDLl yn ategu deddfwriaeth ryngwladol a chenedlaethol er mwyn amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer asesu'r effaith debygol o ddatblygu newydd neu newidiadau mewn defnydd o fewn neu'n agos i ardaloedd fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Adeiladau Rhestredig. Mae thema VOE yn cynnwys nifer o feysydd topig gan gynnwys, ymysg eraill:

- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy;
- Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte;
- Safleoedd a warchodir o dan gyfraith Ewrop a rhywogaethau fel y Fadfall Ddŵr Gribog ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig;

- Datblygiadau galluogi ar dir Ysbyty Gogledd Cymru gynt yn Ninbych;
- Defnyddio adnoddau naturiol;
- Gwastraff;
- Ynni Adnewyddadwy.

1.2.2 Mae polisïau lleol o dan y thema hon yn ymwneud â diogelu a gwella asedau naturiol a gwneuthuredig yn Sir Ddinbych, a lleihau effeithiau ar y newid yn yr hinsawdd ac o ganlyniad iddo. Gall yr amgylchedd naturiol a hanesyddol gyfrannu at yr economi, a chynnal iechyd a llesiant y rheini sy'n byw ac yn gweithio yn y sir. Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf i'n hamgylchedd a bydd angen i ddatblygiadau newydd leihau'r defnydd o adnoddau ac ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

# 2. Cyd-destun Polisi

## 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae nifer mawr iawn o bolisïau a fframweithiau cenedlaethol, cynlluniau rhanbarthol, a strategaethau lleol sydd wedi'u hystyried wrth lunio'r CDLl ac sydd hefyd wedi effeithio ar y ffordd o gyflawni cynigion datblygu unigol. Pwrpas yr adran hon yw adolygu'r sylfaen o ddogfennau, h.y. nodi newidiadau mewn dogfennau presennol, asesu'r effeithiau o ddogfennau newydd a rhai sydd ar y gweill, a thynnu sylw at anghysonderau posibl â pholisïau lleol mabwysiedig. Bydd hwn yn gam hanfodol cyn trafod diwygiadau i bolisi lleol yng nghyd-destun newidiadau mewn amgylchiadau lleol.

2.1.2 Mae disgwyl i Gynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru gael eu hintegreiddio â deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau etc. eraill heb ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol yn ddiangen. Mae polisi cenedlaethol wedi'i osod yn Polisi Cynllunio Cymru, sydd wedi'i ategu gan nifer o Nodiadau Cyngor Technegol.

## 2.2 Polisi, Cynlluniau a Rhaglenni Rhyngwladol

2.2.1 Mae pwysigrwydd yr amgylchedd wedi'i gydnabod ar bob lefel, yn enwedig ar ôl cytuno ar Ddatganiad Rio ar yr amgylchedd a datblygu (1992). Ymhlith y polisïau rhyngwladol pwysicaf y mae:

- Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd
- Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
- Y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer (1996/62/EEC)
- Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff
- Y Gyfarwyddeb Ansawdd Dŵr Ymdrochi
- Y Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy / Y Gyfarwyddeb Ansawdd Tanwydd (2009)
- Cyfarwyddeb y Cyngor ar Warchod Adar Gwyllt
- Y Gyfarwyddeb Tirlenwi
- Confensiwn Aarhus
- Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol

- Confensiwn Bern ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop
- Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd.

2.2.2 Mae nifer o'r Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni rhyngwladol wedi'u hymgorffori mewn polisi cenedlaethol, a fydd wedyn yn cael ei ymgorffori mewn polisi rhanbarthol a/neu leol.

## 2.3 Polisi Cenedlaethol

2.3.1 Mae polisi cenedlaethol yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol a chylchlythyrau. Darparwyd deddfwriaeth sylfaenol hefyd ar rai materion, sy'n pennu gofynion cyfreithiol a fframwaith ar gyfer cadw rheolaeth. Mae polisi cenedlaethol yn bwysig am ei fod yn dylanwadu ar y Cynllun Datblygu Lleol ond gellir ei ddefnyddio hefyd ar y cyd â'r Cynllun Datblygu Lleol i benderfynu ceisiadau cynllunio.

2.3.2 Polisi Cynllunio Cymru yw'r eitem bwysicaf o bolisi cynllunio cenedlaethol i'w hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Mae Tabl 1 yn dangos y polisïau cenedlaethol y credir eu bod yn fwyaf perthnasol i'r thema hon, yn nodi lle maent wedi'u trafod yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, lle mae angen diweddariad neu ddiwygiad oherwydd newid mewn polisi cenedlaethol ers ei fabwysiadu, a lle ceir gorgyffwrdd â themâu eraill.

2.3.3 Mae'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru yn gosod strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd. Ceir fframwaith yn y strategaeth hon ar gyfer sicrhau amgylchedd sy'n lân, yn iach, yn fiolegol amrywiol ac yn cael ei werthfawrogi gan bobl Cymru.

**Tabl 1: Y berthynas rhwng polisi cynllunio cenedlaethol a thema 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd'**

| Thema 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd' | | | |
|---|---|---|---|
| **Polisi Cenedlaethol** | **Lle mae'n cael ei drafod yn y CDLl mabwysiedig** | **Newidiadau sydd eu hangen i gydymffurfio â pholisi cenedlaethol** | **Sylwadau / Gorgyffwrdd â themâu eraill** |
| Cadw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas | • Polisi VOE 1: Ardaloedd Gwarchodaeth Allweddol.<br>• Adroddiad ar ddewis safleoedd: Dosbarthu tir amaethyddol a meini prawf asesu safleoedd ymgeisiol. | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd â'r holl themâu gan fod dosbarthiadau tir amaethyddol wedi'u hystyried wrth benderfynu dyraniadau tir. |
| Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 4.9.1 | | | |
| Nodyn Cyngor Technegol 6 | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ardaloedd â dynodiad tirwedd statudol<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 5.3.4-5.3.7, 5.5.6, 5.5.7<br>Nodyn Cyngor Technegol 5 | • Polisi VOE 1: Ardaloedd Gwarchodaeth Allweddol.<br>• Polisi VOE 2: Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ardal o Harddwch Eithriadol.<br>• Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi pwerau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddiogelu a gwella harddwch naturiol yr AHNE.<br>• Adroddiad ar ddewis safleoedd: Defnyddir AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn faen prawf ar gyfer asesu safleoedd ymgeisiol. | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd â'r holl themâu gan fod yr AHNE yn cael ei hystyried wrth benderfynu unrhyw ddyraniadau tir o fewn neu'n gyfagos i'r AHNE. |
| Ardaloedd a safleoedd sydd â dynodiad gwarchod natur statudol (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Safleoedd Ramsar, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig)<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 5.3.8-5.3.10<br>Nodyn Cyngor Technegol 5 | • Polisi VOE 1: Ardaloedd Gwarchodaeth Allweddol.<br>• Polisi VOE 5: Amddiffyn adnoddau naturiol.<br>• Adroddiad ar ddewis safleoedd: Defnyddir dynodiadau gwarchod natur statudol yn faen prawf ar gyfer asesu safleoedd ymgeisiol. | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd â'r holl themâu gan fod ardaloedd a safleoedd â dynodiad gwarchod natur statudol yn cael eu hystyried wrth benderfynu dyraniadau tir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. |
| Rhywogaethau a warchodir<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 5.5.11-5.5.12 | • Polisi VOE 5: Amddiffyn adnoddau naturiol<br>• Adroddiad ar ddewis safleoedd: | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd â'r holl themâu gan fod presenoldeb rhywogaethau a warchodir wedi'i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nodyn Cyngor Technegol 5 | Defnyddir rhywogaethau a warchodir yn faen prawf ar gyfer asesu safleoedd ymgeisiol | | ystyried wrth benderfynu dyraniadau tir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. |
| Gwarchod coed a choetiroedd<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 5.2.9-5.2.10, 5.5.13-5.5.15<br>Nodyn Cyngor Technegol 5 | • Polisi VOE 1: Ardaloedd Gwarchodaeth Allweddol<br>• Polisi VOE 5: Amddiffyn adnoddau naturiol. | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd â'r holl themâu gan fod presenoldeb coed a choetiroedd wedi'i ystyried wrth benderfynu dyraniadau tir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. |
| Tir Comin<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 5.2.11<br>Nodyn Cyngor Technegol 16 | Nid yw tir comin wedi'i drafod yn benodol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Credir bod polisi cenedlaethol yn gwarchod tir comin yn ddigonol. | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Gall rhai mannau agored yn y Sir fod yn dir comin hefyd. Gwarchodir mannau agored gan Bolisi BSC 11: Adloniant a Mannau Agored. |
| Meysydd tref neu bentref<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 5.5.17<br>Nodyn Cyngor Technegol 16 | Mae meysydd tref neu bentref wedi'u gwarchod yn dda gan ddeddfwriaeth. Felly credir nad oes angen cynnwys polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol i ymdrin yn benodol â'r mater hwn. | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Gall rhai mannau agored yn y Sir fod yn feysydd tref neu bentref hefyd. Gwarchodir mannau agored gan Bolisi BSC 11: Adloniant a Mannau Agored. |
| Adeiladau Rhestredig | Deddf a Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Defnyddir deddfwriaeth i sicrhau bod adeiladau rhestredig wedi'u diogelu. |
| Archeoleg<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 6.1, 6.4, 6.5.1-6.5.5<br>Nodyn Cyngor Technegol 24 | • Polisi VOE 1: Ardaloedd Gwarchodaeth Allweddol<br>• Adroddiad ar ddewis safleoedd: Defnyddir safleoedd o ddiddordeb archeolegol yn faen | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd â'r holl themâu gan fod archeoleg wedi'i hystyried wrth benderfynu dyraniadau tir. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | prawf ar gyfer asesu safleoedd ymgeisiol. | | |
| Ardaloedd Cadwraeth<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 6.3 a 6.5.19-6.5.24<br>Nodyn Cyngor Technegol 24 | Nid oes gofyniad statudol i roi sylw i ddarpariaethau'r Cynllun Datblygu wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd ardal gadwraeth. Credir bod polisi a deddfwriaeth genedlaethol yn rhoi canllawiau digonol. | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd â'r holl themâu gan fod ardaloedd cadwraeth wedi'u hystyried wrth benderfynu dyraniadau tir. |
| Safleoedd Treftadaeth y Byd<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 6.5.2-6.5.4<br>Nodyn Cyngor Technegol 24 | • Polisi VOE 3 – Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte<br>• Mae safleoedd treftadaeth y byd yn ystyriaeth berthnasol i awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Ystyrir effaith cynigion datblygu ar y ddau safle. | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd â'r holl themâu gan fod y Safle Treftadaeth y Byd wedi'i ystyried wrth benderfynu dyraniadau tir. |
| Yr effaith ar leoliadau tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol yn ystyriaeth berthnasol.<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 6.5.26-6.5.28<br>Nodyn Cyngor Technegol 24 | • Polisi VOE 1: Ardaloedd Gwarchodaeth Allweddol | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd â'r holl themâu gan fod lleoliadau tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol wedi'u hystyried wrth benderfynu dyraniadau tir. |
| Rheoli dŵr<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 12.2-12.4 | • Polisi VOE 6: Rheoli Dŵr | Dylid adolygu Polisi VOE 6 yn dilyn newidiadau yng ngofynion Rheoliadau Adeiladu a gweithredu Adran | Ceir gorgyffwrdd â'r holl themâu gan fod cyflenwi dŵr wedi'i ystyried wrth benderfynu dyraniadau tir. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 | |
| Gwastraff<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 12.5, 12.6, 12.7<br>Nodyn Cyngor Technegol 21 - Gwastraff | • Polisi VOE 7: Lleoliadau ar gyfer rheoli gwastraff<br>• Polisi VOE 8: Rheoli gwastraff y tu allan i ffiniau datblygu<br>• Mae polisi cenedlaethol yn ymdrin yn gynhwysfawr â'r gofyniad i ddatblygwyr ystyried gwastraff, ei gynhyrchu a'i reoli mewn cynigion ar gyfer datblygu. | Dylid adolygu Polisïau VOE 7 a 8 gan fod TAN 21 wedi'i ddiwygio (2014). | Ceir gorgyffwrdd rhwng gwastraff a thema 'Hyrwyddo Economi Gynaliadwy'. Mae rheoli gwastraff yn ddefnydd cyflogaeth ac felly gellir ei leoli ar dir a bennwyd ar gyfer cyflogaeth. Ceir gorgyffwrdd rhwng gwastraff a thema 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy' oherwydd y Safle Strategol Allweddol. Ceir gorgyffwrdd rhwng gwastraff a thema 'Parchu Gwahanolrwydd' gan ei bod yn ofynnol o dan bolisi RD1 fod pob cynnig yn rhoi sylw i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff. |
| Ynni Adnewyddadwy<br>Cyfeiriad Polisi Cynllunio Cymru 12.8-12.10<br>Nodyn Cyngor Technegol 8 | • Polisi VOE 9: –Ynni gwynt ar y tir<br>• Polisi VOE 10: Technolegau ynni adnewyddadwy | Nid yw'n ofynnol newid polisïau lleol yng ngoleuni polisi cenedlaethol. | Ceir gorgyffwrdd rhwng y thema hon a thema 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy' oherwydd y gofyniad bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at seilwaith newydd a fydd yn helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. |

## 2.4 **Cynllun Gofodol Cymru**

2.4.1 Fe'i cyhoeddwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel yr oedd ar y pryd, ym mis Tachwedd 2004 a'i ddiweddaru wedyn ym mis Gorffennaf 2008. Pwrpas y ddogfen oedd cyflawni blaenoriaethau polisi cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel yr oeddent wedi'u disgrifio yn *Cymru'n Un - Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru*. Canolbwyntiwyd ar gysylltu gweithgareddau cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol, gan ddarparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio. Ei amcan oedd rhoi pwyslais pendant ar weithredu egwyddor 'datblygu cynaliadwy' ym mhob penderfyniad gan y sector cyhoeddus.

2.4.2 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (adran 62) yn rhoi awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru o dan ddyletswydd i roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru wrth baratoi eu cynllun datblygu lleol eu hunain. Mae hyn yn golygu bod Cynllun Gofodol Cymru wedi cyflawni nifer o ddibenion yn y broses ar gyfer gwneud cynlluniau yn Sir Ddinbych: (1) cynhyrchu tystiolaeth; (2) ffurfio polisïau lleol; (3) sicrhau gwell ymgysylltu a llywodraethu rhwng cyrff; (4) cyfrannu i Gynlluniau; ac felly (5) alinio buddsoddiadau dichonol yn yr ardal.

2.4.3 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn rhannu Cymru yn chwe is-ranbarth, gan amlinellu eu perthnasoedd trawsffiniol. Felly mae rhannau penodol o Sir Ddinbych wedi'u dyrannu i ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru ac i ranbarth Canolbarth Cymru. Derbyniwyd hefyd, fodd bynnag, fod cysylltiadau cryf â rhanbarth Gogledd-orllewin Cymru. Mae pob un o'r chwe is-ranbarth, h.y. ardaloedd y cynllun gofodol, wedi'i broffilio ar sail aneddiadau allweddol, dosbarthiad poblogaeth o fewn y rhanbarth, canolbwyntiau economaidd-gymdeithasol, mannau lle ceir gweithgareddau economaidd, etc.

2.4.4 Er mwyn alinio Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych â Chynllun Gofodol Cymru, penderfynodd y Cyngor strwythuro ei gynllun defnydd tir yn unol â phum thema'r cynllun gofodol:

- Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy;
- Hyrwyddo Economi Gynaliadwy;
- Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd;
- Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy;
- Parchu Gwahanolrwydd.

2.4.5 Mae system gynllunio Cymru yn mynd drwy gyfnod o newid ar hyn o bryd. Cafwyd deddfwriaeth sylfaenol newydd ym maes Cynllunio a hefyd ym meysydd y dreftadaeth adeiledig a diogelu'r amgylchedd sydd â chysylltiad agos ag ef. Mae hyn wedi arwain (a bydd yn debygol o arwain eto) at gyflwyno rheoliadau, polisi cenedlaethol a chanllawiau drwy is-ddeddfwriaeth. Un newid mawr mewn cynllunio strategol yw cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, a fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ymhen tua dwy flynedd. Yr her i Sir Ddinbych, felly, yw rhoi sylw i Gynllun Gofodol Cymru, sydd i'w ddisodli cyn hir, gan ymdrechu yr un pryd i gydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n datblygu wrth gynhyrchu'r CDLl diwygiedig i'r Sir.

2.4.6 Y prif flaenoriaethau yng Nghynllun Gofodol Cymru ar thema Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd a ystyriwyd oedd yr angen i ddiogelu a chynnal y dirwedd a'r amgylchedd uchel eu hansawdd, yr heriau o ganlyniad i gynnydd yn y perygl o lifogydd oherwydd y newid yn yr hinsawdd, yr angen i ddarparu ar gyfer seilwaith gwastraff, a diogelu a gwella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth.

## 2.5 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru

2.5.1 Bydd Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (FfDCC), sy'n deillio o ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn pennu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ac yn helpu i benderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Tra oedd y cynllun gofodol yn ymwneud ag egwyddor 'datblygu cynaliadwy, mae FfDCC yn mynd ymhellach drwy weithredu darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.5.2 Newydd ddechrau y mae'r broses ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru gyda galwad gan Lywodraeth Cymru am dystiolaeth a phrosiectau dichonol y gellir ystyried eu cynnwys. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y Materion, yr Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn Ebrill 2018. Cynhelir ymgynghoriad ar y Fframwaith drafft ym mis Gorffennaf 2019; fe'i hystyrir wedyn gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2020 a disgwylir cyhoeddi'r ddogfen derfynol ym mis Medi 2020.


2.5.3 Mae'n anodd amlinellu unrhyw effeithiau a geir o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sydd ar y gweill ar y CDLl newydd gan mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd.

## 2.6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru ) 2015

2.6.1 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus fel Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried nid yn unig anghenion presennol cymunedau lleol ond hefyd sut y bydd eu penderfyniadau'n effeithio ar bobl yn y dyfodol. Y brif her i'r Cyngor yw ymdrechu i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf: (1) Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; (2) Cymru lewyrchus; (3) Cymru gydnerth; (4) Cymru iachach; (5) Cymru sy'n fwy cyfartal; (6) Cymru o gymunedau cydlynus; a (7) Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

2.6.2 Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor, sydd wedi'i hategu gan ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, i gyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob proses penderfynu. Cyflawnir hyn drwy lynu wrth set o 'amcanion llesiant' sydd wedi'u pennu'n lleol i gyflawni'r saith nod llesiant a bennwyd ar lefel genedlaethol. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu pecyn 'Asesu'r Effaith ar Lesiant' i gydymffurfio â'r darpariaethau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Ei bwrpas yw helpu'r penderfynydd i werthuso cynnig penodol yng nghyd-destun y nodau llesiant.

2.6.2




Felly, bydd yr holl elfennau yn y CDLl newydd yn cael eu hasesu am eu heffaith ar lesiant ac, os bydd angen, yn cael eu diwygio yn unol â'r argymhellion o'r asesiad.

## 2.7 Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau perthnasol eraill

2.7.1 Mae nifer mawr o gynlluniau a strategaethau a all effeithio ar y Cynllun Datblygu Lleol mewn gwahanol ffyrdd. Pwrpas yr adran hon yw dangos sut mae'r cynlluniau a strategaethau allweddol wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r thema hon.

2.7.2 Lluniwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 ar sail cynlluniau, strategaethau neu raglenni cenedlaethol a rhanbarthol a oedd yn weithredol ar y pryd. Gall rhai ohonynt fod wedi'u disodli, eu tynnu'n ôl neu eu dileu. Dim ond dogfennau sy'n berthnasol yn 2017 sydd wedi'u disgrifio yn y paragraffau canlynol.

**Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych (2017-2022): 'Gweithio gyda'n gilydd er lles dyfodol Sir Ddinbych'**

2.7.3 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu'r blaenoriaethau trosfwaol ar gyfer cyfnod y Cyngor. Caiff y blaenoriaethau eu cefnogi, eu gweithredu a'u darparu drwy nifer o strategaethau y mae CDLl yn offeryn hanfodol iddynt. Mae'r blaenoriaethau corfforaethol canlynol yn berthnasol i 'Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd':

- Deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd
- Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

2.7.4 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) wedi cyflwyno dull cydgysylltiedig o reoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gynaliadwy a rhagweithiol, a fydd yn helpu i fynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn ogystal ag ymdrin â'r dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth. Mae'r ddeddf yn galw am lunio Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol (gan Lywodraeth Cymru) a Datganiadau Ardal (gan Cyfoeth Naturiol Cymru), i'w defnyddio i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol ar lefel leol a chenedlaethol. Rhaid rhoi sylw yn y CDLl newydd i unrhyw Ddatganiadau Ardal a gynhyrchir. Mae'r ddeddf hefyd yn cynnwys targedau statudol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**

2.7.5 Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn gwneud newidiadau yn y ddwy brif ddeddf ar gyfer y DU sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r ddeddf yn diogelu adeiladau rhestredig a henebion rhestredig yn fwy effeithiol, yn gwella'r ffordd o reoli'r amgylchedd hanesyddol ac yn ceisio gwneud penderfyniadau am yr amgylchedd hanesyddol yn fwy tryloyw.

**Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)**

2.7.6 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24 yn darparu canllawiau ar y ffordd y dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio. Rhoddir canllawiau penodol mewn perthynas â:

- Safleoedd Treftadaeth y Byd
- Henebion rhestredig
- Olion archeolegol
- Adeiladau rhestredig
- Ardaloedd cadwraeth
- Parciau a gerddi hanesyddol
- Tirweddau hanesyddol
- Asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.

**Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

2.7.7 Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi'i phennu ar lefel genedlaethol ac felly'n cael ei gwarchod i raddau drwy ddeddfwriaeth. Roedd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 wedi gosod fframwaith ar gyfer rheoli a gwarchod Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

2.7.8 Mae'r Cynllun Rheoli AHNE 2014-2019 yn strategaeth bum mlynedd sy'n cydnabod y pwysigrwydd o ddiogelu'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig. Mae'n

cynnwys nifer o amcanion a chamau gweithredu i sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod ac, os yw'n bosibl, eu gwella.

**Ardal o Harddwch Eithriadol (AHE) y Berwyn**

2.7.9 Ar ôl ehangu AHNE Bryniau Clwyd yn 2011 i'w throi'n AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, dim ond rhan o Ardal o Harddwch Eithriadol y Berwyn a ddynodwyd cynt sy'n weddill. Mae'r AHE yn ddynodiad lleol, mewn cyferbyniad â dynodiad cenedlaethol yr AHNE, ond mae'n cael ei gwarchod i'r un graddau yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd.

**Landmap**

2.7.10 Mae Landmap yn cael ei gynhyrchu ar lefel genedlaethol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn darparu data cyson am ansawdd y dirwedd yng Nghymru. Mae Landmap yn dosbarthu ardaloedd yn rhai eithriadol, uchel, canolig neu isel o ran eu hansawdd gweledol a synhwyraidd. Yn ogystal â hyn, mae Landmap yn gwerthuso'r dirwedd o safbwynt diwylliannol, gan ddosbarthu ardaloedd yn rhai eithriadol, uchel, canolig neu isel o ran ansawdd eu tirweddau diwylliannol.

**Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)**

2.7.11 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 yn darparu canllawiau mewn perthynas â datblygu a llifogydd. Yn hanesyddol, mae topograffi Cymru wedi peri bod datblygiadau a seilwaith wedi'u lleoli ar lawr dyffrynnoedd, mewn ardaloedd o dir isel ac ar gyrion yr arfordir. Nid yw Sir Ddinbych yn eithriad yn hyn o beth, gan fod y prif aneddiadau un ai ar gyrion yr arfordir neu mewn dyffrynnoedd, sydd ill dau'n agored i'r perygl o lifogydd.

2.7.12 Mae TAN 15 yn gosod fframwaith rhagofalus sy'n cyfeirio datblygiadau oddi wrth ardaloedd sy'n agored i'r perygl o lifogydd. Mae Mapiau Cyngor Datblygu wedi'u llunio, a'u diweddaru, i ategu'r canllawiau yn y TAN, ar sail amlinellau llifogydd eithafol. Mae TAN 15 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a disgwylir cyhoeddi fersiwn derfynol wedi'i diweddaru yn hydref 2017.

**Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr**

2.7.13 Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr baratoi Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr sy'n edrych ymlaen dros 25 mlynedd neu fwy ac yn sicrhau cyflenwad dŵr digonol i'r cyhoedd ac yn cadw digon o ddŵr yn yr amgylchedd. Mae Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr cyfredol Dŵr Dyffryn Dyfrdwy a Dŵr Cymru Welsh Water, sef y cwmnïau dŵr sy'n gweithredu yn Sir Ddinbych, yn cwmpasu'r cyfnod 2015-2040. Mae Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr y ddau gwmni'n rhag-weld y bydd cyflenwad dŵr digonol i gwrdd â'r galw yn y dyfodol ym mhob rhan o Sir Ddinbych.

**Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Sir Ddinbych**

2.7.14 Mae'n ofynnol bod Cyngor Sir Ddinbych, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn paratoi Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol. Pwrpas y strategaeth yw ymdrin â pherygl dichonol o lifogydd sy'n codi o ffynonellau lleol o fewn ffiniau'r Awdurdod. Mae hefyd yn pennu amcanion ar gyfer rheoli perygl o lifogydd a mesurau i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r Strategaeth Leol bresennol yn cwmpasu'r cyfnod 2013-2017.

**Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009)**

2.7.15 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio asesiad o fannau agored wedi'i seilio ar anghenion lleol ac archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol. Mae rhagor o wybodaeth yn y papur cefndir 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy'.

**Strategaeth Wastraff Drosfwaol ar gyfer Cymru: Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010)**

2.7.16 Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn gosod fframwaith hirdymor ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithlon a rheoli gwastraff rhwng 2010 a 2050. Mae'r ddogfen yn adeiladu ar sail llwyddiant y strategaeth flaenorol, Yn Gall gyda Gwastraff (2002), a oedd yn ceisio codi rheoli gwastraff i fyny'r hierarchaeth wastraff, gan gydnabod y buddion a'r cyfleoedd o reoli gwastraff yn gynaliadwy.

2.7.17 Mae'r strategaeth genedlaethol ar wastraff, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, wedi'i hategu gan nifer o gynlluniau sector sy'n nodi canlyniadau, polisïau, a chamau cyflawni ar gyfer sectorau penodol, yn cynnwys Cynllun y Sector Gwastraff Trefol, y Cynllun Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, Cynllun y Sector Gweithgynhyrchu, Gwasanaethu a Manwerthu Bwyd, Cynllun y Sector Adeiladu a Dymchwel a Chynllun y Sector Masnachol a Diwydiannol. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Rhaglen Atal Gwastraff sy'n disgrifio sectorau blaenoriaeth a meysydd gweithredu ac yn amlinellu'r cymorth a roddir i unigolion, busnesau a sefydliadau yng Nghymru i gymryd camau.

2.7.18 Mae angen seilwaith i roi'r gallu i ddelio â gwastraff mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r system gynllunio yn chwarae rhan allweddol mewn darparu'r seilwaith sydd ei angen, yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio, cyfleusterau ynni o wastraff, a'r cyfleusterau hynny sy'n delio â gwastraff gweddilliol.

**Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2014)**

2.7.19 Mae Nodyn Cyngor Technegol 21 yn pennu'r gofynion ar gyfer Cynlluniau Datblygu mewn perthynas â chynllunio gwastraff. Mae disgwyl i Gynlluniau Datblygu sicrhau bod cynigion a pholisïau mewn Cynlluniau Datblygu yn hwyluso'r gallu i gyflawni'r amcanion ar gyfer rheoli gwastraff sydd yn y strategaeth genedlaethol ar wastraff

ar lawr gwlad ac yn nodi lleoliadau neu fathau o leoliad sy'n addas ar gyfer rheoli gwastraff.

**Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, Adolygiad Cyntaf**

2.7.20 Lluniwyd y CDLl gan gymryd yr Adolygiad Cyntaf o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn sylfaen dystiolaeth. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd ym mis Gorffennaf 2012 ac mae hwn wedi disodli'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol i bob pwrpas yng nghyswllt asesu angen. Mae Nodyn Cyngor Technegol 21 yn cynnwys targedau a throthwyon ar gyfer gweithredu mewn perthynas â gwaredu gwastraff ac yn ei gwneud yn ofynnol bod gwaith monitro yn cael ei gynnal bob blwyddyn ledled Cymru i bennu lefel yr angen am gapasiti ar gyfer gwaredu ac adfer gwastraff. Hyd yn hyn, cyhoeddwyd Adroddiad Monitro Interim ac Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2015/16.

**Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy (2005)**

2.7.21 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 yn llywio datblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae'r TAN yn nodi nifer o Ardaloedd Chwilio Strategol, yn cynnwys Coedwig Clocaenog yn Sir Ddinbych, y credir eu bod yn addas i'w hystyried ar gyfer datblygu ffermydd gwynt mawr.

**Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru**

2.7.22 Mae Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru yn cynnwys camau gweithredu penodol i bennu sut y gall Cymru gwrdd â'i hanghenion am ynni o ffynonellau carbon isel a chyfrannu at gyflawni amcanion y DU ar gyfer diogelu ffynonellau ynni drwy leihau ein dibyniaeth ar danwyddau a fewnforir. Mae'r trywydd ynni yn nodi'r rôl ddichonol i dechnolegau ynni adnewyddadwy, yn cynnwys biomas, arbed ynni, microgynhyrchu a chynhyrchu gwasgaredig ac ystyriaethau allweddol yng nghyd-destun caniatâd cynllunio, seilwaith y grid trydan a gallu o ran ymchwil a datblygu.

## 2.8 Awdurdodau Lleol Cyfagos

2.8.1 Er mai'r Cynllun Datblygu Lleol yw'r cynllun sy'n berthnasol i Sir Ddinbych, mae polisïau a chamau gweithredu mewn awdurdodau lleol cyfagos yn gallu effeithio ar y Sir. Felly mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae nifer o awdurdodau'n cydffinio â Sir Ddinbych, yn cynnwys Sir y Fflint, Wrecsam, Conwy, Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Phowys.

2.8.2 Mae'r awdurdodau cyfagos ar wahanol gamau yn y broses o baratoi eu CDLl fel y mae Tabl 2 isod yn dangos:

**Tabl 2 – Cynnydd Awdurdodau Lleol Cyfagos ar eu cynllun datblygu**

| Awdurdod | Cam y CDLl[1] |
|---|---|
| Cyngor Sir y Fflint | Cam yr Opsiynau Strategol |
| CBS Wrecsam | Cam cyn adneuo |
| CBS Conwy | Adolygiad i ddechrau yn 2017 |
| Cyngor Gwynedd | Yn disgwyl adroddiad yr Arolygydd ar y CDLl ar y cyd |
| Cyngor Sir Ynys Môn | |
| Cyngor Sir Powys | Cam archwilio |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Adolygiad wedi dechrau |

***Awdurdodau Lleol Cyfagos: Ffermydd Gwynt***

2.8.3 Mae'r Ardal Chwilio Strategol ar gyfer Ffermydd Gwynt, sydd wedi'i nodi yn Nodyn Cyngor Technegol 8, yn pontio'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Chonwy. Mae'r Polisïau ar Ynni Adnewyddadwy yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy yn nodi bod disgwyl i gynigion gael eu cyflwyno am ddatblygiadau mawr, canolig, bach a micro ac yn awgrymu mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir datblygu y tu allan i'r Ardal Chwilio Strategol. Roedd y dull o weithredu yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn debyg i hyn.

***Awdurdodau Lleol Cyfagos: Gwastraff***

2.8.4 Lluniwyd y CDLl yng nghyd-destun yr Adolygiad Cyntaf o Gynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru a oedd yn nodi arwynebedd y tir y dylai pob awdurdod lleol geisio ei ddyrannu yn ei Gynllun Datblygu i alluogi'r rhanbarth i gwrdd â'i anghenion ei hun. Fodd bynnag, ers mabwysiadu'r CDLl, mae'r polisi cenedlaethol ar wastraff wedi'i adolygu a'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol wedi'u tynnu'n ôl. Canolbwyntir yn awr ar sicrhau bod digon o gapasiti ar gyfer gwaredu ac adfer gwastraff ar draws y rhanbarth.

2.8.5 Mae Sir Ddinbych wedi cydweithio'n agos â nifer o awdurdodau lleol mewn perthynas â gwastraff. Mae Sir Ddinbych wedi caffael capasiti ar gyfer trin gwastraff bwyd drwy gydweithio â Chonwy a Sir y Fflint, a chapasiti i drin gwastraff gweddilliol drwy Bartneriaeth Trin Gwastraff Gogledd Cymru, sy'n cynnwys Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Ystyriwyd anghenion y ddau brosiect hyn wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac roedd dyraniadau wedi'u cynnwys i helpu i hwyluso'r prosiectau. Ers mabwysiadu'r CDLl, mae'r dyraniad ar safle Rhuallt wedi'i ddatblygu i drin gwastraff bwyd, ac mae'n gwasanaethu'r is-ranbarth. Sicrhawyd caniatâd cynllunio ar gyfer safle ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn 2015 ac mae'r safle'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

# 3. Arolwg Llinell Sylfaen

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Tra oedd yr adran flaenorol yn canolbwyntio ar ddogfennau polisi a strategaeth, pwrpas y paragraffau sy'n dilyn yw dadansoddi unrhyw newidiadau sydd wedi

[1] Yn gywir ym mis Mehefin 2017


digwydd yn y Sir ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ym Mehefin 2013. Bydd y ddwy adran yn darparu tystiolaeth hanfodol ar gyfer camau nesaf y broses o gynhyrchu'r Cynllun, pan fydd y Cyngor yn trafod newidiadau arfaethedig yn fwy manwl. Mae'r wybodaeth linell sylfaen wedi'i rhannu'n dopigau ar wahân er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd.

## 3.2 Yr Amgylchedd Naturiol

3.2.1 Mae'r amgylchedd naturiol yn cwmpasu nifer o agweddau gwahanol, yn cynnwys bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, tirwedd, dŵr, llifogydd ac ansawdd aer. Mae agweddau eraill ar y Cynllun Datblygu Lleol sy'n dod o dan effaith yr amgylchedd naturiol ac sydd hefyd yn effeithio arno, felly ceir cyfeiriadau at yr amgylchedd naturiol mewn papurau gwybodaeth eraill. Mae'r papur hwn yn ymwneud yn bennaf â'r ffordd y bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn gallu diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol.

3.2.2 Sir wledig yw Sir Ddinbych yn bennaf gydag arwynebeddau helaeth o dir amaethyddol a morlin trefol. Mae gradd y tir amaethyddol yn y Sir yn uchel ar y cyfan yn y gogledd ac ar hyd Dyffryn Clwyd, gyda thir o radd amaethyddol is yn y de, fel y mae Ffigur 1 yn dangos. Cyhoeddwyd y map ar raddfa o 1:250,000. Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 yn cydnabod bod cyfyngiadau ynglŷn â mapiau o dir amaethyddol ac yn argymell bod angen cynnal ail arolwg ar raddfa fwy er mwyn cael graddau diffiniol.

**Ffigur 1:  Dosbarthiad tir amaethyddol**




3.2.3 Wrth baratoi ar gyfer y CDLl mabwysiedig, cynhaliwyd ail arolwg o dri safle yn 2006/7 ar raddfa o 1:12,000. Roedd hwn wedi darparu rhagor o wybodaeth am eu gradd tir amaethyddol ac wedi is-rannu unrhyw dir gradd 3 a nodwyd. Canlyniadau bras yr arolygon oedd:

- Y Rhyl: Cyfuniad o dir gradd 2, 3a a 3b
- Bodelwyddan: Cyfuniad o dir gradd 3a a 3b
- Llanelwy: Gradd 3b yn unig

3.2.4 Mae arwynebeddau helaeth yn Sir Ddinbych wedi'u dyrannu ar sail eu gwerth tirwedd. Mae hyn yn cynnwys yr AHNE, yr AHE a dynodiadau Tirwedd Lleol. Mae Landmap yn nodi bod arwynebeddau sylweddol yn y Sir o ansawdd gweledol a synhwyraidd uchel neu eithriadol a bod tirwedd ddiwylliannol y rhan fwyaf o'r Sir o ansawdd uchel neu eithriadol.

3.2.5 Mae Sir Ddinbych yn cynnwys nifer o safleoedd cadwraeth statudol ac anstatudol (Tabl 3). Mae rhywogaethau/cynefinoedd a oedd gynt yn cael eu gwarchod gan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU bellach yn cael eu diogelu o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a bydd rhestrau o'r rheini a warchodir yn cael eu diweddaru yn y dyfodol. Mae bioamrywiaeth yn y Sir wedi dirywio dros y ganrif ddiwethaf.

**Tabl 3: Safleoedd Gwarchod Natur Statudol ac Anstatudol yn/yng nghyffiniau Sir Ddinbych**

| **Lefel** | **Teitl** | **Dynodiad** |
|---|---|---|
| **Rhyngwladol** | Aber Afon Dyfrdwy | Safle Ramsar |
| | Berwyn | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| | Aber Afon Dyfrdwy | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| | Bae Lerpwl / Liverpool Bay | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| | Aber Afon Dyfrdwy | Ardal Cadwraeth |
| | Llwyn | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| | Coedwigoedd Dyffryn Elwy / Elwy Valley Woods | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| | Coedwigoedd Dyffryn Alun / Alyn Valley Woods | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| | Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd / Berwyn and South Clwyd Mountains | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| | Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid / River Dee and Bala Lake | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| | Mynydd Helygain / Halkyn Mountain | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| | Safleoedd Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| **Cenedlaethol** | Rhan o 1 Warchodfa Natur Genedlaethol - (Berwyn).<br>Rhan neu'r cyfan o 30 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. 1 AHNE (Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy) ac 1 AHE (Y Berwyn) | |
| **Lleol** | 4 Gwarchodfa Natur Leol.<br>Tua 250 o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol (anstatudol). | |

3.2.6 Mae'r awdurdod lleol wedi pennu nifer o flaenoriaethau yn y Sir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych a mesurau i ddelio â'r dirywiad hwn, yn cynnwys pennu rhywogaethau â blaenoriaeth, fel y Rugiar Ddu, cynefinoedd â blaenoriaeth, fel twyni tywod arfordirol a graean bras arfordirol â llystyfiant, a thopigau, fel troseddau yn erbyn bywyd gwyllt.

3.2.7 Mae mannau agored yn chwarae rhan bwysig mewn perthynas ag iechyd a llesiant cymunedau. Y diffiniad o fannau agored yn Nodyn Cyngor Technegol 16 yw mannau agored o werth cyhoeddus, sy'n cynnwys nid yn unig dir, ond hefyd arwynebeddau o ddŵr fel afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd dŵr sy'n cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer chwaraeon, hamdden a thwristiaeth, ac sydd hefyd yn gallu bod yn amwynder gweledol, ac yn bwysig o ran cadwraeth a bioamrywiaeth. Felly mae mannau agored yn gallu cwmpasu elfennau yn yr amgylchedd adeiledig.

3.2.8 Cynhaliwyd yr Asesiad Mannau Agored diweddaraf yn Sir Ddinbych yn 2017 ac mae'n tynnu sylw at rannau o'r Sir lle nad oes mannau agored neu lle nad oes digon ohonynt o'u cymharu â'r safonau a bennwyd gan Meysydd Chwarae Cymru yn 2016. Mae'n dangos bod diffyg cyffredinol o fannau agored mewn rhai ardaloedd adeiledig ac felly'n pennu bod angen diogelu mannau agored presennol a darparu mannau agored newydd lle bynnag y bo modd. Hefyd lluniwyd Canllawiau Cynllunio Atodol: Mannau Agored Hamdden Cyhoeddus (2017) yn dilyn yr asesiad hwn, sy'n amlinellu'r canllawiau ar gyfer darparu mannau agored mewn datblygiadau newydd.

## 3.3 Yr Amgylchedd Adeiledig

3.3.1 Mae'r amgylchedd adeiledig yn cwmpasu'r amgylchedd adeiledig hanesyddol a'r agweddau hynny ar yr amgylchedd adeiledig sy'n cynnal yr economi a chymdeithas.

3.3.2 Mae gan Sir Ddinbych dreftadaeth hanesyddol gyfoethog sy'n cynnwys: 164 o henebion rhestredig, 1,803 o adeiladau rhestredig, 34 o ardaloedd cadwraeth, 25 o barciau a gerddi cofrestredig, a 5 ardal dirwedd sydd wedi'u dynodi ar y gofrestr o Dirweddau Hanesyddol. Cafodd Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen eu datgan yn Safle Treftadaeth y Byd yn 2009. Mae cyflwr adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn cael ei fonitro a chafwyd bod 148 ohonynt 'mewn perygl'.

3.3.4 Cymerwyd mesurau i sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei ystyried wrth benderfynu ceisiadau cynllunio drwy'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Defnyddir Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol (sy'n rhestru safleoedd a darganfyddiadau archeolegol anstatudol, a rhagor) fel canllaw i bennu cyngor cynllunio a mesurau lliniaru priodol.

## 3.4 Y Newid yn yr Hinsawdd

3.4.1 Rhagwelir y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar yr amgylchedd, yn cynnwys pwysau ar fioamrywiaeth, llifogydd amlach, ac effeithiau ar gyflenwadau dŵr. Mae bioamrywiaeth wedi'i thrafod yn yr adran uchod. Fodd bynnag, derbynnir y gall y newid yn yr hinsawdd roi pwysau ar fioamrywiaeth yn y Sir.

3.4.2 Cynhaliwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLlS), yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15, gan JBA Consulting ar ran y Cyngor Sir yn 2014. Roedd yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol wedi ystyried y perygl o lifogydd o afonydd ac o'r llanw a'r goblygiadau i ddyraniadau datblygu yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15.

3.4.3 Defnyddiwyd yr ACLlS, ynghyd â Nodyn Cyngor Technegol 15, fel canllaw wrth bennu dyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Mae diweddariad o'r ACLlS yn cael ei lunio ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r CDLl

newydd. Mae ardaloedd helaeth mewn perygl oddi wrth lifogydd ar yr arfordir yn y Rhyl a Phrestatyn, ac ardaloedd mewn perygl oddi wrth lifogydd o afonydd ar hyd aber afon Clwyd, Ffos y Rhyl a Ffos Prestatyn, ac afonydd Clwyd, Elwy, a Dyfrdwy.

3.4.4 Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr lunio cynlluniau rheoli sy'n dangos sut y byddant yn rheoli'r cyflenwad dŵr a'r galw am ddŵr. Mae'r cynlluniau perthnasol, sydd wedi'u nodi ym mharagraff 2.7.12, yn dangos bod digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y boblogaeth ragamcanol.

### 3.5 Defnyddio Adnoddau

3.5.1 Mae ein ffordd o ddefnyddio adnoddau'n bwysig gan ei bod yn gallu ein helpu i ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, drwy leihau'r defnydd o danwyddau ffosil a defnyddio mwy o ffynonellau ynni adnewyddadwy. Gall helpu hefyd i ddiogelu'r cyflenwad ynni drwy leihau'r angen am fewnforio ynni o wledydd eraill. Bydd yn rhaid i ynni adnewyddadwy chwarae rhan bwysig mewn cynhyrchu ynni yn y dyfodol er mwyn cyrraedd targedau'r DU ar gyfer delio â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys pob math o gynhyrchu carbon isel yn ogystal ag arbed mwy o ynni. Yn 2009, roedd y Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy wedi gosod targed o 15% ar gyfer defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020.

3.5.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 9, Tachwedd 2016, paragraff 12.8.7. yn diffinio ynni adnewyddadwy fel a ganlyn: 'term a ddefnyddir i gyfeirio at y ffynonellau hynny o ynni, ar wahân i danwydd ffosil neu danwydd niwclear, sydd ar gael yn barhaus ac yn gynaliadwy yn ein hamgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys gwynt, dŵr, haul, ynni geothermol a deunydd o blanhigion (biomas).' Credir hefyd fod datblygiadau Ynni Carbon Isel yn bwysig o ran datgarboneiddio'r cyflenwad ynni. Enghreifftiau o'r rhain yw gweithfeydd Gwres a Phŵer Cyfunedig sy'n rhedeg ar beiriant nwy neu dyrbin nwy, lle mae gwres gwastraff yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd fuddiol e.e. gwres o orsafoedd pŵer neu brosesau diwydiannol.

3.5.3 Mae polisi Llywodraeth Cymru ar gynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy wedi'i amlinellu yn PCC a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8. Mae PCC yn nodi bod y gofyniad i gyrraedd targed y Llywodraeth o gynhyrchu 4TWH y flwyddyn o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn golygu y dylai awdurdodau cynllunio lleol gefnogi cynigion am brosiectau ynni adnewyddadwy ar yr amod bod effeithiau ar yr amgylchedd yn cael eu hosgoi neu eu lleihau, ac na fydd integredd ardaloedd sydd â dynodiad cenedlaethol a rhyngwladol yn cael ei beryglu.

3.5.4 Mae TAN 8 wedi gosod targed o 800MW ar gyfer capasiti gweithfeydd ynni gwynt ar y tir. Mae TAN 8 yn egluro barn Llywodraeth Cymru y dylai datblygiadau ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr (sef rhai â chapasiti o fwy na 25MW yn ôl y diffiniad) gael eu crynhoi mewn ardaloedd penodol sydd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Chwilio Strategol sydd i gyd y tu allan i ffiniau Parciau Cenedlaethol.

3.5.5 Mae Ardal Chwilio Strategol Clocaenog, sydd wedi'i dangos yn Nodyn Cynllunio Technegol 8 yn pontio'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Chonwy. O fewn y Sir, mae 3 fferm wynt yn gweithredu, yn cynnwys Tir Mostyn/Foel Goch, Derwydd Bach a Wern Ddu (dau brosiect). Mae fferm wynt Brenig i gael ei hadeiladu a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer fferm wynt fawr Clocaenog.

3.5.6 Lluniwyd Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd ar gyfer Datblygu Tyrbinau Gwynt ar y Tir gan Gyngor Sir Ddinbych ar y cyd â CBS Conwy yn 2013. Ceir amrywiaeth o dirweddau yn Sir Ddinbych, a nifer ohonynt yn cael eu hystyried yn werthfawr iawn ar sail eu prydferthwch naturiol: oherwydd hyn, barnwyd bod rhan helaeth o'r ardal astudio yn sensitif iawn i ddatblygiadau ynni gwynt. Er hynny, roedd yr astudiaeth wedi nodi bod rhywfaint o le i ddatblygiadau ynni gwynt micro a graddfa fach gan mwyaf ond nad oedd fawr o le i ddatblygiadau mwy. Felly mae'r Ardal Chwilio Strategol a ddangoswyd yn TAN 8 wedi'i phennu'n lleoliad mwyaf addas ar gyfer datblygu ffermydd gwynt graddfa fawr yn y Sir.

3.5.7 Amcangyfrifwyd bod cyfanswm yr allbwn o'r holl ffermydd gwynt a ganiatawyd yn yr Ardal Chwilio Strategol yn fwy na 195MW. Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 wedi gosod targed o 140MW ar gyfer Ardal Chwilio Strategol Clocaenog, er nad yw hwn yn derfyn uchaf.

3.5.8 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn asesu potensial yr holl adnoddau ynni adnewyddadwy a chyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel o fewn y Sir, yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011). Bydd y canfyddiadau o'r astudiaeth hon yn cyfrannu i'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a byddant yn cael eu cynnwys mewn polisi lleol cyn gynted â phosibl.

3.5.9 Mae'r ffordd yr ydym yn delio â'n gwastraff yn gallu effeithio ar y gofyn am adnoddau crai a'r gofyn am danwyddau ffosil. Cynhaliwyd astudiaeth gan y Cyngor yn 2008/09 i edrych ar lefelau'r angen yn y Sir a sut i gwrdd â'r angen. Mae canlyniadau'r astudiaeth wedi'u cynnwys ym Mhapur Technegol Gwastraff y Cynllun Datblygu Lleol, Hydref 2009.

3.5.10 Mae maint y gwastraff sy'n codi o gasgliadau'r awdurdod lleol wedi gostwng ychydig ers mabwysiadu'r CDLl. Fodd bynnag, mae'r swm hwn wedi amrywio a gallai hyn fod yn arwydd o nifer o bwysau cystadleuol gwahanol, yn cynnwys y cynnydd cyffredinol yn nifer yr aelwydydd yn Sir Ddinbych. Mae gwybodaeth am wastraff sydd wedi'i gasglu gan rai heblaw'r awdurdod lleol yn fwy prin, a chynhaliwyd yr arolygon diweddaraf yn 2012. Oherwydd y fethodoleg a ddefnyddiwyd, ni ellir cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol ag arolygon blaenorol. Er hynny, cafwyd cynnydd cyffredinol ym maint y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a gostyngiad cyfatebol ym maint y gwastraff sy'n cael ei waredu.

3.5.11 Mae Sir Ddinbych, fel gweddill Cymru, wedi dibynnu'n hanesyddol ar dirlenwi i ddelio â gwastraff. Cafwyd gostyngiad sylweddol yn argaeledd a fforddiadwyedd safleoedd tirlenwi yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i'r Gyfarwyddeb Tirlenwi a'r Dreth Dirlenwi. Ers mabwysiadu'r CDLl, mae nifer o safleoedd tirlenwi wedi cau

ar draws y rhanbarth a dim ond safleoedd Llanddulas (Conwy), Hafod (Wrecsam) a Bryn Posteg (Powys) sy'n parhau i dderbyn gwastraff nad yw'n beryglus yn 2017. Roedd y rhan fwyaf o'r gwastraff nad yw'n beryglus a gododd yn Sir Ddinbych ac a waredwyd wedi'i derbyn i safleoedd Hafod a Llanddulas yn 2015. Mae Sir Ddinbych wedi cyrraedd targedau ei Lwfans Tirlenwi bob blwyddyn ac yn 2016 roedd ymhell o dan y lwfans a bennwyd.

# 4. Fframwaith Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLl

## 4.1 **Cyflwyniad**

4.1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) ar 4 Mehefin 2013. Mae'n darparu gweledigaeth glir o'r ffordd y bydd datblygiadau newydd yn gallu ateb yr heriau y mae'r Sir yn eu hwynebu, ac o leoliad, amseriad a maint y datblygu newydd a ganiateir hyd 2021.

4.1.2 O dan y rhwymedigaethau yn adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac yn adran 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae'r Cyngor o dan ddyletswydd i lunio adroddiad monitro blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ac i roi cyhoeddusrwydd iddo ar ei wefan.

4.1.3 Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau o berfformiad polisi lleol ar sail y ddau adroddiad monitro blynyddol sydd eisoes wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol. Ar gyfer pob adran isod, mae tabl sy'n rhoi trosolwg ar ddangosyddion a throthwyon.

## 4.2 **Perfformiad polisi lleol**

4.2.1 Mae pob adran isod wedi'i rhannu'n dopigau ac mae tabl ar ei chyfer sy'n rhoi trosolwg ar ddangosyddion a throthwyon. Pennawd y golofn olaf yw 'Crynodeb o Berfformiad'. Os yw'n cynnwys y testun 'Nid yw'n ofynnol adolygu polisi lleol', yna mae hyn yn golygu na fydd angen adolygiad polisi lleol o ganlyniad i'r AMB. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ellir cynnal adolygiad polisi lleol ar sail ystyriaethau eraill fel polisi cenedlaethol.

*Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig*

4.2.2 Mae'r perfformiad polisi lleol wedi bod yn unol â'r dangosyddion a throthwyon a bennwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu polisïau a dangosyddion o ganlyniad i ddiwygiadau a wneir i TAN 15, cyflwyno TAN 24 ac yn dilyn mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte.

4.2.3 **Tabl 4 – AMB y CDLl: Yr amgylchedd naturiol ac adeiledig**

| Polisi'r CDLl | Dangosydd | Trothwy | Crynodeb o Berfformiad |
|---|---|---|---|
| VOE 1 – Ardaloedd gwarchodaeth allweddol | Maint y datblygu a ganiateir yn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 nad yw'n cwrdd â'r holl brofion yn TAN 15 (paragraff 6.2 i-v) | Caniatâd cynllunio wedi'i roi i 1 datblygiad neu ragor | Nid yw'n ofynnol adolygu polisi lleol. |
| VOE 3 – Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte | Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar y cyd (Gyda CBC Wrecsam a Chyngor Sir Swydd Amwythig) | Canllawiau Cynllunio Atodol heb eu mabwysiadu erbyn diwedd 2013 | Nid yw'n ofynnol adolygu polisi lleol |
| VOE 5 – Amddiffyn adnoddau naturiol | Nifer y datblygiadau sy'n cael effaith niweidiol ar safleoedd gwarchod natur statudol a ddynodwyd | Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer cynnig datblygu a fyddai wedi cael effaith niweidiol ar safleoedd gwarchod natur statudol a ddynodwyd oni bai fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn ei fod yn angenrheidiol i reoli'r safle a ddynodwyd | Nid yw'n ofynnol adolygu polisi lleol |

*Defnyddio adnoddau*

4.2.4 Mae'r perfformiad polisi lleol wedi bod yn unol â'r dangosyddion a throthwyon a bennwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu polisïau a dangosyddion yn ymwneud â rheoli dŵr o ganlyniad i newidiadau yng ngofynion Rheoliadau Adeiladu ac o ganlyniad i ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru ar weithredu Adran 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen adolygu polisïau a dangosyddion sy'n ymwneud â rheoli gwastraff o ganlyniad i newidiadau mewn polisi a chanllawiau cenedlaethol, a gofynion yn TAN 21.

4.2.5 **Tabl 5 – AMB y CDLl: Defnyddio adnoddau**

| Polisi'r CDLl | Dangosydd | Trothwy | Crynodeb o Berfformiad |
|---|---|---|---|
| VOE 6 – Rheoli Dŵr | % y datblygiadau newydd sy'n cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy, neu ateb tebyg lle bo'n addas | Methu â sicrhau unrhyw un neu unrhyw heriau llwyddiannus i'r gofyniad, lle bo'n addas | Nid yw'n ofynnol adolygu polisi lleol. |
| | Nifer y cynigion datblygu mawr a ddatblygwyd yn unol â'r Datganiad Arbed Dŵr | Methu â sicrhau unrhyw un neu unrhyw heriau llwyddiannus i'r gofyniad, lle bo'n addas | Nid yw'n ofynnol adolygu polisi lleol |
| | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol | Canllawiau heb eu mabwysiadu erbyn 2015 | Nid yw'n ofynnol adolygu polisi lleol (DS – mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u dileu gan fod Rheoliadau Adeiladu – Dogfen Gymeradwyedig G bellach yn ymdrin â mesurau arbed dŵr/ safonau i'w cyrraedd mewn anheddau newydd). |
| VOE 7 – Lleoliadau ar gyfer rheoli gwastraff | Canran y capasiti rheoli gwastraff a ganiateir fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen, a nodwyd yn yr adolygiad cyntaf o Gynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru | Llai na 50% o'r capasiti a ganiateir wedi'i ddarparu, erbyn 2015, o fewn neu y tu allan i'r Sir mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill yng ngogledd Cymru, fel canran o'r capasiti sydd ei angen ar Sir Ddinbych | Mae'n bosibl y bydd y polisi neu drothwy lleol yn cael ei adolygu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| VOE 9 – Ynni gwynt ar y tir | Nifer a math y cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel a ganiateir bob blwyddyn | Llai nag 1 datblygiad y flwyddyn dros 3 blynedd yn olynol | Nid yw'n ofynnol adolygu polisi lleol |
| VOE 10 – Technolegau ynni adnewyddadwy | Capasiti'r datblygiadau ynni adnewyddadwy (MW) (wedi'u gosod neu eu caniatáu ond heb fod yn weithredol eto) yn yr Ardal Chwilio Strategol yn ôl math pob blwyddyn (drwy gydweithio â CBSC) | Peidio â chyrraedd y targed a bennwyd yn TAN 8, mewn Polisi Ynni Cenedlaethol neu yn PCC erbyn 2015 | Nid yw'n ofynnol adolygu polisi lleol. |

# 5. Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd

## 5.1 Rhagarweiniad

5.1.1 Mae gofyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol sef cynllun defnydd tir statudol i fod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA), Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), ynghyd ag Arfarniad Rheoli Cynefinoedd (HRA). Yn unol â chanllawiau cenedlaethol mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r ddau asesiad SA/SEA mewn un ddogfen, h.y. 'Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd'. Rôl Arfarniad o Gynaliadwyedd (ymgorffori Arfarniad Amgylcheddol Strategol) yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy trwy asesu ehangder y bydd y cynllun ar ei newydd wedd, wrth ei gymharu ag atebion rhesymol eraill, yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol perthnasol. Mae'r Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yn parhau fel dogfen ar wahân. Rôl yr Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yw asesu effaith debygol y Cynllun ar Safleoedd Wedi'u Dynodi yn Ewrop sy'n berthnasol (amddiffyn safleoedd natur a rhywogaethau dan gadwraeth).

5.1.2 Fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl mae canlyniadau'r cynigion datblygu a ganiatawyd yn ystod y flwyddyn yn ogystal â thystiolaeth eraill yn cael eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei weithredu mewn harmoni ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae cynaliadwyedd CDLl Sir Ddinbych yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o'r Fframwaith Monitro Blynyddol y CDLl. Mae'r adran ganlynol yn edrych ar fframwaith sgrinio Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoli Cynefinoedd er mwyn nodi unrhyw newid yn y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu elfennau unigol o'r CDLl.

5.1.3 Bydd yn rhaid i’r CDLl newydd gydymffurfio â darpariaethau’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yn effeithio ar sut y cyflawnir asesiadau SA / SEA yn y dyfodol i gefnogi’r Cynllun. Bydd gwybodaeth bellach ar gael wrth i’r Cynllun diwygiedig symud tuag at gael ei fabwysiadu.

## 5.2 Arfarniad o Gynaliadwyedd (sgrinio)

5.2.1 Mae’r Llawlyfr CDLl (Rhifyn 2 Awst 2015) angen i Awdurdodau sydd yn ymgymryd ag adolygiad o’u CDLl i ailystyried yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae angen cyflawni’r ailystyriaeth ar y cyd â drafftio’r Adroddiad Adolygu CDLl. Mae hynny cyn i’r gwaith o ddrafftio newidiadau ffurfiol i’r CDLl (CDLl i gymryd lle y fersiwn blaenorol). Mae'r canllaw yn amlinellu’r hyn sydd ei angen fel rhan o’r adolygiad ac mae’r camau hynny wedi’u hamlinellu isod:

- ystyried canlyniadau’r broses Monitro Blynyddol o’r Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys monitro os oes effeithiau sylweddol yn sgìl gweithredu’r cynllun datblygu;
- adolygu Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych presennol:
  - Posibiliadau Arfarniad o Gynaliadwyedd – cynlluniau, polisïau a rhaglenni a diweddariad gwybodaeth sylfaenol;
  - ystyried y prif newidiadau yn genedlaethol ac yn lleol ers mabwysiadu’r CDLl;
  - ystyried yr Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd wrth ystyried y newidiadau y cynigir yn y CDLl diwygiedig.

5.2.2 Cyflwynwyd Atodiad F, Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad ar Bosibiliadau) fel drafft i ymgynghori arno ynghyd â'r Adroddiad Adolygu CDLl. Tydi’r ailystyriaeth heb ystyried y dylanwadau newydd a nodwyd fel rhan o Adroddiad Adolygu Sir Ddinbych ac o ganlyniad bu effeithiau cynaliadwyedd sylweddol. Daethpwyd i’r casgliad bod Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd i gyd yn parhau i fod yn berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar.

5.2.3 Cafwyd ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n rhan o'r ymgynghori statudol ar Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau defnyddio tir lleol, i’r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Ailystyried a Phosibiliadau CDLl Sir Ddinbych (21 Awst 2017 – 20 Hydref 2017). Cefnogwyd y canlyniadau bod Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn parhau i fod yn berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd gan groesawu bod y gwaelodlin presennol wedi cael ei ddiwygio i helpu gyda'r gwaith monitro ac ailystyried. Nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio’r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu’r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o’r gwaith o newid y CDLl. Nid oes ganddynt wrthwynebiad i ddefnyddio’r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu’r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o’r gwaith paratoi ar gyfer newid y CDLl.

## 5.3 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Rhagfyr 2017)

5.3.1 Pwrpas ymarfer sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), gweler Atodiad G, oedd i edrych ar asesiadau HRA blaenorol a luniwyd i gefnogi'r CDLl a fabwysiadwyd; nodi newidiadau i safleoedd Ewropeaidd unigol ac edrych ar ba mor effeithiol oedd mesurau osgoi, canslo neu liniaru a awgrymwyd yn flaenorol. Nid oedd yr arfer wedi'i fwriadu ar gyfer llunio asesiad newydd o'r CDLl a fabwysiadwyd ond i ddysgu o brofiad blaenorol ac i nodi newidiadau a fyddai o bosib yn cael effaith ar waith yn y dyfodol.

5.3.2 Nid oes polisiau a dyraniadau tir lleol wedi eu cynnwys yn y CDLl sydd wedi arwain at effaith sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae mesurau a gynigir (lle bo hangen) i wrthbwyso'r effeithiau hyn yn weithredol ac effeithiol. Rhaid gwneud gwaith ymchwilio pellach i weld os oes cyfle i wella ansawdd yr aer yn ne'r Sir; gan ganolbwyntio ar leihau gwaddodion nitrogen.

5.3.3 Mae'r arferiad sgrîno wedi nodi bod yn rhaid i Arfarniadau Rheoli Cynefinoedd roi ystyriaeth i'r estyniad arfaethedig o Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl a'r wybodaeth newydd am Ardal Cadwraeth Arbennig Coedwigoedd Dyffryn Alun. Efallai y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar lunio polisi lleol a defnyddiau posib o dir yn yr ardal.

## 6. Cyfeiriadau


Adolygiad Cyntaf o Gynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (2009)
Agricultural Land Classification Map of England and Wales (1966)
Cyngor Sir Ddinbych: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir Ddinbych (2003)
Cyngor Sir Ddinbych: Diweddariad o Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (2014)
Cyngor Sir Ddinbych: Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (2009)
Cyngor Sir Ddinbych: Papur Technegol Gwastraff (2009)
Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd ar gyfer Datblygu Tyrbinau Gwynt ar y Tir (2013)
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft Dyffryn Dyfrdwy (2009)
Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (2014)
Dŵr Cymru Welsh Water: Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (2014)
Llywodraeth Cymru: Arolwg Dosbarthu Tir Amaethyddol: Bodelwyddan, Sir Ddinbych (2007)
Llywodraeth Cymru: Arolwg Dosbarthu Tir Amaethyddol: Dwyrain y Rhyl, Sir Ddinbych (2007)
Llywodraeth Cymru: Arolwg Dosbarthu Tir Amaethyddol: Gorllewin Llanelwy, Sir Ddinbych (2007)
Llywodraeth Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2009)
Llywodraeth Cymru: Polisi Cynllunio Cymru (2016)
Llywodraeth Cymru: Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Diweddariad o Gynllun Gofodol Cymru (2008)
Llywodraeth Cymru: Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru (2008)
Llywodraeth Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 5 – Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
Llywodraeth Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 8 – Ynni Adnewyddadwy (2005)
Llywodraeth Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio (2016)
Llywodraeth Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 15 – Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)
Llywodraeth Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 16 – Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009)
Llywodraeth Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 21 – Gwastraff (2014)
Llywodraeth Cymru: (2017) Nodyn Cyngor Technegol 24 – Yr Amgylchedd Hanesyddol
Llywodraeth Cymru: (2009) Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Ymgynghoriad ar strategaeth wastraff newydd i Gymru

**ATODIAD 1**

**Cysylltiadau rhwng Cynllun Gofodol Cymru a Pholisi Cenedlaethol a CDLl Sir Ddinbych – 'Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd'**

| **Blaenoriaeth CGC** | **Polisi Cenedlaethol** | **Gweledigaeth y CDLl** | **Amcan** | **Polisi** | **Dyraniadau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymateb i'r newid yn yr hinsawdd | Ynni adnewyddadwy a charbon isel<br>PCC 12.8<br>Perygl o lifogydd a'r newid yn yr hinsawdd<br>PCC 13.2<br>TAN 8: Ynni Adnewyddadwy | "Bydd Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at reoli newid yn yr hinsawdd trwy hybu technolegau ynni adnewyddadwy a dylunio blaengar, y gofyniad am lefelau uchel o waith adeiladu cynaliadwy a datblygu, a thrwy gyfeirio datblygiad newydd i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle mae perygl llifogydd." | Amcan 11: Ynni<br>Amcan 16: Ardaloedd Gwarchodaeth | VOE 1: Ardaloedd gwarchodaeth allweddol<br>VOE 6: Rheoli dŵr<br>VOE 9: Ynni gwynt ar y tir<br>VOE 10: Technolegau ynni adnewyddadwy | Mae perygl o lifogydd wedi'i ystyried wrth asesu'r holl safleoedd ymgeisiol. |
| Cadw a meithrin treftadaeth a mannau adeiledig er mwyn hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth | Lleoli datblygiadau newydd<br>PCC 4.7<br>Yr amgylchedd hanesyddol<br>PCC 6.4 a 6.5<br>Adeiladau cynaliadwy a dylunio da<br>PCC 4.11 a 4.12<br>TAN 12: Dylunio | "…bydd yr amgylchedd o ansawdd uchel yn parhau i gael ei hamddiffyn a'i gwella trwy gyfeirio datblygiad tuag at ganolfannau sy'n bodoli eisoes... Bydd safonau dylunio wedi eu gwella, gan wella amgylchedd safon | Amcan 14: Dylunio<br>Amcan 16: Ardaloedd gwarchodaeth | VOE 1: Ardaloedd gwarchodaeth allweddol<br>VOE 3: Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte<br>VOE 4: Datblygiad galluogi | Dim dyraniadau penodol. Roedd yr amgylchedd adeiledig wedi'i gynnwys fel maen prawf i asesu safleoedd ymgeisiol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol | uchel naturiol ac adeiledig...” | | | |
| Diogelu a gwella’r amgylchedd naturiol | Gofalu am fioamrywiaeth<br>PCC 5.2<br>Mesurau i gadw tirweddau a bioamrywiaeth<br>PCC 5.3<br>Cadw a gwella treftadaeth naturiol<br>PCC 5.4 | “..bydd yr amgylchedd o ansawdd uchel yn parhau i gael ei hamddiffyn a’i gwella…” | Amcan 16: Ardaloedd gwarchodaeth | VOE 1: Ardaloedd gwarchodaeth allweddol<br>VOE 2: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ardal o Harddwch Eithriadol<br>VOE 5: Amddiffyn adnoddau naturiol | Dim dyraniadau penodol, er bod yr amgylchedd naturiol wedi’i gynnwys fel maen prawf i asesu safleoedd ymgeisiol |
| Defnyddio adnoddau’n gynaliadwy | Cyflenwadau dŵr a rheoli dŵr gwastraff<br>PCC 12.2 – 12.3<br>Cynllunio i leihau a rheoli gwastraff<br>PCC 12.5 – 12.6<br>Ynni cynaliadwy<br>PCC 12.8- 12.9<br>TAN 8: Ynni adnewyddadwy<br>TAN 21: Gwastraff | “..Bydd Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at reoli newid yn yr hinsawdd trwy hybu technolegau ynni adnewyddadwy ... a thrwy gyfeirio datblygiad newydd i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle mae perygl llifogydd.” | Amcan 10: Gwastraff<br>Amcan 11: Ynni<br>Amcan 14: Dylunio | VOE 6: Rheoli dŵr<br>VOE 7: Lleoliadau ar gyfer rheoli gwastraff<br>VOE 8: Rheoli gwastraff y tu allan i ffiniau datblygu<br>VOE 9: Ynni gwynt ar y tir<br>VOE 10: Technolegau ynni adnewyddadwy | Dyraniadau ar gyfer rheoli gwastraff |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | adeiladau cynaliadwy<br>MIPPS 02/2008 – Dylunio da<br>TAN 12 – Dylunio<br>Drafft o TAN 22 – Cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy | tuag at ganolfannau sy’n bodoli eisoes... Bydd safonau dylunio wedi eu gwella, gan wella amgylchedd safon uchel naturiol ac adeiledig...” | | | |
| Diogelu a gwella’r amgylchedd naturiol | Gofalu am fioamrywiaeth<br>PCC 5.2<br>Mesurau i gadw tirweddau a bioamrywiaeth<br>PCC 5.3<br>Cadw a gwella treftadaeth naturiol<br>PCC 5.4 Treftadaeth naturiol 5.4 | “..bydd yr amgylchedd o ansawdd uchel yn parhau i gael ei hamddiffyn a’i gwella…” | Amcan 16: Ardaloedd gwarchodaeth | VOE 1: Ardaloedd gwarchodaeth allweddol<br>VOE 2: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ardal o Harddwch Eithriadol<br>VOE 5: Amddiffyn adnoddau naturiol | Dim dyraniadau penodol, er bod yr amgylchedd naturiol wedi’i gynnwys fel maen prawf i asesu safleoedd ymgeisiol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy | Cyflenwadau dŵr a rheoli dŵr gwastraff<br>PCC 12.2 – 12.3<br>Cynllunio i leihau a rheoli gwastraff<br>PCC 12.5 – 12.6<br>Ynni cynaliadwy<br>Technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel<br>PCC 12.8- 12.9<br>TAN 8: Ynni adnewyddadwy<br>TAN 21: Gwastraff | "..Bydd Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at reoli newid yn yr hinsawdd trwy hybu technolegau ynni adnewyddadwy ... a thrwy gyfeirio datblygiad newydd i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle mae perygl llifogydd." | Amcan 10: Gwastraff<br>Amcan 11: Ynni<br>Amcan 14: Dylunio | VOE 6: Rheoli dŵr<br>VOE 7: Lleoliadau ar gyfer rheoli gwastraff<br>VOE 8: Rheoli gwastraff y tu allan i ffiniau datblygu<br>VOE 9: Ynni gwynt ar y tir<br>VOE 10: Technolegau Ynni adnewyddadwy | Dyraniadau ar gyfer rheoli gwastraff |

# Sir Ddinbych
# Cynllun Datblygu Lleol
# 2006 -2021

Draft

## Papur Gwybodaeth:
## Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy

Cynllunio Strategol a Thai
Rhagfyr 2017

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Map 1: Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru | 2 |
| **1.** | **Cefndir** | 3 |
| 1.1 | Pwrpas yr adroddiad hwn | 3 |
| 1.2 | Cyflwyniad i'r thema 'Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy'. | 4 |
| **2.** | **Cyd-destun y Polisi** | 4 |
| 2.1 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) | 5 |
| 2.2 | Polisïau Cynllunio Cenedlaethol | 5 |
| 2.3 | Cynllun Gofodol Cymru (2008) | 10 |
| 2.4 | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru (2017) | 11 |
| 2.5 | Strategaeth Cludiant Cymru (2008) | 12 |
| 2.6 | Cynllun Cludiant Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru (Taith 2015) | 13 |
| 2.7 | Gweledigaeth Twf a Strategaeth ar Gyfer Economi Gogledd Cymru (2016) | 15 |
| 2.8 | Rhaglen Gefnffyrdd / Rheilffyrdd i'r Dyfodol Cymru (Tachwedd 2009) | 15 |
| 2.9 | Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych (2017-2022) | 15 |
| 2.10 | Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023) | 16 |
| 2.11 | Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013) | 17 |
| 2.12 | Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio (2009-2013) | 18 |
| 2.13 | Awdurdodau Lleol Cyfagos | 18 |
| **3.** | **Adolygiad Sylfaenol** | 20 |
| 3.1 | Cyflwyniad | 20 |
| 3.2 | Yr Isadeiledd Lleol | 20 |
| 3.3 | Datblygiadau Allweddol y Dyfodol | 21 |
| 3.4 | Yr Amgylchedd Naturiol | 21 |
| 3.5 | Yr Economi Dwristiaeth | 22 |
| 3.6 | Isadeiledd Trafnidiaeth Newydd (CDLl Polisi SHC 1) | 23 |
| **4.** | **Adroddiadau Monitro Blynyddol Blaenorol** | 24 |
| 4.1 | Cyflwyniad | 24 |
| 4.2 | Perfformiad PolisI Lleol | 25 |
| 4.3 | Darparu cyfleusterau Cludiant Cynaliadwy (CDLl Polisi SHC 2 ) | 25 |
| 4.4 | Safonau Parcio (CDLl Polisi SHC 3) | 26 |
| **5.** | **Arfarniad Cynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd** | 26 |
| 5.1 | Cyflwyniad | 26 |
| 5.2 | Arfarniad o Gynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu) | 27 |
| 5.3 | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Gorffennaf 2017) | 27 |
| **6.** | **Cyfeiriadau** | 29 |

**Atodiad 1** – Dolenni o Gynllun Gofodol Cymru a Pholisi Cenedlaethol i GDLl Sir Ddinbych - Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy


Draft

Map 1: Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru



# 1. Cefndir

## 1.1 Pwrpas yr Adroddiad

1.1.1 Lluniwyd ‘Papurau Gwybodaeth’ (PG) gan Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) i gefnogi pum thema Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2121 a gyhoeddwyd ym mis Awst 2011. Pwrpas y dogfennau hyn oedd crynhoi data sylfaenol, tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol o ran datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol wedi’i Adneuo. Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn 2013 a oedd yn cynnwys y themâu canlynol:

- Parchu Nodweddion Unigryw (PNU)
- Creu Cymunedau Cynaliadwy (CCC)
- Hybu Economi Gynaliadwy (HEG)
- Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd, (GEH) a
- Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy (SHC)

Mae talfyriadau’r themâu wedi eu cynnwys yn nheitlau’r polisïau lleoli er mwyn nodi testunau cyffredin a’u canfod yn gyflym.

1.1.2 Yn unol ag Adran 69 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae’n rhaid i GSDd adolygu ei gynllun defnydd tir o leiaf bob pedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys adolygu amcanion a themâu’r CDLl a pholisïau lleol gan edrych ar newid cyd-destunol sylweddol, pryderon sylweddol yn sgil yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) a chyfrifoldebau cyfreithiol eraill sy’n effeithio ar berfformiad y CDLl.

1.1.3 Mae’r Cyngor newydd ddechrau adolygu'r CDLl. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw amcan, thema na pholisi lleol drafft diwygiedig. Mae'r rhan fwyaf o’r testun yn ymwneud â deddfwriaethau, strategaethau a rhaglenni, dadansoddiadau ystadegol a pherfformiad polisïau fel y nodir yn yr AMB, ynghyd ag effaith bosibl ar bolisïau’r CDLl a fabwysiadwyd. Bwriad y Cyngor yw gwneud y Papurau Gwybodaeth yn ‘ddogfennau byw’ h.y. eu diweddaru gyda thystiolaeth a gwybodaeth wrth i’r CDLl diweddaraf fynd drwy’r camau cynllunio unigol.

## 1.2 Cyflwyniad i’r thema ‘Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy’

1.2.1 Mae’r thema hon yn ymwneud â datblygu isadeiledd cludiant cynaliadwy ac effeithlon ar gyfer Sir Ddinbych. Mae’n gysylltiedig ag amcanion rhif 5 a 6 y CDLl (wedi’u rhestru o dan ‘Cludiant’) sy’n mynd i’r afael â’r materion allweddol sy’n wynebu’r sir, megis y ffaith fod mynediad i rwydweithiau cludiant cyhoeddus yn wael wrth symud yn bellach oddi wrth yr arfordir a choridor yr A55.

1.2.2 Mae’r thema ‘Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy' yn cynnwys ystod o feysydd gwahanol, gan gynnwys:

- darpariaeth isadeiledd cludiant newydd, gan gynnwys y rhwydweithiau ffordd, rheilffordd a bws yn ogystal â llwybrau beicio a cherdded.



Draft

- gwelliannau i gludiant cyhoeddus a chyfnewidfeydd gan gynnwys rhwydweithiau bws a rheilffordd,
- estyniadau a gwelliannau i'r rhwydwaith beicio a cherdded lleol/ rhanbarthol gan gynnig dulliau cludiant hygyrch a chynaliadwy a
- darpariaeth gofodau parcio ar gyfer ceir a beiciau.


## 2. Cyd-destun y Polisi

### 2.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

2.1.1 Fe ddaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'n gofyn i gyrff cyhoeddus fel Cyngor Sir Ddinbych i ystyried anghenion presennol cymunedau lleol yn ogystal â sut bydd penderfyniadau a wneir rŵan yn effeithio ar bobl yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn gorfod gweithio tuag at gyrraedd saith nod lles a gynhwysir yn y Ddeddf, sef: (1) Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang; (2) Cymru ffyniannus; (3) Cymru wydn; (4) Cymru iachach; (5) Cymru fwy cyfartal; (6) Cymru â chymunedau cydlynol; a (7) Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith sy'n ffynnu.

Wedi ei atgyfnerthu gan ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i weithredu egwyddorion datblygu cynaliadwy ymhob proses o wneud penderfyniadau. Fe wneir hyn drwy gadw at gyfres o 'amcanion lles' lleol i gyrraedd y saith nod lles cenedlaethol.

2.1.2 Mae saith Nod Lles, sef:




2.1.3 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu pecyn 'Asesu'r Effaith ar Les' i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae wedi ei ddylunio i gynorthwyo'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i werthuso cynnig penodol gan roi ystyriaeth i'r nodau lles. Yn unol â hynny, bydd pob elfen yn y CDLl diweddaraf

Draft

yn destun asesiad o'r effaith ar les ac, os oes angen, yn cael eu diwygio yn unol ag argymhellion yr asesiad.

2.1.4 Ceir nifer fawr o bolisïau a fframweithiau cenedlaethol, cynlluniau rhanbarthol a strategaethau lleol sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r CDLl yn ogystal ag effeithio ar ddarparu cynigion datblygu unigol. Pwrpas yr adran hon yw adolygu gwaelodlin y ddogfen, h.y. nodi newidiadau i ddogfennau presennol, asesu effaith dogfennau newydd ac amlygu anghysondebau posibl gyda pholisïau lleol. Bydd hwn yn gam hanfodol cyn trafod diwygio'r polisi lleol yng ngoleuni newid mewn amgylchiadau lleol.

2.1.5 Disgwylir y bydd CDLlau yng Nghymru yn integreiddio gyda deddfwriaethau, strategaethau a chynlluniau eraill heb ailadrodd polisïau cynllunio cenedlaethol yn ddiangen. Mae'r polisi cenedlaethol wedi ei gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, sydd wedi ei ategu gan nifer o Nodiadau Cyngor Technegol.

## 2.2 Polisïau Cynllunio Cenedlaethol

2.2.1 Mae'r polisi cynllunio lleol wedi ei nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) ac yn cynnwys Polisi Cynllunio Mwynau Cymru ym mhennod 14. Mae'r atodiadau yn cynnwys cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi 'Llythyrau Egluro Polisi' yn aml sy'n darparu cyngor ac arweiniad ar destunau penodol.

2.2.2 Yn ogystal â darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar lefel leol, fe all y polisi cenedlaethol fod yn berthnasol i gynigion cynllunio a benderfynir arnynt gan Weinidogion Cymru, Arolygwyr Cynllunio mewn apeliadau cynllunio neu yn absenoldeb polisi lleol perthnasol.

2.2.3 Polisi Cynllunio Cymru yw'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf arwyddocaol wrth ddrafftio polisïau lleol. Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn nodi na ddylai CDLlau ailadrodd polisïau cenedlaethol ond fe all awdurdodau cynllunio lleol eu cynnwys fel atodiadau pan fo amgylchiadau lleol yn gofyn am ddehongli polisi lleol penodol. Mae Tabl 1 yn nodi'r polisïau cenedlaethol hynny a ystyriwyd yn berthnasol ar adeg llunio thema 'Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy' y CDLl a pholisïau lleol cysylltiedig. Mae hefyd yn cyflwyno gwaelodlin i nodi unrhyw newid posibl mewn polisïau cenedlaethol ac effeithiau posibl ar y polisi lleol a fabwysiadwyd.

Draft

Tabl 1: Cysylltiadau rhwng y polisi cenedlaethol a thema'r CDLl, "Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy"

| Polisi Cynllunio Cenedlaethol (gan gyfeirio at Rifyn 9 PCC) | Lle y cyfeirir at hyn yn y CDLl? | A oes angen unrhyw newid i gydymffurfio â'r Polisi Cenedlaethol? | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Lleihau'r angen i deithio | Polisi CCC 9 - Cysylltiad Lleol Tai Fforddiadwy o fewn grwpiau neu glystyrau bychain<br>Polisi HEG 5 – Yr Economi Wledig<br>Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd | Awgrym i newid y polisi i gynnwys y mater hwn. Gellir cysylltu hyn â Theithio Llesol a lleoli datblygiadau yn agos at at gludiant cyhoeddus/ llwybrau cerdded/beicio | Mae angen lleihau'r angen i deithio mewn lleoliadau gwledig |
| Annog teithiau amlbwrpas | Nid oes cyfeiriad ato yn y CDLl ar hyn o bryd | Awgrym i newid y polisi i gynnwys y mater hwn. Gellir cysylltu hyn â'r Polisi Teithio Llesol newydd a lleoli datblygiad ger datblygiadau cysylltiedig eraill | |
| Hygyrchedd i bawb | CDLl Polisi SHC 3 - Safonau Parcio.<br>Cyfeirir at y polisi cenedlaethol hwn o fewn y thema - 'Parchu Nodweddion Unigryw' – CDLl polisi PNU 3 ('Estyniadau, Newidiadau a Newid Anheddau presennol') a'r thema 'Hybu Economi Gynaliadwy'.<br>Polisïau CDLl sy'n ymwneud â datblygiad manwerthu | Nid oes angen gwneud unrhyw newid | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cefnogi teithio mewn ardaloedd gwledig | Nid oes cyfeiriad ato yn y CDLl ar hyn o bryd | Awgrym i newid y polisi i gynnwys y mater hwn. Gellir cysylltu hyn â'r Polisi Teithio Llesol newydd a gwneud gwelliannau i lwybrau cludiant cyhoeddus/ cerdded/beicio o ardaloedd gwledig i ardaloedd trefol | Mae angen cefnogi teithio mewn cymunedau gwledig gan sicrhau hygyrchedd i bawb |
| Gwella hygyrchedd drwy gerdded, beicio a chludiant cyhoeddus | CDLl Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd.<br>CDLl Polisi SHC 2 – Darparu cyfleusterau cludiant cynaliadwy | Polisi Cenedlaethol Newydd ar Deithio Llesol. Cyfeirir at y polisi cenedlaethol hwn o fewn y thema 'Hybu Economi Gynaliadwy' – polisïau'r CDLl yn ymwneud ag economi dwristiaeth. | Cyswllt â'r polisi newydd ar Deithio Llesol. |
| Hybu teithio llesol beicio a cherdded | CDLl Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd. CDLl Polisi SHC 2 – Darparu cyfleusterau cludiant cynaliadwy. | Polisi Cenedlaethol Newydd ar Deithio Llesol. Cyfeirir at y polisi cenedlaethol hwn o fewn y thema 'Hybu Economi Gynaliadwy' – polisïau CDLl yn ymwneud ag economi dwristiaeth. | Cysylltu â'r polisi newydd ar Deithio Llesol. |
| Cefnogi cludiant cyhoeddus | CDLl Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd. CDLl Polisi SHC 2 – Darparu cyfleusterau cludiant cynaliadwy. | Nid oes angen gwneud unrhyw newid. Cyfeirir at y polisi cenedlaethol hwn o fewn amryw o themâu, megis 'Creu Cymunedau Cynaliadwy' a 'Hybu Economi Gynaliadwy' | |
| Rheoli traffig a pharcio | CDLl Polisi SHC 3 - Safonau Parcio | Nid oes angen gwneud unrhyw newid | Mae manylion o ran Safonau Parcio wedi'u nodi o fewn y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) |
| Newid cludiant ac annog teithwyr i ddefnyddio ddulliau di-ffordd | CDLl Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd, CDLl | Nid oes angen gwneud unrhyw newid | Mae'r dull cyffredinol wedi'i nodi'n anuniongyrcho |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| a hybu dewisiadau cynaliadwy ar gyfer cludiant a masnach | Polisi SHC 2 – Darparu cyfleusterau cludiant cynaliadwy, CDLl Polisi SHC 3 – Safonau Parcio | | l o fewn y thema 'Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy' |
| Maes Awyr | Nid yw'r pwnc yn berthnasol | Amh. | |
| Lleihau'r effeithiau andwyol o isadeiledd cludiant newydd a gwelliannau. Cefnogi'r gwelliannau isadeiledd angenrheidiol a sicrhau nad yw'r isadeiledd cludiant yn cyfrannu at feddiannu tir, blerdwf trefol nac ychwaith at wahanu cymdogaethau | CDLl Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd | Nid oes angen gwneud unrhyw newid | Asesir cynigion datblygu unigol wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio |
| Asesiad cludiant a chynlluniau teithio | CDLl Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd | Nid oes angen gwneud unrhyw newid | Bydd yr asesiad cludiant a'r cynlluniau teithio yn cael eu hasesu ar y cyd â Chynllun Cludiant Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru |
| Mynediad at ffordd gynradd | CDLl Polisi SHC 3 - Safonau Parcio | Nid oes angen gwneud unrhyw newid | Mae manylion o ran Safonau Parcio a mynediad at ffyrdd cynradd wedi'u nodi o |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fewn Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) Gofynion Parcio i Ddatblygiadau Newydd |
| Nodyn Cyngor Technegol 18 – Safonau Parcio Uchaf | CDLl Polisi SHC 3 - Safonau Parcio | Nid oes angen gwneud unrhyw newid | Mae manylion o ran Safonau Parcio a mynediad at ffyrdd cynradd wedi'u nodi o fewn Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) Gofynion Parcio i Ddatblygiadau Newydd |
| Nodyn Cyngor Technegol 18 – Symudedd a Hygyrchedd ar gyfer Pobl Anabl | CDLl Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd, CDLl Polisi SHC 3 – Safonau Parcio | Awgrymwyd newid er mwyn cysylltu â'r Polisi Teithio Llesol newydd a mynediad ar lwybrau beicio a cherdded | Mae manylion o ran Safonau Parcio a mynediad at ffyrdd cynradd wedi'u nodi o fewn Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) Gofynion Parcio i Ddatblygiadau Newydd |

2.2.4 Bydd polisïau cynllunio cenedlaethol ac amcanion Llywodraeth Cymru, sydd â chyswllt anuniongyrchol â darpariaeth rhwydwaith cludiant cynaliadwy e.e. i annog darpariaeth llwybrau beicio a cherdded diogel o fewn Polisi Cynllunio Cymru, adran 'Twristiaeth, Chwaraeon ac Adloniant', yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar y cyd â'r CDLl.

## 2.3 Cynllun Gofodol Cymru

2.3.1 Cyhoeddwyd y cynllun hwn yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2004 a'i ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2008, nod y ddogfen yw gweithredu blaenoriaethau polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Cymru. Canolbwyntiwyd ar gysylltu gweithgareddau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; gan ddarparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio. Yr amcan oedd rhoi pwyslais cryf ar

weithredu'r egwyddor 'datblygu cynaliadwy' ymhob proses o wneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus.

2.3.2 Mae Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (adran 62) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i ystyried Cynllun Gofodol Cymru wrth baratoi eu cynlluniau datblygu lleol. Mae hyn yn golygu bod gan Gynllun Gofodol Cymru sawl diben ym mhroses CDLl Sir Ddinbych: (1) casglu tystiolaeth; (2) ffurfio polisïau lleol; (3) sicrhau gwell ymgysylltu a llywodraethu rhwng cyrff; (4) hysbysu cynlluniau; ac (5) alinio buddsoddiadau posibl yn yr ardal.

2.3.3 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn rhannu Cymru yn chwe rhanbarth gan amlinellu eu perthnasau trawsffiniol. Mae rhannau o Sir Ddinbych wedi eu dyrannu i ranbarth Gogledd Ddwyrain Cymru a rhanbarth Canolbarth Cymru. Cydnabyddir hefyd bod yna berthynas gref gyda rhanbarth y Gogledd Orllewin. Mae pob rhanbarth, h.y. ardaloedd cynllun gofodol, wedi ei broffilio gan aneddiadau allweddol, dosbarthiad poblogaeth rhanbarthol mewnol, canolfannau economaidd-gymdeithasol, mannau gweithgareddau economaidd ac ati.

2.3.4 Er mwyn alinio CDLl Sir Ddinbych gyda Chynllun Gofodol Cymru, penderfynodd y Cyngor strwythuro ei gynllun defnyddio tir yn unol â phum thema Cynllun Gofodol Cymru:

- Creu Cymunedau Cynaliadwy;
- Hybu Economi Gynaliadwy;
- Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd;
- Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy; a
- Pharchu Nodweddion Unigryw

2.3.5 Mae system gynllunio Cymru ar hyn o bryd yn mynd trwy gyfnod newid. Mae deddfwriaeth sylfaenol newydd wedi ei chyflwyno ar gyfer cynllunio yn ogystal â deddfwriaethau treftadaeth adeiledig a diogelu'r amgylchedd. Arweiniodd hyn (ac mae hyn yn debygol o barhau) at gyflwyno rheoliadau is-ddeddfwriaethol, polisi cenedlaethol a nodiadau canllaw. Bydd cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru yn newid mawr i drefniadau cynllunio strategol. Bydd y fframwaith hwn yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ymhen rhyw ddwy flynedd. Felly, wrth lunio'r CDLl newydd ar gyfer y Sir, bydd yn rhaid i Sir Ddinbych roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru, a fydd yn newid cyn bo hir, yn ogystal â gweithio tuag at gydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd.

2.3.6 Dechreua'r bennod 'Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy' yng Nghynllun Gofodol Cymru â'r weledigaeth sy'n arwain datblygiadau yng Nghymru yn y dyfodol:

*"Byddwn yn datblygu hygyrchedd mewn ffyrdd a fydd yn annog gweithgarwch economaidd, gwella cyfleoedd cyflogaeth, sicrhau gwasanaethau o ansawdd a chydbwyso'r buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd o deithio.'*
Cynllun Gofodol Cymru (2008), t.32

Draft

2.3.7 Mae isadeiledd cludiant modern yn cynnig y posibilrwydd o gael mynediad at ystod ehangach o wasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth, ond gall hefyd gael effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Dylid ystyried y mesurau canlynol ym mhob CDLl er mwyn osgoi'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig:

- cyflogaeth a datblygiad tai o amgylch system gludiant integredig a chref. Polisi CCC 5 – Safle Strategol Allweddol – Mae Bodelwyddan yn bwriadu creu rhwydwaith priffordd newydd yn ogystal â gwneud gwelliannau eraill oddi ar y safle gan gynnwys cyfleusterau beicio a cherdded a chysylltiadau cludiant cyhoeddus.
- gwneud y mwyaf o'r tir sydd eisoes wedi'i ddatblygu (blaenoriaeth datblygu tir llwyd) a hybu cerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd. Polisi CCC – Mae blaenoriaeth datblygu tir llwyd yn cefnogi'r mater hwn ac mae 3 safle eisoes wedi'u dyrannu sy'n cyfrannu at adfywiad tref cynaliadwy a thwf economaidd.
- y gwneir datblygiadau yn y dyfodol gan ystyried yr angen ar gyfer teithiau i ganolfannau gwasanaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae atodiad 1 yn darparu dadansoddiad o flaenoriaethau Polisi Cenedlaethol, gweledigaeth y CDLl, amcanion a'r polisi deilliedig.

## 2.4 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru

2.4.1 Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (FfDCC) yn deillio o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac mae'n darparu cyfarwyddyd ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ac yn cefnogi'r gwaith o benderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Tra bo Cynllun Gofodol Cymru yn rhoi sylw mawr i'r egwyddor 'datblygu cynaliadwy' mae FfDCC yn mynd gam ymhellach i weithredu darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.4.2 Mae'r gwaith paratoi ar gyfer FfDCC newydd ddechrau gyda galwad gan Lywodraeth Cymru am dystiolaeth a phrosiectau posibl i'w cynnwys. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar faterion, dewisiadau a'r dewisiadau a ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ym mis Ebrill, gydag ymgynghoriad ar y fframwaith drafft fis Gorffennaf 2019. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y ddogfen ym mis Ebrill 2020 ac yn ei chyhoeddi, yn ôl pob tebyg, fis Medi 2020.

2.4.3 Mae'n anodd amlinellu unrhyw effaith y caiff y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar y CDLl diwygiedig gan nad oes llawer o wybodaeth ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd.

## 2.5 Strategaeth Cludiant Cymru (2008)

2.5.1 Mae gan Strategaeth Cludiant Cymru ran allweddol i'w chwarae wrth ddarparu Rhaglen Strategol Llywodraeth Cymru. Mae'n ceisio darparu fframwaith

sefydlog a hir dymor ar gyfer datblygiad yr holl fathau o gludiant yn ogystal â goblygiadau ar gyfer meysydd polisi eraill.  Mae'r strategaeth hon yn cysylltu Cynllun Gofodol Cymru, strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru a datblygiad cynlluniau ar lefel leol.

Tabl 2: Nodir sut y mae Strategaeth Cludiant Cymru’n cysylltu â strategaethau eraill a ddatblygwyd ar gyfer meysydd polisi eraill.

| **Maes Polisi** | **Mae Strategaeth Cludiant Cymru yn ceisio** |
|---|---|
| Diwylliant a thwristiaeth | Sicrhau fod cysylltiadau cludiant yn cyfrannu at hunaniaeth a diwylliant Cymru, o gymorth i adeiladu cymunedau cryf a gwneud y mwyaf o fynediad at gyfleusterau chwaraeon, cyfleusterau diwylliannol ac adloniadol. |
| Yr Economi | Creu rhwydweithiau o ansawdd uchel ar draws Cymru, gwella cynhyrchiant busnesau a mynd i’r afael â’r broblem o hygyrchedd gwael sy’n rhwystro gweithgarwch economaidd. Gwella mynediad at gyflogaeth a symudiad nwyddau a gwasanaethau. |
| Addysg, hyfforddiant a sgiliau | Gwella mynediad at addysg a hyfforddiant gyda chyfleoedd cludiant da. |
| Yr Amgylchedd | Gwneud y mwyaf o’r cyfraniad cadarnhaol y mae cludiant yn ei roi i’r amgylchedd a lleihau’r effaith negyddol. Yn enwedig, rhaid sicrhau fod cludiant yn chwarae rhan wrth fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd. |
| Iechyd | Bod o gymorth wrth hybu ffordd iach o fyw, megis cerdded neu feicio teithiau byrrach.  Lleihau’r llygredd sydd yn yr aer oherwydd traffig. Gwella mynediad pawb at y gwasanaethau a chyfleusterau iechyd. |
| Cynllunio | Rhoi'r ystyriaeth fwyaf o ran hygyrchedd yn ystod y cam cynllunio ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau newydd.  Dylanwadu a diwygio patrymau teithio, hybu teithio cynaliadwy a chyfrannu at welliannau amgylcheddol. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Gwneud y mwyaf o’r cyfraniad y gall cludiant ei wneud i hybu cynhwysiad cymdeithasol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau a bydd hefyd o gymorth i ddatblygu cymunedau cryfach a mwy diogel. |

Draft

Ffynhonnell: Strategaeth Cludiant Cymru (2008) t.2

2.5.2 Un o flaenoriaethau allweddol Strategaeth Cludiant Cymru yw mynd i'r afael â thlodi drwy wneud y mwyaf o gyfraniad gwasanaethau cludiant effeithiol a fforddiadwy er mwyn trechu tlodi a thargedu buddsoddiadau er mwyn cefnogi gwelliannau o ran hygyrchedd ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig. Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC, 2014) mae rhai ardaloedd yn y Rhyl a Dinbych ymysg yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

2.5.3 Is-ddangosydd o'r Mynegai hwn yw mynediad at wasanaethau. Mae hyn bellach yn cynnwys amseroedd teithio ar gyfartaledd gan ddefnyddio cludiant preifat sydd wedi'i gynnwys ochr yn ochr â chludiant cyhoeddus. Mae Gorllewin y Rhyl yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ers MALlC 2011, mae'r amddifadedd yno wedi cynyddu'n sylweddol o ran mynediad at wasanaethau sy'n peri pryder. Nodir hefyd yn MALlC bod lefelau amddifadedd uchel i'w gweld ar draws ardaloedd gwledig yng Nghymru. Felly, mae gwasanaethau cludiant fforddiadwy yn bwysig iawn, gan y bydd y gwasanaethau hyn yn rhoi cyfle i breswylwyr yr ardaloedd deithio ymhellach i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth.

## 2.6 Cynllun Cludiant Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru (Taith 2015)

2.6.1 Lluniwyd y Cynllun Cludiant Lleol ar y cyd gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru mewn ymateb i ofyniad Llywodraeth Cymru a oedd yn nodi bod rhaid cyflwyno Cynlluniau Cludiant Lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2015. Goruchwyliwyd paratoadau'r cynllun gan Taith fel Cydbwyllgor yr awdurdodau lleol dros gludiant. Mae'r Cynllun yn cynnwys rhaglen fanwl o 2015-2020 a fframwaith ar gyfer cynlluniau hyd at 2030. Mae'n nodi ystod o ymyraethau a chynlluniau ar gyfer yr holl ddulliau teithio, rhai sy'n berthnasol ar draws yr holl awdurdodau a rhai sy'n berthnasol yn lleol. Mae'r Cynlluniau hyn yn ymateb i'r materion sy'n ymwneud â chludiant yn y rhanbarth ac yn cydweddu'r rheiny sy'n cael eu datblygu ar lefel genedlaethol ac ar draws y ffiniau.

2.6.2 Nod y cynllun hwn yw mynd i'r afael â'r materion allweddol canlynol ar gyfer Gogledd Cymru:

- Gallu ffordd strategol a choridorau rheilffordd i ddarparu cysylltedd da sy'n angenrheidiol ar gyfer pobl a chludiant, o fewn Gogledd Cymru, i'r porthladdoedd a gweddill y DU i gefnogi'r economi a swyddi, gan gynnwys twristiaeth;
- Diffyg cadernid y rhwydweithiau ffordd a rheilffordd yn dilyn digwyddiadau cynlluniedig a rhai nas cynlluniwyd, gan gynnwys tywydd eithafol;
- Yr angen ar gyfer mynediad da i a rhwng y tair Ardal Fenter yng Ngogledd Cymru;
- Diffyg dewisiadau amgen fforddiadwy ar wahân i gar er mwyn cael mynediad at safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill; a'r

Draft

- Angen ar gyfer cysylltiadau ffordd da i / o'r rhwydwaith cefnffordd i mewn i'r ardaloedd gwledig er mwyn cadw hyfywedd busnesau lleol a chefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

2.6.3 Y Weledigaeth ar gyfer Cludiant yng Ngogledd Cymru:

*'Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru'n bwriadu cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal twf economaidd, ffyniant a lles drwy ddarparu rhwydweithiau cludiant diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac effeithiol.'*

2.6.4 Mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u gosod ar gyfer cynigion datblygu yn y dyfodol yn Sir Ddinbych:

- Gwella cysylltiadau i safleoedd cyflogaeth: Mynediad at safleoedd cyflogaeth Arfordirol Sir Ddinbych, er enghraifft i Barc Busnes Llanelwy ac Ystâd Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinmel
- Gwelliannau i ddiogelu cerddwyr yn y Rhyl.
- Gwelliannau o ran Hygyrchedd yr A525: Coridor cludiant Y Rhyl i Ddinbych
- Annog Teithio Cynaliadwy: Cyfleusterau beicio a cherdded Ffin Swydd Gaer drwy Goleg Kelsterton, y Fflint a Ffin Sir Ddinbych
- Gwelliannau o ran Hygyrchedd i Ganol Tref y Rhyl: Gwella rheolaeth traffig yng nghanol y dref
- Gwella llwybrau beicio a cherdded ar gyfer disgyblion ysgol yn Nwyrain y Rhyl
- Cludiant Cynaliadwy: Llwybr Teithio Llesol rhwng Rhuthun a Llanelwy

## 2.7 Gweledigaeth Twf a Strategaeth ar Gyfer Economi Gogledd Cymru

2.7.1 Mae'r weledigaeth hon yn gosod uchelgais glir ar gyfer Gogledd Cymru, yn arbennig o safbwynt datblygiad isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth, a thwf busnes. Mae'r strategaeth yn anelu at gynyddu gwerth yr economi ranbarthol o £12.8 biliwn i £20 biliwn erbyn 2035 trwy greu 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd.

2.7.2 Mae'r dyhead i wella cynhyrchiant, cystadleurwydd a thwf ar draws Gogledd Cymru wrth wraidd y weledigaeth. Nod y weledigaeth hon yw canolbwyntio ar wella isadeiledd ar draws y rhanbarth, yn enwedig yn y maes digidol a chludiant , er mwyn hwyluso a galluogi buddsoddiad economaidd a datgelu potensial economaidd Gogledd Cymru. Mae yma hefyd angen gwella hygyrchedd at safleoedd cyflogaeth a mynd i'r afael â phroblemau tagfeydd traffig, yn enwedig yn yr ardaloedd traws ffiniol.

2.7.3 Prif ganolbwynt y Cynllun Isadeiledd yw'r Prosiect Gwella Ffordd (£210m) ar hyd yr A55/ A494, gwella'r brif ffordd fynediad o Ogledd Cymru i Ogledd-orllewin Lloegr. Mae prosiectau gwella eraill yn cynnwys yr A483/ A5 rhwng Gogledd Cymru i Ganolbarth Lloegr a'r De. Rhoddir sylw hefyd i gapasiti'r A55, a phroblemau megis tagfeydd traffig mewn mannau cul a gwelliannau



Draft

cadernid. Mae mynediad lleol at gyfleoedd cyflogaeth hefyd yn cael ei ystyried yn y cynllun.

2.7.4 Mae hefyd angen buddsoddi i drydaneiddio Rhwydwaith Rheilffordd Gogledd Cymru a gwneud gwelliannau o ran cyflymder, amlder ac ansawdd y gwasanaethau rheilffordd a cherbydau newydd. Bydd y Prosbectws Trac Twf 360 yn amlinellu’r uchelgais ar gyfer gwella'r gwasanaeth rheilffordd a chysylltedd â HS2 yn Crewe.

**2.8 Rhaglen Gefnffyrdd / Rhaglen Rheilffyrdd i’r Dyfodol Cymru (Tachwedd 2009)**

2.8.1 Nid yw’r rhaglenni hyn yn cynnig unrhyw brosiect mawr o fewn Sir Ddinbych yn ystod eu cyfnod cynllunio.

**2.9 Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017- 2022: *Cyngor sy’n agos at y Gymuned***

2.9.1 Mae’r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu’r blaenoriaethau trosfwaol ar gyfer cyfnod y Cyngor. Caiff y blaenoriaethau eu cefnogi, eu gweithredu a’u darparu drwy nifer o strategaethau y mae CDLl yn offeryn hanfodol iddynt. Mae’r blaenoriaethau corfforaethol canlynol yn berthnasol i’r thema ‘Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy’ yn y CDLl:

- Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da
- Deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

2.9.2 Bydd y Cyngor yn llunio Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2017-2022. Mae’n bosibl y bydd Blaenoriaethau Corfforaethol yn destun newid yn dibynnu ar raglenni gwleidyddol, dyheadau a chyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor. Fodd bynnag, yn dibynnu ar y manylion, ni ddisgwylir y bydd yr egwyddorion yn newid yn sylweddol. Ar ôl i’r Cyngor fabwysiadu’r Cynllun Corfforaethol newydd bydd modd gwneud gwaith pellach i edrych ar gydymffurfio â pholisïau lleol a thebygolrwydd unrhyw newid i amcanion a pholisïau lleol y CDLl.

**2.10 Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013-2023**

2.10.1 Gwasanaethir Gogledd Sir Ddinbych gan goridorau cludiant rheilffordd Gogledd Cymru a chefnffordd yr A55. Mae’r cysylltiadau cludiant sydd i'w cael yng ngweddill y sir yn wannach ac mae gwendidau o ran llwybrau’r priffyrdd sydd angen mynd i’r afael â hwy. Gellid gwella cysylltedd yn gyffredinol ar draws y sir. Mae lefelau cymudo uchel, i mewn ac allan o’r sir, yn nodwedd allweddol o economi leol Sir Ddinbych.

Draft

2.10.2 Mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw yng ngogledd trefol y sir. Gall cludiant a hygyrchedd greu problemau i breswylwyr a busnesau sydd wedi'u lleoli yn ardaloedd mwyaf gwledig Sir Ddinbych ac mae cysylltedd ar draws y sir yn parhau i fod yn destun pryder. Prif nod y Strategaeth hon yw sicrhau cysylltiadau cludiant effeithiol a fydd yn galluogi pobl i gael mynediad at swyddi a galluogi busnesau i gael mynediad at farchnadoedd/ cwsmeriaid.

2.10.3 Mae'r Strategaeth hon yn amlygu materion allweddol a heriau:

- Mae gwendidau sylweddol yn rhwydwaith isadeiledd cludiant Sir Ddinbych, yn enwedig o ran cysylltiadau ffordd Gogledd - De. Mae gwasanaethau rheilffordd prif lein wedi'u cyfyngu i arfordir y Gogledd ac yn gyfyngedig o ran amlder. Mae cefnffordd yr A55 yn darparu cysylltiadau da rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin ond mae perygl o fynd heibio trefi a chymunedau Sir Ddinbych. Mae tagfeydd traffig yn broblem gynyddol. Ar hyn o bryd, ymddengys nad yw buddsoddiad sylweddol mewn rhwydwaith ffordd strategol yn Sir Ddinbych ac o'i hamgylch yn flaenoriaeth yn y cynlluniau buddsoddi rhanbarthol na chenedlaethol.

- Mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn llawer mwy cyfyngedig o fewn ardaloedd gwledig ac yn gyffredinol mae'r gwasanaethau yn ddarniog ar draws y sir. Ar hyn o bryd nid yw cludiant cyhoeddus yn ddewis realistig ar gyfer llawer o breswylwyr sy'n teithio'n ôl ac ymlaen i'w gwaith. Gall amseroedd teithio fod yn hir, yn enwedig i leoedd y tu allan i'r Sir, ac mae gwasanaethau uniongyrchol i leoliadau cyflogaeth allweddol yn gyfyngedig iawn.

- Mae costau teithio'n cynyddu. Disgwylir i bris tocynnau bws a thrên godi'n gynt na chwyddiant cyffredinol, a bydd y farchnad betrol gyfnewidiol yn parhau i effeithio ar gostau tanwydd. Mae newidiadau i'r cymorthdaliadau sydd ar gael i gwmnïau bysiau'n peryglu prisiau a darpariaeth gwasanaethau bysiau. Yn ôl rhai adroddiadau, mae problemau gyda threfniadau teithio'n cyfyngu ar allu busnesau i recriwtio a thrigolion i ddod o hyd i swyddi addas. Caiff teithio i'r gwaith hefyd ei effeithio'n uniongyrchol.

2.10.4 Mae'r Strategaeth hon yn cynnig y dylid canolbwyntio ar weithio drwy TAITH, (sydd wedi'i ddiddymu ar hyn o bryd), nodi'r elfennau seilwaith a rhwydwaith cludiant lleol sy'n peryglu cyfyngu datblygiad economaidd lleol a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Cludiant Rhanbarthol diwygiedig (Cynllun Cludiant Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru bellach) a chynlluniau buddsoddi eraill, fel bo'n briodol. Gwella integreiddiad y gwasanaethau cludiant cyhoeddus lleol a gwybodaeth er mwyn eu gwneud yn llawer mwy hygyrch, a chynnig dewis realistig i unigolion sydd eisiau teithio i'r gwaith.

Draft

## 2.11 Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013)

2.11.1 Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i hybu beicio a cherdded yn ogystal â'r manteision iechyd cysylltiedig â'u gwneud yn ddulliau mwy deniadol o deithio.

2.11.2 Mae gwneud beicio a cherdded yn fwy diogel ac ymarferol yn annog ffyrdd iachach o fyw, yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella ein hamgylchedd.

2.11.3 Mae'r Ddeddf yn gosod gofynion ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru, rhaid:

- nodi a mapio'r rhwydwaith o lwybrau sy'n ddiogel ac yn addas ar gyfer beicio a cherdded o fewn eu hardaloedd.
- nodi a mapio'r gwelliannau a fyddai'n rhaid eu gwneud er mwyn creu rhwydwaith gwbl integredig ar gyfer beicio a cherdded a datblygu rhestr flaenoriaeth o gynlluniau er mwyn cyflawni'r rhwydwaith;
- creu rhwydwaith gwell, yn amodol ar argaeledd cyllid ac yn dilyn y drefn;
- ystyried y potensial ar gyfer gwella darpariaeth beicio a cherdded wrth ddatblygu cynlluniau ffordd newydd;
- gwella darpariaeth beicio a cherdded ar gynlluniau ffordd newydd, oni bai y byddai'n afresymol i wneud hynny, a rhoi ystyriaeth i anghenion y beicwyr a cherddwyr wrth ddefnyddio'r ffyrdd; a
- gwneud hyn mewn ffordd a fydd yn hybu teithiau llesol.

2.11.4 Yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru), mae Sir Ddinbych wedi nodi'r aneddiadau canlynol a fydd yn rhan o'r tri phwynt cyntaf uchod, gan gynnwys Dinbych, Y Rhyl, Prestatyn, Llangollen, Llanelwy, Rhuthun, a Dyserth i Meliden.

## 2.12 Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio (2009-2013)

2.12.1 Prif nod y Cynllun hwn yw sicrhau newid o ran ymddygiad – felly bydd mwy o bobl, ifanc a hen, yn cerdded a beicio'n amlach. Dyma yw thema gyntaf y Cynllun Gweithredu a bydd cyflawni hyn yn ddibynnol ar alluogi pobi i deithio mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy drwy ddarparu isadeiledd beicio a cherdded diogel a phriodol. Mae cerdded a beicio hefyd yn cyfrannu at dargedau newid hinsawdd a chodi lefelau gweithgaredd corfforol.

2.12.2 Yr ail thema yw Teithio Cynaliadwy a chaiff y thema hon ei hannog drwy Isadeiledd Cerdded a Beicio gwell - i greu isadeiledd diogel, deniadol a chyfleus ar gyfer teithwyr sy'n teithio ar droed neu feic. Mae hyn yn arddangos pwysigrwydd teithio cynaliadwy ac yn cefnogi'r awgrym y bod angen polisi newydd ar Deithio Llesol yn y CDLl diweddaraf.

## 2.13 Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos

2.13.1 Er bod y CDLl dan sylw yn ymwneud â Sir Ddinbych, mae polisïau a chamau gweithredu awdurdodau lleol cyfagos yn gallu effeithio ar y sir. Felly, mae'n



Draft

hanfodol bod y rhain yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r CDLl. Mae Sir Ddinbych yn ffinio â chwe awdurdod cynllunio lleol: Conwy, Parc Cenedlaethol Eryri, Sir y Fflint, Wrecsam, Gwynedd a Phowys.

2.13.2 Conwy – CDLl 2007 - 2022

2.13.3 Yn debyg iawn i Sir Ddinbych, mae Cyngor Conwy ar fin dechrau adolygu'i Gynllun Datblygu Lleol a gafodd ei fabwysiadu ym mis Hydref 2013. Mae CBS Conwy'n canolbwyntio ar ddatblygiadau yn y dyfodol mewn lleoliadau hynod hygyrch, yn bennaf ar hyd yr A55 a'r rhwydwaith rheilffordd ar gyrion yr Ardal Strategaeth Ddatblygu Drefol o fewn y llain arfordirol. Nod CBS Conwy yw diogelu tir er mwyn hybu cymunedau hygyrch ac annog ffyrdd cynaliadwy o deithio megis cludiant cyhoeddus. Bydd y Cyngor hefyd yn hybu beicio a cherdded a bydd cynllun yr isadeiledd hwn yn cael ei wella er mwyn sicrhau y bydd beicio a cherdded yn ddewisiadau mwy deniadol, uniongyrchol a diogel.

2.13.4 Mae CDLl Conwy yn ceisio gwneud gwelliannau sylweddol i gludiant cynaliadwy er mwyn gwella opsiynau beicio neu gerdded a diogelwch yr opsiynau hynny yn ogystal â gwella'r cysylltiadau i ddulliau cynaliadwy eraill o gludiant yn yr Ardal Gynllunio ac yn enwedig yr Ardal Strategaeth Ddatblygu Drefol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi gweithio â phartneriaid er mwyn sicrhau cyfraniadau gan y datblygwr a cheisio cyllid ar gyfer gwella beicio a cherdded lle bo angen, i ymestyn Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 SUSTRANS drwy adeiladu pont newydd i feicwyr/ cerddwyr ar Harbwr y Foryd. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau ac mae'n darparu rhwydwaith cyflawn sy'n cysylltu Conwy a Sir Ddinbych.

2.13.5 Parc Cenedlaethol Eryri – CDLl (Gorffennaf 2011 – 2022)

Ar hyn o bryd mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wrthi'n adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Bydd llwybrau a gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn cael eu diweddaru fel rhan o adolygiad y CDLl.

2.13.6 Sir y Fflint – CDLl Newydd

Yn ddiweddar bu Cyngor Sir y Fflint yn ymgynghori ar faterion a dewisiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ac mae'r Cyngor bellach yn symud ymlaen at y Cam Strategaeth a Ffefrir. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint ddydd Mercher 28 Medi 2011. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn cynnig gwelliannau ar hyd coridor cludiant yr A55 a thuag at Gogledd-orllewin Lloegr. Mae hefyd yn sôn am estyniadau i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol tuag at Gaergybi a fydd yn croesi Sir Ddinbych.

2.13.7 Wrecsam – Adneuo CDLl 2 (2013-2018)

Tynnwyd CDLl 1 Wrecsam yn ôl yn 2012 ac ar hyn o bryd mae CDLl 2 Wrecsam ar y cam adneuo. Y nod yw cael cynllun adneuo ar waith erbyn diwedd 2017.



Draft

Argymhellir parhau â'r polisi ar y cyd a'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, yn ei ffurf bresennol ar gyfer y Cynllun Adneuo.

2.13.8 Gwynedd a Sir Fôn – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Mae'r ddau Gyngor yn rhagweld y byddant yn mabwysiadu'r Cynllun ym mis Gorffennaf 2017. Disgwylir, yn ôl strategaeth y Cynllun, mai'r newid economaidd trawsffurfiol a ddisgwylir o ganlyniad i'r raddfa unigryw o brosiectau isadeiledd mawr ar yr Ynys a'i statws fel Ardal Fenter fydd y gyrwyr mwyaf o ran newid gofodol a chymdeithasol dros y Cynllun (2011-2026). Fel yn Sir Ddinbych, mae adrannau o hen reilffyrdd yng Ngwynedd sy'n addas i'w gwarchod er mwyn eu defnyddio fel llwybrau teithio cynaliadwy, gan gynnwys cerdded a beicio. Ni fydd yr estyniad i gynllun (cefn) ffordd yr A55, i sicrhau gwell effeithlonrwydd wrth deithio yn ôl ac ymlaen o Borthladd Caergybi na'r rhwydwaith rheilffordd yn effeithio ar ddatblygiadau yn Sir Ddinbych.

2.12.9 Powys – CDLl Newydd (2011 – 2026)

Roedd Cynllun Datblygu Lleol Powys yn ddarostyngedig i archwiliad gan Arolygydd Cynllunio annibynnol yn y Gwanwyn 2017. Mae'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun lleol newydd yn annhebygol o effeithio ar Sir Ddinbych oherwydd topograffeg a dynodiadau tirwedd ar hyd ffin y sir, er enghraifft Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a dau safle gwarchod natur a warchodir gan Ewrop.

# 3. Adolygiad Sylfaenol

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Tra'r oedd yr adran flaenorol yn canolbwyntio ar ddogfennau polisi a strategol, diben y paragraffau canlynol yw dadansoddi unrhyw newid yn y sir ers mabwysiadu'r CDLl fis Mehefin 2013. Bydd y ddwy adran yn darparu tystiolaeth hollbwysig ar gyfer camau nesaf y Cynllun, pan fydd y Cyngor yn trafod y newidiadau arfaethedig yn fanylach.

3.1.2 Mae'r wybodaeth sylfaenol wedi'i rhannu i bynciau ar wahân, gan gynnwys isadeiledd cludiant lleol, datblygiadau allweddol yn y dyfodol, yr amgylchedd naturiol a'r economi dwristiaeth.

## 3.2 Isadeiledd Cludiant Lleol

3.2.1 Yn aml mae rhwydweithiau cludiant lleol h.y. strwythur a chanran y bobl sy'n defnyddio math o gludiant penodol yn cael eu dylanwadu a'u siapio gan wasgariad y boblogaeth mewn ardal, perthnasau masnachu rhwng mentrau busnes ac amodau geomorffolegol.



Draft

3.2.2 Mae oddeutu 94,691 o bobl (yn ôl y Cyfrifiad 2015) yn byw yn Sir Ddinbych sy'n 844km2. Mae gwasgariad y boblogaeth yn wahanol iawn o fewn y sir gydag ardaloedd arfordirol trefol o amgylch y canolbwyntiau arfordirol, megis Prestatyn (16,783 o breswylwyr) a'r Rhyl (25,149 o breswylwyr) ac ardaloedd mewndirol gwledig yn bennaf, gyda llawer o drefi marchnad a phentrefi o bwysigrwydd lleol i gyfeiriad y de o goridor cludiant yr A55.

3.2.3 Mae'r hollt rhwng yr ardaloedd trefol arfordirol a'r ardaloedd gwledig hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn rhwydwaith cludiant cyhoeddus y sir. Mae gan Brestatyn a'r Rhyl gysylltiadau rheilffordd sefydledig drwy brif reilffordd Arfordir Gogledd Cymru sy'n teithio i Gaergybi (ac yna'r porthladd i Ddulyn), Llandudno a Shotton yng Ngogledd Cymru. Mae hefyd yn teithio i Gaerdydd yn ne Cymru, ac i Lundain a Manceinion (gan gynnwys y meysydd awyr) yn Lloegr. Yn ardaloedd gwledig Sir Ddinbych y bws yw'r math mwyaf cyffredin o gludiant cyhoeddus a chanolbwyntir yn bennaf ar wasanaethu trefi marchnad Dyffryn Clwyd.

3.2.4 Mae tair prif ffordd sy'n croesi'r sir yn rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd cenedlaethol. Mae'r A55 yn rhan o lwybr cludiant hynod bwysig ar gyfer yr holl drefi sydd wedi'u lleoli ger arfordir Gogledd Cymru. Yn ychwanegol i hynny, mae hefyd yn rhan o'r Llwybr Euro E22 sy'n cysylltu Sgandinafia â Phrydain ac Iwerddon. Yn debyg iawn i'r A55 yn y gogledd, mae'r A5 yn llwybr cludiant hynod bwysig ar gyfer y trefi marchnad yn ne Sir Ddinbych. Mae'r llwybr hwn yn cysylltu Llundain â Chaergybi ar Ynys Môn. Yn olaf, mae'r A494 yn dechrau yn ardal Caer yn y dwyrain ac yn croesi drwy drefi marchnad Rhuthun, Corwen a Dolgellau yn y de.

3.2.5 Mae gan Gamlas Llangollen hefyd gyswllt cryf â'r diwydiant twristiaeth lleol. Mae'r gamlas hon yn rhan o rwydwaith Camlas Undeb Swydd Amwythig ac yn llifo i Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ddinbych. Bellach nid yw'r gamlas yn cael ei defnyddio i gludo nwyddau, ond mae'n boblogaidd iawn ymysg twristiaid a thrigolion y dref ar gyfer gweithgareddau hamdden, megis canŵio a rhwyfo.

3.2.6 Parc Busnes Llanelwy yw prif barc busnes y sir sy'n canolbwyntio ar fusnesau yn y sector optoelectroneg. Mae'r parc wedi'i leoli'n agos at yr A55 yng ngogledd y sir. Yn unol â'r nifer uchel o bobl sy'n byw yn y gogledd, mae'r canolfannau siopa mwyaf yn y Rhyl a Phrestatyn, gyda mwy o bobl yn mynd ar dripiau siopa mewn ceir yn ystod y penwythnos a'r tymor brig.

## 3.3 Datblygiadau Allweddol y Dyfodol

3.3.1 Mae Cynllun Gofodol Cymru, Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru, yn nodi canolbwynt rhwng y trefi a phentrefi glan y môr yng ngogledd y sir, a Llanelwy, sy'n darparu canolbwynt ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol, tai a siopau yn

Draft

ogystal â chefnogaeth barhaus a chyfle ar gyfer twf ac adfywiad ar gyfer ardal ehangach.

3.3.2 Mae Safle Strategol Allweddol Sir Ddinbych wedi'i leoli ym Modelwyddan, yn agos iawn at yr A55, sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, a choridor rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru. Mae'r safle yn ffinio ag anheddle Bodelwyddan i'r gorllewin, ac yn agos iawn at Barc Busnes Llanelwy yn y de ddwyrain. Bydd gan y safle strategol aml ddefnydd hwn sawl mantais, megis lleihau dibyniaeth ar gar preifat, defnyddio patrymau cludiant cyfredol a gwelliannau i'r ffyrdd a'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus presennol.

3.3.3 Dyrennir datblygiadau tai a phrif safleoedd cyflogaeth o fewn ffiniau datblygu aneddiadau sydd eisoes yn bod, gyda'r amcan o integreiddio'r rhain i gymunedau lleol a gwneud defnydd o'r rhwydweithiau cludiant sy'n bresennol.

### 3.4 Yr Amgylchedd Naturiol

3.4.1 Mae gan y sir amgylchedd naturiol o ansawdd uchel gydag ardaloedd cadwraeth a rhywogaethau a chynefinoedd bywyd gwyllt wedi eu diogelu. Mae llawer o'r rhain wedi eu cydnabod yn genedlaethol neu'n rhyngwladol a chanddynt statws gwarchodedig, megis Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd (AHNE) a'r Ardal o Harddwch Eithriadol. Mae yna hefyd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Yn arbennig, mae'r ardal o gwmpas Camlas Llangollen yn ne-ddwyrain y sir wedi ei dynodi yn Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO.

3.4.2 Ar y cyd â thopograffeg y sir, mae'r amrywiaeth o ardaloedd sydd â statws gwarchodedig yn gosod cyfyngiadau pellach ar gynlluniau seilwaith cludiant yn y dyfodol. Gan nad yw'r CDLl yn cynnig adeiladu ffyrdd newydd, nod y sir yw sefydlu system gludiant effeithiol a chynaliadwy drwy wella ffyrdd, cryfhau cludiant cyhoeddus a lleoli datblygiadau'n agos at anheddau sydd eisoes yn bod.

3.4.3 Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych hefyd yn cyfrannu at leihau'r effeithiau negyddol ar ei amgylchedd naturiol drwy leihau'r angen ar gyfer teithiau car unigol sy'n achosi llygredd aer ac yn rhyddhau nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at gynhesu byd eang a newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013).

### 3.5 Yr Economi Dwristiaeth

3.5.1 Mae gan Sir Ddinbych economi dwristiaeth amrywiol – gan gynnwys cyrchfannau arfordirol y Rhyl a Phrestatyn, ystod eang o drefi marchnad deniadol wedi'u lleoli mewn amgylchedd o ansawdd uchel, ac enw da yn y sector gweithgareddau awyr agored. Mae Cynllun Twf Twristiaeth Sir Ddinbych (2015) yn nodi manteision beicio a cherdded a sut y gall hyn wella'r economi.

3.5.2 Mae'r economi dwristiaeth yn cwmpasu amrywiaeth o elfennau sy'n cyfrannu at sicrhau cyrchfan ymwelwyr lwyddiannus, megis yr isadeiledd sydd o gymorth i atgyfnerthu a siapio naws y lleoliad a'i wneud yn lle hwylus i ymweld ag ef, yr arwyddion, cludiant, parcio ac ati.

3.5.3 Prosiect isadeiledd pwysig o ran yr economi dwristiaeth yw estyniad 'Rheilffordd Llangollen' o Garrog i Gorwen. Mae'n gwneud defnydd o reilffordd a oedd wedi'i datgymalu, ac yn cryfhau sefyllfa Llangollen fel un o'r llefydd mwyaf deniadol i ymweld ag ef yng Ngogledd Cymru.

3.5.4 Fel y gweler ag estyniad Rheilffordd Llangollen, mae rheilffyrdd sydd wedi'u datgymalu yn elfennau isadeiledd ardderchog a gellir eu hail-ddefnyddio mewn ffyrdd modern sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, megis llwybrau cerdded neu feicio. Maent yn gallu adfywio cymuned yn ogystal â chyfrannu'n gadarnhaol at newid yr hinsawdd.

3.5.5 Mae'r ardal o amgylch Parc Gwledig Loggerheads yn cael ei defnyddio'n aml gan feicwyr a cherddwyr. Mae'r llwybr adnabyddus 'Llwybr Clawdd Offa' yn croesi ar hyd Bryniau Clwyd ac yn atynnu llawer o ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn. Felly, croesewir unrhyw gynnig datblygu gan y Cyngor Sir sydd am wella neu ymestyn y rhwydwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o lwybrau cerdded a beicio. Mae integreiddio isadeiledd awyr agored a gwarchod tirwedd yn her bwysig wrth gynllunio defnydd tir.

## 3.6 Isadeiledd Trafnidiaeth Newydd (CDLl Polisi SHC 1)

3.6.1 Nodwyd problem yn y cam Cyn-adneuo CDLl o ran mynediad at gludiant yn bellach i ffwrdd o'r arfordir a choridor yr A55. Mae cludiant cyhoeddus a phreifat yn gymharol wael. Mae'r CDLl Polisi SHC 1 yn caniatáu cynigion cludiant newydd neu welliannau i isadeiledd sydd eisoes yn bod, a allai fod ei angen, er mwyn datrys problemau presennol ar briffyrdd neu i hwyluso datblygiadau mawr. Nid yw'r polisi hwn yn gyfyngedig i ystyriaethau ffordd neu welliannau ffordd yn unig. Mae'r polisi hefyd yn trafod dulliau cynaliadwy o gludiant (cyhoeddus).

3.6.2 Yng ngoleuni'r tair her fawr sy'n wynebu cynllunio gofodol: newid yn yr hinsawdd, globaleiddio economaidd a newidiadau demograffig, amcan trosfwaol yr holl ddatblygiadau cludiant yn y dyfodol fydd gwella hygyrchedd ar gyfer preswylwyr Sir Ddinbych ac i'r holl wasanaethau gwybodaeth a chyhoeddus, megis canolfannau iechyd, ysgolion a chyfleusterau cymunedol.

3.6.3 Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn aelod o Gonsortiwm Cludiant Taith ac roedd hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru ar wahanol gamau datblygu. Daeth y Consortiwn i ben yn 2014 a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb i'r Awdurdodau Lleol a datblygwyd Cynllun Cludiant Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru. Felly, bydd cynigion datblygu o

Draft

raddfa sylweddol e.e. cynlluniau ffordd, yn cael eu hystyried yng ngoleuni eu cynhwysiant yng Nghynllun Cludiant Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru.

3.6.4 Cefnogir economi dwristiaeth Sir Ddinbych â'i darpariaeth o lwybrau hygyrch a diogel ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth. Mae sawl llwybr wedi ei gynllunio ar draws y sir, sy'n cynnwys y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Mae diogelu tir a rheilffyrdd sydd wedi'u datgymalu o gymorth wrth gysylltu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn ogystal â sicrhau cysylltiadau i leoliadau a llwybrau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.

3.6.5 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r isadeileddau cludiant a gafodd eu cwblhau yn ystod y cyfnod cynllunio rhwng 2013 a 2017. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau yn ogystal â chreu Llwybrau Teithio Llesol newydd, cwblhau'r estyniad i reilffordd Llangollen a llwybrau cerdded newydd rhwng datblygiadau.

Tabl 1: Yr holl Isadeileddau Cludiant y cyflawnwyd dros bedair blynedd olaf y CDLl.

| Blwyddyn | Wedi'u cwblhau |
|---|---|
| 2013/14 | • Gwaith i Lwybr Tynnu'r Glas yn Llangollen<br>• Cysylltiadau pont ar gyfer beicwyr a cherddwyr sy'n cysylltu â Llwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn Harbwr y Foryd, y Rhyl<br>• Llwybr rhwng y Waun a Llangollen<br>• Llwybr Teithio Llesol Rhewl i Ruthun<br>• Llwybr yr Orsaf – Llwybr Teithio Llesol newydd<br>• John's Drive Bodelwyddan – Llwybr Teithio Llesol newydd |
| 2014/15 | • Maes Parcio West Kinmel Street, Rhuthun – Llwybr Teithio Llesol newydd<br>• Ffordd fynediad dienw, i gefn Frederick Street, y Rhyl - Llwybr Teithio Llesol newydd<br>• Ffordd Las, y Rhyl – Llwybr Teithio Llesol newydd<br>• Warren Road/ Westbourne Ave, y Rhyl – Llwybr Teithio Llesol newydd |
| 2015/16 | • Ffordd Cefndy, y Rhyl – Llwybr Teithio Llesol newydd<br>• Westbourne Avenue / Ffordd Wellington, y Rhyl – Llwybr Teithio Llesol newydd<br>• Estyniad o Reilffordd Llangollen i Gorwen |
| 2016/17 | • Dinbych i Henllan – Adran newydd o Lwybr Teithio Llesol<br>• Tesco, Rhuthun - Llwybr Teithio Llesol newydd i gefn yr archfarchnad<br>• Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun – Llwybr Teithio Llesol newydd tu blaen a thu cefn i'r ysgol |

Draft

# 4. Adroddiad Monitro Blynyddol Blaenorol

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) ar 4 Mehefin 2013. Mae'n rhoi arweiniad clir ar sut y gall datblygiad newydd fynd i'r afael â'r heriau a wynebir ac yn nodi lle, pryd a faint o ddatblygiadau newydd y gellir eu creu hyd at 2021.

4.1.2 Dan rwymedigaethau adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac adran 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar ei wefan.

4.1.3 Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd canfyddiadau perfformiad polisi lleol yn seiliedig ar yr adroddiadau monitro blynyddol sydd eisoes wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf.

## 4.2 Perfformiad PolisI Lleol

4.2.1 Caiff berfformiad y polisi lleol ei fonitro'n flynyddol drwy Fframwaith Monitro'r CDLl. Yn ystod cyfnod 01/04/2015 – 31/03/2016, nid oedd yn rhaid i'r Cyngor ddechrau unrhyw achos gorfodi oherwydd bod amod cynllunio yn ymwneud â materion priffordd wedi cael ei dorri. Ymgynghorodd yr awdurdod cynllunio lleol â'r Adran Briffyrdd ar oddeutu 240 o geisiadau cynllunio drwy gydol yr un cyfnod o amser.

4.2.2 Mae polisïau lleol CCC 2 a SHC 2 yn rhoi cyfle i'r awdurdod cynllunio lleol drafod symiau gohiriedig os yw datblygiad newydd yn golygu y bydd rhaid dwyn ymlaen unrhyw welliannau i isadeiledd cludiant. Er na chasglwyd unrhyw swm gohiriedig yn ystod y cyfnod monitro yn 2015-2016, llwyddodd y Cyngor i sicrhau swm gohiriedig o £25,000 tuag at welliannau i lwybrau cerdded a beicio yn ardal y Rhyl.

4.2.3 Ni adroddwyd ar unrhyw doriad o'r amodau cynllunio o ran darpariaeth uchafswm o ofodau parcio yn y datblygiadau newydd. Gweler y CCA ar Safonau Parcio ar gyfer Datblygiadau Newydd i gael rhagor o wybodaeth am gydymffurfedd.

## 4.3 Darparu cyfleusterau Cludiant Cynaliadwy (CDLl Polisi SHC 2 )

4.3.1 Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â Pholisi CCC 3 y CDLl 'Sicrhau Isadeiledd mewn Datblygiadau Newydd' a disgwylir i'r datblygwyr gyfrannu at welliannau er mwyn darparu dulliau cynaliadwy o gludiant. Mae hon yn elfen bwysig o sicrhau bod y datblygiadau hynny sy'n debygol o achosi cynnydd o ran teithiau

Draft

yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon, wrth wella hygyrchedd ar gyfer yr unigolion hynny sydd ddim yn gallu defnyddio car (neu'r unigolion hynny sy'n dewis peidio dibynnu arno).

4.3.2 Mae'n cyfrannu at amcan 5 y CDLl sy'n pwysleisio lleihad o ran yr angen i deithio ac mae hefyd yn hybu cludiant cyhoeddus fel dull o gael mynediad at leoedd megis safleoedd cyflogaeth, siopau a chyfleusterau gwasanaeth cyhoeddus.

4.4.3 Ar y cyd â'r amcanion sydd wedi'u nodi yn adroddiad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae estyniadau i rwydweithiau cerdded a beicio lleol a rhanbarthol yn cefnogi datblygiad y Sir, oherwydd bod hyn yn:

- hybu iechyd a lles cymunedol,
- gwella datblygiadau adloniant a hamdden presennol a hybu datblygiadau newydd ac yn rhoi cyfle i unigolion brofi a pharchu gwerth yr amgylchedd naturiol,
- gwella mynediad at addysg, cyflogaeth, iechyd, cartrefi a gwasanaethau cymunedol ar gyfer pob sector o fewn y gymuned drwy ddefnyddio dulliau eraill o gludiant, ar wahân i gar, ac yn
- gwneud y defnydd gorau o dir sydd eisoes wedi'i ddatblygu, o ran y rheilffyrdd sydd wedi'u datgymalu, ac adeiladau presennol mewn lleoliadau sydd eisoes â dulliau cynaliadwy o gludiant.

4.5.4 Mae'r Rhwymedigaethau Cynllunio – CCA yn nodi'r trothwyon ar gyfer y cyfraniadau sy'n ofynnol gan ddatblygiadau o ran traffig, cludiant a phriffyrdd yn dilyn Asesiad Cludiant. Fodd bynnag, bydd lefelau'r cyfraniadau yn cael eu cyfrifo ar sail pob safle yn unigol.

### 4.4 Safonau Parcio (CDLl Polisi SHC 3)

4.4.1 Nod polisi SHC 3 y CDLl yw sicrhau bod gofodau parcio digonol ar gyfer unrhyw ddatblygiad safle newydd neu newid defnydd, gan gynnwys gofodau parcio ar gyfer unigolion sydd â phroblemau symud. Lle bo mynediad at ddulliau cynaliadwy o gludiant ar gael, anogir perchnogion a phreswylwyr safleoedd i wneud defnydd ohonynt. Ystyrir y cyfleusterau hyn wrth benderfynu ar nifer y gofodau parcio sydd eu hangen.

4.4.2 Gweler gwybodaeth bellach am safonau parcio, cynlluniau cludiant a datganiadau hygyrchedd ar gyfer adeiladau unigol yn y Canllaw Cynllunio Atodol – Safonau Parcio ar gyfer Datblygiadau Newydd.

## 5. Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd

### 5.1 Rhagarweiniad

5.1.1 Mae gofyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol sef cynllun defnydd tir statudol i fod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA), Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA),

Draft

ynghyd ag Arfarniad Rheoli Cynefinoedd (HRA). Yn unol â chanllawiau cenedlaethol mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r ddau asesiad SA/SEA mewn un ddogfen, h.y. 'Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd'. Rôl Arfarniad o Gynaliadwyedd (ymgorffori Arfarniad Amgylcheddol Strategol) yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy trwy asesu ehangder y bydd y cynllun ar ei newydd wedd, wrth ei gymharu ag atebion rhesymol eraill, yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol perthnasol. Mae'r Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yn parhau fel dogfen ar wahân. Rôl yr Arfarniad Rheoli Cynefinoedd yw asesu effaith debygol y Cynllun ar Safleoedd Wedi'u Dynodi yn Ewrop sy'n berthnasol (amddiffyn safleoedd natur a rhywogaethau dan gadwraeth).

5.1.2 Fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl mae canlyniadau'r cynigion datblygu a ganiatawyd yn ystod y flwyddyn yn ogystal â thystiolaeth eraill yn cael eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei weithredu mewn harmoni ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae cynaliadwyedd CDLl Sir Ddinbych yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o'r Fframwaith Monitro Blynyddol y CDLl. Mae'r adran ganlynol yn edrych ar fframwaith sgrinio Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Arfarniad Rheoli Cynefinoedd er mwyn nodi unrhyw newid yn y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu elfennau unigol o'r CDLl.

5.1.3 Bydd yn rhaid i'r CDLl newydd gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yn effeithio ar sut y cyflawnir asesiadau SA / SEA yn y dyfodol i gefnogi'r Cynllun. Bydd gwybodaeth bellach ar gael wrth i'r Cynllun diwygiedig symud tuag at gael ei fabwysiadu.

## 5.2 Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad Cwmpasu Rhagfyr 2017)

5.2.1 Mae'r Llawlyfr CDLl (Rhifyn 2 Awst 2015) angen i Awdurdodau sydd yn ymgymryd ag adolygiad o'u CDLl i ailystyried yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae angen cyflawni'r ailystyriaeth ar y cyd â drafftio'r Adroddiad Adolygu CDLl. Mae hynny cyn i'r gwaith o ddrafftio newidiadau ffurfiol i'r CDLl (CDLl i gymryd lle y fersiwn blaenorol). Mae'r canllaw yn amlinellu'r hyn sydd ei angen fel rhan o'r adolygiad ac mae'r camau hynny wedi'u hamlinellu isod:

- ystyried canlyniadau'r broses Monitro Blynyddol o'r Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys monitro os oes effeithiau sylweddol yn sgìl gweithredu'r cynllun datblygu;
- adolygu Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych presennol:
  - Posibiliadau Arfarniad o Gynaliadwyedd – cynlluniau, polisïau a rhaglenni a diweddariad gwybodaeth sylfaenol;
  - ystyried y prif newidiadau yn genedlaethol ac yn lleol ers mabwysiadu'r CDLl;

Draft

- ystyried yr Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd wrth ystyried y newidiadau y cynigir yn y CDLl diwygiedig.

5.2.2 Cyflwynwyd Atodiad F, Arfarniad Cynaliadwyedd (Adroddiad ar Bosibiliadau) fel drafft i ymgynghori arno ynghyd â'r Adroddiad Adolygu CDLl. Tydi'r ailystyriaeth heb ystyried y dylanwadau newydd a nodwyd fel rhan o Adroddiad Adolygu Sir Ddinbych ac o ganlyniad bu effeithiau cynaliadwyedd sylweddol. Daethpwyd i'r casgliad bod Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd i gyd yn parhau i fod yn berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar.

5.2.3 Cafwyd ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n rhan o'r ymgynghori statudol ar Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau defnyddio tir lleol, i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Ailystyried a Phosibiliadau CDLl Sir Ddinbych (21 Awst 2017 – 20 Hydref 2017). Cefnogwyd y canlyniadau bod Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn parhau i fod yn berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd gan groesawu bod y gwaelodlin presennol wedi cael ei ddiwygio i helpu gyda'r gwaith monitro ac ailystyried. Nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio'r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith o newid y CDLl. Nid oes ganddynt wrthwynebiad i ddefnyddio'r Adroddiad Posibiliadau i hysbysu'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer newid y CDLl.

## 5.3 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Diweddariad Rhagfyr 2017)

5.3.1 Pwrpas ymarfer sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), gweler Atodiad G, oedd i edrych ar asesiadau HRA blaenorol a luniwyd i gefnogi'r CDLl a fabwysiadwyd; nodi newidiadau i safleoedd Ewropeaidd unigol ac edrych ar ba mor effeithiol oedd mesurau osgoi, canslo neu liniaru a awgrymwyd yn flaenorol. Nid oedd yr arfer wedi'i fwriadu ar gyfer llunio asesiad newydd o'r CDLl a fabwysiadwyd ond i ddysgu o brofiad blaenorol ac i nodi newidiadau a fyddai o bosib yn cael effaith ar waith yn y dyfodol.

5.3.2 Nid oes polisiau a dyraniadau tir lleol wedi eu cynnwys yn y CDLl sydd wedi arwain at effaith sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae mesurau a gynigir (lle bo hangen) i wrthbwyso'r effeithiau hyn yn weithredol ac effeithiol. Rhaid gwneud gwaith ymchwilio pellach i weld os oes cyfle i wella ansawdd yr aer yn ne'r Sir; gan ganolbwyntio ar leihau gwaddodion nitrogen.

5.3.3 Mae'r arferiad sgrîno wedi nodi bod yn rhaid i Arfarniadau Rheoli Cynefinoedd roi ystyriaeth i'r estyniad arfaethedig o Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl a'r wybodaeth newydd am Ardal Cadwraeth Arbennig Coedwigoedd Dyffryn Alun. Efallai y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar lunio polisi lleol a defnyddiau posib o dir yn yr ardal.

# 6. Cyfeiriadau


Cyngor Sir Ddinbych Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych (2017-2021)

Cyngor Sir Ddinbych: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023)

Bwrdd Uchelgais Economaidd Goledd Cymru (2016) Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru.

Taith (2015) Cynllun Cludiant Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru

Llywodraeth Cymru (2009) Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio (2009-2013)

Llywodraeth Cymru (2013): Deddf Teithio Llesol (Cymru)

Llywodraeth Cymru (2013) : Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru (2008): Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Cludiant Cymru

Llywodraeth Cymru (2008) : Pobl, Lleoedd, Dyfodol - Cynllun Gofodol Cymru Diweddariad 2008

Llywodraeth Cymru (2016) : Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 9

Llywodraeth Cymru (2008) Nodyn Cyngor Technegol 18: Cludiant

Llywodraeth Cymru (2014)  Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymreig


Draft

**Atodiad 1 –** Dolenni o Gynllun Gofodol Cymru a Polisi Cenedlaethol i GDLl Sir Ddinbych - Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy

| Blaenoriaeth Cynllun Gofodol Cymru | Polisi Cenedlaethol | Gweledigaeth y CDLl | Amcanion y CDLl | Polisi'r CDLl |
|---|---|---|---|---|
| Cydraddoldeb o ran y cyfleoedd i gael mynediad at swyddi a gwasanaethau cyhoeddus | Hygyrchedd i bawb – PCC 4.11.11 / TAN 18<br>Sicrhau mynediad i bawb – PCC 3.3 / TAN 18<br>Cynnal a chadw a hygyrchedd ardaloedd a chyfleusterau<br>PCC 11.1.8 | Bydd gan Sir Ddinbych, trwy ddatblygu cynaliadwy, arfordir trefol bywiog, gyda threfi marchnad ffyniannus ac ardaloedd gwledig. Diwallir anghenion tai a chyflogaeth y sir a gwarchodir yr amgylchedd sydd o ansawdd uchel. | Amcan rhif 5 y CDLl<br>Amcan rhif 6 y CDLl<br>Amcan rhif 12 y CDLl | CDLl Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd<br>CDLl Polisi SHC 2 - Darparu cyfleusterau cludiant cynaliadwy<br>CDLl Polisi SHC 3 - Safonau Parcio<br>CDLl Polisi CCC 12 - Cyfleusterau Cymunedol |
| Dylid asesu goblygiadau cludiant y cynigion yn llawn | Strategaeth Aneddleoedd Cynaliadwy: lleoli datblygiad newydd -<br>PCC 4.7<br>Meysydd parcio i fodloni amcanion strategol -<br>PCC 8.4.5 | Bydd y safleoedd datblygu newydd yn arddangos lefelau uchel o ddatblygiad cynaliadwy ac yn ceisio cyflawni statws carbon isel. | Amcan rhif 5 y CDLl | CDLl Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd<br>CDLl Polisi PNU 1 – Datblygu Cynaliadwy a Dylunio o Safon Dda |
| Ymateb a lliniaru effeithiau newid hinsawdd | Strategaeth Aneddleoedd Cynaliadwy: lleoli datblygiad newydd -<br>PCC 4.7<br>Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel<br>PCC 12.8<br>Tai mewn ardaloedd sydd â mynediad at lwybrau beicio | Bydd Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad sylweddol i reoli'r newid yn yr hinsawdd drwy hybu technolegau ynni adnewyddadwy a dyluniad arloesol, y gofyniad ar gyfer lefelau uchel o ddatblygiadau ac adeiladau cynaliadwy. | Amcan rhif 8 y CDLl<br>Amcan rhif 16 y CDLl | CDLl Polisi SHC 1 – Isadeiledd Cludiant Newydd<br>CDLl Polisi ASA 2 - Darparu cyfleusterau cludiant cynaliadwy:<br>CDLl Polisi GEH 2 - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ardal o Harddwch Eithriadol |

Draft

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | a cherdded a chludiant cyhoeddus<br>PCC 9.1.2<br>Lleihau'r angen ar gyfer teithio a chynyddu hygyrchedd drwy ddefnyddio dulliau eraill o gludiant ar wahân i gar - PCC 4.7.4<br>Cefnogi Cludiant Cyhoeddus<br>PCC 8.3<br>Hybu Teithio Llesol - PCC 8.2 | | | |
| Ymateb a lliniaru effeithiau newid hinsawdd<br>*(yn parhau)* | Lleihau effeithiau andwyol isadeiledd cludiant newydd – PCC 8.5.7<br>Lliniaru effeithiau amgylcheddol – TAN 18 | | | |
| Gwell mynediad at wybodaeth a gwasanaethau drwy ddefnyddio dulliau electroneg | Systemau Telathrebu – TAN 19 | Amh. | Amcan rhif 12 y CDLl | CDLl Polisi CCC 12 - Cyfleusterau Cymunedol |

Draft

Draft

Atodiad F

# Arfarniad o Gynaliadwyedd

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych

## (yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol)

## Adroddiad Ailystyried a Chwmpasu Rhagfyr 2017

Cynllunio Strategol a Thai
Rhagfyr 2017

# Cynnwys


| | | Rhif tudalen |
|---|---|---|
| **R1-5** | **Ailystyried Arfarniad o Gynaliadwyedd CDLl Sir Ddinbych** | |
| **1.** | **Crynodeb Annhechnegol** | 8 |
| 1.1 | Cyflwyniad | 8 |
| 1.2 | Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol | 8 |
| 1.3 | Gofyniad deddfwriaethol am Arfarniad o Gynaliadwyedd yn y system gynllunio | 9 |
| 1.4 | Ymgynghori | 11 |
| **2.** | **Cyflwyniad** | 12 |
| 2.1 | Nodweddion Sir Ddinbych | 12 |
| 2.2 | Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (mabwysiadwyd fis Mehefin 2013) | 12 |
| 2.3 | Y berthynas rhwng cynhyrchu'r Cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd | 13 |
| **3.** | **Dogfennau asesu eraill** | 15 |
| 3.1 | Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd | 15 |
| 3.2 | Asesiad o'r Effaith Ieithyddol Gymunedol | 15 |
| 3.3 | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau | 15 |
| 3.4 | Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | 16 |
| 3.5 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 16 |
| 3.6 | Gwneud penderfyniad cynllunio cynaliadwy | 17 |
| **4.** | **Cynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau Perthnasol** | 18 |
| **5.** | **Gwybodaeth Llinell Sylfaen** | 29 |
| **6.** | **Pennu materion cynaliadwyedd** | 30 |
| **7.** | **Amcanion Cynaliadwyedd** | 50 |
| **8.** | **Ymgynghori** | 64 |

**ATODIAD A: Cynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau**
**ATODIAD B: Gwybodaeth Llinell Sylfaen**
**ATODIAD C: Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Ailystyried Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd CDLl Sir Ddinbych

## R1. Cyflwyniad

R1.1 Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 2, Awst 2015) yn ei gwneud yn ofynnol bod Awdurdodau sy'n adolygu eu CDLl yn ailystyried Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG). Rhaid i'r adroddiad gael ei ailystyried ochr yn ochr â drafftio Adroddiad Adolygu'r CDLl. Gwneir hyn cyn drafftio newidiadau ffurfiol i'r CDLl (y CDLl Newydd). Mae'r llawlyfr yn amlinellu'r camau sy'n ofynnol yn yr adolygiad ac mae'r rhain wedi'u disgrifio isod:

- ystyried y casgliadau o'r Monitro Blynyddol ar Fframwaith yr AG, yn cynnwys monitro a oes effeithiau arwyddocaol o ganlyniad i weithredu'r cynllun datblygu;
- adolygu Fframwaith Asesu'r AG yng Nghynllun Datblygu Lleol presennol Sir Ddinbych:
    - cwmpasu'r AG – diweddariad ar gynlluniau, polisïau a rhaglenni a gwybodaeth llinell sylfaen;
    - ystyried y prif newidiadau a gafwyd ar lefel genedlaethol a lleol ers mabwysiadu'r CDLl;
    - ystyried Amcanion yr AG yng nghyd-destun y newidiadau sydd wedi'u cynnig yn yr adolygiad o'r CDLl

## R2. Casgliadau o'r Monitro Blynyddol ar Fframwaith yr AG

**R2.1** Un elfen yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar y CDLl yw asesu'r canlyniadau i'r ceisiadau am ddatblygu a ganiatawyd yn ystod y flwyddyn a gwybodaeth arall yn y sylfaen dystiolaeth ar sail Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei gyflawni'n unol ag Amcanion yr AG. Mae Sir Ddinbych wedi cyhoeddi tri Adroddiad Monitro Blynyddol hyd yn hyn (2015, 2016), ac mae'r trydydd wedi ei gyhoeddi yn Hydref 2017.

**R2.2** Er iddi fod yn anodd dod o hyd i rai o'r dangosyddion monitro a ffynonellau data, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi sicrhau bod holl Amcanion yr AG wedi'u monitro'n effeithiol. Mae hyn wedi sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei gyflawni yn unol â Fframwaith yr AG a bennwyd ar ddechrau proses y CDLl.

**R2.3** Mae rhai o'r dangosyddion monitro wedi'u seilio ar ffynonellau data nad ydynt yn cael eu diweddaru'n flynyddol. Nid yw hyn yn gyson â natur y Fframwaith Monitro Blynyddol. Mae'r holl ddangosyddion wedi'u cadw drwy gydol y broses monitro gan eu bod yn gosod llinell sylfaen ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i chwilio am ffynonellau data eraill a allai gyfrannu i'r dangosyddion monitro. Yn ogystal â hyn, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i fonitro effeithiolrwydd a pherthnasedd y dangosyddion monitro eraill a'r ffynonellau data sy'n sail i'r dangosyddion nes i'r CDLl Newydd gael ei fabwysiadu.

R2.4 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar Fframwaith yr AG yn dod i'r casgliad bod Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn sicrhau datblygu cynaliadwy yn unol ag Amcanion yr AG. Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau sydd wedi tanseilio'r amcanion a nodwyd ym mhroses y CDLl.

## R3. Adolygu Adroddiad Cwmpasu'r AG a Fframwaith yr AG

R3.1 Cafodd Amcanion yr AG eu drafftio drwy ymgynghori â Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl ac yn unol â chanllawiau llywodraeth a thrwy ddefnyddio pynciau'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Roedd yr adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni a data llinell sylfaen ar gyfer y CDLl mabwysiedig presennol wedi'i gynnal yn wreiddiol ym Mehefin 2007 ac adroddwyd arno'n rhan o'r Adroddiad Terfynol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Hydref 2009). Roedd y materion a chyfleoedd a nodwyd wrth gasglu'r data llinell sylfaen ac wrth adolygu'r dogfennau cynllunio allweddol ar lefel ryngwladol, genedlaethol, ranbarthol a lleol wedi cael eu hystyried wrth ddrafftio'r amcanion. Mae'r cynlluniau, polisïau a rhaglenni a adolygwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu ar yr AG gwreiddiol wedi cael eu hadolygu yn yr Adroddiad Cwmpasu newydd ar yr AG (drafft ymgynghori Awst 2017) ac maent wedi'u rhestru yn rhan o'r broses hon o Ailystyried yr AG.

R3.2 <u>Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni</u>
Wrth ailystyried yr AG, bydd yn bwysig diweddaru'r adolygiad o 'gynlluniau, polisïau a rhaglenni' i sicrhau bod unrhyw gynlluniau sydd wedi'u diwygio neu eu cyhoeddi o'r newydd yn cael eu hystyried. Mae rhestr isod o'r cynlluniau, polisïau a rhaglenni newydd neu ddiwygiedig sydd wedi'u hystyried.

R3.3 **Rhyngwladol**
Cytundeb Paris 2016

R3.4 **Cenedlaethol**
Deddf Tai (Cymru) 2014
Canllawiau diwygiedig ar safon ansawdd tai Cymru
Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru
Deddf yr Amgylchedd 1995
Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006)
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
Strategaeth Twristiaeth Arfordirol
Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Coetiroedd i Gymru
Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
Paratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid: Rhannau 1-5
Ynni Cymru: Newid Carbon Isel
Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru
Groundwater Protection: Principles and Practice

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
Strategaeth Rheoli Dŵr Wyneb Dŵr Cymru
Deddf Cynllunio (Cymru)
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, 2016)
Deddf Newid yn yr Hinsawdd
Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol CNC 2016

R3.5 **Lleol**
Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy
Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru 2015 - 2020
Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 - 2022
Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017 – 2022* bydd ei gynnwys yn cael ei ystyried yng ngham nesaf yr Adroddiad o Gynaliadwyedd
Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol Sir Ddinbych 2013 – 2017
Strategaeth Dai Sir Ddinbych 2016 – 2021
Strategaeth Iaith Gymraeg Sir Ddinbych 2017 - 2022

R3.6 Gwybodaeth Llinell Sylfaen
Mae'r wybodaeth llinell sylfaen wedi'i diweddaru (lle'r oedd ar gael) ac mae data newydd ac ychwanegol wedi'u cynnwys nad oeddent ar gael o bosibl cynt. Mae Adroddiad Cwmpasu newydd yr AG (Rhagfyr 2017) yn darparu data llinell sylfaen i helpu i fonitro ac ailystyried yr AG yn rhan o'r broses adolygu.

R3.7 Ailystyriwyd Amcanion yr AG yng nghyd-destun yr holl newidiadau uchod a'r monitro ar Fframwaith yr AG ers ei fabwysiadu. Credir bod holl Amcanion yr AG yn parhau'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig presennol. Mae Fframwaith yr AG a ddefnyddiwyd i asesu pob agwedd ar gynaliadwyedd y CDLl yn cael ei ystyried yn berthnasol o hyd.

R3.8 Wedi iddo ddiweddaru'r data llinell sylfaen, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn lle i allu cyhoeddi'r Adroddiad Cwmpasu drafft ar gyfer ymgynghori yr un pryd â'r Adroddiad Adolygu hwn.

## R4. Dylanwadau Lleol ers mabwysiadu'r CDLl (gweler y manylion yn y Papurau Gwybodaeth)

R4.1 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi datblygu nifer o Ganllawiau Cynllunio Atodol a Briffiau Datblygu ar gyfer safleoedd sy'n cwrdd ag amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ac Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

R4.2 Datblygwyd y Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru ac mae'n nodi safleoedd cyflogaeth o bwysigrwydd rhanbarthol yn Llanelwy/Bodelwyddan. Bydd y Weledigaeth ar gyfer Twf yn dylanwadu ar y CDLl Newydd sy'n cael ei ddatblygu.

R4.3 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol 2007 – 2022 sy'n nodi safle datblygu strategol yn Abergele, ar y ffin â Sir Ddinbych.

R4.4 Rhoddwyd caniatâd ar gyfer nifer o ffermydd gwynt mawr o arwyddocâd cenedlaethol gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Ardal Chwilio Strategol Coedwig Clocaenog (Yr Arolygiaeth Gynllunio, Medi 2014).

R4.5 Cafwyd dau ddigwyddiad llifogydd mawr yn Rhuthun ac yn Llanelwy, a chafwyd effeithiau niweidiol ar eiddo domestig presennol. Cynhelir adolygiad o'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol ar gyfer y Cynllun.

R4.6 Mae rhagor o adnoddau ar gael sy'n ymwneud â llesiant y boblogaeth o ganlyniad i gynnal asesiad Llesiant gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy-Sir Ddinbych ar gyfer y Cynllun Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

R4.7 Mae swyddogion Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnal Archwiliad ac Asesiad Mannau Agored drwy ymgynghori â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

R4.8 Roedd Cyngor Sir Ddinbych a CBS Conwy wedi cynhyrchu Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd ar y cyd ar gyfer Datblygu Tyrbinau Gwynt ar y Tir yn 2013. Oherwydd amrywiaeth y tirweddau yn Sir Ddinbych, a'r ffaith bod nifer ohonynt yn cael eu hystyried yn werthfawr iawn oherwydd eu harddwch naturiol, barnwyd bod rhannau helaeth o ardal yr astudiaeth yn sensitif iawn i ddatblygiadau ynni gwynt.

R4.9 Er hynny, roedd yr astudiaeth wedi dangos bod capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt bach a micro ond nad oedd nemor ddim capasiti ar gyfer datblygiadau mwy y tu allan i'r Ardal Chwilio Strategol.

R4.10 Lleihau'r angen am deithiau unigol mewn ceir sy'n llygru'r aer ac yn allyrru nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at y cynhesu byd-eang a'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013).

R4.11 Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol adlewyrchu'r gofynion yn Neddf Tai (Cymru) 2014 a'r argymhellion yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych (Ionawr 2017).

R4.12 Mae'r holl Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMBau) a gyhoeddwyd wedi dangos na chyrhaeddwyd lefel y twf tai y darparwyd ar ei gyfer yn y CDLl. Mae'r lefelau cwblhau yn is o lawer na'r 500 y flwyddyn a ragwelwyd. Oherwydd y gyfradd twf uchel a ragwelwyd a'r lefelau cyflawni is, nid yw Sir Ddinbych wedi gallu dangos bod cyflenwad o dir ar gyfer tai dros 5 mlynedd. Mae hyn yn rhoi'r Sir mewn perygl oddi wrth ddatblygu ar hap a symudiad oddi wrth system rheoli datblygu sy'n seiliedig ar gynllun.

R4.13 Mae lefelau'r tai fforddiadwy a ddarparwyd hefyd yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y CDLl, oherwydd y gostyngiad cyffredinol yn lefelau'r tai a gwblhawyd.

R4.14 Uchelgais y Cyngor yw atal y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych. O ganlyniad i hyn, y nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych 0.5% dros y pum mlynedd nesaf.

R4.15 Roedd cynllun ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru' wedi dod i ben ym Mawrth 2014 ond mae'r problemau ac anfanteision a nodwyd cynt yn parhau'n gyffredin yn yr ardal. Nod cyffredinol y CDLl a fabwysiadwyd yw delio â materion fel cynnal amrywiaeth economaidd yng nghanol ein trefi a darparu tai o ansawdd da.

R4.16 Mabwysiadodd Cyngor Sir Ddinbych Gynllun Corfforaethol 2017 - 2022 yr Hydref hon. Bydd ei gyd-destun yn rhan o'r cam nesaf wrth baratoi'r Cynllun Newydd.

## R5. Ailystyried yr AG yng nghyd-destun dylanwadau lleol newydd

R5.1 Credir na fydd y dylanwadau newydd a nodwyd yn Adroddiad Adolygu Sir Ddinbych yn arwain at effeithiau arwyddocaol ar gynaliadwyedd. Er hynny, bydd angen adolygu dyraniadau tir a ffiniau datblygu yng nghyd-destun tystiolaeth newydd.

R5.2 Mae Amcanion yr AG wedi'u hailystyried yng nghyd-destun yr holl newidiadau uchod a'r monitro ar Fframwaith yr AG ers ei fabwysiadu. Credir bod holl Amcanion yr AG yn parhau'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig presennol. Mae Fframwaith yr AG a ddefnyddiwyd i asesu pob agwedd ar gynaliadwyedd y CDLl yn cael ei ystyried yn berthnasol o hyd. Bydd unrhyw feysydd polisi newydd yn cael eu hystyried ar sail y fframwaith presennol.

# 1. Crynodeb Annhechnegol

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cam cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG), a ystyriwyd wrth lunio Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2017. Ar gamau cynnar y broses gwneud cynlluniau, mae dyletswydd statudol i amlinellu unrhyw effeithiau dichonol a all godi o ganlyniad i'r cynigion mewn cynllun lleol sy'n cael ei ddatblygu.

1.1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor arfarnu cynaliadwyedd ei strategaeth a pholisi arfaethedig ar ddefnydd tir ar bob cam wrth eu datblygu. Gwneir hyn drwy gyhoeddi Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n cynnwys prif themâu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.1.3 Mae'r adroddiad cwmpasu yn asesu unrhyw heriau lleol ar sail y sefyllfa bresennol, ac yn amlinellu'r materion sy'n debygol o godi mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol.

1.1.4 Ymgynghwyd ar yr adroddiad cwmpasu â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys asiantaethau amgylcheddol ac awdurdodau cyfagos. Cyflawnwyd hyn drwy ymgynghoriad statudol yn rhedeg o Awst 21ain 2017 tan yr 20fed o Hydref 2017 (parhaodd o leiaf 5 wythnos). Roedd yn gyfochrog a Adroddiad Adolygu'r CDLl.

## 1.2 Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol

1.2.1 Mae'n ofynnol cynnal adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) bob pedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu. Mae Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Cyngor Sir Ddinbych (2013) wedi cyrraedd y trothwy hwnnw. Pwrpas cam adolygu'r cynllun yw gwerthuso'r Cynllun i weld a yw'n parhau'n gyfoes. Wrth ei ddiwygio, rhaid rhoi sylw i newidiadau mewn amgylchiadau cenedlaethol a lleol ac mae hefyd yn bosibl na fydd y Cynllun wedi perfformio'n dda ar sail dangosyddion y targedau yn y fframwaith gwreiddiol.

1.2.2 Cyhoeddodd Cyngor Sir Ddinbych ei ail Adroddiad Monitro Blynyddol yn Hydref 2016. Cynhyrchwyd trydydd AMB yn ystod yr Ymgynghoriad ac mae wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau cyntaf yn dangos y bydd angen ystyried cynnal adolygiad llawn o'r CDLl a fabwysiadwyd.

1.2.3 Mae'r Llawlyfr ar CDLlau (Argraffiad 2, Awst 2015) yn ei gwneud yn ofynnol bod Awdurdodau sy'n adolygu eu CDLl yn ailystyried Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Rhaid i'r adroddiad gael ei ailystyried ochr yn ochr â drafftio Adroddiad Adolygu'r CDLl.

1.2.4 Cynhelwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adroddiad Cwmpasu newydd ar yr AG yr un pryd â hwnnw ar gyfer Adroddiad Adolygu'r CDLl 2017 a'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y CDLl Newydd Drafft rhwng Awst 2017 a Hydref 2017. Mae cyfiawnhad dros wneud hyn am fod yr amserlen ar gyfer paratoi a chynhyrchu'r cynllun yn dynn.

## 1.3 Gofyniad deddfwriaethol am Arfarniad o Gynaliadwyedd yn y system gynllunio

1.3.1 Mae gofyniad cyfreithiol[1] i'r Awdurdod Lleol gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd wedi'u cadw mewn cof ar bob cam wrth gynhyrchu'r ddogfen. Datblygir yr Arfarniad o Gynaliadwyedd mewn ffordd sy'n ei wneud yn gyson â gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol Ewropeaidd[2], sydd wedi'u trosi i gyfraith Cymru [3].

1.3.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel a ganlyn:

"[*y*] *broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant*" (mae disgrifiad mwy cynhwysfawr o'r Ddeddf a'i nodau yn Adran 4: Cynlluniau, Polisïau, Rhaglenni).

1.3.3 Defnyddiwyd y dogfennau canllaw canlynol wrth baratoi'r Adroddiad Cwmpasu hwn:

- ODPM et al (2005) A Practical Guidance to the Strategic Environmental Assessment Directive;
- Llywodraeth Cymru (2015) Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 2);
- ODPM (2005) Sustainability Appraisal of Regional Spatial Strategies and Local Development Documents.

1.3.4 Prif amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd llawn fydd ymdrin â'r canlynol:

- Sicrhau bod y Cynllun Lleol yn rhoi sylw i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol.
- Gwneud asesiad llinell sylfaen o Sir Ddinbych, gan ddisgrifio'r nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a chodi unrhyw faterion y bydd angen i'r cynllun roi sylw iddynt.
- Creu fframwaith cynaliadwyedd sy'n parchu cynaliadwyedd Sir Ddinbych.
- Rhoi prawf ar safleoedd a pholisïau sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol ar sail fframwaith cynaliadwyedd Sir Ddinbych er mwyn asesu effaith yr opsiynau polisi, yn cynnwys yr opsiwn a ffefrir.
- Sicrhau bod opsiynau ymarferol ac ystyrlon eraill wedi'u rhoi dan brawf yn ystod y broses, gan fyfyrio ar welliannau dichonol i'r Cynllun Datblygu Lleol

1.3.5 Bydd angen i'r adroddiad cwmpasu ymdrin â gwahanol fathau o wybodaeth er mwyn dangos ei fod yn gyson â'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Mae'r camau wedi'u disgrifio yn nhabl 1.

[1] Adran 62(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
[2] Cyfarwyddeb 2001/42/EC yr UE (hefyd yn cael ei galw'n Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol).
[3] Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

1.3.6 **Tabl 1** **Cyn Cynhyrchu'r Cynllun Lleol – Cam A yr AG: Pennu'r cyd-destun a'r amcanion, pennu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas.**

| Cam y CDLl Newydd | Camau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd | Proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|---|---|---|
| Adroddiad Adolygu | A1: Nodi polisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill, ac amcanion cynaliadwyedd. | Casglu gwahanol fathau o wybodaeth i ddelio â chyfyngiadau posibl a dylanwadu ar opsiynau. |
| | A2: Casglu gwybodaeth llinell sylfaen. | Helpu i bennu problemau o ran cynaliadwyedd drwy greu dangosyddion ar sail y dystiolaeth a gasglwyd. |
| | A3: Pennu materion a phroblemau cynaliadwyedd. | Cyfle i ddiffinio materion allweddol ar gyfer y Cynllun Lleol a thynnu sylw at unrhyw densiynau neu anghysonderau posibl a all godi. |
| | A4: Datblygu fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. | Mae'r fframwaith yn darparu ffordd o arfarnu'r effeithiau ar gynaliadwyedd. |
| | A5: Ymgynghori ar gwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. | Gofyn am farn gan gyrff statudol drwy ymgynghoriad 5 wythnos. |

1.3.7 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses ailadroddus. Mae hyn yn golygu y bydd yr asesiad yn cael ei gyflawni ar y cyfle cynharaf ar strategaeth a pholisi sy'n datblygu er mwyn sicrhau bod y broses yn cyfrannu'n barhaus at ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Ail Argraffiad, 2015) yn datgan:
"*Bydd arfarniad o gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol yn chwarae rhan bwysig wrth ddangos bod y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy. Bydd yn cyfrannu at y cyfiawnhad rhesymegol o bolisïau*.*"* (para 3.1.2, tudalen 19).

Mae gweithredu *" 'yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy' yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau".*

1.3.8 Mae'r adroddiad cwmpasu wedi'i ddrafftio fel ei fod yn cyd-fynd â'r camau a nodwyd yng nghanllawiau'r ODPM (Office of the Deputy Prime Minister). Ymdriniwyd â phob un o feysydd pwnc yr Asesiad Amgylcheddol Strategol mewn adran ar wahân sy'n cyflwyno'r fframwaith deddfwriaethol a'r cyd-destun lleol sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwnnw. Nodir unrhyw faterion cynaliadwyedd sylweddol sy'n codi ym mhob adran, a

bydd dangosyddion yn cael eu diffinio a fydd yn helpu i roi prawf ar gynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn deall effeithiau tebygol.

## 1.4 Ymgynghori

1.4.1 Yn unol â'r rheoliadau, dylid cynnal ymgynghoriad 5 wythnos o hyd â'r cyrff amgylcheddol perthnasol ar adroddiadau amgylcheddol a gynhyrchir gan yr awdurdod cynllunio lleol. Yng Nghymru, y sefydliadau perthnasol yw:

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) – mae CNC yn cynnwys profiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac felly'n darparu arbenigedd ym meysydd bioamrywiaeth, tirwedd, rheoli coedwigaeth genedlaethol, mynediad i gefn gwlad a'r arfordir, mannau gwyrdd trefol, ansawdd aer, ffactorau hinsoddol, pridd a dŵr.
- Cadw – mae Cadw yn arbenigo ym meysydd treftadaeth ddiwylliannol, archeoleg a phensaernïaeth.
- Yn ogystal â hyn, ymgynghorir â Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos ynghyd â mwy na 100 o sefydliadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sydd wedi'u henwi yng nghronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol.

1.4.2 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan Cyngor Sir Ddinbych, a threfnir iddi fod ar gael yn swyddfeydd y Cyngor ym mhob rhan o'r awdurdod. Bu i aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau oedd â diddordeb wneud sylwadau am gynnwys yr adroddiad cwmpasu yn unol â Chynllun Cynnwys Cymunedau Sir Ddinbych (sydd yng Nghytundeb Cyflawni CDLl Newydd Sir Ddinbych 2017). Yn ogystal â'r ymgyngoreion statudol, anfwyd llythyr i sefydliadau eraill hefyd yn gofyn am eu sylwadau.

1.4.3 Ar ôl cael sylwadau gan ymgyngoreion, bu i Gyngor Sir Ddinbych ailystyried cyn cytuno i barhau i baratoi'r CDLl Newydd. Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol) yn asesu'r opsiynau ar gyfer diwygio ac yn gwneud argymhellion i'r awdurdod cynllunio lleol ynghylch ffyrdd o wella perfformiad y cynllun ar gynaliadwyedd. Y canlyniad cyntaf i'r broses fydd Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a fydd yn destun ymgynghori ochr yn ochr â'r cynllun newydd drafft ar gam Cyn Adneuo y CDLl.

1.4.4 Mae'r amserlen lawn ar gyfer proses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn y Cytundeb Cyflawni.

1.4.5 Mae'r sylwadau a wnaethpwyd ar drafft AG ymgynghoriad i'w gweld yn Rhan 8.

## 2. Cyflwyniad

### 2.1 Nodweddion Sir Ddinbych

2.1.1 Mae Sir Ddinbych yn awdurdod gwledig yng ngogledd-ddwyrain Cymru sy'n cydffinio â phump (5) o awdurdodau lleol eraill a Môr Iwerddon. Ei arwynebedd yw 844 km sgwâr. Yn 2011, poblogaeth Sir Ddinbych oedd 93,734, sy'n uwch na'r ffigur o 93,065 yn y Cyfrifiad blaenorol. Mae cyfran fawr o'r boblogaeth wedi'i chlystyru o gwmpas y ddwy brif dref arfordirol, sef y Rhyl (25,000) a Phrestatyn (20,000). Mae gweddill y boblogaeth wedi'i wasgaru mewn trefi bach a phentrefi ar draws ardal wledig. Mae mwy na 60% o'r boblogaeth yn byw i'r gogledd o Lanelwy.

2.1.2 Ceir amgylchedd adeiledig a naturiol o ansawdd da yn y Sir gyda nifer mawr o adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, Henebion Cofrestredig, a rhywogaethau a chynefinoedd bywyd gwyllt a warchodir. Mae nifer o'r rhain wedi'u cydnabod ar lefel genedlaethol neu ryngwladol ac mae ganddynt statws sy'n eu gwarchod. Enghreifftiau o'r rhain yw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ac Afon Dyfrdwy sydd wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig gan yr Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, mae'r ardal o amgylch Camlas Llangollen yn ne-ddwyrain Sir Ddinbych wedi'i dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO.

2.1.3 Mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn rhan annatod o wneuthuriad Sir Ddinbych. Mae mwy na 24.6% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011), ac mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn fwy na 60% mewn nifer o gymunedau gwledig.

2.1.4 Ceir cysylltiadau trafnidiaeth rhagorol ar ffyrdd rhwng y dwyrain a'r gorllewin ar hyd cefnffordd yr A55 a rhwng y gogledd a'r de ar hyd yr A525 a'r A494 (T). Fodd bynnag, oherwydd natur wledig y sir, mae nifer mawr o breswylwyr yn dibynnu ar y defnydd o geir i gymudo ac i gyrraedd gwasanaethau. Mae Prif Reilffordd Arfordir y Gogledd yn darparu cysylltiadau uniongyrchol ar reilffyrdd i Gaergybi (Dulyn) yn y gorllewin ac i Fanceinion/Llundain yn y dwyrain.

### 2.2 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (mabwysiadwyd fis Mehefin 2013)

2.2.1 Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 yn pennu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), yn cynnwys camau gweithdrefnol. Dylai cynllun datblygu gynnwys strategaeth a set integredig o bolisïau a chynigion ar gyfer safleoedd penodol sy'n gysylltiedig â'r weledigaeth mewn Cynllun Llesiant (Cynllun Integredig Sengl cyn hynny). Bydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i seilio ar ddefnydd darbodus o adnoddau, dealltwriaeth glir o anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal ac unrhyw gyfyngiadau ar gwrdd â'r anghenion hynny.

2.2.2 Cyfeirir yn benodol at adolygu CDLlau yn Rheoliad 41, sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddewis rhwng 'adolygiad llawn' ac 'adolygiad dethol'. Pa bynnag ddull a ddewisir, cyn cynhyrchu CDLl diwygiedig neu newydd, rhaid llunio Adroddiad Adolygu CDLl sy'n amlinellu'r rhesymau a'r dystiolaeth o blaid newidiadau arfaethedig yn

elfennau penodol y Cynllun. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhagor ar ganllawiau ar ddilyn darpariaethau'r Rheoliadau ar ffurf Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r ddogfen yn diffinio tri phrif bwynt sbardun ar gyfer cychwyn adolygiad o CDLl a fabwysiadwyd a llunio adroddiad i gofnodi'r broses.

2.2.3 Mae Rheoliad 41 (fel y'i diwygiwyd) yn pennu bod Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) yn gorfod cychwyn adolygiad o'u CDLl bob pedair blynedd oddi ar ddyddiad ei fabwysiadu am y tro cyntaf. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 ei fabwysiadu ym Mehefin 2013. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn gorfod cychwyn yr adolygiad yn 2017. Heblaw gweithredu ar sail y pwynt sbardun hwn, bydd Adroddiad Adolygu'r CDLl yn canolbwyntio ar newidiadau arwyddocaol yn y cyd-destun ac unrhyw bryderon sy'n codi o ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

2.2.4 Oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer llunio CDLl Newydd a'r gofyniad i adolygu Fframwaith yr AG wrth ailystyried yr AG (sydd wedi'i ddisgrifio yn y Llawlyfr ar CDLlau), mae Adroddiad Cwmpasu'r AG wedi'i gynhyrchu ar gyfer ymgynghori yn awr. Ym marn yr Awdurdod, byddai'r dewis arall o aros tan ddiwedd y broses o adrodd ar yr Adolygiad o'r CDLl yn arwain at oedi cyn darparu'r CDLl Newydd. Byddai oedi yn y broses o gynhyrchu'r Cynllun yn rhoi'r Sir mewn perygl o ddatblygu ar hap ac o symud oddi wrth system rheoli datblygu wedi'i seilio ar gynllun.


## 2.3 Y berthynas rhwng cynhyrchu'r Cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

2.3.1 Mae'r berthynas rhwng cynhyrchu'r Cynllun Lleol a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i dangos yn Ffigur 1 isod.

Mae'r diagram llif yn dangos y gwahanol gamau ar gyfer cynhyrchu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, sydd i'w ddatblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae'r ddogfen hon yn rhan o gam cyn cynhyrchu'r Cynllun Lleol, sy'n casglu tystiolaeth am yr ardal ac yn pennu'r materion cynaliadwyedd sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r cynllun.

2.3.2 Ffigur 1: Y berthynas rhwng cynhyrchu'r Cynllun a'r AG

*(drosodd)*




2.3.3 Wrth baratoi'r adroddiad cwmpasu, bydd gwybodaeth yn cael ei dangos ar sail themâu, yn hytrach na dilyn tasgau ar gyfer pob adran. Bydd hyn yn sicrhau eglurder mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a bydd yn gyson o hyd â chamau datblygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

2.3.4 Mae'n ofynnol bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn arfarnu effeithiau cynlluniau sydd ar y gweill ar sail nifer o amcanion thematig, sy'n gyfrifol am yr effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol o ddatblygu. Mae Atodiad 1 i'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn nodi bod y meysydd canlynol yn faterion y dylai arfarniadau o gynaliadwyedd roi sylw iddynt er mwyn cwrdd â gofynion y Gyfarwyddeb.

- Bioamrywiaeth;
- Poblogaeth;
- Iechyd Pobl;
- Pridd;
- Dŵr;
- Aer;
- Asedau materol;
- Treftadaeth ddiwylliannol;
- Tirwedd;

- Planhigion ac Anifeiliaid;
- Ffactorau hinsoddol;
- Y gydberthynas rhwng materion

# 3. Dogfennau asesu eraill

## 3.1 Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd

3.1.1 Mae cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofyniad o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC) sydd wedi'i bennu yn Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Pwrpas yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn y cyd-destun hwn yw pennu a yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau arwyddocaol yn codi o gynigion sydd yn y Cynllun ar unrhyw un o'r safleoedd Ewropeaidd sy'n bwysig o ran gwarchod natur sy'n cael eu hystyried drwy ddiweddariad y Cyngor ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

3.1.2 Cyflwynir yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol mewn dogfen ar wahân.

## 3.2 Asesiad o'r Effaith Ieithyddol Gymunedol

3.2.3 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu ragor o safonau ymddygiad ar gyfer darparu eu gwasanaethau drwy'r Gymraeg, yn cynnwys meysydd fel llunio polisi, gweithgareddau gweithredol y sefydliad a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae Adran 26 o'r Mesur yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safonau o'r fath, ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Awdurdodau Parc Cenedlaethol, Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol a Gweinidogion Cymru yn unig. Ar ôl eu cyhoeddi, roedd Comisiynydd y Gymraeg, o dan Adran 44 o'r Mesur, wedi dyroddi Hysbysiad Cydymffurfio ar 30 Medi 2015 i'r holl sefydliadau perthnasol, a oedd yn pennu'r safonau yr oeddent yn gorfod cydymffurfio â nhw.

3.2.4 Yng nghyd-destun llunio polisi, mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried sut y gellir ffurfio polisi newydd (neu sut y gellir newid polisi presennol) fel y bydd y penderfyniad polisi un ai:

- yn cael effaith gadarnhaol, neu effaith gadarnhaol fwy, neu,
- fel na fydd yn cael effaith niweidiol, neu fel y bydd yn cael effaith niweidiol lai, ar y Gymraeg.

Dylai'r penderfyniad polisi sicrhau hefyd nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.2.5 Mae fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys amcan/maes prawf asesu penodol ar gyfer y Gymraeg. Hefyd mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn galw am ystyried yr effeithiau cronnol o bolisïau a strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.

3.3 **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau**

3.3.1 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae Awdurdodau Lleol yn gorfod dangos sut maent yn cyfrannu at y Ddeddf drwy ystyried yr effaith ddichonol ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas. I'r perwyl hwn, bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei ystyried drwy Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau na fydd unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig yn profi gwahaniaethu negyddol o ganlyniad i strategaeth, polisïau neu gynigion y cynllun.


3.3.2 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau yn rhan o Asesiad Effaith ar Lesiant y Cyngor a bydd yn cael ei gynnal drwy'r broses honno.

3.4 **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd**

3.4.1 Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2 yn nodi "Methodoleg arfaethedig gweddill yr arfarniad integredig gan gynnwys nodi lle y gall fod angen cynnal asesiadau manylach o rai materion ac amcanion megis hil, cydraddoldeb, y Gymraeg neu asesiadau o'r effaith ar iechyd". Bydd Asesiad Amgylcheddol Strategol yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi sylw penodol i faterion iechyd cyhoeddus yn unol â'r gofynion ar ei gyfer. Fodd bynnag, os gwelir bod materion penodol yn codi sy'n galw am asesiad manylach, yna gellir cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fel proses ar wahân.

3.5 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

3.5.1 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus fel Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried nid yn unig anghenion presennol cymunedau lleol ond hefyd sut y bydd eu penderfyniadau'n effeithio ar bobl yn y dyfodol. Y brif her i'r Cyngor yw ceisio cyflawni pob un o'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf: (1) Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; (2) Cymru lewyrchus; (3) Cymru gydnerth; (4) Cymru iachach; (5) Cymru sy'n fwy cyfartal; (6) Cymru o gymunedau cydlynus; a (7) Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

3.5.2 


Mae'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ategu'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor i gydymffurfio ag egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob proses penderfynu. Cyflawnir hyn drwy lynu wrth 'amcanion llesiant' sydd wedi'u gosod yn lleol i gwrdd â'r saith nod llesiant a bennwyd ar lefel genedlaethol.

3.5.3 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu'r pecyn 'Asesiad Effaith ar Lesiant' i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Ei bwrpas yw helpu penderfynwyr i werthuso cynnig penodol yng nghyd-destun y nodau llesiant. Felly, bydd pob elfen yn y CDLl newydd yn cael ei hasesu am ei heffaith ar lesiant ac, os bydd angen, gwneir newidiadau yn unol ag argymhellion sy'n codi o'r asesiad.

## 3.6 Gwneud penderfyniadau cynllunio cynaliadwy

3.6.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol, os yw sylw i'w roi i'r cynllun datblygu i ddibenion unrhyw benderfyniad a wneir o dan y Deddfau Cynllunio, y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn dangos y dylid gwneud fel arall.

## 4. Cynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau Perthnasol

4.1 Ceir hierarchaeth o ddogfennau a fydd yn effeithio ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd, yn cynnwys rhai ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol. Mae amrywiaeth o gynlluniau a rhaglenni rhyngwladol yn dylanwadu ar y CDLl, y rhan fwyaf ohonynt bellach wedi'u dehongli ar y lefel genedlaethol a'u cynnwys fel canllawiau ar y lefel hon.

4.2 Un o'r prif ddylanwadau ar gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol yw canllawiau cynllunio cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), Cynllun Gofodol Cymru (a gaiff ei ddisodli cyn hir gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru) sy'n disgrifio strategaeth y Llywodraeth ar gyfer datblygu mewn nifer o wahanol feysydd, yn cynnwys tai, yr economi, trafnidiaeth a'r amgylchedd.

4.3 Mae'n bosibl y bydd y rhestr isod yn newid wrth i'r Cynllun gael ei ddatblygu. Ceir disgrifiad mwy manwl o'r dogfennau a'u perthnasedd i'r Cynllun, yn ogystal â dolenni gwe, yn Atodiad A.

| | | |
|---|---|---|
| Confensiwn Bern | Confensiwn ar warchod bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol Ewrop | 1982 |
| Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig | Agenda 21, Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol | 1992 |
| Comisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig dros Ewrop | Confensiwn Aarhus | 1998 |
| Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd | Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd (ESDP) | 1999 |
| Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd | Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd Cyngor Ewrop | 2000 |
| Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd | Siarter Priddoedd Ewrop | 2003 |
| Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd | Our Future, Our Choice (Chweched Raglen Gweithredu'r UE ar yr Amgylchedd) | 2010 |
| Uwchgynhadledd Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy | Datganiad Johannesburg ar Ddatblygu Cynaliadwy | 2002 |
| Uwchgynhadledd Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy | United Nations Sustainable Development Summit New York: Transforming Our World: The 2030 Agenda for Sustainable Development | 2015 |

| | | |
|---|---|---|
| Sefydliad Iechyd y Byd | Children's Environment and Health Action Plan for Europe (CEHAPE) | 2004 |
| Comisiwn yr UE | Y Polisi Amaethyddol Cyffredin | 1958/2013 |
| Comisiwn yr UE | Yr Ail Raglen Ewropeaidd ar y Newid yn yr Amgylchedd (ECCP II) | 2005 |
| Comisiwn yr UE | Strategaeth Thematig ar Ansawdd Aer | 2005 |
| Comisiwn yr UE | Polisi Datblygu Gwledig yr UE 2014-2020 | 2014 |
| Comisiwn yr UE | Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE hyd 2020 | 2011 |
| Comisiwn yr UE | Europe 2020 Strategy - Broad Economic Policy Guidelines - European Employment Strategy | 2015 |
| Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd | Cynhadledd Cancun ar y Newid yn yr Hinsawdd | 2010 |
| Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd | Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC): Cytundeb Paris | 2016 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 91/676/EEC yr UE (Y Gyfarwyddeb Nitradau) | 1991 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 91/271/EEC yr UE (Y Gyfarwyddeb Dŵr Gwastraff Trefol) | 1991 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 92/43/CEE yr UE (Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) | 1992 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 1999/31/EC yr UE (Y Gyfarwyddeb Tirlenwi) | 1999 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 2000/60/EC yr UE (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) | 2000 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 2002/49/EC yr UE (Cyfarwyddeb ar Sŵn Amgylcheddol) | 2002 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 2003/35/EC yr UE (Cyfarwyddeb yn darparu ar gyfer Cyfranogi gan y Cyhoedd) | 2003 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 2004/35/CE yr UE (Y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol) | 2004 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 76/160/EEC yr UE (Y Gyfarwyddeb Ansawdd Dŵr Ymdrochi) (diwygiwyd 2006) | 2006 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 2007/60/EC yr UE (Y Gyfarwyddeb Llifogydd) | 2007 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 2008/98/EC yr UE (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff) | 2008 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 2008/50/EC yr UE (Ansawdd Aer yr Amgylchedd ac Aer Glanach i Ewrop) | 2008 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Y Gyfarwyddeb Adar (2009/147/EC) | 2009 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Y Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (2009/28/EC) | 2009 |
| Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb 2014/52/EU yr UE (Cyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol) | 2014 |

## Y Deyrnas Unedig

***Cynllunio***

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) | 1990 |
| Llywodraeth y DU | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 OS 675 | 2010 |
| CNC; RTPI; CLlLC; LGA | The Water Framework Directive and Planning – Initial Advice to Planning Authorities in England and Wales | 2006 |
| DEFRA | Securing the Future: The Government's Sustainable Development Strategy | 2005 |

### *Yr Amgylchedd Hanesyddol*

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol | 1979 |

***Y Newid yn yr Hinsawdd***

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | Energy White Paper: Meeting the Energy Challenge | 2007 |
| Llywodraeth y DU | Deddf Newid yn yr Hinsawdd | 2008 |
| Llywodraeth y DU | Carbon Plan: Delivering our low carbon future | 2011 |
| Trysorlys EM | Stern Review: the economics of climate change | 2006 |
| Llywodraeth y DU | Deddf Ynni | 2016 |

***Afonydd/dŵr/yr arfordir***

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | Deddf Adnoddau Dŵr | 1991 |
| Llywodraeth y DU | Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir | 2009 |
| Llywodraeth y DU | Rheoliadau Perygl Llifogydd | 2009 |
| Llywodraeth y DU | Deddf Dŵr a Rheoli Llifogydd | 2010 |
| Llywodraeth y DU | Water Resources Planning: Managing Supply and Demand | 2017 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Water Resources for the Future: Strategy for England and Wales | 2001 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Water Resources in England & Wales - Current State & Future Pressures | 2008 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Water for People and the Environment: Water Resource Strategy for England and Wales | 2009 |
| DEFRA | Rheoliadau Dŵr Daear (Cymru a Lloegr) 2009 | 2009 |
| DEFRA | National Policy Statement for Waste Water | 2012 |
| DEFRA | Marine Strategy part three: UK Programme of Measures | 2015 |

***Yr Amgylchedd***

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) | 1981 |
| Llywodraeth y DU | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy | 2000 |
| Llywodraeth y DU | Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Cymru a Lloegr) | 2010 |
| Llywodraeth y DU | The natural choice: securing the value of nature | 2011 |
| DEFRA | The Air Quality Strategy for England, Scotland, Wales and Northern Ireland | 2000 |
| DEFRA | Conserving Biodiversity – The UK Approach | 2007 |
| DEFRA | Waste Strategy | 2007 |
| DEFRA | Code of practice for the sustainable use of soils on construction sites | 2011 |
| Partneriaeth Bioamrywiaeth y DU a Llywodraeth y DU | The UK Post-2010 Biodiversity Framework | 2012 |

**Cymru**

***Cynllunio***

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 | 2015 |
| Llywodraeth Cymru | Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016) | 2016 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai | 2015 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy | 2006 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a Chanol Trefi | 1996 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur | 2009 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy | 2010 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored | 1996 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy | 2005 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed | 1997 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn | 1997 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio | 2014 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth | 1997 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 14: Cynllunio'r Arfordir | 1998 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd | 2004 |

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored | 2009 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth | 2007 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu | 2002 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg | 2017 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff | 2014 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd | 2014 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol | 2017 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau | 2004 |
| Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo | 2009 |

***Datblygu Cynaliadwy***

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Cymru: Gwlad Well | 2003 |
| Llywodraeth Cymru | Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy (Cymru) 2004-2007 | 2004 |
| Llywodraeth Cymru | Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru | 2007 |
| Llywodraeth Cymru | Cynllun Gofodol Cymru | 2008 |
| Llywodraeth Cymru | Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned | 2009 |
| Llywodraeth Cymru | Arbed - Y rhaglen buddsoddi strategol mewn perfformiad ynni | 2009 |
| Llywodraeth Cymru | Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni | 2011 |
| Llywodraeth Cymru | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Glastir: Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy | 2012 |

***Y Newid yn yr Hinsawdd***

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru | 2009 |
| Llywodraeth Cymru | Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd | 2010 |
| Llywodraeth Cymru | Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd - Canllawiau i Awdurdodau Lleol | 2012 |

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Ynni Cymru: Newid Carbon Isel | 2012 |
| Llywodraeth Cymru | Dyfodol Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf 2016–2026 | 2016 |

***Yr economi, twristiaeth a thrafnidiaeth***

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Dringo'n Uwch. Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005/ Dringo'n Uwch – Y Camau Nesaf, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006 | 2005 |
| Llywodraeth Cymru | Making the most of Wales' Coast - the Welsh Integrated Coastal Zone Management Strategy | 2007 |
| Llywodraeth Cymru | Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru | 2008 |
| Llywodraeth Cymru | Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl. Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | 2008 |
| Llywodraeth Cymru | Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | 2008 |
| Llywodraeth Cymru | Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020 | 2013 |
| Llywodraeth Cymru | Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd | 2013 |
| Llywodraeth Cymru | Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd | 2010 |
| Llywodraeth Cymru | Deddf Teithio Llesol (Cymru) | 2013 |
| Llywodraeth Cymru | Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru | 2016 |

***Cymunedau, Tai a'r Gymraeg***

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Deddf Llywodraeth Leol Rhan 1- Strategaethau Cymunedol | 2000 |
| Llywodraeth Cymru | Cylchlythyr 30/2007 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr' | 2007 |
| Llywodraeth Cymru | Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol | 2007 |
| Llywodraeth Cymru | Y Strategaeth Dai Genedlaethol – 'Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru' | 2010 |
| Llywodraeth Cymru | Strategaeth Tlodi Tanwydd | 2010 |
| Llywodraeth Cymru | Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2013 -2023) | 2013 |
| Llywodraeth Cymru | Deddf Tai (Cymru) | 2014 |
| Llywodraeth Cymru | Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) | 2015 |

### *Yr Amgylchedd*

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru | |
| Llywodraeth Cymru | Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru | 2006 |
| Llywodraeth Cymru | Coetiroedd i Gymru | 2009 |
| Llywodraeth Cymru | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Y Camau Nesaf | 2012 |
| Llywodraeth Cymru | Cynllun Adfer Natur Cymru | 2015 |
| Llywodraeth Cymru | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 2016 |
| Llywodraeth Cymru | Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) yng Nghymru: Canllawiau Polisi | 2017 |

### *Yr Amgylchedd Hanesyddol*

| | | |
|---|---|---|
| CADW a CNC | Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru | 1998 |
| Llywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru / CADW | Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru | |
| Llywodraeth Cymru | Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 | 2016 |

### *Gwastraff*

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Strategaeth Wastraff ar gyfer Cymru | 2010 |
| Llywodraeth Cymru | Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) | 2011 |

### *Dŵr, Afonydd, yr Arfordir*

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru | 2011 |
| Llywodraeth Cymru | Strategaeth Ddŵr i Gymru | 2015 |

## Rhanbarthol

| | | |
|---|---|---|
| Grŵp Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru | Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru, Adolygiad Cyntaf | 2009 |
| Grŵp Arfordirol Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr | Cynllun Rheoli Traethlin Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr SMP2 | 2010 |

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Strategaeth Tir Cyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru | 2014 |
| TAITH (wedi'i ddiddymu) | Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru (Taith 2015) | 2015 |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru | 2016 |
| Partneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Gogledd-ddwyrain Cymru | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Gogledd-ddwyrain Cymru | 2003 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Conwy a Chlwyd | 2010 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Afon Dyfrdwy | 2010 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Llanw Clwyd | 2011 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy 2015-2021 | 2015 |

## Lleol

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ddinbych/ Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol | 2003 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | 2014 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan: Strategaeth Adnoddau Cynaliadwy a Rheoli Gwastraff | 2010 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022: 'Gweithio gyda'n gilydd er lles dyfodol Sir Ddinbych' | 2017 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych (wedi'i fabwysiadu) | 2013 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Ddinbych 2013-2017 | 2013 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol 2013 – 2023 | 2013 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd 2013-2017 | 2014 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych 2013 – 2017 | 2014 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Polisi Cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Sir Ddinbych | 2014 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Strategaeth Dai Sir Ddinbych 2016 - 2021 | 2015 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ddinbych | Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Ddinbych | Blynyddol |
| Cyngor Sir Ddinbych | Strategaeth Iaith Sir Ddinbych (2017 - 2022) | 2017 |
| Swyddfa'r Prisiwr Dosbarth | Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy | 2009 |
| Prifysgol Glyndŵr | Astudiaeth o'r Farchnad Dai Leol | 2013 |

Mae crynodeb byr o'r prif ystyriaethau isod.

***Datblygu Cynaliadwy***

- Sicrhau bod y cynllun datblygu wedi'i seilio ar egwyddor datblygu cynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.
- Hybu'r defnydd o ynni adnewyddadwy gan ystyried hefyd a fyddai'r defnydd o dechnolegau o'r fath yn gallu amharu ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol.
- Hyrwyddo'r angen i gynyddu effeithlonrwydd ynni, hyrwyddo'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn enwedig $CO_2$.
- Rhoi mwy o bwyslais ar atal, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff a glynu wrth dargedau cenedlaethol ar gyfer gwastraff
- Rheoli adnoddau'n gynaliadwy
- Sicrhau bod pobl yn byw o fewn terfynau amgylcheddol
- Sicrhau cymdeithas gadarn, iach a chyfiawn
- Sicrhau economi gynaliadwy
- Hyrwyddo llywodraethu da
- Defnyddio tystiolaeth wyddonol gadarn mewn ffordd gyfrifol.

***Y Newid yn yr Hinsawdd***

- Cydnabod her y newid yn yr hinsawdd a bod angen ystyried yr effeithiau anuniongyrchol o ddatblygu
- Hybu patrymau teithio cynaliadwy a lleihau allyriadau o gludiant
- Lleihau allyriadau $CO_2$
- Ystyried effeithiau economaidd y newid yn yr hinsawdd a cheisio lleihau'r goblygiadau
- Cymell pontio i economi carbon isel
- Ceisio sicrhau datgarboneiddio gan gynnal diogelwch ffynonellau ynni
- Hyrwyddo ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni
- Lleihau'r perygl o lifogydd o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd

***Bioamrywiaeth***

- Hyrwyddo dull cyfannol o warchod a gwella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol, yn enwedig safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol e.e. Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a chreu coridorau bywyd gwyllt.
- Diogelu bioamrywiaeth drwy warchod cynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau.
- Cynyddu nifer y cynefinoedd a cholli llai o gynefinoedd
- Lleihau diraddio priddoedd ac felly helpu i wella ecosystemau
- Diogelu tir a phriddoedd amaethyddol, gan leihau llygru.
- Hyrwyddo camau i fabwysiadu arferion rheoli gwastraff cynaliadwy a darparu cymorth ar gyfer cyfleusterau lleihau, casglu, trin a gwaredu gwastraff ac ar gyfer ailgylchu, compostio ac adfer gwastraff.

***Dŵr***

- Cydnabod y pwysau ar yr amgylchedd dŵr a pholisïau'r cynllun ar ddylunio a lleoli datblygiadau a rheoli dŵr yn gynaliadwy
- Cydnabod pwysigrwydd diogelu a gwella adnoddau dŵr a'u hansawdd
- Dylai cwmnïau dŵr ddarparu cyflenwad dŵr sicr i gartrefi a busnesau yn eu hardal
- Dŵr ar gyfer pob math o ddefnydd gan bobl a gwella'r amgylchedd dŵr
- Cyfyngu maint y sylweddau llygru sy'n mynd i ddŵr daear
- Cyfrannu at Statws Amgylcheddol Da (GES) ym moroedd y DU
- Sicrhau bod ardaloedd y môr a'r glannau'n cael eu diogelu a'u gwella mewn ymateb i bwysau cynyddol oddi wrth ddatblygu fel ynni adnewyddadwy a thwristiaeth

***Yr Amgylchedd***

- Diogelu nodweddion safleoedd a warchodir ac, yn bwysig, y cyd-destun i'r safleoedd hynny.
- Sicrhau na fydd mathau penodol o ddefnydd tir a datblygu yn rhwystro hygyrchedd mewn cefn gwlad agored ac ar dir comin.
- Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn cael ei warchod, yn cynnwys bioamrywiaeth, cynefinoedd a safleoedd dynodedig a warchodir (h.y. safleoedd AHNE, SoDdGA, AGA ac ACA, safleoedd archeolegol a henebion rhestredig)
- Cyfrannu lle bo modd at gyflawni amcanion y sir ar gyfer rheoli ansawdd aer a gwella ansawdd aer lleol a lleihau llygredd aer.
- Lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat a hyrwyddo gwelliannau mewn trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydweithiau teithio llesol.
- Lleihau'r perygl o lifogydd

***Cymdeithasol***

- Mae dulliau o ymgynghori â'r cyhoedd ac o alluogi'r cyhoedd i weld gwybodaeth sy'n hybu'r broses penderfynu yn hanfodol i ddatblygu'r cynllun newydd a phroses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

- Gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Darparu mynediad at dai fforddiadwy ac effeithlon o ansawdd da o'r math cywir i'r bobl briodol
- Sicrhau hygyrchedd i bawb at swyddi, cyfleusterau iechyd, addysg a hamdden, manwerthu, parciau a mannau agored a chyfleusterau cymunedol
- Lleihau troseddu, anhrefn ac ofn troseddu
- Hybu'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Lleihau llygredd sŵn
- Gwella dewis a hygyrchedd moddau trafnidiaeth cynaliadwy a lleihau'r angen i deithio
- Lleihau tlodi tanwydd drwy hyrwyddo effeithlonrwydd ynni
- Dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag ymarfer neu'n eu cymell i beidio ag ymarfer

***Economaidd***

- Sicrhau bod ardaloedd y môr a'r glannau'n cael eu diogelu a'u gwella mewn ymateb i bwysau cynyddol oddi wrth ddatblygu fel ynni adnewyddadwy a thwristiaeth
- Hybu datblygu ac adfywio economaidd yng Nghymru
- Cefnogi mentrau gwledig ac arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig
- Rhoi'r gallu i ddatblygu'r diwydiant twristiaeth gan ddiogelu ansawdd yr amgylchedd
- Hyrwyddo datblygu ac adfywio economaidd
- Cefnogi rôl twristiaeth mewn cyfrannu i'r economi leol

Bydd y themâu cynaliadwyedd allweddol yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n sail i'r Adroddiad Cwmpasu. Yn y bennod sy'n dilyn, byddwn yn edrych ar wybodaeth llinell sylfaen gyfredol, tueddiadau a materion sy'n codi yn Sir Ddinbych.

## 5. Gwybodaeth Llinell Sylfaen

5.1 Mae'r wybodaeth llinell sylfaen ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn wybodaeth feintiol ac ansoddol a data sy'n disgrifio sefyllfa'r sir o safbwynt cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

5.2 Mae gwybodaeth llinell sylfaen yn cyflawni dau ddiben: mae'n helpu i ddangos y materion y dylid canolbwyntio arnynt yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, ac mae'n darparu meincnod ar gyfer asesu perfformiad y Cynllun (a chywirdeb unrhyw ragfynegiadau). Yn ogystal â dangos y sefyllfa bresennol, mae'r data llinell sylfaen yn dangos, os oes modd, y sefyllfa yn y gorffennol a rhagamcanion ar gyfer y dyfodol, er mwyn dangos tueddiadau.

5.3 Mae nodweddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol llinell sylfaen y Sir wedi'u disgrifio yn Atodiad B. Wrth i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fynd drwy'r broses o asesu a monitro'r cynllun, bydd angen mireinio'r set o ddata a gwybodaeth llinell sylfaen. Bydd angen canfod a/neu gael rhagor o ddata a gwybodaeth feintiol a manwl gywir sy'n berthnasol i'r amcanion cynaliadwyedd.

*Cyfyngiadau'r data*

5.4 Mae tri anhawster yn codi wrth gasglu data llinell sylfaen ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd:

- Mae'n bosibl na fydd data am fater penodol ar gael neu wedi'u casglu.
- Amseroldeb y data – mae'n bosibl y bydd yr unig ddata sydd ar gael am fater penodol wedi dyddio. Fel arall, mae'n bosibl y bydd data cyfredol ar gael ond dim setiau data hanesyddol i ddangos tueddiadau.
- Lefel ddaearyddol y data sydd wedi'u casglu neu eu cyhoeddi – mae'r data mwyaf manwl ar y rhan fwyaf o faterion yn cael eu cyhoeddi ar gyfer y ward neu'r awdurdod lleol.

5.5 Yn ogystal â hyn, bydd y rhan fwyaf o'r data yn y llinell sylfaen wedi'u casglu gan gyrff allanol, ac i ddibenion sydd heb gysylltiad o reidrwydd ag asesiadau o gynaliadwyedd neu'r amgylchedd.

5.6 Bydd cyfyngiadau'r data yn effeithio ar y casgliadau y gellir dod iddynt ar sail y llinell sylfaen a monitro'r Cynllun a'r Arfarniad. Felly dylid cyfeirio hefyd yn y casgliadau hyn at wybodaeth ansoddol a barn arbenigol a phrofiad swyddogion a rhanddeiliaid.

## 6. Pennu Materion Cynaliadwyedd

6.1 Defnyddiwyd yr adnoddau canlynol i bennu Materion Cynaliadwyedd:

- Y Polisïau, Cynlluniau a Rhaglenni sy’n berthnasol i’r Cynllun Datblygu Lleol;
- Y wybodaeth llinell sylfaen a gasglwyd;
- Profiad swyddogion o faterion a gododd pan oeddent yn gweithio ar ran yr Awdurdod;
- Monitro’r Cynllun Datblygu Lleol a’r Arfarniad o Gynaliadwyedd dros y 3 blynedd diwethaf.

6.2 Mae’r materion a bennwyd drwy’r prosesau uchod wedi’u crynhoi yn y tabl isod. Mae nifer o’r materion yn cyfateb i’r rheini a nodwyd wrth baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ond maent wedi’u gwirio a’u diweddaru ar sail data cyfredol a oedd ar gael. Ni phennwyd unrhyw faterion newydd drwy’r broses monitro. Mae copïau o Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych[4]

[4] Cyngor Sir Ddinbych: Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol: http://www.denbighldp.co.uk/english/Annual%20monitoring%20Report_new.htm

Tabl 1: Materion cynaliadwyedd allweddol i'w hystyried ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir Ddinbych

**MATERION CYNALIADWYEDD CYMDEITHASOL**

CYMUNEDAU A LLESIANT

POBLOGAETH

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Disgwylir y bydd y boblogaeth yn cynyddu ar gyfradd sydd rhwng 120 a 410 o bobl y flwyddyn, a rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu rhwng 100 a 220 y flwyddyn.<br><br>Er bod allfudiad o bobl ifanc (20-24 oed) a gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau, nid yw hyn wedi arwain at boblogaeth lai. Mae mewnfudo gan grwpiau gweithio hŷn a'u teuluoedd wedi arwain at gynnydd net yn y boblogaeth. | Poblogaeth bresennol y Sir yw 93,734 (Cyfrifiad 2011). Wrth i'r boblogaeth gynyddu ac wrth i faint yr aelwydydd leihau, mae tuedd at gynnydd yn nifer yr aelwydydd, yn enwedig aelwydydd lle mae un pensiynwr. O ganlyniad i hyn, mae mwy o alw am dai. | Papur Gwybodaeth CSDd ar Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy.<br><br>Cyfrifiad 2011 | Anghenion am gyfleusterau gofal iechyd / gofal ychwanegol<br><br>Defnyddio nifer, math ac amrywiaeth y tai i ddenu poblogaeth iau er mwyn gwella'r proffil demograffig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gan fod poblogaeth yr henoed ar gynnydd, mae galw cynyddol am dai addas a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n debygol y bydd y gymhareb dibyniaeth yn creu goblygiadau i ddarparwyr gwasanaethau yn y Sir. | Ystyried effaith datblygiadau newydd ar gyfleusterau gofal iechyd ac addysg presennol. Mae cysylltiad agos rhwng hyn a newidiadau mewn poblogaeth a senarios twf a lleoliad datblygiadau newydd. Gallai hyn gael effaith gronnol ar gapasiti ac ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir. | | Gwella hygyrchedd i addysg, cyflogaeth, gwasanaethau iechyd, cartrefi a gwasanaethau cymunedol ar gyfer holl sectorau'r gymuned drwy foddau trafnidiaeth heblaw ceir preifat |

**IECHYD**

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Mae dosbarthiad cyffredinol y cyfleusterau gofal iechyd sylfaenol o fewn / o gwmpas y prif aneddiadau.<br><br>Mae'r mynediad daearyddol at wasanaethau yn wael yn neau'r Sir. | Mae data llinell sylfaen am ddarparu Gofal Iechyd Sylfaenol yn y Sir yn cynnwys darparu gwasanaethau gan:<br>~ 16 o bractisau Meddygon Teulu<br>~ 12 o bractisau deintyddol<br>~ 24 o fferyllfeydd<br>~ 14 o optegwyr offthalmig<br>Mae rhestrau'r meddygon teulu yn y Sir yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.<br><br>Oherwydd natur wledig y Sir a'r ffaith bod cyfleusterau wedi'u clystyru o amgylch y prif ganolfannau, mae'r tueddiadau'n debygol o barhau yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd effeithiau cronnol ar y gwasanaethau hyn sydd wedi'u cysylltu'n agos â newidiadau mewn poblogaeth/demograffeg. | Papur Gwybodaeth CSDd ar Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy<br><br>Asesiad Llesiant Sir Ddinbych | Gwella hygyrchedd i addysg, cyflogaeth, gwasanaethau iechyd, cartrefi a gwasanaethau cymunedol ar gyfer holl sectorau'r gymuned drwy foddau trafnidiaeth heblaw ceir preifat.<br><br>Ystyried yr angen am ddatblygiadau cysylltiedig â gofal iechyd yn y dyfodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn Sir Ddinbych, mae'r disgwyliad oes yn is na'r ffigurau ar gyfer Cymru ac ar gyfer Cymru a Lloegr ymysg gwrywod a benywod ar enedigaeth ac yn 65 oed. Nid yw'r bwlch rhwng disgwyliad oes gwrywod a benywod yn ddim ond 2.0 blwydd yn 65 oed (ar enedigaeth = 3.5). Yn gyffredinol, mae nifer y blynyddoedd o iechyd da i wrywod yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac ychydig yn is ar gyfer benywod | Ceir anghydraddoldeb iechyd yn yr ardal. Mae hyd oes pobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd yn y bumed ran fwyaf difreintiedig yn Sir Ddinbych yn fyrrach, ac mae eu blynyddoedd o iechyd da hefyd llai nag ar gyfer y bumed ran leiaf difreintiedig. Mae gwahaniaeth o fwy na 17 flynedd rhwng disgwyliad oes iach benywod yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Sir Ddinbych a'r rheini yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Gwelwyd darlun cymysg o ran disgwyliad oes dynion (- 0.4 blwydd) a menywod (+0.1 blwydd) rhwng 2011- 13 a 2012 - 14<br><br>Mae Adroddiad Rhaglen Mesur Plant Cymru 2014-2015 (Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn nodi bod 26.9% o blant 4-5 mlwydd oed yn Sir Ddinbych yn ordew neu dros eu pwysau (tua 287 o blant), sy'n uwch na'r ganran yng Nghymru gyfan o 26.2% | Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Asesiad Llesiant Sir Ddinbych | Gwella hygyrchedd i addysg, cyflogaeth, gwasanaethau iechyd, cartrefi a gwasanaethau cymunedol ar gyfer holl sectorau'r gymuned drwy foddau trafnidiaeth heblaw ceir preifat. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ceir ardaloedd yn Sir Ddinbych lle mae lefelau uchel o amddifadedd lluosog. Y pum ardal fwyaf difreintiedig yn y Sir yw Dwyrain y Rhyl; Gorllewin y Rhyl; De-orllewin y Rhyl; Meliden; Dinbych Uchaf / Henllan. Mae'n debygol y bydd amrywiad daearyddol yn parhau yn y sgorau ar gyfer Wardiau yn Sir Ddinbych a all effeithio ar gyfleoedd i ddatblygu. | Cyhoeddwyd y ffigurau diweddaraf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2015. Mae nifer y wardiau yn Sir Ddinbych sydd ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig wedi gostwng o 2 yn 2011 i 1 yn 2014. | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru<br><br>Asesiad Llesiant Sir Ddinbych | Gwella hygyrchedd i addysg, cyflogaeth, gwasanaethau iechyd, cartrefi a gwasanaethau cymunedol ar gyfer holl sectorau'r gymuned drwy foddau trafnidiaeth heblaw ceir preifat.<br><br>Gwella'r mannau presennol ar gyfer adloniant a hamdden a mannau agored presennol o ansawdd da a hyrwyddo camau i ddatblygu rhagor ohonynt a darparu cyfleoedd i bobl brofi a pharchu gwerth yr amgylchedd naturiol |

## TROSEDDU

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Mae dyluniad yr amgylchedd adeiledig yn gallu gwaethygu troseddu ac ofn troseddu.<br><br>Mae Gogledd Cymru yn lle mwyfwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld, ac mae lefelau'r troseddu seiliedig ar ddioddefwyr yn gostwng yn raddol. Mae'r troseddu a gofnodwyd yn y rhanbarth wedi gostwng 13% rhwng 2008/9 a 2012/13, a 43% o'i gymharu â'r lefelau yn 2002/03. Mae troseddu seiliedig ar ddioddefwyr yn y flwyddyn gyfredol 2013/14 wedi gostwng 3.3%. | Mae amrywiadau rhanbarthol arwyddocaol yn y lefelau hyn.<br><br>Mae tua 30% o'r holl droseddau a gofnodwyd yn y Sir wedi'u cyflawni yng Ngorllewin y Rhyl.<br><br>Canol Dinbych sydd â'r lefelau ail uchaf o droseddu yn y Sir.<br><br>Mewn mannau eraill yn y Sir, mae'r lefelau troseddu yn isel, yn enwedig yn Rhuddlan, Rhuthun, Llanelwy a Chorwen. | Asesiad Llesiant Sir Ddinbych | Argymell dulliau o ddileu troseddu drwy ddylunio mewn datblygiadau ac adeiladau.<br><br>Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar geisiadau cynllunio a briffiau datblygu penodol. |

## TAI

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Tanddarpariaeth sylweddol o dai newydd. Mae trafodaethau â datblygwyr a pherchnogion tir wedi dangos bod hyfywedd datblygiadau a chyfraddau cwblhau yn adlewyrchu'r galw hwn a hefyd y dirywiad economaidd cyffredinol a welwyd ar lefel genedlaethol. | Nid yw cyfraddau cwblhau tai wedi cyrraedd y lefel o 500 y flwyddyn sydd ei hangen i gyrraedd y targed ar gyfer twf yn y CDLl presennol mewn unrhyw flwyddyn cyn ac ar ôl ei fabwysiadu yn 2013. Cwblhawyd cyfanswm o 2,243 o | Papur Gwybodaeth CSDd ar Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy. | Ystyried sut i gwrdd ag anghenion tai'r gymuned, yn cynnwys gwahanol fathau o dai a'r angen am lety llai a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y pris tŷ cyfartalog (Ebrill 2016) yn Sir Ddinbych oedd £139,900, 5.8 gwaith yn fwy nag incwm cyfartalog cartrefi o £23,900 a 10.4 gwaith yn fwy nag incwm cyfartalog y cartrefi yn y chwartel isaf o £13,500. Mae prisiau wedi codi er 2009 ond nid ydynt wedi dychwelyd i lefelau 2007/8 (cyn y dirwasgiad)<br><br>Mae angen dynodedig am dai fforddiadwy ledled y Sir sydd heb ei ddiwallu. | anheddau er 2006 ar gyfartaledd o 204 y flwyddyn.<br><br>Wrth i'r boblogaeth gynyddu ac wrth i faint yr aelwydydd leihau, bydd cynnydd yn y galw am dai. Mae tuedd at gynnydd yn nifer yr aelwydydd, yn enwedig aelwydydd lle mae un pensiynwr.<br>Mae darparu tai fforddiadwy yn fater pwysig i'r Sir ac mae tueddiadau blaenorol yn dangos bod y ddarpariaeth ohonynt wedi bod yn wael. Cafwyd gwell darparu ers mabwysiadu'r CDLl a'r Strategaeth Dai ac ers trefnu i adnoddau ariannol fod ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.<br>Darparwyd 691 o unedau tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych er 2006. | Strategaeth Dai Sir Ddinbych<br><br>Asesiad Llesiant Sir Ddinbych<br><br>Cyfrifiad 2011<br><br>Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. | darpariaeth addas ar gyfer yr henoed.<br><br>Dylai math, capasiti a lleoliad y cyflenwad o dir ar gyfer tai fod yn briodol i gwrdd ag anghenion y boblogaeth.<br><br>Darparu tai fforddiadwy, mewn ardaloedd trefol a gwledig. |

## TIRWEDD A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Pwysau parhaus ar dirwedd o ansawdd da yn Sir Ddinbych oddi wrth ffactorau cysylltiedig â phobl a rhai prosesau naturiol | Ceir tirwedd o ansawdd da yn Sir Ddinbych sy'n cynnwys nodweddion o bwysigrwydd lleol a chenedlaethol yn y dirwedd. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>~Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd<br>~ Ardal o Harddwch Eithriadol (AHE)<br>~ Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol (RIGS) | Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol CSDd 2016 | Ystyried y ffyrdd gorau o ddiogelu a gwella asedau treftadaeth y Sir a chadw a gwella cymeriad y dirwedd ledled y Sir, yn enwedig yr AHNE |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ~ Tirweddau Hanesyddol<br>~ Ardaloedd cefn gwlad o ansawdd da. Mae'r rhain yn cynnwys tua 45% o arwynebedd tir y Sir ac yn lleoliad deniadol i nifer o aneddiadau. | | |
| Pwysau parhaus yn bygwth cyflwr safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a henebion | Ychydig iawn o Henebion Rhestredig sydd yn Sir Ddinbych o'i gymharu â nifer yr adeiladau rhestredig ac nid oes tystiolaeth o ddirywiad. Lluniwyd canllawiau ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte sy'n darparu cyngor a chanllawiau i ddatblygwyr dichonol | | Ceisio atal unrhyw ddirywiad yn y dyfodol yn ansawdd yr amgylchedd adeiledig, yn cynnwys adeiladau rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Pharciau a Gerddi Hanesyddol drwy bolisïau a chynigion priodol |
| Pwysau i leihau nifer yr Adeiladau Rhestredig sydd mewn perygl mawr. | Nid oes ffigurau ar gael am adeiladau a dynnwyd o'r categori mewn perygl nac am adeiladau y gellid eu hychwanegu iddo. Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf o adeiladau mewn perygl yn 2011. Bydd Cadw yn cynnal ail arolwg yn Sir Ddinbych. | | |

**Y GYMRAEG**

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych | Mae ffigurau o Gyfrifiad 2011 wedi dangos gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych o 26.7% i 24.6% er 2001. Yn yr un modd, mae canran y bobl sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi gostwng o 36% i 35.4%.<br><br>Er hynny, mae'r amcangyfrifon o arolwg blynyddol Llywodraeth Cymru (gweler StatsCymru, 'Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth') o bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ar sail awdurdodau lleol yn dangos bod canran y bobl 3 oed sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych wedi gostwng ychydig o 35.8% i 34.8% yn y cyfnod rhwng 2006 a 2015. | Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol CSDd 2016<br><br>Papur Gwybodaeth CDLl CSDd – Parchu Nodweddion Unigryw<br><br>Strategaeth Iaith Gymraeg CSDd | Bydd yn bwysig bod y gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn adlewyrchu diweddariadau o ganllawiau a pholisi cenedlaethol ar y Gymraeg, a bod y data ac ystadegau diweddaraf sydd ar gael yn cael eu hystyried |

# MATERION CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL

## ANSAWDD AER

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Pennu Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMAs) | Mae'r ansawdd aer presennol yn Sir Ddinbych yn dda, ac mae angen cynnal y safonau uchel hyn ar gyfer ansawdd aer.<br><br>Nid oes Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMAs) yn Sir Ddinbych | Adolygiad ac Asesiad Ansawdd Aer Cyngor Sir Ddinbych (2016)<br><br>Fforwm Ansawdd Aer Cymru (2004) | Diogelu a gwella ansawdd aer.<br><br>Ystyried effaith datblygiadau newydd a lleoliadau safleoedd ar ansawdd aer a'r posibilrwydd o ddynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Ddinbych, ac amcanion ansawdd aer Cymru. |
| Cynnydd posibl mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd a chynnydd yn y boblogaeth ac yn y defnydd o geir o ganlyniad i hyn. | Nid yw'r Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan sydd â'r dyraniad mwyaf ar gyfer tai yn y Sir wedi cael ei ddatblygu eto | CSDd | Bydd angen arfarnu effaith gronnol cynigion newydd ar y llinell sylfaen ar gyfer ansawdd aer yn yr AG.<br><br>Sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cael eu lleoli'n agos i ffynonellau llygredd aer |
| Cynhyrchu allyriadau carbon deuocsid o ganlyniad i ddibynnu ar ddefnydd o geir a faniau i deithio i'r gwaith | Mae 67% o'r gweithlu cyflogedig yn teithio i'r gwaith mewn car neu fan, a ffordd ddeuol yr A55 yw'r brif ffynhonnell allyriadau carbon. | CSDd, Adran Priffyrdd, (2017)<br>Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2013) | Hybu Teithio Llesol a mathau eraill o drafnidiaeth gynaliadwy |

**BIOAMRYWIAETH**

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Mae amgylchedd naturiol o ansawdd da yn y Sir sy’n cynnwys safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol sy’n bwysig ar gyfer gwarchod natur. | O fewn neu’n agos i’r Sir, mae 12 o safleoedd â dynodiad rhyngwladol, 32 o safleoedd cenedlaethol a 250 o safleoedd lleol. Mae bioamrywiaeth wedi dirywio yn y Sir dros y ganrif ddiwethaf. | Cyfoeth Naturiol Cymru | Diogelu a gwella’r holl safleoedd gwarchod natur a rhywogaethau a ddynodwyd ac osgoi eu niweidio neu eu darnio. |
| Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych yn pennu rhywogaethau a chynefinoedd allweddol y bydd yn ofynnol eu gwarchod drwy’r broses gynllunio. | Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych wedi pennu nifer o flaenoriaethau a mesurau i ddelio â’r dirywiad mewn bioamrywiaeth, yn cynnwys pennu rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaethol. | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol CSDd | Diogelu a gwella’r holl safleoedd gwarchod natur a rhywogaethau a ddynodwyd ac osgoi eu niweidio neu eu darnio.<br><br>Ceisio cwrdd â’r gofynion a’r targedau yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. |

**LLINIARU EFFEITHIAU'R NEWID YN YR HINSAWDD**

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Newid i economi carbon isel | Mae polisi cenedlaethol o blaid darparu ynni adnewyddadwy ac wedi pennu Ardal Chwilio Strategol (TAN 8) yn Sir Ddinbych lle bydd datblygiadau tyrbinau gwynt ar raddfa fawr yn cael eu hystyried yn dderbyniol. | TAN 8 | Ystyried dosbarthiad twf newydd a lleoliad a hygyrchedd gwasanaethau, gan hybu teithio llesol a moddau trafnidiaeth cynaliadwy.<br><br>Rhoi anogaeth i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff<br><br>Rhoi anogaeth i ddarparu technolegau ynni adnewyddadwy |
| Darparu technolegau ynni adnewyddadwy a'r heriau sy'n gysylltiedig â hynny | Cyfanswm y capasiti mewn Ffermydd Gwynt sydd ar waith ac wedi'i ganiatáu ar 31/03/2016 yw 189.45MW sy'n uwch na'r targed o 140MW yn TAN 8. | CSDd, Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 | Dylid cynnwys amcanion yn ymwneud ag allyriadau, lleihau carbon ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn yr AG. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yr angen i leihau allyriadau carbon deuocsid a lleihau cyfraniad cymdeithas i’r newid yn yr hinsawdd | Mae allyriadau carbon deuocsid yn Sir Ddinbych yn isel. Ceir y crynodiadau mwyaf yn ardaloedd trefol y Rhyl a Phrestatyn ac ar hyd llwybrau trafnidiaeth. | Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (NAEI) | Hybu Teithio Llesol a mathau eraill o drafnidiaeth gynaliadwy, yn cynnwys mentrau rhannu ceir a’r defnydd o geir trydan.<br><br>Rhoi anogaeth i gynnwys mesurau arbed ynni mewn datblygiadau a hyrwyddo newid mewn ymddygiad i ddefnyddio llai o ynni.<br><br>Cefnogi mwy o ddefnydd a darpariaeth o ynni adnewyddadwy<br><br>Rhoi anogaeth i leihau, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff a hybu hunangynhaliaeth ranbarthol |

**PRIDDOEDD**

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Byddai datblygu yng nghoedwigoedd yr ucheldir yn gallu erydu mwy o bridd | Mae’r Ardal Chwilio Strategol a ddyrannwyd yn TAN 8 wedi’i lleoli yng Nghoedwig Clocaenog. Nid yw’r | TAN 8 | Sicrhau bod mesurau i gadw a rheoli pridd yn cael eu hystyried mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwaith o ddatblygu Fferm Wynt Clocaenog wedi dechrau eto. | | datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr |
| Pwysau oddi wrth ddiwydiant yn llygru pridd | Nid oes diwydiant mawr sy'n llygru pridd yn gweithredu yn Sir Ddinbych. | Nid oes data ar gael ar hyn o bryd am briddoedd yn Sir Ddinbych | Diogelu a chadw priddoedd drwy reoli tir |
| Yr effaith ar briddoedd o ganlyniad i ddatblygiadau ar safleoedd maes glas | Mae Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi'i ddyrannu ar safle maes glas ond nid yw'r gwaith datblygu wedi dechrau eto. | Nid oes data ar gael ar hyn o bryd am briddoedd yn Sir Ddinbych | Dylid ystyried dull dilyniannol o ddefnyddio tir yn yr AG, gan hyrwyddo ailddatblygu ar safleoedd tir llwyd sydd heb nemor ddim gwerth o ran bioamrywiaeth. |
| Yr effaith ar ansawdd tir amaethyddol o ffactorau ffisegol, yn cynnwys yr hinsawdd a chyfansoddiad pridd. | Mae llifogydd yn digwydd yn amlach oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Llifogydd yn Llanelwy a Rhuthun yn 2012 . | Nid oes data ar gael ar hyn o bryd am briddoedd yn Sir Ddinbych.<br><br>TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd | Dylid cynnwys diogelu ansawdd a gweithrediadau pridd a chadw cynhyrchiant tir amaethyddol dros y tymor hir |

## MWYNAU A GWASTRAFF

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Mae angen sicrhau bod llai o wastraff yn codi a bod seilwaith digonol wedi'i ddarparu i allu ailgylchu, adfer a gwaredu gwastraff. | Mae maint y gwastraff sy'n codi wedi lleihau ychydig ers mabwysiadu'r CDLl. Mae Sir Ddinbych wedi cyrraedd ei thargedau lwfans tirlenwi bob blwyddyn ond mae'r gofod | TAN 21<br><br>Adroddiad Monitro Gwastraff Rhanbarthol (2013/4) | Rhoi anogaeth i leihau ac ailddefnyddio gwastraff a sicrhau bod digon o gapasiti ar gyfer cyfleusterau gwastraff. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | tirlenwi sydd ar gael yn parhau i ostwng. | | |
| Mae dosbarthiad adnoddau mwynol yn y Sir yn cyd-ddigwydd gan mwyaf ag ardaloedd lle mae tirwedd o ansawdd da ac mae cloddio'n gallu amharu ar gymunedau a'r amgylchedd. | Mae'r CDLl wedi pennu ardaloedd a ffefrir ar gyfer cloddio tywod a graean ond ni chafwyd ceisiadau ar eu cyfer. | Cyngor Sir Ddinbych | Diogelu ardaloedd lle na ddylid cloddio am fwynau a chyfyngu ar yr effeithiau ar eu hamgylchedd. |
| Mae mwynau'n adnodd cyfyngedig a rhaid eu diogelu. | Mae'r CDLl wedi pennu ardaloedd a ffefrir ar gyfer cloddio tywod a graean ond ni chafwyd ceisiadau ar eu cyfer. | Cyngor Sir Ddinbych | Diogelu adnoddau mwynol rhag datblygu a fyddai'n atal eu cloddio. |

**DŴR AC ANSAWDD DŴR**

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Nid oes unrhyw ystyriaethau pwysig ynghylch ansawdd dŵr yn gyffredinol yn y Sir. | Mae ansawdd dŵr wyneb a dŵr ymdrochi yn y Sir yn dda/da iawn. | CNC | Sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cael effaith negyddol ar ansawdd dŵr yn y Sir. |
| Mae nifer o ardaloedd yn y Sir mewn perygl oddi wrth lifogydd ar y glannau, o afonydd a dŵr wyneb. | Mae rhan helaeth o arfordir trefol y Sir mewn ardaloedd perygl llifogydd, yn ogystal ag aneddiadau mewndirol eraill. Bydd y newid yn yr hinsawdd yn peri bod llifogydd yn fwy difrifol ac yn digwydd yn amlach a rhaid osgoi neu liniaru'r risgiau hyn mewn | TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd<br><br>Mapiau Cyngor Datblygu CNC | Atal datblygu mewn ardaloedd lle mae perygl mawr o lifogydd, ei wneud yn llai agored i effaith llifogydd a sicrhau nad yw datblygiadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | datblygiadau newydd lle bo'n briodol. | Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Sir Ddinbych (2014) | newydd yn cynyddu'r perygl o lifogydd. |

# MATERION CYNALIADWYEDD ECONOMAIDD

## YR ECONOMI

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Mae canran y busnesau newydd sy'n cael eu cofrestru yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac mae canran y busnesau sy'n cael eu datgofrestru yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. | Mae'r ystadegau allweddol ar gyfer anweithgarwch economaidd, diweithdra a hawlio budd-daliadau ar gyfer Sir Ddinbych yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae hyn yn awgrymu bod economi'r Sir yn perfformio'n dda.<br><br>Er bod cyfraddau hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith ledled y Sir yn isel, fe geir amrywiadau rhanbarthol.<br><br>Mae canran yr hawlwyr yng Ngorllewin y Rhyl yn uchel iawn (8.8%) – mae hyn yn fwy na thair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mewn cyferbyniad â hyn, mae canran yr hawlwyr ym mwyafrif wardiau etholiadol Sir Ddinbych yn llai na 2%. | Papur Gwybodaeth Sir Ddinbych ar Hyrwyddo Economi Gynaliadwy<br><br>Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych<br><br>Cyfrifiad 2011 | Ystyried dulliau o gadw, ehangu a chreu safleoedd cyflogaeth yn y Sir<br><br>Sicrhau bod darpariaeth ddigonol o dir cyflogaeth o wahanol fathau, meintiau a lleoliadau yn y Sir<br><br>Ystyried dulliau o hyrwyddo a denu mewnfuddsoddi ac o ehangu cwmnïau cynhenid yn y Sir drwy ddarparu amodau deniadol a safleoedd deniadol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ers Ionawr 1996, cafwyd tuedd gyffredinol sy'n dangos gostyngiad yng nghanran yr hawlwyr yn y Sir | | |
| Natur dymhorol y gyflogaeth yn Sir Ddinbych gydag amrywiadau mawr rhwng misoedd y gaeaf a'r haf | Mae'r duedd hon yn debygol o barhau yn y dyfodol gyda gwastatáu graddol yng nghanran gyffredinol yr hawlwyr. | | Arallgyfeirio ac adfywio economi'r Sir, h.y. i ddatrys amrywiadau tymhorol mewn cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig ac arallgyfeirio twristiaeth. |

**TIR CYFLOGAETH**

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Mae cyfradd cymryd tir cyflogaeth yn Sir Ddinbych wedi bod yn gymharol isel. Rhwng 2007 a 2015 cymerwyd tua 3.0ha y flwyddyn.<br><br>Ar sail y polisi yn y CDLl a fabwysiadwyd, mae cyfanswm o 112.1ha yn wag ac ar gael yn ddichonol ar gyfer datblygu. Fodd bynnag, mae nifer o safleoedd yn cael eu cadw gan berchnogion tir er mwyn ehangu eu hunain, neu'n cael eu dal ar gyfer defnydd heblaw cyflogaeth neu maent mewn ardaloedd lle mae'r galw amdanynt yn fach. | Mae'r datblygu ar gyfer cyflogaeth yn y Sir wedi digwydd yn y Gogledd ac yn agos i goridor trafnidiaeth yr A55, yn enwedig ym Mharc Busnes Llanelwy.<br><br>Mae'r duedd hon yn debygol o barhau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae ceisiadau cynllunio diweddar yn dangos mwy o weithgarwch yn neau'r Sir a bod mwy o dir cyflogaeth yn cael ei gymryd. | Adroddiad Blynyddol Sir Ddinbych ar Argaeledd Tir ar gyfer Cyflogaeth | Sicrhau bod modd diogelu tir cyflogaeth pwysig rhag mathau eraill o ddatblygu.<br><br>Ystyried dulliau o hybu datblygu ar dir cyflogaeth, h.y. y cyfle i gael croes-gymhorthdal o fathau eraill o ddatblygu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r galw am dir cyflogaeth yn y dyfodol yn debygol o barhau yn agos i'r A55 ac yng Ngogledd y Sir. | | | Ystyried dileu cyfyngiadau polisi ar dir cyflogaeth gwag presennol.<br><br>Rhoi sylw i Weledigaeth/Cynnig Twf Gogledd Cymru. |

**TRAFNIDIAETH A HYGYRCHEDD**

| Materion Allweddol | Y Sefyllfa Bresennol a Thueddiadau | Ffynhonnell | Ystyriaethau ar gyfer Fframwaith yr AG |
|---|---|---|---|
| Oherwydd natur wledig y Sir, mae preswylwyr Sir Ddinbych yn debygol o barhau i ddibynnu ar geir. Mae 67% o boblogaeth gweithio'r Sir yn teithio i'r gwaith mewn car<br><br>Mae angen hyrwyddo newid moddol i fathau o drafnidiaeth sy'n gynaliadwy | Ni cheir problemau difrifol yng nghyswllt tagfeydd traffig yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn gyson â'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru.<br><br>Nid oes data ar gael ar hyn o bryd am dueddiadau mewn Llifau Traffig, cyfran y datblygiadau newydd sydd o fewn 500m i lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus neu gyfran y datblygiadau newydd sydd o fewn 500m i lwybrau beicio a cherdded. Rhagwelir y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i defnyddio ar gyfer monitro'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn y dyfodol.<br><br>Mae'n debygol y bydd lefel y teithio mewn ceir yn aros ar y lefel bresennol, gan fod y Sir yn un wledig gan mwyaf. | Cyngor Sir Ddinbych, Adran Priffyrdd, 2017 | Darparu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol drwy drafnidiaeth gynaliadwy, h.y. cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, mewn datblygiadau newydd.<br><br>Ceisio lleihau tagfeydd traffig lle bo modd<br><br>Hyrwyddo datblygu cymysg cynaliadwy sy'n lleihau'r angen i deithio mewn ceir ac yn cynyddu teithio drwy gerdded a beicio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cymryd camau i reoli'r galw am draffig a hybu newid o geir i fathau eraill o drafnidiaeth. |

## 7. Datblygu'r Amcanion Cynaliadwyedd

### 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Y dasg nesaf (Tasg A4) yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw datblygu fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd. Mae Fframwaith yr AG yn allweddol ar gyfer cwblhau'r AG gan ei fod yn cyfuno'r wybodaeth llinell sylfaen a'r materion cynaliadwyedd mewn offeryn systematig a hawdd ei ddeall sy'n rhoi'r gallu i rag-weld ac asesu effeithiau sy'n codi o weithredu'r CDLl. Mae'n rhoi cyfle i werthuso Amcanion presennol yr AG yng nghyd-destun yr Adroddiadau Monitro Blynyddol.

7.1.2 Er nad yw'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn galw'n benodol am ddefnyddio amcanion neu ddangosyddion yn y broses asesu amgylcheddol strategol, maent yn ffordd ddefnyddiol a chydnabyddedig o ddisgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau amgylcheddol ar gamau allweddol yn natblygiad y cynllun. Mae'r amcanion cynaliadwyedd ar wahân i amcanion y CDLl, er eu bod yn gallu gorgyffwrdd â nhw mewn rhai achosion. Wrth i'r asesiad fynd yn ei flaen, bydd mwy o orgyffwrdd rhwng amcanion y CDLl a'r AG.

### 7.2 Methodoleg

7.2.1. Lluniwyd set o amcanion, dangosyddion a thargedau ar gyfer asesu polisïau a chynigion yn y CDLl ar gyfer y tair agwedd ar ddatblygu cynaliadwy: cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

7.2.2 Mae amcanion yr AG yn deillio o wahanol gynlluniau, polisïau a rhaglenni a adolygwyd ar gyfer Tasg A1, casglu data llinell sylfaen (Tasg A2) a phennu materion cynaliadwyedd allweddol (Tasg A3). Mae amcanion yr AG wedi'u geirio fel eu bod yn adlewyrchu un newid cyfeiriad arfaethedig penodol ar gyfer y thema dan sylw ac nid ydynt yn gorgyffwrdd ag amcanion eraill. Maent yn cynnwys amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sydd wedi'u gosod gan gyrff allanol yn ogystal ag amcanion eraill sydd wedi'u dyfeisio'n benodol yng nghyd-destun y CDLl sy'n cael ei baratoi. Mae amcanion yr AG wedi'u geirio hefyd fel eu bod yn ystyried amgylchiadau a phryderon lleol sy'n codi o'r dadansoddiad o faterion cynaliadwyedd.

7.2.3 Gan mai adroddiad cwmpasu yw hwn ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd, dylid rhoi cryn bwys ar lwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, y Fframwaith AG blaenorol. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn darparu tystiolaeth o blaid cynnwys neu ddileu dangosyddion a thargedau blaenorol.

7.2.4 Mae'r fframwaith o amcanion, dangosyddion a thargedau arfaethedig ar gyfer yr AG a ddefnyddir i asesu'r CDLl newydd wedi'u dangos yn Nhabl 2 isod.

7.2.5 Er mwyn eich atgoffa, y pynciau yn Atodiad 1 i'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yw: Bioamrywiaeth, Poblogaeth, Iechyd Pobl, Planhigion

ac Anifeiliaid, Pridd, Dŵr, Aer, Ffactorau Hinsoddol, Asedau Materol, Treftadaeth Ddiwylliannol, yn cynnwys archeoleg a threftadaeth adeiledig, Tirwedd; a'r gydberthynas rhwng y ffactorau hyn.

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cynnydd CYMDEITHASOL** | | | |
| **SA Amcan 1: Sicrhau bod anghenion tai y gymuned wedi'u diwallu** | | | |
| A fydd yn cynyddu neu'n lleihau'r cyflenwad o dai sy'n briodol i'r angen lleol a fforddiadwyedd?<br><br>A fydd yn dylanwadu ar allu polisïau tai i ddarparu tai priodol i bawb oherwydd y lleoliad?<br><br>Lleihau nifer y cartrefi nad ydynt yn ffit? | Nifer y tai fforddiadwy a ddarperir y flwyddyn a chanran y caniatadau cynllunio preswyl cymwys lle negodwyd tai fforddiadwy | Cwrdd â gofyniad y polisi yn y CDLl newydd | Asedau Materol, Poblogaeth ac Iechyd Pobl |
| | Canran y tai gwag | Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn ar leihau nifer y tai gwag. | |
| | Canran y tai nad ydynt yn ffit ar sail Safon Ansawdd Tai Cymru | Cynnal safonau uchel mewn tai | |
| | Pris cyfartalog eiddo o'i gymharu ag enillion cyfartalog | Monitro'r gymhareb rhwng pris eiddo ac enillion | |
| | | | |
| **SA Amcan 2: Hyrwyddo iechyd a llesiant y gymuned er mwyn cwrdd ag anghenion poblogaeth Sir Ddinbych** | | | |
| A fydd yn gwella mynediad i gyfleusterau iechyd?<br>A fydd yn gwella iechyd pawb yn y tymor hir?<br><br>Hyrwyddo stiwardiaeth leol dros amgylcheddau lleol, er enghraifft, drwy | Mynegeion amddifadedd<br><br>Mynediad i'r rhyngrwyd | Ceisio monitro canran lai o'r boblogaeth sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig | Poblogaeth ac Iechyd Pobl |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| alluogi cymunedau i wella eu cymdogaethau?<br><br>Ystyriaeth eilaidd: lleihau llygredd aer? Sicrhau tai o safon weddus? A fydd yn cael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar iechyd?<br><br>A fydd yn arwain at effaith eilaidd fel gwella cerdded a beicio ar gyfer teithiau pwrpasol a/neu hamdden? A fydd yn gwella mynediad i fannau gwyrdd? | | | |
| | | | |
| **SA Amcan 3: Hyrwyddo cymdogaethau mwy diogel a chyfrannu at leihau ofn troseddu** | | | |
| | | | |
| A fydd yn meithrin ymdeimlad o ddiogelwch, yn lleihau troseddu neu ofn troseddu drwy fesurau anuniongyrchol fel cynnwys nodweddion dylunio mewn datblygiadau newydd?<br><br>A fydd yn ceisio cynyddu amrywiaeth neu argaeledd cyfleusterau cymunedol (mannau sy’n lleihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu manteisgar)? | Cyfraddau troseddu cyffredinol yn ôl math | Gostwng cyfraddau troseddu o flwyddyn i flwyddyn | Poblogaeth ac Iechyd Pobl |
| | | | |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| **SA Amcan 4: Gwella’r mannau presennol ar gyfer adloniant a hamdden a mannau agored presennol o ansawdd da a hyrwyddo camau i ddatblygu rhagor ohonynt a darparu cyfleoedd i bobl brofi a pharchu gwerth yr amgylchedd naturiol** | | | |
| | | | |
| A fydd drwy effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol yn gwella ansawdd ac amrywiaeth cyfleusterau hamdden, cefn gwlad a mannau gwyrdd hygyrch, parciau, mannau agored a gwarchodfeydd natur drwy leoli; gwell mesurau teithio llesol?<br><br>Effeithiau eilaidd: a fydd yn gwella mesurau diogelwch a diogeledd y gymuned? | Mynediad i fannau agored a chyfleusterau chwaraeon<br><br>Wardiau sydd o fewn 20% isaf y Parth Iechyd yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog | | Poblogaeth ac Iechyd Pobl |
| | | | |
| **SA Amcan 5: Gwella hygyrchedd i addysg, cyflogaeth, gwasanaethau iechyd, cartrefi a gwasanaethau cymunedol ar gyfer holl sectorau’r gymuned drwy foddau trafnidiaeth heblaw ceir preifat** | | | |
| | | | |
| A fydd drwy effaith uniongyrchol (darpariaeth newydd neu un well o lawer) neu drwy effaith anuniongyrchol (gwella cysylltiadau trafnidiaeth) yn hybu hygyrchedd cyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus/preifat? | Canran y datblygiadau preswyl newydd sydd o fewn pellter 40 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus i feddyg teulu, ysbyty, ysgol gynradd ac uwchradd, cyflogaeth a siopau. | | Poblogaeth ac Iechyd Pobl |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| Ysgolion, Cyfleusterau Iechyd a Chymdeithasol, Meithrinfeydd, Sefydliadau Addysg Bellach, Canolfannau Plant, Neuaddau Cymuned, Eglwysi, Neuaddau Eglwys a Chanolfannau Dydd, Llyfrgelloedd, Cartrefi Preswyl i'r Henoed, Mynwentydd, Mannau Agored, Cyfleusterau a Chanolfannau Chwaraeon, Llety â Chymorth; a Theatrau a Sinemâu.<br><br>A fydd yn darparu moddau trafnidiaeth cynaliadwy?<br>A fydd yn hyrwyddo moddau Teithio Llesol ac yn cyfyngu'r defnydd o geir.<br><br>A fydd yn gostwng lefelau traffig yn Sir Ddinbych yn ogystal â mesurau eraill nad ydynt yn ymyrryd i reoli/allgáu traffig (fel ansawdd yr amgylchedd i gerddwyr).(2il)<br><br>Ystyriaethau trechu tlodi - plant (mynediad i gyfleoedd chwarae)<br>- oedolion (Tai Fforddiadwy, Tai Amlfeddiannaeth, Adfywio, Cyflogaeth)<br>- tlodi tanwydd (yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni). | Canran y teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus?<br><br>Canran y teithiau ar feic?<br><br>Y defnydd o 'Deithio Llesol'.<br><br>Milltiroedd traffig ffyrdd a thagfeydd | | |
| | | | |
| **SA Amcan 6: Gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant, yn cynnwys asedau treftadaeth Sir Ddinbych.** | | | |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| A fydd yn gwarchod ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau a diwylliant (tirweddau, pobl, adeiladau, deunyddiau), asedau treftadaeth (adeiladau, safleoedd, arteffactau)?<br>1) yn uniongyrchol drwy ymyriadau polisi (e.e. darparu cyfleusterau, gwasanaethau, diogelu), neu<br>2) yn anuniongyrchol drwy warchod asedau diwylliannol a threftadaeth, yn enwedig mewn ystyr ffisegol (e.e. parchu cymeriad y ffurf adeiledig (adeiladweithiau pobl) a'r ffurf naturiol (prosesau daearegol/afonydd naturiol). | Cydymffurfiaeth â Strategaeth Iaith Gymraeg Sir Ddinbych 2017 - 2022 | Cynnal a chodi'r gyfran at y targed o gynnydd o 0.5% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg dros 15 mlynedd. | Poblogaeth ac Iechyd Pobl |
| | % ansawdd Henebion Rhestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Cadwraeth, Tirweddau Hanesyddol | I'w datblygu | |
| | Nifer yr adeiladau rhestredig ar y Gofrestr 'Adeiladau mewn Perygl' | Lleihau | |
| | Nifer yr henebion rhestredig ar y Gofrestr 'Henebion mewn Perygl' | I'w datblygu | |
| | Ardaloedd Cadwraeth â chynlluniau rheoli ar eu cyfer. | I'w datblygu | |
| | | | |
| **Adeiladu ECONOMI GYNALIADWY lle mae pawb yn gallu ffynnu** | | | |
| | | | |
| **SA Amcan 7: Hybu datblygiad ac adfywiad economaidd Sir Ddinbych, yn cynnwys darparu cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig.** | | | |
| A fydd yn helpu i gynnal ac ehangu'r amrywiaeth o weithgareddau creu cyfoeth? (manwerthu, hamdden, | Gwerth ychwanegol gros y pen ac am bob gweithiwr | I'w datblygu | Poblogaeth |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| adloniant a thwristiaeth yn ogystal â chyfleusterau busnes ac addysg)?<br><br>A fydd yn hybu arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig ac ansawdd ac atyniad cyffredinol yr ardal?<br>A fydd yn ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd?<br><br>Hybu a chefnogi diwylliant menter ac arloesi, yn cynnwys mentrau cymdeithasol? | Cyflogaeth/ diweithdra<br><br>Colli tir cyflogaeth i fathau eraill o ddefnydd tir. | | |
| | | | |
| **SA Amcan 8: Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi a chanolfannau gwledig** | | | |
| | | | |
| A fydd yn llwyddo i leihau nifer yr unedau gwag yng nghanol trefi ac mewn canolfannau gwledig yn ogystal ag ychwanegu at amrywiaeth canol trefi a chanolfannau gwledig drwy ddatblygu newydd?<br><br>A fydd yn gwneud canol trefi'n fwy bywiog drwy wella cludiant a mynediad y cyhoedd; gwella'r amgylchedd ffisegol; gwaith adfywio; a | Cyfraddau unedau gwag yng nghanol trefi | Cynyddu'r arwynebedd llawr gwag | Poblogaeth |
| | Ansawdd canol trefi (arolygon barn) | Cynnal a gwella ansawdd | |
| | % y newid yn nifer y busnesau sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW yng nghanol trefi ac mewn canolfannau gwledig | Cynyddu nifer y busnesau sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW | |
| | % y newid yn nifer y siopau, tafarndai a | Sefyll yn erbyn colli siopau pentref, tafarndai a swyddfeydd post mewn | |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| mesurau sy'n cymell preswylwyr ac ymwelwyr i aros yn hirach?<br><br>A yw'n ystyried yr angen i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd neu eu lliniaru? | swyddfeydd post mewn canolfannau gwledig | ardaloedd gwledig lle bo'n briodol | |
| **SA Amcan 9: Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau presennol mewn lleoliadau sy'n cael eu gwasanaethu gan foddau trafnidiaeth cynaliadwy** | | | |
| | | | |
| A fydd yn hybu defnydd effeithlon o dir ac adeiladau mewn lleoliadau sy'n cael eu gwasanaethu gan foddau trafnidiaeth cynaliadwy?<br><br>Yn golygu colli llai o dir maes glas?<br><br>A fydd yn cael effaith anuniongyrchol drwy wella hygyrchedd gan fod hyn yn gallu caniatáu defnydd mwy dwys o dir?<br><br>A yw'n ystyried gwerth rhai darnau o dir a ddatblygwyd o'r blaen i fywyd gwyllt? | Arwynebedd y tir halogedig a adferwyd. | % yr anheddau newydd i'w hadeiladu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen | Poblogaeth |
| | Nifer y datblygiadau sy'n cyrraedd dwysedd sydd rhwng 30 a 50 annedd yr hectar yng nghanol trefi ac mewn ardaloedd lle mae hygyrchedd da ar drafnidiaeth gyhoeddus | Yr holl ddatblygiadau'n ceisio cyrraedd dwysedd o 30 annedd yr hectar | |
| | Arwynebedd y tir diffaith | Lleihau o flwyddyn i flwyddyn | |
| | Nifer yr unedau eiddo gwag | Lleihau o flwyddyn i flwyddyn | |
| | | | |
| **SA Amcan 10: Diogelu ansawdd a gweithrediadau pridd a chadw cynhyrchiant tir amaethyddol dros y tymor hir** | | | |
| | | | |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| A fydd yn lleihau neu'n cynyddu'r tebygolrwydd o halogi pridd? Yn diogelu ansawdd pridd amaethyddol, yn enwedig ar y tir gorau a mwyaf amlbwrpas (graddau 1, 2 a 3A yn y dosbarthiad cenedlaethol)? Methodoleg rheoli adeiladu. | Arwynebedd yr holl dir halogedig | Lleihau'r arwynebedd halogedig o flwyddyn i flwyddyn | Pridd, Bioamrywiaeth, Tirwedd, Asedau Materol |
| | Cyfanswm yr arwynebedd a adferwyd drwy ddatblygiadau newydd | Adfer yr holl arwynebeddau halogedig at safon foddhaol pan fo angen drwy ddatblygiadau newydd | |
| | Methodoleg rheoli pridd | Lliniaru effeithiau ac ailddefnyddio/cyfnewid pridd | |
| | | | |
| **Diogelu'r AMGYLCHEDD yn effeithiol** | | | |
| | | | |
| **SA Amcan 11: Cynnal a gwella bioamrywiaeth/geoamrywiaeth y tu mewn a'r tu allan i safleoedd dynodedig ac osgoi eu difrodi neu eu darnio. Hyrwyddo cynefinoedd priodol i fywyd gwyllt mewn ardaloedd trefol a gwledig er mwyn gwarchod bioamrywiaeth yn well.** | | | |
| | | | |
| A fydd yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar safleoedd a ddynodwyd ar lefel genedlaethol neu ryngwladol a chynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd lleol (drwy ddarnio, agosrwydd neu aflonyddu)? | Arwynebedd a chyflwr safleoedd gwarchod natur statudol. Arwynebedd a chyflwr safleoedd gwarchod natur anstatudol | Dim effeithiau niweidiol ar SoDdGAau/ ACAau/AGAau | Bioamrywiaeth |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| A fydd yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol (RIGS) a safleoedd daearegol pwysig lleol eraill sydd heb eu dynodi?<br><br>A fydd yn defnyddio dulliau sy'n gwneud systemau naturiol yn fwy cydnerth, fel cysylltu cynefinoedd a ddarniwyd lle bo modd? (e.e. drwy fwy o gysylltedd neu lai o aflonyddu).<br><br>Yn arwain at greu cynefinoedd gan gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth?<br><br>Ystyried yn ogystal a fydd y polisïau'n arwain at gadw, gwella neu greu cynefinoedd. | Nifer y cynigion/polisïau sy'n arwain at golli neu ddifrodi safleoedd dynodedig | Dim colled na difrod ar safleoedd dynodedig ar bob lefel | |
| | Cyrraedd targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | Adroddiadau blynyddol ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol | |
| | Nifer y Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol (RIGS) | Dim gostyngiad yn eu nifer | |
| | Arwynebedd y tir sy'n cael ei reoli er mwyn gwarchod natur | Cynnydd yn arwynebedd y tir sy'n cael ei reoli o dan Gynlluniau Stiwardiaeth Amgylcheddol e.e. Tir Gofal | |
| | Nifer y cynlluniau datblygu sy'n cynnwys nodweddion ecolegol a ddyluniwyd | Cynnydd yng nghyfran y datblygiadau newydd sy'n cynnwys nodweddion ecolegol a ddyluniwyd | |
| | Systemau cynnal sydd ar waith ar gyfer cynefinoedd newydd mewn datblygiadau newydd | 100% | |
| | | | |
| **SA Amcan 12: Cadw a gwella cymeriad tirwedd ledled Sir Ddinbych, yn enwedig yr AHNE a Safle Treftadaeth y Byd.** | | | |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| A fydd yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol drwy ddiogelu neu wella cymeriad y dirwedd leol a nodweddion unigryw lleol, yn cynnwys nodweddion tirwedd hanesyddol (e.e. terfynau caeau a gwrychoedd/cloddiau).<br><br>A fydd yn ystyried yr effeithiau ar nodweddion arbennig yr AHNE a Safle Treftadaeth y Byd?<br>A fydd yn effeithio ar astudiaethau LANDMAP (ansawdd tirwedd ac ansawdd ardaloedd)?<br>A fydd yn arwain at y posibilrwydd o golli ansawdd/nifer y mannau llonydd?<br>A yw'n hyrwyddo dylunio o ansawdd da sy'n adlewyrchu nodweddion unigryw a deunyddiau lleol?<br>A fydd y datblygiad newydd yn gallu adfer nodweddion unigryw lleol? | Cymryd camau cadarnhaol i gryfhau'r broses ar gyfer deall dylunio o ansawdd da – yn gysylltiedig ag asesiadau o gymeriad tirwedd | Dim gostyngiad | Bioamrywiaeth |
| | | | |
| **SA Amcan 13: Diogelu a gwella ansawdd dŵr ac ansawdd dyfroedd mewndirol ar arfordirol** | | | |
| | | | |
| A fydd yn cael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gynnal a gwella ansawdd dŵr wyneb, dŵr daear a dyfroedd y glannau? A oes cyflenwad digonol? | % y cyrsiau dŵr a ddynodwyd ar sail eu hansawdd biolegol a chemegol da | I'w datblygu | Pridd |
| | Cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Dŵr Ymdrochi, a safonau'r | Cydymffurfio'n llwyr | |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| A fydd yn hybu ymagwedd gyfrifol at agweddau fel dŵr wyneb ffo oddi ar wynebau anhydraidd?<br><br>Agosrwydd y datblygiad i gyrsiau dŵr? Defnyddio, ailddefnyddio a chadw dŵr? | Faner Las Ewropeaidd ac UK Seaside | | |
| | Ansawdd dŵr daear | Cynnal ansawdd dŵr daear | |
| | Dosbarthiad dyfrhaenau a gwendidau sy'n perthyn iddynt | Cynnal ansawdd dŵr daear | |
| | Nifer yr achosion o lygredd dŵr mawr ac arwyddocaol o ganlyniad i ddatblygiadau newydd | 0% | |
| | % y caniatadau cynllunio sy'n cynnwys amodau ar gyfer cynnwys dyfeisiau arbed dŵr / ailgylchu dŵr | Lleihau'r defnydd cyffredinol o ddŵr mewn datblygiadau newydd | |
| **SA Amcan 14: Lleihau'r perygl o lifogydd a sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cynyddu'r perygl o lifogydd** | | | |
| | | | |
| A fydd yn lleihau'r perygl i bobl ac eiddo o lifogydd o afonydd a chyrsiau dŵr?<br><br>A fydd yn diogelu, yn gwella ac yn ehangu adnoddau seilwaith gwyrdd?<br><br>A fydd yn arwain at fwy/llai o lifogydd ac effeithiau eraill o'r newid yn yr hinsawdd e.e. drwy ddefnyddio | Datblygiadau newydd sy'n cynnwys systemau draenio trefol cynaliadwy | Yr holl gynigion am ddatblygiadau newydd yn dangos bod draenio cynaliadwy wedi'i ystyried a'i weithredu os oedd yn briodol. Ffynhonnell: CNC | Tirwedd |
| | Nifer y datblygiadau newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu | 0% | |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| systemau draenio cynaliadwy a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. | cyfer ar orlifdir C1 a/neu C2. | | |
| **SA Amcan 15: Diogelu a gwella ansawdd aer** | | | |
| | | | |
| A fydd yn lleihau neu'n cynyddu crynodiadau o lygredd o draffig neu ddiwydiant? Effaith ymyriadau polisi ar newidiadau a ragfynegwyd yn nifer y cerbydau traffig ffyrdd a'r effaith ar grynodiadau o lygryddion penodol ($NO_2$ a $PM_{10}$).<br><br>A fydd yn hybu'r defnydd o foddau trafnidiaeth mwy cynaliadwy?<br>Yn lleihau'r defnydd o gerbydau preifat?<br>Gweithgareddau diwydiannol mewn lleoliadau cynaliadwy (mor agos â phosibl at y gweithlu)?<br>Integreiddio gwell rhwng cynllunio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth?<br>Gwasanaethau allweddol lleol o fewn pellter cerdded/beicio?<br>Gwrthsefyll datblygu a fyddai'n cael effaith niweidiol ar ansawdd aer, yn enwedig drwy waethygu'r ansawdd aer presennol mewn ardaloedd lle mae problemau? | Newidiadau yn ardaloedd rheoli ansawdd aer Sir Ddinbych. | | Iechyd a Threftadaeth Ddiwylliannol |
| | | | |
| **SA Amcan 16: Cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (yn enwedig $CO_2$) drwy arbed mwy o ynni mewn datblygiadau a hybu darpariaeth a defnydd cynyddol o ynni adnewyddadwy** | | | |
| | | | |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| A fydd yn arwain at leihau neu gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i ba raddau? Mae hyn yn cynnwys ystyried allyriadau sy'n codi o adeiladau, newid mewn defnydd tir a thrafnidiaeth.<br><br>A fydd yn arwain yn uniongyrchol at leihau'r galw am ynni drwy hybu effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu o ffynonellau effeithlon?<br><br>A fydd hyn yn lleihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil?<br><br>A fydd yn cael effeithiau anuniongyrchol, e.e. lleoli'r datblygiad er mwyn lleihau pellterau teithio a ffactorau dylunio fel cyfeiriadedd yr adeilad (yn gysylltiedig ag ynni haul goddefol) a ffurf yr adeilad.<br><br>A fydd yn rhoi hwb uniongyrchol i'r defnydd o dechnolegau ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd a chynlluniau cynhyrchu adnewyddadwy? | Allyriadau blynyddol o nwyon tŷ gwydr yn ôl sector | I'w datblygu | Dŵr, Bioamrywiaeth, Poblogaeth, Iechyd Pobl |
| | Nifer yr adeiladau newydd sy'n rhagori ar ofynion y Rheoliadau Adeiladu. | 100% o anheddau newydd yn cyrraedd Safonau Cod Lefel 3 er 2010. 100% yr adeiladau masnachol newydd sy'n cyrraedd Safon Da Iawn BREEAM | |
| | Effeithlonrwydd Ynni y stoc dai. | I'w datblygu | |
| | Y capasiti ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod yn ôl math yn y Sir. | Cynnydd yn y nifer o flwyddyn i flwyddyn | |
| | Prosiectau adeiladu sy'n cynnwys ailgylchu ar y safle | Yr holl brosiectau datblygu mawr yn cynnwys ailgylchu ar y safle | |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| A fydd yn hyrwyddo’r defnydd o ddeunyddiau sy’n ymgorffori lefel ynni isel o ffynonellau cynaliadwy a deunydd o ffynonellau a chyflenwyr lleol ar gyfer adeiladu datblygiadau newydd? | | | |
| | | | |
| SA Amcan 17: Diogelu adnoddau mwynol rhag datblygu a fyddai’n atal eu cloddio | | | |
| | | | |
| A fydd yn rhwystro datblygu a fyddai’n atal cloddio mwynau?<br><br>A fydd yn hybu neu’n galw am ailddefnyddio agregau wrth adeiladu, a fydd yn dod â manteision o ran diogelu’r cyflenwad lleol dros gyfnod hir? (2[il]) | Maint y cronfeydd mwynau | Rheoli’r cronfeydd presennol yn gynaliadwy | Dŵr, Ffactorau Hinsawdd |
| | Ailddefnyddio agregau wrth adeiladu | 100% | |
| | Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd sy’n arwain at sterileiddio cronfeydd mwynau | 0% | |
| | | | |
| SA Amcan 18: Rhoi anogaeth i leihau, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff a hybu hunangynhaliaeth ranbarthol | | | |
| | | | |
| A fydd yn arwain yn uniongyrchol at gynhyrchu llai o wastraff ac ailgylchu mwy o wastraff ar sail y lefelau safonol disgwyliedig ar gyfer datblygu, e.e. drwy ddarparu cyfleusterau ailgylchu o fewn neu’n agos i gartrefi? | Tunelledd y gwastraff a gynhyrchir mewn cartrefi, drwy waith adeiladu a dymchwel ac o ddiwydiant | I’w datblygu | Bioamrywiaeth, Poblogaeth, Iechyd Pobl, Pridd |

| Ffyrdd o fesur y cynnydd ar bob amcan | Dangosydd(ion) Dichonol | Targed(au) Dichonol | Cysylltiadau â phynciau Asesu Amgylcheddol Strategol |
|---|---|---|---|
| A fydd yn ystyried lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff adeiladu?<br><br>A fydd yn cyfrannu at ddyrannu digon o dir yn Sir Ddinbych i hybu hunangynhaliaeth ranbarthol o ran rheoli a phrosesu gwastraff? | | | |
| | % y gwastraff o gartrefi, gwaith adeiladu a dymchwel ac o ddiwydiant a gaiff ei ailgylchu | I'w datblygu | |
| | | | |
| **SA Amcan 19: Rheoli camau i wrthsefyll ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd gan gyfeirio'n benodol at y perygl o lifogydd; yr effeithiau ar fioamrywiaeth; iechyd cyhoeddus.** | | | |
| A fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at allu'r lleoliad i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?<br><br>A fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at addasu i risgiau o'r newid yn yr hinsawdd ? | Nifer yr unedau eiddo sydd mewn perygl o lifogydd. | | Bioamrywiaeth, Poblogaeth, Iechyd Pobl, Dŵr, Ffactorau Hinsawdd |

## 8. Ymgynghori a'r Camau Nesaf

### 8.1 Ymgynghori

8.1.1 Bydd i ni gysylltu'n uniongyrchol drwy lythyr neu e-bost â'r rheini sydd wedi'u henwi ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol. Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol cyntaf, datblygwyd cronfa ddata gynhwysfawr a oedd yn cynnwys nifer mawr o sefydliadau ac unigolion a oedd wedi gofyn am gael eu hysbysu ar wahanol gamau'r broses.

8.1.2 Cysylltwyd yn uniongyrchol hefyd â'r canlynol:
Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned;
Cyrff Penodol sy'n Ymgyngoreion ac Adrannau Llywodraeth y DU;
Cyrff Cyffredinol sy'n Ymgyngoreion ac Ymgyngoreion Eraill

8.1.2 Ar gyfer aelodau'r cyhoedd nad ydynt hefyd yn perthyn i unrhyw un o'r grwpiau sydd wedi'u rhestru uchod, bydd y cyfleoedd i gymryd rhan a chamau'r ymgynghoriad yn cael eu hysbysebu drwy wefan Cyngor Sir Ddinbych, porth ymgynghori Sir Ddinbych, y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth yn yr holl lyfrgelloedd a siopau un alwad.

### 8.2 Canfyddiadau yr Adroddiad Cwmpasu AC drafft.

8.2.1 Cyflwynwyd sylwadau mewn cefnogaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Copi ynghlwm ATODIAD C.

### 8.3 Y Camau Nesaf

8.3.1 Bydd y canfyddiadau cyffredinol o broses Cwmpasu'r AG yn cael eu cofnodi yn Adroddiad yr AG. Bydd Adroddiad yr AG yn cyflawni holl ofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol sydd wedi'u dangos isod.

Bydd Adroddiad yr AG hefyd yn dangos sut mae proses yr AG wedi dylanwadu ar yr adolygiad o'r Cynllun a bydd yn rhoi disgrifiad llawn a thryloyw o'r broses.

8.3.2 Gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ynghylch cynnwys Adroddiad ar Arfarniad o Gynaliadwyedd:

- Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun neu raglen, ac o'r berthynas rhyngddo a chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill.
- Yr agweddau perthnasol ar sefyllfa bresennol yr amgylchedd a'r ffordd y mae'n debygol o esblygu heb weithredu'r cynllun neu raglen.
- Nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd y mae'n debygol y ceir effeithiau arwyddocaol arnynt.
- Unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu raglen yn cynnwys, yn benodol, y rheini sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol penodol, fel ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n unol â Chyfarwyddeb 79/409/EEC y Cyngor ar warchod adar gwyllt a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

- Yr amcanion ar gyfer diogelu'r amgylchedd a bennwyd ar lefel ryngwladol, lefel y Gymuned neu lefel yr Aelod-wladwriaeth sy'n berthnasol i'r cynllun neu raglen a'r ffordd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hystyried wrth ei baratoi.
- Yr effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd, yn cynnwys effeithiau tymor byr, canolig a hir, effeithiau parhaol a dros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau eilaidd, cronnol a synergeddol, ar faterion fel – bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd pobl, anifeiliaid, planhigion, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol, tirwedd a'r gydberthynas rhwng y materion hyn.
- Y mesurau a ragwelir i atal, lleihau a gwrthbwyso i'r graddau mwyaf posibl unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr amgylchedd o ganlyniad i weithredu'r cynllun neu raglen.
- Amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis yr opsiynau a drafodwyd, a disgrifiad o'r dull asesu yn cynnwys unrhyw anawsterau a gafwyd wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol.
- Disgrifiad o'r mesurau a ragwelir mewn perthynas â monitro.
- Crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr Adroddiad Amgylcheddol, sydd wedi'i disgrifio uchod.

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych

## Arfarniad o Gynaliadwyedd (yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol)

## Adroddiad Ailystyried – Atodiad C Ymateb i'r Ymnghoriad

Rhagfyr 2017

| ATODIAD C: Ymateb i'r Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (Awst 2017) | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Mater / Issue** | **Representor** | **Ymateb y Cyngor / Council Response** | **Newid Arfaethedig /Changes Proposed** |
| We note the confirmation that the replacement Plan will need to comply with the requirements of the Well-being of Future Generations (Wales) Act and that the updated SA/SEA Assessments will also need to be revised accordingly. | Natural Resources Wales | Comments noted. | Consider amending the structure of the Sustainability Appraisal report to correspond with the Well-Being of future Generations (Wales) goals. |
| We note that the Annual Monitoring of the SA Framework concludes that the LDP is delivering in terms of sustainable development in line with SA objectives and that therefore it is considered that the SA objectives all remain relevant to the current adopted LDP. No developments have been granted which have undermined the objectives set out as part of the LDP process. | Natural Resources Wales | Comments noted. NRW do not consider it necessary to amend SA objectives. | |
| We welcome that the baseline information has been updated where available and new and additional data included that provides uptodate baseline data to assist in monitoring and reconsidering the SA as part of the replacement LDP | Natural Resources Wales | Support welcomed. Sources of baseline information will continue to be researched and evaluated throughout the process of Plan writing. | None required. |
| We are satisfied with the review of relevant plans, programmes and policies that has taken place and note that the list may evolve | Natural Resources | Support welcomed. Agree to evolve the list as plans develop. Adoption of Denbighshire Corporate | None required. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| as the plan develops. | Wales | Plan (2017 – 2022) an example to be incorporated. | |
| We note the resources that have been used to identify sustainability issues. | Natural Resources Wales | Support welcomed. Resource commitment will be continued throughout the process of Plan writing. | None required. |
| NRW is satisfied with the SA Scoping Report and consider that it can be used to inform the SA Report as part of the replacement LDP. | Natural Resources Wales | Support welcomed. | None required. |
| | | | |

Atodiad G

# Sir Ddinbych
# Cynllun Datblygu Lleol
# 2006 - 2021

DRAFT

## Arfarniad Rheoliadau Cynefin
## (Diweddariad Rhagfyr 2017)

Cynllunio Strategol a Thai
Rhagfyr 2017

**Cynnwys**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Adolygiad o safleoedd Ewropeaidd | 2 |
| 3. | Sgrinio dyraniad safleoedd y CDLl | 4 |
| 4. | Ansawdd aer | 5 |
| 5. | Crynodeb | 7 |
| | Atodiad 1 – Sgrinio dyraniad safleoedd y CDLl | 8 |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Dechreuodd Cyngor Sir Ddinbych y broses o adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol 2016 – 2021 mabwysiedig (CDLl), gyda golwg ar ddatblygu Cynllun newydd. Yn ei gam cychwynnol, nod y Cyngor yw canfod newidiadau mewn polisi cenedlaethol, dogfennau strategol a thystiolaeth sydd newydd ddod i'r amlwg sy'n golygu fod angen neu sy'n cadarnhau newidiadau i'r CDLl yn y dyfodol.

1.2 Roedd yr Arolygwyr Cynllunio a oedd yn arwain ar archwilio'r CDLl DRAFFT yn fodlon fod y ddogfen yn cydymffurfio â 'Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010'. Cafodd pob un o'r cynigion cynllunio eu hasesu'n gynhwysfawr o safbwynt tebygrwydd effeithiau niweidiol sylweddol ar nodweddion cymhwysol safleoedd Ewropeaidd oddi mewn i'r Sir a (lle'n briodol) y tu allan iddi drwy gydol y broses o lunio'r Cynllun.

1.3 Pwrpas yr adrannau canlynol yw ailymweld ag asesiadau blaenorol gyda'r nod o adnabod newidiadau posibl i'r safleoedd Ewropeaidd perthnasol (ardal, nodweddion cymwys, perthnasedd i asesiadau yn y dyfodol, ayb.) a sgrinio dyraniadau safleoedd unigol o ran effeithiolrwydd y mesurau canslo, osgoi neu liniaru yn y CDLl. Ceir gwybodaeth ychwanegol am ansawdd aer gan fod ei effaith ar nodweddion cymwys Ardal Cadwraeth Arbennig Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd yn cael ei amlygu fel ardal lle dylid bod yn ofalus wrth gynnig isadeiledd ffyrdd newydd yn ne'r Sir.

1.4 Nid yw'r ddogfen hon yn bodloni gofynion cyfreithiol a gweithdrefnol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) llawn ar gyfer cynllun lleol. O ran ei natur mae'n paratoi ar gyfer mwy o waith ARhC, i gefnogi asesu gwaith sydd ar fin ymddangos ar CDLl newydd gyda gwybodaeth a ddiweddarwyd. Serch hynny mae'r Cyngor yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd a chyrff â diddordeb i gyflwyno'u sylwadau er mwyn dylanwadu ar ddrafftio dogfennaeth ARhC yn y dyfodol.

## 2. Adolygiad o safleoedd Ewropeaidd

2.1 Y cam cyntaf wrth wneud Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i Gynllun Datblygu Lleol newydd neu ddiwygiedig yw adnabod safleoedd Ewropeaidd a safleoedd Ramsar a



DRAFT

allai gael eu heffeithio'n niweidiol gan gynigion datblygu unigol. Mae'n bwysig adnabod y nodweddion o ddiddordeb a'u hamcanion cadwraeth.

2.2 Mae'n rhaid i adolygu polisi lleol gael ei wneud ar sail tystiolaeth ddiweddar ac yn unol â pholisi cenedlaethol a dogfennau strategol eraill. Yn yr un modd, mae unrhyw ARhC yn mynd i gael ei wneud ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i'r safleoedd Ewropeaidd a Ramsar perthnasol. Pwrpas yr adran hon yw canfod unrhyw newidiadau i'r safleoedd hynny a wnaed ers i CDLl Sir Ddinbych gael ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2013. Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o bob un o'r safleoedd Ewropeaidd ac un safle Ramsar a gafodd eu hystyried drwy gydol y broses flaenorol. Gellir gweld manylion y safleoedd ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (www.jncc.defra.gov.uk).

Tabl 1: Safleoedd Ewropeaidd

| Enw'r Safle | Dynodiad* |
|---|---|
| Llwyn | ACA |
| Coedwigoedd Dyffryn Elwy / Elwy Valley Woods | ACA |
| Coedwigoedd Dyffryn Alun / Alyn Valley Woods | ACA |
| Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid / River Dee and Bala Lake | ACA |
| Mynydd Helygain / Halkyn Mountain | ACA |
| Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd / Berwyn and South Clwyd Mountains | ACA |
| Safleoedd Madfall Glannau Dyfrdwy a Bwcle | ACA |
| Safleoedd Madfall Johnstown | ACA |
| Aber Dyfrdwy / Dee Estuary | ACA |
| Aber Dyfrdwy / Dee Estuary | AGA |
| Y Berwyn | AGA |
| Bae Lerpwl / Liverpool Bay | AGA |
| Aber Dyfrdwy / Dee Estuary | Ramsar |

* ACA – Ardal Cadwraeth Arbennig;
AGA – Ardal Gwarchodaeth Arbennig;
Ramsar – Safleoedd sy'n cael eu gwarchod o dan Gadwraeth Gwlyptiroedd (Ramsar 1971)

2.3 Daeth Bae Lerpwl yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig 'lawn' yn 2011; ar ôl i'r Cyngor ddechrau gweithio ar y CDLl Adnau a chwblhau'r ARhC cyntaf. Gan fod yn rhaid i Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ymgeiswyr gael eu trin at ddibenion ARhC fel pe baent eisoes yn safleoedd wedi'u dynodi'n llawn, talodd y Cyngor sylw at yr holl nodweddion o ddiddordeb a'r amcanion cadwraeth ar gyfer yr ardal hon drwy gydol y broses o lunio'r Cynllun.

2.4 Yng Ngaeaf 2016, ymgynghorodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England â'r cyhoedd a chynigiwyd estyniad i AGA Bae Lerpwl. Y bwriad yw ymestyn yr ardal AGA tua'r gorllewin ar hyd rhan ganolog traeth Prestatyn. Gan gadw'r cynnig mewn cof, bydd y Cyngor yn adolygu hyd a lled gofodol y Parth gwarchod twristiaeth arfordirol (polisi CDLl PSE 13) rhwng Y Rhyl a Phrestatyn sy'n gorwedd reit i'r de o'r traeth.

2.5 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n adolygu'r wybodaeth sydd ar gael ar ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun. Mae'n debyg o gyhoeddi diweddariad yn Hydref 2017. Golyga hyn y bydd yn rhaid i asesiadau yn y dyfodol ystyried yr wybodaeth honno; yn enwedig o safbwynt cynigion cynllunio ar hyd ffin ddwyreiniol y Sir.

2.6 Mae ACA 'Safleoedd Madfall Johnstown' a 'Safleoedd Madfall Glannau Dyfrdwy a Bwcle' yn ddau safle Ewropeaidd a ystyriwyd yn flaenorol yn yr ARhC. Maent wedi'u lleoli yn ardaloedd trefol CBS Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint; gydag isafswm pellter o 5,000m o unrhyw ffin Sirol â Sir Ddinbych. Y nodwedd ymgymhwyso yw'r Fadfall Ddŵr Gribog. Gall bygythiadau i'w chynefin gael eu hachosi'n fras gan (1) datblygiad sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio; (2) gweithgareddau dynol niweidiol sy'n effeithio ar y cynefin; (3) gweithgareddau sy'n golygu difrodi neu lenwi mewn ffos neu bwll a gyflenwir gan ffos, peipen neu gwrs dŵr; neu (4) bygythiadau drwy stocio â physgod. [Ffynhonnell: Langton, T.E.S., Beckett, C.L., and Foster, J.P. (2001), Great Crested Newt Conservation Handbook, Froglife, Halesworth; p.40]

2.7 Dadleuir na fyddai unrhyw ddatblygiad a amodir gan ddarpariaethau Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn debygol o fod yn fygythiad i'r cynefinoedd hyn i'r Fadfall Ddŵr Gribog o ganlyniad i'r amgylchedd adeiledig sydd o'u hamgylch, diffyg awdurdod mewn awdurdodau cynllunio lleol cyfagos, a'r pellter i ffin y Sir. Anaml y mae Madfallod Dŵr Cribog yn mudo mwy na 1,000m o'u pwll bridio. [Ffynhonnell: Langton, T.E.S., Beckett, C.L., and Foster, J.P. (2001), Great Crested Newt Conservation Handbook, Froglife, Halesworth; p. 10] Awgrymir felly nad yw cynigion Cynllun unigol yn cael eu sgrinio i weld pa mor debygol yw effeithiau sylweddol ar ACA 'Safleoedd Madfall Johnstown' ac ACA 'Safleoedd Madfall Glannau Dyfrdwy a Bwcle' o ran eu hunain. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r ddau safle Ewropeaidd ddal gael eu hystyried fel rhan o effeithiau cronnus posibl wrth asesu cynigion cynllunio mewn awdurdodau cyfagos.

## 3. Sgrinio dyraniad safleoedd y CDLl

3.1 Cafodd pob polisi lleol a dyraniadau safle eu sgrinio gyda golwg ar effeithiau sylweddol tebygol ar nodweddion ymgymhwysol safleoedd Ewropeaidd sawl gwaith yn ystod y broses o lunio'r Cynllun. Mae'r Cyngor yn hyderus fod y gwahanol fathau o fesurau osgoi, canslo neu liniaru sydd yn y CDLl neu wedi'u sicrhau gan gyrff allanol yn 'addas i'r diben' ac yn weithredol lle bo angen.

3.2 Pwrpas sgrinio dyraniadau safle'r CDLl yw ystyried pa mor effeithiol yw'r mesurau hynny ac, os oes modd, a oes yna ffyrdd o'u gwella neu eu cryfhau. Mae'r tabl sgrinio llawn yn Atodiad 1. I grynhoi, mae tri math o weithgaredd a allai achosi effeithiau sylweddol tebygol: (1) newidiadau i swm a/ neu ansawdd y dŵr; (2) pwysau hamdden gan ddatblygiad preswyl newydd; (3) effeithiau ansawdd aer andwyol; neu (4) 'effeithiau mewn cyfuniad' gyda chynlluniau datblygu awdurdodau lleol cyfagos. Trafodir effeithiau ansawdd aer yn adran 4. Waeth beth yw canlyniadau'r sgrinio, rhaid nodi fod nifer yr anheddau a gafodd ganiatâd cynllunio hyd yma, dipyn yn is na'r lefelau twf a ragwelir. Er enghraifft, fel o fis Mai 2017, nid oedd Safle

DRAFT

Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi cyflwyno unrhyw aneddiadau. Mae'n elwa ar gais cynllunio amlinellol gyda nifer o fanylion dal angen cael eu cymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol.

3.3 Caiff newidiadau i swm a/ neu ansawdd y dŵr eu rheoli drwy gynnwys ffosydd cerrig neu strwythurau draenio mewn datblygiadau newydd. Os yn briodol, ochr yn ochr â'r caniatâd cynllunio, ceir nodyn datblygwr yn amlinellu'r angen i gael caniatâd pellach gan Dŵr Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru cyn dechrau'r datblygiad. Mae'r ddau gorff yn ymgynghoreion statudol ar geisiadau cynllunio ac yn rhoi cyngor ar ba mor ddigonol y mae'r mesurau a gynigir.

3.4 Mae'r Cyngor wedi gwneud arolwg o fannau agored i hamddena yn y Sir. Roedd yn cynnwys llefydd chwarae, caeau chwarae, mannau gwyrdd amwynder, parciau a gerddi cyhoeddus a mannau gwyrdd naturiol a lled naturiol ar gyrion anheddau. Bydd y canlyniadau nid yn unig yn cael eu defnyddio i wella ansawdd y mannau sy'n bodoli'n barod ond fel sail hefyd i gynhyrchu nodyn canllaw cynllunio ategol ar ddarpariaeth llefydd agored mewn datblygiadau preswyl. Mae darparu llefydd o ansawdd uchel ar gyfer chwaraeon neu ddibenion hamdden o fewn anheddau yn codi'r cynnig lleol ac yn golygu fod llai'n tramwyo trwy gefn gwlad agored a safleoedd Ewropeaidd. Mae llwybrau sydd wedi'u cynnal yn dda a'u harwyddo yn arwain cymunedau lleol drwy goedwigoedd a chaeau cyfagos, ac yn gymorth i brofi'r amgylchedd naturiol mewn ffordd sy'n cael ei rheoli heb niweidio cynefinoedd a rhywogaethau dan warchodaeth.

3.5 Ni ddangosodd yr ymarfer sgrinio unrhyw effeithiau 'mewn cyfuniad'. Rhaid cadw mewn cof, fodd bynnag, fod rhai awdurdodau cynllunio cyfagos yn y broses o symud eu cynllun datblygu lleol tuag at ei fabwysiadu neu maent hwythau hefyd yn y broses o'i ddiwygio. Er eu bod yn debygol o ymgynghori â Chyngor Sir Ddinbych ar eu newidiadau arfaethedig, mae'n rhaid i'r ARhC nesaf astudio'n ofalus effeithiau'r cynigion datblygu arfaethedig allanol ar yr amgylchedd naturiol yn y Sir.

## 4. Ansawdd Aer

4.1 Gall effeithiau sylweddol tebygol ar nodweddion cymwys safle Ewropeaidd gael eu hachosi nid yn unig gan ddatblygiad neu weithgareddau dynol ond hefyd gan newidiadau i ansawdd aer ardal; yn enwedig os eir yn uwch na lefelau llwyth critigol mewn nwyon detholedig. Dangosodd sgrinio blaenorol o Gynllun Datblygu Lleol Drafft Sir Ddinbych 2006 – 2021 bryderon am effeithiau niweidiol ar nodweddion cymwys 'Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' a achoswyd gan waddodiad uchel o nitrogen (N dep).

4.2 Gall llygredd aer effeithio ar ecosystemau mewn amryw o ffyrdd ar raddfa leol, ranbarthol a byd-eang. Gall crynodiadau yn yr aer a gwaddodi gronynnau ar lystyfiant ddifrodi'r llystyfiant yn uniongyrchol neu effeithio ar gynhyrchiant iechyd planhigion. Bydd ansawdd aer yn cael ei ystyried fel arfer o safbwynt ocsidau o nitrogen (Nox), gwaddod nitrogen (N dep) a gwaddodion crynodiad eraill. Gellir ei ddosbarthu'n 'uniongyrchol', h.y. gellir ei briodoli i lygrydd/ffynhonnell ffisegol, neu

DRAFT

yn ‘wasgaredig’, h.y. yn rhan o gyfansoddiad cyffredinol yr aer mewn ardal arbennig. Ni ellir priodoli llygredd aer gwasgaredig i lygryddion unigol, mae’n anodd canfod y tarddiad a sefydlu cadwyn o achos ac effaith.

4.3 O safbwynt cynllunio defnydd tir, y ddwy brif ffynhonnell ar gyfer effeithiau ansawdd aer ‘uniongyrchol’ yw ardaloedd cyflogaeth / diwydiannol a rhwydweithiau trafnidiaeth, yn bennaf ffyrdd. Adeiladwyd cyfleuster newydd i gwmni argraffu lleol yn Llangollen. Craffwyd yn ofalus ar y cais cynllunio gan y Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru am effeithiau posibl ar ddau safle Ewropeaidd (‘Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid’) a ‘Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’). Yn amodol ar osod mesurau lliniaru, rhoddodd y Cyngor ganiatâd cynllunio i’r adeilad fyddai’n cymryd lle’r ‘hen’ ffatri.

4.4 Mae llwybrau trafnidiaeth newydd yn newid cyfeiriad a llif y traffig mewn ardal, ac mae hyn yn effeithio ar ansawdd yr aer. Mae cynyddiadau mewn crynodiad yn digwydd fel arfer o fewn 200m i brif ffordd, er y gellir mesur cyfraniad bychan o allyriadau cerbydau ar bellter pellach. Y rhai sy’n peri mwyaf o bryder i lystyfiant sensitif yw ocsidau o nitrogen (NOx) a gwaddod nitrogen (N dep). Dangosir y ffigyrau diweddaraf sydd ar gael o’r wefan System Llygredd Aer (APIS) isod ar gyfer ACA ‘Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’.

Tabl 2: Ansawdd yr aer yn ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd 2013 - 2015

| Nodweddion o ddiddordeb | Llwyth Critigol N dep (kh/ha/bl) | Lefel Critigol (µg NOx/m3 cymedr blynyddol) | APIS - N dep (kg/ha/bl) | APIS – No$_x$ (µg/m$^3$) |
|---|---|---|---|---|
| Gorgorsydd | 5 – 10 | 30 | 22.54 | 5.38 |
| Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant chasmophytig | 5 – 10 | 30 | 22.54 | 5.38 |
| Sgrïau calchaidd a calchshist o’r lefelau mynyddig i alpaidd | 5 – 15 | 30 | 22.54 | 5.38 |
| Siglennydd trosiannol a chorsydd crydwellt | 10 – 15 | 30 | 22.54 | 5.38 |
| Gweundiroedd sych Ewropeaidd | 10 – 20 | 30 | 22.54 | 5.38 |
| Glaswelltiroedd sych lled-naturiol ac ansoddion prysgdir ar swbstradau calchaidd | 15 – 25 | 30 | 22.54 | 5.38 |

* - Lefel llwyth critigol safonol a osodwyd ar gyfer safleoedd natur rhyngwladol a chenedlaethol
Ffynhonnell: Cynllun Rheoli Craidd i safleoedd Ewropeaidd, gwefan APIS (fel ar 05/05/2017)

4.5 Mae’r tabl uchod yn dangos fod y gwaddod nitrogen (N dep) gryn dipyn yn fwy na’r llwyth critigol perthnasol yn ACA ‘Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’ ond nid felly’r lefel critigol mewn ocsidyddion nitrogen (NOx) i lystyfiant. Ocsidyddion nitrogen sy’n cyfrannu fwyaf at lygredd aer o fewn 200m i ymyl y ffordd. Gan nad oes prif ffyrdd yn y safle Ewropeaidd hwn, ac nad oes cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol, ni fydd y gwaddod nitrogen presennol yn cael ei effeithio arno’n sylweddol gan y lefelau isel o NOx.

DRAFT

## 5. **Crynodeb**

5.1 Pwrpas ymarfer sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) oedd ailymweld ag Asesiadau a wnaed yn flaenorol o safbwynt Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl); adnabod newidiadau i safleoedd Ewropeaidd unigol; ac edrych ar effeithiolrwydd mesurau osgoi, canslo neu liniaru blaenorol. Nid ei fwriad oedd cydymffurfio â methodoleg ARhC a'r gofynion deddfwriaethol ond gosod y fframwaith ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

5.2 Nid oes yr un o'r polisïau a'r cynigion cynllunio lleol sydd yn y CDLl wedi achosi effeithiau sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae'r mesurau a gynigir i wrthbwyso digwyddiadau (lle bo angen) yn weithredol ac yn effeithiol. Serch hynny, rhaid gwneud ymchwiliadau pellach i archwilio cyfleoedd i wella ansawdd yr aer yn ne'r Sir; yn enwedig lleihau gwaddodion nitrogen.

5.3 Daethpwyd i'r casgliad y bydd yn rhaid i'r ARhC nesaf rhoi sylw i estyniad arfaethedig AGA 'Bae Lerpwl' a gwybodaeth newydd ar ACA 'Coedwigoedd Dyffryn Alun'. Gall y newidiadau hyn gael effaith ar bolisi lleol a'r mathau posibl o ddefnydd tir.

DRAFT

DRAFT

**Atodiad 1 – sgrinio dyraniad safleoedd y CDLl**

| Anheddiad | Polisi CDLl | Enw'r Safle / cyf. CDLl Adnau | Effeithiau posibl a adnabuwyd yn flaenorol ar unrhyw safle Ewropeaidd | A welwyd effeithiau sylweddol ers mabwysiadu'r Cynllun? | Sylwadau (Mai 2017) |
|---|---|---|---|---|---|
| Corwen | BSC 1 | hen Ddepo'r Cyngor, Clawdd Poncen / 05A-01 | Mae 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid', 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 1.5km i'r de, yn rhannol ar lefel is; Effeithiau posibl ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid': effeithiau ar ansawdd y dŵr o ddŵr ffo arwyneb; Effeithiau posibl ar 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd': pwysau hamdden | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Corwen | BSC 1 | nesaf at Ysgol Caer Drewyn, Clawdd Poncen / 05A-02 | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Dinbych | BSC 1 | Tir ym Mryn Stanley / 01A-01 | Mae 'ACA Llwyn' wedi'i leoli tua 3km i'r de-ddwyrain;<br>Dyraniad safle wedi'i ddwyn ymlaen o'r CDU;<br>Effeithiau posibl ar 'ACA Llwyn': Dim wedi'u canfod | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Dinbych | BSC 1 | hen Garej Autoworld, Ffordd Smithfield / 01A-25 | | Naddo | Datblygiad wedi'i gwblhau; cynllun defnydd cymysg (defnydd preswyl / cymunedol |
| Dinbych | BSC 1 | hen Garej Smithfield, Ffordd Smithfield / 01A-26 | | Naddo | Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd i gyfleuster golchi ceir (Mai 2017). |
| Dinbych | BSC 1 | Tir yn Lodge Farm | Mae 'ACA Llwyn' wedi'i leoli tua 4km i'r de-orllewin o safle tai posibl; Ni chanfuwyd effeithiau posibl ar nodweddion cymhwyso'r ACA | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Dinbych | BSC 1 | Tir nesaf at Ysgol Heulfre | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Dinbych | BSC 1 | Tir rhwng hen ffordd Rhuthun a'r un newydd | Mae 'ACA' Llwyn wedi'i leoli tua 1km i dde-ddwyrain y safle tai posibl.<br>Ni chanfuwyd effeithiau posibl ar nodweddion cymhwyso'r ACA | Naddo | Cais cynllunio'n cael ei ystyried (Mai 2017) |
| Dinbych | BSC 1 | Tir oddi ar Ffordd yr Eglwys Wen [Tir yng Nghae Topyn] | | Naddo | Ni chanfuwyd effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o'r cais cynllunio; gwrthododd y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Pwyllgor Cynllunio roi caniatâd ym mis Mawrth 2017 a chyflwynwyd apêl. |
| Llanelwy | BSC 1 | Tir yn hen ysbyty HM Stanley / 46A-01 | Mae 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy' wedi'i leoli ar dir uwch tua 3km i'r de, Effeithiau posibl ar 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy': Dim wedi'u canfod; Effeithiau posibl ar 'AGA Bae Lerpwl': effeithiau anuniongyrchol yn cael eu hachosi gan newidiadau yn ansawdd y dŵr (afon Elwy, afon Clwyd, aber afon Clwyd) gallai gael effaith ar y rhywogaethau pysgod sy'n sail i fwyd adar o dan warchodaeth | Naddo | Mae'r datblygiad wrthi'n cael ei adeiladu. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol cyn rhoi caniatâd cynllunio. |
| Llanelwy | BSC 1 | Bishops Walk / 46A-02 | | Naddo | Datblygiad wedi'i gwblhau. |
| Llanelwy | BSC 1 | Meithrinfeydd Bronwylfa / 46A-03 | | Naddo | Datblygiad wedi'i gwblhau. |
| Llanelwy | BSC 1 | Tir oddi ar Bryn Gobaith | | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol cyn rhoi caniatâd cynllunio drwy apêl. |
| Llanelwy | BSC 1 | Tir oddi ar y Paddock | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Llanelwy | BSC 1 | Tir ychwanegol yn hen ysbyty HM Stanley | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Llangollen | BSC 1 | Ffordd y Ficerdy / 03A-01 | Mae 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid', 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' yn y cyffiniau (~1km); Effeithiau posibl ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid': effeithiau ar swm y dŵr, ar ansawdd y dŵr o ddŵr ffo arwyneb; Effeithiau posibl ar 'AGA Berwyn' ac ACA 'Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd': pwysau hamdden | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol cyn rhoi caniatâd cynllunio. |
| Llangollen | BSC 1 | Tir nesaf at Trem y Gwernant / 03A-02 | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Llangollen | BSC 1 | Tir yn Ffordd y Wern | Mae ACA 'Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid' wedi'i leoli ar dir is tua 300m i'r de. Effeithiau posibl ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid': effaith ar ansawdd y dŵr | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | wedi'i achosi gan ddŵr ffo arwyneb o'r safle | | |
| Llangollen | BSC 1 | Cefn Castle View a The Hollies | Mae 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid' wedi'i leoli ar dir is tua 550m i'r (gogledd ddwyrain);<br>Effeithiau posibl ar yr ACA: dim wedi eu canfod; Effeithiau posibl ar 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd': pwysau hamdden;<br>Ystyriaeth ychwanegol: llygredd aer a achosir gan drafnidiaeth tuag at y safle hwn mewn perthynas ag 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd'. Mae'r safle wedi'i leoli tua 2km i'r de/ de-orllewin, ac nid oes mynediad o'r brif ffordd at y safle yn nes na'r pellter hwn. Felly, gellir diystyru llygredd aer uniongyrchol a achosir gan drafnidiaeth ffordd ychwanegol fel effaith sylweddol debygol (Awst 2011), paragraff 5.12 – 5.18)) | Naddo | Mae'r safle'n mynd i gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â datblygiad tai Ffordd y Ficerdy. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol cyn rhoi caniatâd cynllunio. |
| Prestatyn | BSC 1 | Tip Lane, 43A-02 | Mae 'ACA Bae Lerpwl' ac 'AGA Aber Dyfrdwy' oddi ar arfordir Prestatyn; Effeithiau posibl: ni chanfuwyd dim yng ngham y cais – 'mewn cyfuniad' â datblygiadau eraill: ansawdd y dŵr a swm y dŵr yn y safleoedd Ewropeaidd uchod. | Naddo | Datblygiad wedi'i gwblhau. |
| Prestatyn | BSC 1 | Tir yn Mid Nant Farm | Mae 'AGA Aber Dyfrdwy' wedi'i leoli nesaf at y safle tai posibl. Gallai effeithiau posibl ar nodweddion | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cymhwyso'r AGA gael eu hachosi gan ddŵr ffo arwyneb a newidiadau dilynol i'r gadwyn fwyd, a phwysau hamdden. | | |
| Prestatyn / Meliden | BSC 1 | Tir tu ôl i Ffordd Hendre (Fferm Minffordd) | Mae 'AGA Bae Lerpwl' ac 'AGA Aber Dyfrdwy' tua 3km i ogledd y safleoedd;<br>Effeithiau posibl: dim wedi'i ganfod | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o'r cais cynllunio; gwrthododd y Pwyllgor Cynllunio roi caniatâd ym mis Ebrill 2017. |
| Prestatyn / Meliden | BSC 1 | Tir y tu ôl i Faes Meurig | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Rhuthun | BSC 1 | Glasdir | Mae 'ACA Llwyn' wedi'i leoli tua 7km i lawr yr afon Clwyd;<br>Effeithiau posibl: ni chanfuwyd dim yn y cam ymgeisio | Naddo | Dygwyd y dyraniad safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau'r hen gynllun lleol (CDU). Adeiladu'n dal i fynd ymlaen ar y safle. |
| Rhuthun | BSC 1 | Tir nesaf at Maes Hafod a Llys Famau | Nid oes safle Ewropeaidd yn y cyffiniau sydd angen ystyriaeth. Ni ellir rhagweld yr effaith ar ansawdd y dŵr a achosir gan ddŵr ffo arwyneb i mewn i afon Clwyd / AGA Bae Lerpwl. | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Y Rhyl | BSC 1 | Y Rhyl De Ddwyrain /<br>45A-01 / 45A-48 | Mae 'AGA Bae Lerpwl' ac 'Aber Dyfrdwy' oddi ar arfordir y Rhyl;<br>Effeithiau posibl: ni chanfuwyd dim yn y cam ymgeisio – 'mewn cyfuniad' â datblygiadau eraill: swm y dŵr ac ansawdd y dŵr yn y safleoedd Ewropeaidd uchod. | Naddo | Dygwyd y dyraniad safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau'r hen gynllun lleol (CDU). Adeiladu'n dal i fynd ymlaen ar y safle. |
| Y Rhyl | BSC 1 | Grange Hotel / 45A-46 | Mae 'AGA Bae Lerpwl' ac 'Aber Dyfrdwy' oddi ar arfordir y Rhyl;<br><br>Effeithiau posibl: ni chanfuwyd dim yn y cam ymgeisio – 'mewn cyfuniad' â | Naddo | Dygwyd y dyraniad safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau'r hen gynllun lleol (CDU). Adeiladu'n dal i fynd ymlaen ar y safle. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Rhyl | BSC 1 | Ysgol Northgate / 45A-47 | datblygiadau eraill: swm y dŵr ac ansawdd y dŵr yn y safleoedd Ewropeaidd uchod. | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol cyn rhoi caniatâd cynllunio; mae'r datblygiad wrthi'n cael ei adeiladu. |
| Y Rhyl | BSC 1 | Ffordd Victoria / 45A-49 | | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol cyn rhoi caniatâd cynllunio; mae'r datblygiad wrthi'n cael ei adeiladu. |
| Y Rhyl | BSC 1 | Westbourne Avenue / 45A-53 | | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol cyn rhoi caniatâd cynllunio; mae'r datblygiad wrthi'n cael ei adeiladu. |
| Y Rhyl | BSC 1 | Tir nesaf at Sydenham Avenue and West Parade | | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol cyn rhoi caniatâd cynllunio; mae'r datblygiad wrthi'n cael ei adeiladu. |
| Rhuddlan | BSC 1 | Maes y Castell / 44A-13 | Mae afon Clwyd yn llifo'n agos iawn at y safle hwn, ac yn ymuno ag 'AGA Bae Lerpwl' yn harbwr y Foryd yn y Rhyl;<br>Effeithiau 'mewn cyfuniad' posibl: swm y dŵr ac ansawdd y dŵr yn y safleoedd Ewropeaidd uchod | Naddo | Dygwyd y dyraniad safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau'r hen gynllun lleol (CDU). Datblygiad wedi'i gwblhau. |
| Rhuddlan | BSC 1 | Tir nesaf at Hafod Gan ac Ysgol Tir Morfa (Tirionfa) | Mae afon Clwyd yn llifo'n agos iawn at y safle hwn, ac yn ymuno ag 'AGA Bae Lerpwl' yn harbwr y Foryd yn y Rhyl;<br>Ni chanfuwyd effeithiau mewn cyfuniad posibl ar nodweddion cymhwysol yr AGA. | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol cyn rhoi caniatâd cynllunio; mae'r datblygiad wrthi'n cael ei adeiladu. |
| Bodfari | BSC 1 | Tir y tu ôl i Bryn Orme / 41A-01 | Mae 'ACA Llwyn' wedi'i leoli tua 5km i'r de-orllewin i'r safle tai posibl. | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ni chanfuwyd effeithiau posibl ar nodweddion cymhwysol yr ACA. | | |
| Bodfari | BSC 1 | Maes pacio nesaf at y Dinorben Arms / 41A-02 | Mae ‘ACA Llwyn’ wedi’i leoli tua 5km i’r de-orllewin i’r safle tai posibl. Ni chanfuwyd effeithiau posibl ar nodweddion cymhwysol yr ACA. | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Bodfari | BSC 1 | Ffynnon y Chwarel/ 41A-03 | Mae ‘ACA Llwyn’ wedi’i leoli tua 5km i’r de-orllewin i’r safle tai posibl. Ni chanfuwyd effeithiau posibl ar nodweddion cymhwysol yr ACA. | Naddo | Dygwyd y dyraniad safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau’r hen gynllun lleol (CDU). Datblygiad wedi’i gwblhau. |
| Bodfari | BSC 1 | Tir wrth ochr Rhif 16 Maes y Graig | Mae ‘ACA Llwyn’ wedi’i leoli tua 5km i’r de-orllewin i’r safle tai posibl. Ni chanfuwyd effeithiau posibl ar nodweddion cymhwysol yr ACA. | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Bryneglwys | BSC 1 | Tir y tu ôl i Bryn Awel / 10A-01 | Mae ‘AGA Berwyn ‘ a ‘Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’ wedi’u lleoli tua 1.5km i’r de ar dir uwch; Effeithiau posibl ar ‘AGA Berwyn’ ac ‘ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’: pwysau hamdden | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Bryneglwys | BSC 1 | Trem y Foel / 10A-02 | | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio; Nid yw’r datblygiad wedi dechrau eto. |
| Carrog | BSC 1 | Tir nesaf at y Fynwent / 05B-01 | Mae ‘ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid’, ‘AGA Berwyn’ a ‘Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’ wedi’u lleoli yn y cyffiniau (~1km); Effeithiau posibl ar ‘ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid’: effeithiau ar swm y dŵr, ar ansawdd y dŵr o ddŵr ffo arwyneb; Effeithiau posibl ar ‘AGA Berwyn’ ac ‘ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’; pwysau hamdden | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Carrog | BSC 1 | Tir nesaf at Maes Sidan / 05B-02 | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Clawddnewydd | BSC 1 | Tir nesaf at Crud yr Awel / 12A-01 | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Clawddnewydd | BSC 1 | Y tu ôl i Paradws / 12A-02 | Mae 'AGA Berwyn' a 'Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 6km i'r de;<br>Effeithiau posibl: Dim wedi'u canfod | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o'r cais cynllunio; dim ond rhan fach o'r dyraniad safle gwreiddiol sydd yn y cais cynllunio |
| Clocaenog | BSC 1 | Nant y Celyn / 11A-01 | Mae 'AGA Berwyn' a 'Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 9km i'r de;<br>Effeithiau posibl: Dim wedi'u canfod | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Cynwyd | BSC 1 | Maes Glyndwr / 08A-01 | Mae 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid', 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli yn y cyffiniau;<br>Effeithiau posibl ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid': effeithiau ar swm y dŵr, ar ansawdd y dŵr o ddŵr ffo arwyneb;<br>Effeithiau posibl ar 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd'; pwysau hamdden | Naddo | Dygwyd y dyraniad safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau'r hen gynllun lleol (CDU). Datblygiad wedi'i gwblhau. |
| Cynwyd | BSC 1 | Tir nesaf at Bryn Gwynt | Mae 'ACA  Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid' wedi'i leoli ar dir is tua 400m i'r gogledd-orllewin o'r safle tai posibl. Gallai effeithiau posibl ar nodweddion cymhwyso'r ACA gael eu hachosi gan ddŵr ffo arwyneb a newidiadau yn ansawdd y dŵr.<br>Mae 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 1km i'r dwyrain. Gallai effeithiau posibl ar nodweddion cymhwyso'r AGA a'r ACA gael eu hachosi gan bwysau hamdden. | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffylliog | BSC 1 | Tir tu ôl Bryn Heulog | Mae ‘ACA Llwyn’ wedi’i leoli tua 6.5km i dde-ddwyrain y safle tai posibl. Ni chanfuwyd effeithiau posibl ar nodweddion cymhwyso’r ACA. | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Dyserth | BSC 1 | Tir nesaf at Ystad Glan Ffyddion | Mae ‘AGA Bae Lerpwl’ wedi’i leoli tua 4km i dde-orllewin y safle tai posibl. Ni chanfuwyd effeithiau posibl ar nodweddion cymhwyso’r AGA. | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Eryrys | BSC 1 | Gwalia House | Y safle Ewropeaidd agosaf yw ‘Coedwigoedd Dyffryn Alun’, tua 5km i ffwrdd;<br>Effeithiau posibl ar yr ACA: Dim | Naddo | Ni chanfuwyd effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio; mae’r caniatâd cynllunio wedi dod i ben. |
| Eryrys | BSC 1 | Canol y House | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Gellifor | BSC 1 | Tir yn Penarth / 22B-01 | Mae ‘ACA Llwyn’ wedi’i leoli tua 2.5km i’r gorllewin;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Glyndyfrdwy | BSC 1 | Tir y tu ôl i Dersas New Inn / | Mae ‘ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid’, ‘AGA Berwyn’ ac ‘ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’ wedi’u lleoli yng nghyffiniau’r safle;<br>Effeithiau posibl ar ‘ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid’: effeithiau ar swm y dŵr, ar ansawdd y dŵr o ddŵr ffo arwyneb;<br>Effeithiau posibl ar ‘AGA Berwyn’ ac ‘ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’: pwysau hamdden | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Graigfechan | BSC 1 | Tir i’r de o Tan y Graig / 20B-02 | Mae ‘AGA Berwyn’ a ‘Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’ wedi’u lleoli tua 5.5km i’r de;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol i 9 annedd. |
| Gwyddelwern | BSC 1 | Bryn Llan / 06B-01 | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyddelwern | BSC 1 | Tu ôl i Beuno Terrace / 06B-02 | Mae ‘AGA Berwyn’ a ‘Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’ wedi’u lleoli tua 5.5km i’r de;<br>Effeithiau posibl ar ‘AGA Berwyn’ ac ‘ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd: pwysau hamdden | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Gwyddelwern | BSC 1 | I’r de o’r Ysgol / 06B-03 | | Naddo | Dygwyd dyraniad y safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau’r hen gynllun lleol (CDU). Nid yw’r datblygiad wedi’i gwblhau eto. |
| Henllan | BSC 1 | Ty Coch / 28A-01 | Mae ‘ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy’ wedi’i leoli yn y cyffiniau (~1km);<br>Effeithiau posibl ar ‘ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy’: pwysau hamdden | Naddo | Dygwyd dyraniad y safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau’r hen gynllun lleol (CDU). Mae’r datblygiad wrthi’n cael ei adeiladu. |
| Henllan | BSC 1 | Canol Henllan / 28A-05 | | Naddo | Dygwyd dyraniad y safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau’r hen gynllun lleol (CDU). Mae’r datblygiad wrthi’n cael ei adeiladu. |
| Llanarmon yn Ial | BSC 1 | I’r de o Cam yr Alyn / 15A-01 | Mae ‘ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’ wedi’i leoli tua 3km i’r dwyrain. Gallai effeithiau posibl ar nodweddion cymhwyso’r ACA gael eu hachosi gan bwysau hamdden. | Naddo | Ni chanfuwyd effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio; Datblygiad heb ddechrau eto. |
| Llanarmon yn Ial | BSC 1 | Tir y tu ôl i ystâd Maes Garmon | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd | BSC 1 | Tir nesaf at Troed y Fenlli/ 16A-01 | Mae ‘AGA Berwyn’ ac ‘ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’ wedi’u lleoli tua 3.5km i’r de;<br>Effeithiau posibl: ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd | BSC 1 | Y tu ôl i Llwyn Derw / 16A-02 | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd | BSC 1 | Tir rhwng y Rheithordy a Brakendene / 16A-03 | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llanbedr Dyffryn Clwyd | BSC 1 | Tir i'r gogledd-orllewin o Maes Derwen | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd | BSC 1 | Tir nesaf at yr hen Reithordy | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Llandegla | BSC 1 | 16A-01 | Mae 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 1 a 5km o'r safle hwn;<br>Effeithiau posibl ar 'AGA Berwyn', 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' ac 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun': pwysau hamdden | Naddo | Dygwyd dyraniad y safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau'r hen gynllun lleol (CDU). Mae'r datblygiad wedi cael ei gwblhau. |
| LLandrillo | BSC 1 | Tu ôl i Bodwen / 17A-01 | Mae 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid', ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli yng nghyffiniau'r safle;<br>Effeithiau posibl ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid': effeithiau ar swm y dŵr, ar ansawdd y dŵr o ddŵr ffo arwyneb;<br>Effeithiau posibl ar 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd': pwysau hamdden | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o'r cais cynllunio; nid yw'r datblygiad wedi dechrau eto. |
| Llandyrnog | BSC 1 | Tir nesaf at Maes Llan / 18A-05 | Mae 'ACA Llwyn' wedi'i leoli tua 3km i'r gorllewin;<br>Effeithiau posibl: ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o'r cais cynllunio; nid yw'r datblygiad wedi dechrau eto. |
| Llanfair Dyffryn Clwyd | BSC 1 | Tir y tu ôl i'r groesffordd a Bron y Clwyd / 20A-01 | Mae 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 7km i'r de;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 63 o anheddau. |
| Llanfair Dyffryn Clwyd | BSC 1 | Cae'r Ficerdy / 20A-04 | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llanferres | BSC 1 | Tu ôl i Bod Eryl / 21A-03 | Mae ‘ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun’ wedi’i leoli tua 2.5km i’r de ddwyrain; Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Pentre Llanrhaeadr | BSC 1 | Tir y tu ôl i Maeshwylfa/ 23B-01 | Mae ‘ACA Llwyn’ wedi’i leoli tua 1.5km i’r gogledd. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau posibl ar nodweddion cymhwyso’r ACA. | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio; mae’r cais diweddaraf yn gofyn am estyniad i’r amser ar gyfer cyflwyno manylion. |
| Pentre Llanrhaeadr | BSC 1 | Tir y tu ôl i Dolwar / 23B-02 | | Naddo | Adnewyddwyd caniatâd cynllunio amlinellol i 15 o anheddau. |
| Pentre Llanrhaeadr | BSC 1 | Tir nesaf at Dolwar | | Naddo | |
| Pŵllglas | BSC 1 | Tir i’r de o’r A494 / 13A-01 | Mae ‘AGA Berwyn’ a ‘Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd wedi’u lleoli tua 7km i’r de; Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Pŵllglas | BSC 1 | Tir yn Minffordd / 13A-02 | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Rhewl (ger Rhuthun) | BSC 1 | Tir y tu ôl i Rhyd y Byll / 24B-01 | Mae ‘ACA Llwyn’ wedi’i leoli tua 4km i’r gorllewin; Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio; nid yw’r datblygiad wedi dechrau eto. |
| Rhewl (ger Rhuthun) | BSC 1 | Hafod Ynys / 24B-02 | | Naddo | Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio; mae’r datblygiad wrthi’n cael ei adeiladu. |
| Rhuallt | BSC 1 | Tir y tu ôl i Dyffryn Teg / 47A-01 | Mae ‘ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy’ wedi’i leoli ar dir uwch tua 5km i’r gorllewin; Effeithiau posibl: ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Rhuallt | BSC 1 | Tir i’r gorllewin o Dyffryn Teg / 47A-02 | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Rhuallt | BSC 1 | Tir i’r de o Dyffryn Teg | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefnant | BSC 1 | Tir y tu ôl i Maes yr Erwain / 30A-01 | Mae ‘ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy’ wedi’i leoli ar dir uwch tua 2km i’r gorllewin;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Trefnant | BSC 1 | Tir nesaf at Maes Gruffyd / 30A-02 | | Naddo | Dygwyd dyraniad y safle ymlaen a rhoddwyd caniatâd o dan bolisïau’r hen gynllun lleol (CDU). Nid yw’r datblygiad wedi dechrau eto. |
| Tremeirchion | BSC 1 | Tir y tu ôl i Llys y Twysog / 47B-01 | Mae ‘ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy’ wedi’i leoli ar dir uwch tua 5km i’r gorllewin;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio hyd yma. |
| Abbey Terrace | BSC 6 | 27A | Effeithiau posibl ar ‘AGA Berwyn’ ac ‘ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd’: pwysau hamdden | Naddo | Caniatawyd 3 uned yn ardal y chwilio; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio |
| Aberwheeler | BSC 6 | 09A | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Bontuchel | BSC 6 | 14B | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Cefn Mairwen | BSC 6 | 31A | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Cwm | BSC 6 | 47C | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Derwen | BSC 6 | 12B | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Caniatawyd 5 uned yn ardal y chwilio; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio |
| Graianrhyd | BSC 6 | 15C | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Caniatawyd 2 uned yn ardal y chwilio; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio |
| Groesffordd Marli | BSC 6 | 31B | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hendrerwydd | BSC 6 | 22A | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Hirwaen | BSC 6 | 16B | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Caniatawyd 2 uned yn ardal y chwilio; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio |
| Llanelidan | BSC 6 | 19A | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Llangynhafal | BSC 6 | 22C | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Caniatawyd 1 uned yn ardal y chwilio; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio |
| Llanrhaeadr yng Nghinmeirch | BSC 6 | 23A | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Llanrhydd | BSC 6 | 16C | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Llanynys | BSC 6 | 24A | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Loggerheads | BSC 6 | 21C | Effeithiau posibl ar ‘ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun’: pwysau hamdden | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Maeshafn | BSC 6 | 21D | Effeithiau posibl ar ‘ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun’: pwysau hamdden | Naddo | Caniatawyd 3 uned yn ardal y chwilio; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o’r cais cynllunio |
| Marian Cwm | BSC 6 | 47D | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Melin-y-Wig | BSC 6 | 04B | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Pant Pastynog | BSC 6 | 23C | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Peniel | BSC 6 | 23D | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pentre Saron | BSC 6 | 23E | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Pentrecelyn | BSC 6 | 20C | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Caniatawyd 3 uned yn ardal y chwilio; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o'r cais cynllunio |
| Pentredwr | BSC 6 | 27B | Effeithiau posibl ar 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd': pwysau hamdden | Naddo | Caniatawyd 4 uned yn ardal y chwilio; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o'r cais cynllunio |
| Prion | BSC 6 | 23F | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni chymeradwywyd unrhyw annedd. |
| Tafarn Y Gelyn | BSC 6 | 21E | Effeithiau posibl ar 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun': pwysau hamdden | Naddo | Caniatawyd 2 uned yn ardal y chwilio; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiady Cyngor a CNC o'r cais cynllunio |
| Y Green | BSC 6 | 01B | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Caniatawyd 3 uned yn ardal y chwilio; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesiad y Cyngor a CNC o'r cais cynllunio |
| Prestatyn | BSC 2 | safle'r hen Waith Nwy / 45A-03 | Mae 'AGA Bae Lerpwl ac 'Aber Dyfrdwy' oddi ar arfordir Prestatyn; Effeithiau posibl: swm y dŵr ac ansawdd y dŵr yn y safleoedd Ewropeaidd uchod | Naddo | Cymeradwyodd y Cyngor gynllun datblygu manwerthu nad yw'n effeithio'n andwyol ar swm y dŵr nac ansawdd y dŵr yn y ddau safle Ewropeaidd hyn. |
| Rhuddlan | BSC 2 | 'Triongl Rhuddlan' / 43A-02 | Mae afon Clwyd yn llifo wrth ochr y safle hwn, ac yn ymuno ag 'AGA Bae Lerpwl' yn harbwr y Foryd yn y Rhyl; Effeithiau 'mewn cyfuniad' posibl: swm y dŵr ac ansawdd y dŵr yn y safle Ewropeaidd uchod | Naddo | Cymeradwyodd y Cyngor gynllun archfarchnad nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar swm y dŵr nac ansawdd y dŵr yn y safle Ewropeaidd hwn. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Rhyl | BSC 2 | Cei'r Marina (yr hen Ocean Plaza) / 45A-51 | Mae 'AGA Bae Lerpwl ac 'Aber Dyfrdwy' oddi ar arfordir y Rhyl; Effeithiau posibl: swm y dŵr ac ansawdd y dŵr yn y safleoedd Ewropeaidd uchod | Naddo | Rhoddodd y Cyngor ganiatâd cynllunio i ddatblygiad defnydd cymysg, yn cynnwys gwerthfannau manwerthu a bwyd. Nid ydynt yn effeithio'n andwyol ar swm y dŵr nac ansawdd y dŵr yn y ddau safle Ewropeaidd hyn. |
| Llangollen | ASA 1 | tir a ddiogelwyd at ddibenion hamdden | Tir a ddiogelwyd at ddibenion hamdden posibl ar yr hen reilffordd ar hyd afon Dyfrdwy o Drefor tuag at Langollen. Ni ellir diystyru effeithiau ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid' o'r dechrau. Nid oes angen caniatâd cynllunio fel y cyfryw i ddefnyddio llinellau rheilffordd segur ar gyfer cerdded a seiclo. | Naddo | Diogelwyd hen arglawdd y rheilffordd ar gyfer gosod llwybr cerdded rhwng Llangollen a Threfor (CBS Wrecsam). Nid yw'r prosiect wedi'i weithredu eto. |
| Carrog - Corwen | ASA 1 | Estyniad i'r rheilffordd | Pasiwyd 'Gorchymyn Rheilffordd Llangollen a Chorwen 2010' gan Lywodraeth Cymru yn 2010. Nid oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig ond codwyd pryderon o safbwynt 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid' (Cyf CCGC: DH/SJ44.1.11.1.3/1295948). | Naddo | Mae'r estyniad i'r rheilffordd rhwng Corwen a Charrog wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. |
| Corwen | VOE 7 | Rhan o Stad Ddiwydiannol Ty'n Lldidiart / 05A-06 | Mae 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid', 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 1.5km i'r de, yn rhannol ar lefel is; dyraniad safle ar dir cyflogaeth sy'n bodoli'n barod, graddfa fach i wasanaethu'r ardal leol; | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio eto ar gyfer rheoli gwastraff ar y safle hwn. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effeithiau posibl ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid': effeithiau ar swm y dŵr / ansawdd y dŵr;<br>Effeithiau posibl ar 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd': effeithiau ar ansawdd yr aer | | |
| Dinbych | VOE 7 | Chwarel Dinbych / 01A-05 | Mae 'ACA Llwyn' wedi'i leoli tua 3km i'r de ddwyrain; hen Chwarel; graddfa fach i wasanaethu'r ardal leol;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio eto ar gyfer rheoli gwastraff ar y safle hwn. |
| Graig Lelo | VOE 7 | Chwarel Graig Lelo / 06A-01 | Mae 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 5.5km i'r de;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio eto ar gyfer rheoli gwastraff ar y safle hwn. |
| Parc Busnes Llanelwy | VOE 7 | 32A-02 | Mae 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy' wedi'i leoli ar dir uwch tua 3km i'r de; rhan o Barc Busnes Llanelwy; hen osodiad peryglus ar y safle;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio eto ar gyfer rheoli gwastraff ar y safle hwn. |
| Rhuallt | VOE 7 | 47A-07 | Mae 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy' wedi'i leoli tua 5km i'r de orllewin;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Rhoddodd y Cyngor ganiatâd cynllunio i godi cyfarpar treulio anaerobig, bellach wedi'i gwblhau. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol ar nodweddion cymhwyso unrhyw safle Ewropeaidd yn ystod y broses o benderfynu'r cais. |
| Rhuthun | VOE 7 | hen Ddepo Bws / | Mae 'ACA Llwyn' wedi'i leoli tua 7km i lawr afon Clwyd;<br>Effeithiau posibl: effaith anuniongyrchol ar ansawdd y dŵr a swm y dŵr i lawr yr afon yn 'AGA Bae Lerpwl' | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio eto ar gyfer rheoli gwastraff ar y safle hwn. |
| Rhuthun | VOE 7 | Fedw Fawr / | | Naddo | Ni dderbyniwyd cais cynllunio eto ar gyfer rheoli gwastraff ar y safle hwn. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bodelwyddan | PSE 2 | 40A-02 / 40A-03 / 40A-04 / | Mae 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy' wedi'i leoli ar dir uwch tua 3.5km i'r de;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio. |
| Corwen | PSE 2 | Tir nesaf at yr A5 (Corwen) / 40A-04 | Mae 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid', 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli yn y cyffiniau (>1km) o'r safle hwn;<br>Effeithiau posibl ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid': effeithiau ar ansawdd y dŵr/ swm y dŵr;<br>Effeithiau posibl ar 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd': effeithiau ar ansawdd yr aer | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio.<br><br>Gellir gweld diweddariad ar fonitro ansawdd aer yn y brif ddogfen, adran 4. |
| Corwen | PSE 2 | Stad Ddiwydiannol Ty'n Llidiart / 40A-05 | Mae 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid', 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 1.5km i'r de;<br>Effeithiau posibl ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid': effeithiau ar ansawdd y dŵr/ swm y dŵr.<br>Effeithiau posibl ar 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd'; effeithiau ar ansawdd yr aer | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio.<br><br>Gellir gweld diweddariad ar fonitro ansawdd aer yn y brif ddogfen, adran 4. |
| Dinbych | PSE 2 | Stad Ddiwydiannol Colomendy / 01A-03 | Mae 'ACA Llwyn' wedi'i leoli tua 3km i'r de ddwyrain;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio. |
| Llanelwy | PSE 2 | Tir yn hen ysbyty HM Stanley / 46A-01 | Mae 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy' wedi'i leoli ar dir uwch tua 3km i'r de orllewin; | Naddo | Mae gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tai, sy'n cael eu |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | | hadeiladu ar hyn o bryd, gweler hefyd y sylwadau par BSC1 46A-01 |
| Llanelwy | PSE 2 | 46A-04 / 46A-05 / | Mae 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy' wedi'i leoli ar dir uwch tua 3km i'r de orllewin;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio. |
| Llangollen | PSE 2 | 03A-04 | Mae 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid', 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli yn y cyffiniau (>1km) o'r safle hwn;;<br>Effeithiau posibl ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid': effeithiau ar ansawdd y dŵr/ swm y dŵr.<br>Effeithiau posibl ar 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd'; effeithiau ar ansawdd yr aer | Naddo | Mae gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad manwerthu; mae'r datblygiad wedi'i gwblhau. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw safle Ewropeaidd yn ystod y broses benderfynu.<br>Gellir gweld diweddariad ar fonitro ansawdd aer yn y brif ddogfen, adran 4. |
| Llanelwy Business Park | PSE 2 | 32A-01 | Mae 'ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy' wedi'i leoli ar dir uwch tua 3km i'r de;<br>Effeithiau posibl: Ni chanfuwyd dim | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio. |
| Prestatyn | PSE 2 | hen ddepo Warren Drive /<br>43A-06 | Mae 'AGA Bae Lerpwl' ac 'Aber Dyfrdwy' oddi ar arfordir Prestatyn;<br>Effeithiau posibl: swm y dŵr ac ansawdd y dŵr yn y safleoedd Ewropeaidd uchod | Naddo | Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tai. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw safle Ewropeaidd yn ystod y broses benderfynu ar gynigion cynllunio unigol. |
| Rhuthun | PSE 2 | 02A-02 /<br>02A-03 | Mae 'ACA Llwyn' wedi'i leoli tua 7km i lawr afon Clwyd;<br>Effeithiau posibl: effaith anuniongyrchol ar ansawdd y dŵr a | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | swm y dŵr i lawr yr afon yn 'AGA Bae Lerpwl' | | unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio. |
| Y Rhyl | PSE 2 | 45A-02 / 45A-03 / 45A-04 / 45A-05 / 45A-06 / 45A-07 / 45A-08 / 45A-09 | Mae 'AGA Bae Lerpwl' ac 'Aber Dyfrdwy' oddi ar arfordir y Rhyl; Effeithiau 'mewn cyfuniad' posibl: swm y dŵr ac ansawdd y dŵr yn y safleoedd Ewropeaidd uchod. | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio. |
| Cynwyd | PSE 2 | Ffatri Ifor Williams / 08A-03 | Mae 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid', 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli yng nghyffiniau'r safle; Effeithiau posibl ar 'ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid': effeithiau ar swm y dŵr / ansawdd y dŵr | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio. Gellir gweld diweddariad ar fonitro ansawdd aer yn y brif ddogfen, adran 4. |
| Dyserth | PSE 2 | 'Anglia Yard' / 42A-01 | Mae 'AGA Bae Lerpwl' ac 'Aber Dyfrdwy' tua 4km i'r gogledd o'r safle; Effeithiau posibl: ni chanfuwyd dim | Naddo | Mae gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw safle Ewropeaidd yn ystod y broses benderfynu. |
| Meliden | PSE 2 | 43B-02 | Mae 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 5.5km o'r de; Effeithiau posibl: ni chanfuwyd dim | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio. |
| Graig Lelo | PSE 2 | Chwarel Graig Lelo/ 06A-02 | Mae 'AGA Berwyn' ac 'ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd' wedi'u lleoli tua 5.5km i'r de; Effeithiau posibl: ni chanfuwyd dim | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | asesu'r ceisiadau cynllunio. Gweler hefyd y sylwadau par VOE 7 06A-01 |
| Rhuddlan | PSE 2 | Stad Ddiwydiannol HTM / 44A-01 | Mae Afon Clwyd yn llifo'n agos iawn i'r safle hwn, ac yn ymuno ag 'AGA Bae Lerpwl' yn harbwr y Foryd yn y Rhyl; Effeithiau 'mewn cyfuniad' posibl: swm y dŵr ac ansawdd y dŵr yn y safleoedd Ewropeaidd uchod | Naddo | Safleoedd cyflogaeth wedi'u sefydlu gyda gwahanol ddefnyddiau; ni chanfuwyd unrhyw effeithiau andwyol drwy asesu'r ceisiadau cynllunio. |

DRAFT

DRAFT

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych

# Cytundeb Cyflawni Drafft
# Rhagfyr 2017

Cyngor Sir Ddinbych
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Cynllunio Strategol a Thai
Blwch Swyddfa Bost 62
Rhuthun
LL 15 9AZ

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | 3 |
| 1.1 | Beth yw pwrpas y Cytundeb Cyflawni? | 3 |
| 1.2 | Beth yw Cynllun Datblygu Lleol? | 3 |
| 1.3 | Gweithdrefn Adolygu a’r Profion Cadernid | 4 |
| 1.4 | Canllawiau Cynllunio Atodol a Chyfarwyddyd Datblygu Safleoedd | 5 |
| 1.5 | Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 5 |
| 1.6 | Potensial i Baratoi Cynllluniau ar y Cyd | 6 |
| **2.** | **Amserlen** | 8 |
| 2.1 | Camau Paratoi Allweddol | 8 |
| 2.2 | Adnoddau | 12 |
| 2.3 | Risgiau | 12 |
| 2.4 | Monitro ac Adolygu | 12 |
| **3.** | **Cynllun Cynnwys Cymunedau** | 14 |
| 3.1 | Egwyddorion Cynnwys | 14 |
| 3.2 | Yr Hyn a Ddisgwyliwn Ohonoch | 14 |
| 3.3 | Cynhwysiant Dwyieithog | 14 |
| 3.4 | Pwy Fyddwn yn Cynnwys a Sut? | 15 |
| 3.5 | Rôl Aelodau Etholedig | 15 |
| 3.6 | Y Cyhoedd | 15 |
| 3.7 | Cronfa Ddata’r Cynllun Datblygu Lleol | 16 |
| 3.8 | Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned | 16 |
| 3.9 | Cyrff Ymgynghori Penodol ac Adrannau Llywodraeth y DU | 17 |
| 3.10 | Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac Ymgyngoreion Eraill | 17 |
| 3.11 | Datblygwr, Asiantau a Thirfeddianwyr | 17 |
| 3.12 | Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol | 17 |
| 3.13 | Adborth | 18 |
| 3.14 | Sut Byddwn yn Delio â’ch Sylwadau? | 18 |
| 3.15 | Sylwadau Hwyr | 18 |
| **4.** | **Monitro ac Adolygu** | 19 |
| **5.** | **Manylion Cyswllt** | 20 |
| | Atodiad 1 – Profion Cadernid | 21 |
| | Atodiad 2 – Amserlennu Risgiau | 22 |
| | Atodiad 3 – Grwpiau Ymgynghori | 23 |
| | Atodiad 4 – Geirfa | 28 |


DRAFT

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Beth yw pwrpas y Cytundeb Cyflawni?

1.1.1 Mae'r ddogfen ddrafft hon, y Cytundeb Cyflawni, yn gosod y ffordd y mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych. Mae'r Cytundeb Cyflawni'n darparu manylion y gwahanol gamau yn y broses a sut a phryd y gallwch gymryd rhan.

1.1.2 Mae'r Adroddiad Adolygu ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn dynodi'r meysydd sylfaenol hynny o'r strategaeth gyffredinol nad ydynt yn cyflawni yn ôl y disgwyl. Yng ngoleuni'r materion a ddynodwyd yn yr Adroddiad Adolygu, a'r gofyniad i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol 4 blynedd o'i fabwysiadu, cynigir felly i ddilyn y weithdrefn ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd llawn.

1.1.3 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei asesu er mwyn penderfynu pa mor gynaliadwy ydyw a sut gallai effeithio ar yr amgylchedd, yr economi a'r gymdeithas. Bydd hyn yn cael ei osod yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ymgorffori'r gofynion yn ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Bydd y dogfennau hyn yn ffurfio rhan o'r broses ymgynghori yn ogystal â'r prif ddogfennau Cynllun Datblygu Lleol.

1.1.4 Mae dwy brif ran i'r Cytundeb Cyflawni:
- Yr Amserlen: mae hon yn gosod y ffrâm amser i lunio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r Arfarniad Cynaliadwyedd sy'n cyd-fynd ag ef. Darperir dyddiadau pendant hyd at y Cyfnod Adneuo gyda dyddiadau mynegol ar gyfer cyfnodau dilynol.
- Cynllun Cynnwys Cymunedau: mae hwn yn amlinellu'r dull o ymgysylltu â'r gymuned; y dull o ran pwy, sut a phryd y bwriadwn ymgysylltu a sut bydd y Cyngor yn ymateb i'r sylwadau.

## 1.2 Beth yw Cynllun Datblygu Lleol?

1.2.2 Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (2006 – 2021) a fabwysiadwyd yn cynnwys polisïau cynllunio gyda'r nod o wneud y canlynol:
- Diogelu'n cefn gwlad rhagorol;
- Diogelu a gwella ardaloedd arfordirol;
- Arwain datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy; a
- Llywio penderfyniadau a wneir ar geisiadau cynllunio.

1.2.3 Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol adolygu eu Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd bob pedair blynedd. Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol presennol ym mis Mehefin 2013 a rhaid i Sir Ddinbych gychwyn adolygiad gyda'r bwriad o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd eleni (2017).

1.2.4 Mewn perthynas â statws Cynllun Datblygu Lleol Newydd, bydd unrhyw newid arfaethedig mewn polisi'n destun ymgynghoriad cyhoeddus trwy gydymffurfio â pholisïau, canllawiau a rheoliadau cenedlaethol. Yn y pen draw, gall yr Arolygydd penodedig ychwanegu, diwygio neu ddileu polisïau o'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd yr Awdurdod yn dilyn y cyngor a ddarparwyd yn rhan 2.14 Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 9 (Tachwedd 2016) wrth ystyried statws y Cynllun Datblygu Lleol newydd sy'n dod i'r amlwg.

1.2.5 Mae polisïau a chanllawiau allweddol ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a gofynion yr Awdurdodau Cynllunio Lleol i ymgysylltu â'u cymunedau a rhanddeiliaid wedi'u cynnwys yn:

- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9) 2016
- Nodiadau Cyngor Technegol – dyddiadau amrywiol
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) Cymru a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) Cymru (Diwygiad) 2015 ('Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol')
- Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Rhifyn 2) 2015
- Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol - Canllaw Gweithdrefnol 2015 (Yr Arolygiaeth Gynllunio)
- Cynlluniau Datblygu Lleol Paratoi ar gyfer Cyflwyno – Canllaw ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol (2015) Yr Arolygiaeth Gynllunio
- Cynllun Datblygu Lleol Cymru, Cynllunio'ch Cymuned: Canllaw i Gynlluniau Datblygu Lleol 2006
- Y gofynion statudol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd

## 1.3 Gweithdrefn Adolygu a'r Profion Cadernid

1.3.1 Mae'r Adroddiad Adolygu'n crynhoi'r prif feysydd pwnc lle nad ystyrir bod y Cynllun Datblygu Lleol presennol yn perfformio; lle mae'n hen oherwydd y newidiadau cyd-destunol ac felly mae angen adolygu rhannau o'r cynllun. Ar sail arwyddocâd y newidiadau angenrheidiol, ystyrir bod angen i Sir Ddinbych lunio Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

1.3.2 Wrth baratoi neu adolygu Cynllun Datblygu Lleol, rhaid i Sir Ddinbych sicrhau ei fod yn cael ei baratoi'n gywir a'i fod yn bodloni'r 3 Phrawf Cadernid a amlinellir yn Llawlyfr Rhifyn 2 y Cynllun Datblygu Lleol (Awst 2015):

- Ydy'r Cynllun yn addas? (h.y. ydy hi'n glir fod y Cynllun Datblygu Lleol yn gyson â Chynlluniau eraill?)
- Ydy'r Cynllun yn briodol? (h.y. ydy'r Cynllun Datblygu Lleol yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
- A fydd y Cynllun yn cyflawni? (h.y. ydyw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Gweler Atodiad 1 i gael rhagor o fanylion ar y Profion Cadernid a'u defnydd wrth Archwilio.

DRAFT

## 1.4 Canllawiau Cynllunio Atodol a Chyfarwyddyd Datblygu Safleoedd

1.4.1 Mae gan Ganllawiau Cynllunio Atodol rôl bwysig wrth ychwanegu at strategaeth, polisïau a dyraniadau Cynllun Datblygu Lleol trwy ddarparu cyngor manylach, technegol. Bydd cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig / ychwanegol yn cael eu cynnig i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd manylion y Canllawiau Cynllunio Atodol a allai fod yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael eu dynodi yn y camau cyn-adneuo/adneuo a gellir ychwanegu atynt ar ôl mabwysiadu. Hwyrach fod gan nifer o safleoedd allweddol Gyfarwyddyd Datblygu Safleoedd wedi'u paratoi i lywio penderfyniadau cynllunio.

1.4.2 Bydd ymwneud y cymunedau'n amrywio yn unol â chynnwys pob Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol a chyfarwyddyd datblygu safle unigol. Bydd y cyfnod ymgynghori lle gellir gwneud sylwadau ar y canllawiau yn cael cyhoeddusrwydd ar raddfa eang. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am wefan Sir Ddinbych, datganiadau i'r wasg ac anfon hysbysiadau at bob cyswllt ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol. O ran canllawiau penodol i'r safle, bydd sesiwn galw heibio lleol yn cael ei chynnal hefyd. Bydd gwybodaeth o ran sut i ymateb a'r dyddiad cau ar gyfer unrhyw sylwadau yn cael eu gwneud yn glir mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd.

1.4.3 Bydd yr holl sylwadau a wneir yn ystod yr ymgynghoriad ar ganllawiau atodol ar gael yn gyhoeddus yn dilyn ymgynghori ac yn cael eu priodoli i'r person, y grŵp neu'r sefydliad a wnaeth y sylw.

1.4.4 **Adborth**

- Bydd pob sylw a wnaed yn briodol yn cael eu cydnabod trwy e-bost neu lythyr.
- Bydd pob sylw a wnaed yn briodol yn cael eu hadrodd i Grŵp Llywio Aelodau'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Pwyllgor Cynllunio yn dilyn ymgynghoriad. Bydd crynodeb o'r sylwadau ynghyd ag ymateb a awgrymwyd gan y Cyngor ac unrhyw newidiadau a argymhellir ar gael yn gyhoeddus.
- Bydd unrhyw ddeisebau a ddaw i law yn cael eu cydnabod i gynigiwr y ddeiseb.

## 1.5 Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.5.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn destun asesiad o'i effeithiau datblygu cynaliadwy ac amgylcheddol:

- Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn asesu goblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd strategaethau a pholisïau'r cynlluniau sy'n dod i'r amlwg.

- Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gofyn am asesiad trwyadl o effeithiau amgylcheddol, ac i raddau llai, effeithiau cymdeithasol y cynlluniau. Bwriad hyn

yw sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth lunio'r cynlluniau.

- Rhaid i unrhyw gynllun neu raglen sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Natura 2000 (Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)) nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rheolaeth y safle ar gyfer cadwraeth natur fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Dylai'r asesiad nodi effeithiau tebygol safle Natura 2000, penderfynu ydy'r effeithiau hyn yn gyfiawn mewn cyd-destun ehangach, a dynodi unrhyw fesurau lliniaru y mae'n rhaid eu cymryd.

1.5.2 Bydd y ddau asesiad cyntaf yn cael eu cynnwys yn yr 'Arfarniad Cynaliadwyedd'. Bydd yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu hadrodd arnynt ar wahân. Bydd yr asesiadau hyn yn rhedeg ochr yn ochr, ac yn rhan o'r gwaith o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei ddogfennu mewn:

- Adroddiad Cwmpasu cychwynnol ar gyfer asesu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd yr adroddiad hwn yn disgrifio'r materion cynaliadwyedd presennol a set gyffredin o amcanion cynaliadwyedd y bydd y cynlluniau'n cael eu barnu yn eu herbyn;

- Adroddiad llawn o'r asesiad o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd wrth iddo ddod i'r amlwg. Bydd yr adroddiad hwn yn esbonio sut mae'r dewisiadau a'r polisïau manwl a ystyrir ar gyfer y cynllun yn debygol o berfformio mewn perthynas â'r amcanion cynaliadwyedd a osodir yn yr adroddiad cwmpasu. Bydd yr adroddiad hwn yn esbonio hefyd sut gall unrhyw effeithiau niweidiol y Cynllun Datblygu Lleol newydd gael eu hosgoi neu wrthbwyso, a sut gellir mwyhau'r effeithiau manteisiol;

- Datganiad sy'n esbonio sut mae ystyriaethau cynaliadwyedd a'r asesiadau wedi'u hystyried wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

1.5.3 Bydd gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y camau canlynol:

- Sgrinio
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

## 1.6 Potensial i Baratoi Cynlluniau ar y Cyd

1.6.1 Fel rhan o broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, mae angen ystyried manteision ac anfanteision paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd gydag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos. Y man cychwyn oedd edrych ar gamau unigol paratoi'r Cynllun yr oedd ein cymdogion wrtho ym mis Mehefin 2017:

**Tabl 1** – **Cynnydd cynllun datblygu Awdurdodau Lleol cyfagos**

| **Awdurdod** | **Cam Cynllun Datblygu Lleol** |
|---|---|
| CS y Fflint | Cam Dewisiadau Strategol |

| | |
|---|---|
| CBS Wrecsam | Cam cyn adneuo |
| CBS Conwy | Adolygiad i ddechrau yn 2017 |
| Cyngor Gwynedd | Aros am adroddiad yr Arolygydd ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| Ynys Môn | |
| CS Powys | Archwiliad |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Adolygiad bras wedi dechrau |

CBS Conwy yw’r unig awdurdod cynllunio lleol a fyddai’n cynnig y potensial i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd; hyn heb achosi oedi sylweddol i’r Cytundebau Cyflawni a wnaed rhwng yr awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru. Mae’r ddau dîm cynllunio strategol wedi datblygu perthynas waith gynhwysfawr sy’n cynnwys llunio astudiaethau seiliedig ar bynciau, casglu data ac asesiadau ar gyfer sail dystiolaeth eu Cynllun Datblygu Lleol priodol.

1.6.2 Fodd bynnag, rhaid cofio bod y ddau awdurdod cynllunio lleol yn gyrff annibynnol, hunanlywodraethol. Mae’r ddau Gyngor wedi mabwysiadu Cynlluniau a rhaglenni Corfforaethol / Strategol i fynd i’r afael â chyfleoedd, heriau a meysydd gwelliant penodol i’r Sir. Gan fod rhaid paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn unol â’r dogfennau penodol i’r Sir hynny, gweler y ‘Profion Cadernid’, mae’r Cynllun sy’n dod i’r amlwg yn annhebygol o fod yn gryno, wedi’i integreiddio’n dda ac yn hylaw gyda’r angen i gyfeirio ar hyd y ddogfen at ddwy set wahanol o strategaethau ac amcanion gwleidyddol y Cynghorau.

DRAFT

## 2. AMSERLEN

### 2.1 Camau Paratoi Allweddol

2.1.1 Rhennir yr amserlen ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn:

- Gamau pendant – hyd at a chan gynnwys y cam adneuo statudol, y gellir cynnwys dyddiadau pendant ar eu cyfer
- Camau mynegol – ar ôl y cam adneuo lle gellir cynnwys amcan ddyddiadau ar eu cyfer. Bydd y rhain yn cael eu hailystyried ar ôl y cam adneuo.

2.1.2 Cynigir caniatáu goddefgarwch o ddeufis er mwyn darparu rhywfaint o hyblygrwydd, cyn sbarduno'r angen am ddiwygiad ffurfiol i'r amserlen.

2.1.3 Mae'r amserlen ganlynol yn tybio bod yr Adroddiad Adolygu drafft wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Rhagfyr 2017. Bydd yr Adroddiad Adolygu terfynol yn penderfynu ar brif feysydd y Cynllun lle mae angen canolbwyntio ar ymgysylltu. Mae'r amserlen yn disgwyl 4 blynedd i gyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol newydd i Lywodraeth Cymru. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cynghori'n flaenorol bod disgwyl i Adroddiad yr Arolygydd ddod i law'r Awdurdod Lleol ymhen rhyw un flwyddyn o gyflwyno'r Cynllun.

2.1.4 **Tabl 2 – Amserlen y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

| **CYFNODAU PENDANT** | **CAMAU** | **DECHRAU** | **GORFFEN** |
|---|---|---|---|
| Adroddiad Adolygu | • Ystyried casgliadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ac adolygu a diweddaru'r sail dystiolaeth<br>• Paratoi Adroddiad Adolygu a dogfennau cefndir a gofyn am farn anffurfiol Llywodraeth Cymru<br>• Cyhoeddi Adroddiad Adolygu a dogfennau cefnogol i'r cyhoedd ymgynghori arnynt (8 wythnos)<br>• Cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Mehefin 2017 | Rhagfyr 2017 |
| Cytundeb Cyflawni | • Paratoi a chyhoeddi Cytundeb Cyflawni i'r cyhoedd ymgynghori arno (8 wythnos)<br>• Cytuno Cytundeb Cyflawni diwygiedig | Mehefin 2017 | Rhagfyr 2017 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyda Llywodraeth Cymru | | |
| Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd | • Adolygu gwybodaeth sylfaenol<br>• Adolygu dangosyddion ac amcanion<br>• Ystyried ymatebion ac adolygu<br>• Cymeradwyaeth y Cyngor<br>• Cyhoeddi | Mehefin 2017 | Rhagfyr 2017 |
| Cyfranogiad y Cyhoedd Cyn Adneuo | • Parhau i ddiweddaru'r sail dystiolaeth<br>• Adolygu meini prawf asesu'r safle<br>• Gwahodd cyflwyniadau gan safleoedd ymgeisiol a chynnal y gofrestr safleoedd<br>• Adolygu gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol<br>• Adolygu Dewisiadau Strategol a Strategaeth Ddewisol<br>• Gwerthuso unrhyw safleoedd a gyflwynir yn erbyn meini prawf y safle<br>• Adolygu'r Arfarniad Cynaliadwyedd gwreiddiol o'r Dewisiadau a'r Strategaeth a gynigir ac argymell newidiadau neu welliannau<br>• Asesiad o Effaith ar Les<br>• Paratoi dogfen Cynllun Datblygu Lleol Cyn Adneuo a'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, Adroddiad Adolygu, Papurau Gwybodaeth, Asesiad o Effaith ar Les, Cytundeb Cyflawni, | Rhagfyr 2017 | Awst 2018 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Hunanasesiad Prawf Cadernid ac Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol. | | |
| Ymgynghoriad Cyn Adneuo | • Cyhoeddi'r Cynllun Datblygu Lleol Cyn Adneuo gan gynnwys y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, Adroddiad Adolygu, Papurau Gwybodaeth, Asesiad o Effaith ar Les ac Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol<br>• Ymgynghoriad Statudol (8 wythnos)<br>• Ystyried Ymatebion a diwygiadau i'r dogfennau Cynllun Datblygu Lleol Cyn Adneuo<br>• Paratoi Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol yn dilyn ymgynghoriad<br>• Cytuno Opsiwn/Strategaeth Ddewisol ac Arfarniad Cynaliadwyedd | Hydref 2018<br><br>Ymgynghoriad statudol - Hydref 2018 | Ebrill 2019<br><br>Ymgynghoriad statudol - Tachwedd 2018 |
| Ymgynghoriad Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol | • Adolygu polisïau a dyraniadau manylach ar y Cynllun Adneuo sydd heb eu cynnwys yn y cyfnod Cyn Adneuo<br>• Adolygu polisïau Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo<br>• Adolygu a diweddaru'r Cynllun 1af Sgrinio ac Asesu yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Mai 2019<br><br>Ymgynghoriad statudol - Hydref 2019 | Tachwedd 2019<br><br>Ymgynghoriad statudol - Tachwedd 2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Adolygu a diweddaru'r Cynllun Datblygu Lleol Cyn Adneuo Asesiad o Effaith ar Les<br>• Paratoi a chyhoeddi'r ddogfen Cynllun Datblygu Lleol Adneuo ac Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol, Adroddiad Adolygu, Adroddiad Ymgynghori cychwynnol, Cofrestr Safleoedd Amgen, Papurau Gwybodaeth<br>• Ymgynghoriad statudol (8 wythnos) | | |
| **CYFNODAU MYNEGOL** | | | |
| Cyflwyniad | Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig a dogfen gefnogol at Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio | | Gwanwyn 2020 |
| Archwiliad | Archwiliad annibynnol dan arweiniad yr Arolygiaeth Gynllunio | | Hydref 2020 |
| Mabwysiadu | Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig | | Gwanwyn 2021 |
| Adroddiad Monitro Blynyddol | Paratoi, cyhoeddi a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol | | Yn flynyddol |

2.1.5 Mae'r amserlen yn disgwyl mabwysiadu'r Cynllun newydd yn y Gwanwyn 2021, cyn i'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol a fabwysiadwyd ddirwyn i ben ym mis Mehefin 2021.

2.1.6 **Tabl 3 – Dulliau Ymgynghori/Hysbysu ar gyfer pob cyfnod paratoi allweddol**

| **Cyfnod ymgynghori/hysbysu** | **Dull** |
|---|---|
| Cyhoeddi'r Adroddiad Adolygu, Cytundeb Cyflawni ac Arfarniad Cynaliadwyedd | • Gwefan<br>• Hysbysiad ysgrifenedig trwy e-bost/llythyr at ymgyngoreion y rhestr bostio (gan gynnwys y rhai a restrwyd yn Atodiad 3 – grwpiau ymgynghori) |

| | |
|---|---|
| | • Datganiad i'r wasg<br>• Mynediad i'r we ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus<br>• Dogfennau ar gael mewn llyfrgelloedd a siopau un stop |
| Gwahodd cyflwyniadau gan safleoedd ymgeisiol | • Gwefan<br>• Hysbysiad ysgrifenedig trwy e-bost/llythyr at ymgyngoreion y rhestr bostio (gan gynnwys y rhai a restrwyd yn Atodiad 3 – grwpiau ymgynghori)<br>• Datganiad i'r wasg |
| Ymgynghoriad ar y Cynllun Cyn Adneuo<br><br>Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo<br><br>Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru ei Archwilio<br><br>Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd<br><br>Mabwysiadu | • Gwefan<br>• Hysbysiad ysgrifenedig trwy e-bost/llythyr at ymgyngoreion y rhestr bostio (gan gynnwys y rhai a restrwyd yn Atodiad 3 – grwpiau ymgynghori)<br>• Datganiad i'r wasg<br>• Mynediad i'r we mewn llyfrgelloedd cyhoeddus<br>• Dogfennau ar gael mewn llyfrgelloedd a siopau un stop |

DRAFT

## 2.2 Adnoddau

2.2.1 Saif y cyfrifoldeb am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yn Nhîm Cynllunio a Thai Strategol Gwasanaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus Sir Ddinbych. Mae'r Tîm yn cynnwys rheolwr, pum swyddog cynllunio (tri rhan-amser, un amser llawn ac un swydd contract cyfnod penodol), dau swyddog tai strategol ac un swyddog cymorth technegol. Nid yw swyddogion Tai Strategol y tîm ynghlwm wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yn uniongyrchol ond byddant yn cyfrannu'n sylweddol at elfennau tai'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2.2 Mae'r Tîm Cynllunio a Thai Strategol hefyd yn cydlynu ac yn gweinyddu grŵp llywio o Aelodau etholedig, sy'n cwrdd bob 4-6 wythnos gan ddarparu cyfraniad a llyw ar gynnwys a phroses ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw ddogfennau polisi cynllunio eraill (e.e. Canllawiau Cynllunio Atodol, Cyfarwyddyd Datblygu Safleoedd ac ati). Nid corff gwneud penderfyniadau yw'r grŵp llywio hwn ond gwna argymhellion i'r Pwyllgor Cynllunio a'r Cyngor lle mae angen cymeradwyaeth ffurfiol neu benderfyniadau ar y broses.

## 2.3 Risgiau

2.3.1 Mae yna amryw risgiau i sicrhau y cedwir at yr amserlen uchod a dynodir y rhain yn Atodiad 2. Gallai'r risgiau hyn fod o ffynonellau mewnol neu allanol a chynnwys y rhai y gallai fod gan yr Awdurdod Lleol ddylanwad cyfyngedig drostynt. Mae mesurau lliniaru posibl wedi'u dynodi ar gyfer pob un o'r risgiau ac argymhellir cynnwys goddefgarwch o ddeufis yn yr amserlen er mwyn caniatáu am hyblygrwydd heb ddiwygio'r Cytundeb Cyflawni yn ffurfiol.

## 2.4 Monitro ac Adolygu

2.4.1 **Cytundeb Cyflawni**

2.4.2 Bydd y Cytundeb Cyflawni'n cael ei adolygu os:

- Bydd proses paratoi'r Cynllun yn syrthio dros 2 fis y tu ôl i'r amserlen
- Oes angen newidiadau i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau
- Bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni gwaith paratoi'r Cynllun.

2.4.3 Cyn pen tri mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori Adneuo, bydd amserlen wedi'i diweddaru sy'n dangos dyddiadau pendant ar gyfer cyfnodau mynegol proses y Cynllun yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i gael eu cytundeb.

2.4.4 **Cynllun Datblygu Lleol**

2.4.5 Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn llunio Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ym mis Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, a fydd yn asesu pa mor effeithiol y mae polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol yn perfformio a thynnu sylw at yr angen am ddiwygiadau. Ar ôl llunio, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

2.4.6 Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, dylid cynnal adolygiad ymhen 4 blynedd ond gallai gychwyn yn gynt os bydd newidiadau mewn polisïau cenedlaethol neu gyd-destun lleol yn digwydd neu os bydd problemau sylweddol yn codi o'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

DRAFT

## 3. CYNLLUN CYNNWYS CYMUNEDAU

### 3.1 Egwyddorion Cynnwys

3.1.1 Bydd ymglymiad gweithgar a bodlon pobl, cymunedau a sefydliadau'n allweddol wrth helpu ffurfio'r gwaith o ddisodli'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Sir Ddinbych. Mae mwy o ddealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu cymunedau a sut hoffent ddatblygu yn y dyfodol yn allweddol i lunio cynllun newydd sy'n bodloni'r dyheadau hyn orau.

3.1.2 Mae egwyddorion canlynol ymglymiad gan y gymunedol a rhanddeiliaid yn allweddol i gyflawni'r cynllun newydd yn llwyddiannus:

- Byddwn yn ceisio gwneud pob cam yn y broses mor hawdd i ddeall â phosibl;
- Byddwn yn ceisio defnyddio Cymraeg clir / plain English bob amser ac yn osgoi defnyddio termau technegol lle bynnag y bo'n bosibl;
- Byddwn yn ceisio darparu adborth ar y canlyniadau ym mhob cam yn y broses;
- Byddwn yn ceisio cynnwys pob rhan o'r gymuned, gan gynnwys y rhai sydd heb gyfrannu'n draddodiadol at broses paratoi'r cynllun;
- Byddwn yn anelu at egluro bob amser lle gellir gwneud penderfyniadau ar lefel leol, a lle mae rheoliadau polisi a statudol cenedlaethol yn cael blaenoriaeth;
- Byddwn yn anelu at gyflawni cytundeb lle bynnag y bo'n bosibl, gan gydnabod bod angen i ni gyd fod yn realistig lle mae safbwyntiau'n gwahaniaethu.

### 3.2 Yr Hyn a Ddisgwyliwn Ohonoch

3.2.1 Mae'n bwysig fod unrhyw un sydd am fod ynghlwm, neu'n rhoi sylwadau, yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn gwneud hynny o fewn yr amserlenni cyhoeddedig a osodwyd yn y Cytundeb Cyflawni. Mae hyn yn hollbwysig os hoffech i'ch safbwyntiau gael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn datblygu strategaeth a pholisïau manwl y Cynllun Datblygu Lleol.

3.2.2 Mae'n bwysig hefyd eich bod yn rhoi gwybod i'r Tîm Cynllunio Strategol a Thai am unrhyw newid yn y manylion cyswllt yn ystod y broses.

### 3.3 Cynhwysiant Dwyieithog

3.3.1 Bydd cynhwysiant dwyieithog yn cael ei gynnal yn unol â Safonau'r Gymraeg:

- Mae Sir Ddinbych yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg a bydd y gohebwyr yn cael ymateb yn iaith y cyswllt gwreiddiol. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi wrth brosesu'ch sylwadau.
- Bydd yr holl lythyrau, ffurflenni sylwadau a chylchlythyrau safonol yn ddwyieithog;
- Bydd holl gyhoeddiadau polisi ac arweiniad Sir Ddinbych yn ddwyieithog;
- Bydd holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu Sir Ddinbych yn ddwyieithog;
- Bydd pob cyfarfod, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol yn cael eu cynnal yn ddwyieithog lle gofynnir am hynny ymlaen llaw.

DRAFT

## 3.4 Pwy Fyddwn yn Cynnwys a Sut?

3.4.1 Byddwn yn cynnwys pobl yn y cynllun newydd mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd ym mhob cam yn y broses fel y gosodwyd yn amserlen y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Gellir ystyried y gwahanol ddulliau ymgysylltu mwyaf priodol ar gyfer yr ystod eang o ymgyngoreion a fydd eisiau bod yn rhan wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bwriadwn wneud y broses mor hygyrch â phosibl a dylai pobl allu ymgysylltu gan ddefnyddio dull sy'n gweddu orau iddynt hwy.

3.4.2 Bydd pob cam y gellir gwneud sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael cyhoeddusrwydd ar raddfa eang. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar wefan Sir Ddinbych, datganiadau i'r wasg a hysbysiadau'n cael eu hanfon at bob cyswllt ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd gwybodaeth am sut i ymateb a'r dyddiad cau ar gyfer unrhyw sylwadau'n cael eu gwneud yn glir mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd.

3.4.3 Bydd yr holl sylwadau a wneir yn ystod y broses Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gael yn gyhoeddus yn dilyn ymgynghoriad a'u priodoli i'r person, y grŵp neu'r sefydliad sy'n gwneud y sylw.

## 3.5 Rôl Aelodau Etholedig (Cynghorwyr)

3.5.1 Cynghorwyr yw cynrychiolwyr etholedig pobl Sir Ddinbych a gwnânt benderfyniadau ar ran eu hetholaeth. Aelodau etholedig fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar ffurf a chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gamau allweddol ar hyd y broses.

3.5.2 Bydd Grŵp Llywio Aelodau'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael ei sefydlu. Bydd hwn yn grŵp awdurdod lleol mewnol o aelodau etholedig a swyddogion proffesiynol o bob cwr o'r Cyngor. Bydd gan y Grŵp Llywio aelodaeth gytûn gyda hawliau pleidleisio i sicrhau cydbwysedd ond bydd yn agored i bob Aelod eu mynychu. Bydd y grŵp yn cyfarfod yn gyson i adolygu a ffurfio polisïau a chynigion i'w hystyried gan y Cyngor. Bydd y Grŵp Llywio'n gwneud argymhellion ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ond bydd pob penderfyniad ffurfiol yn cael eu gwneud gan y Cyngor Llawn.

## 3.6 Y Cyhoedd

3.6.1 Gall hwn fod yn unrhyw aelod o'r cyhoedd o fewn Sir Ddinbych a thu hwnt. Gall unrhyw un gymryd rhan trwy roi sylwadau ar y cyfnodau allweddol fel y maen nhw wedi'u gosod yn Amserlen y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd y rhain, ar yr Adroddiad Adolygu drafft a'i ddogfennaeth gefnogol, Cytundeb Cyflawni drafft, yr Ymgynghoriad Cyn Adneuo, ymgynghoriad y Cynllun Adneuo ac yn yr Archwiliad. Nid oes rhaid i ni ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu na'r Cytundeb Cyflawni ond credaf ei bod hi'n bwysig gwneud hynny.

3.6.2 Gall y cyhoedd helpu'r Cyngor i ddatblygu gwybodaeth leol fanwl am feysydd penodol yn y Sir. Gall unigolion a chanddynt wybodaeth a phrofiad manwl ar rai pynciau sy'n

DRAFFT

berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol weithredu fel ffynhonnell wybodaeth allweddol. Bydd y cyhoedd hefyd yn rhoi adborth gwerthfawr ar sut mae polisïau drafft, dyraniadau safleoedd a chynigion manwl eraill yn datblygu a'r rhesymau am gefnogaeth neu wrthwynebiad cyhoeddus.

3.6.3 Ar gyfer y cyhoedd, nad ydynt yn cwympo i unrhyw un o'r grwpiau a restrir isod, bydd y cyfleoedd i gymryd rhan a'r cyfnodau ymgynghori'n cael cyhoeddusrwydd trwy wefan Cyngor Sir Ddinbych, porth ymgynghori Sir Ddinbych, defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth ym mhob llyfrgell a siop un stop.

**3.7 Cronfa Ddata'r Cynllun Datblygu Lleol**

3.7.1 Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol cyntaf , datblygwyd cronfa ddata helaeth a oedd yn cynnwys nifer fawr o sefydliadau ac unigolion a ofynnodd am gael gwybodaeth ar amryw gamau yn y broses. Gall unrhyw un ofyn am gael eu hychwanegu at y gronfa ddata neu eu tynnu oddi arni unrhyw bryd a bydd unrhyw un sy'n cyflwyno sylw yn ystod unrhyw un o'r cyfnodau ymgynghori'n cael eu hychwanegu at y gronfa ddata.

3.7.2 Y dull cyfathrebu sy'n cael eu ffafrio ar gyfer y rhai ar Gronfa Ddata'r Cynllun Datblygu Lleol yw trwy e-bost. Bydd copïau papur ar gael ar gais.

**3.8 Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned**

3.8.1 Mae Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn darparu cyswllt hanfodol rhwng eu cymunedau a'r cyngor. Gallant helpu codi ymwybyddiaeth o broses y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ogystal â chyfleu safbwyntiau a barnau lleol i'r Cyngor. Bydd yr holl gyfathrebu, ymgysylltu ac ymgynghori'n cael eu cynnal yn unol â'r Siarter gytûn rhwng y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a Chyngor Sir Ddinbych (2016) https://www.denbighshire.gov.uk/en/your-council/strategies-plans-and-policies/town-community-council-charter.pdf Bydd cynghorau tref a chymuned cyfagos yn destun ymgynghoriad ar bob cam o broses y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

3.8.2 Bydd y cyfathrebu gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn cael ei wneud trwy e-bost. Yn ogystal, bydd digwyddiadau gweithdy'n cael eu cynnal gyda phob Grŵp Clwstwr Cyngor Dinas, Tref a Chymuned yn y camau canlynol:

- Sesiwn codi ymwybyddiaeth sy'n canolbwyntio ar yr Adroddiad adolygu drafft a'r Cytundeb Cyflawni drafft a'r broses dewis safle ymgeisiol;
- Cyn yr ymgynghoriad cyn Adneuo er mwyn trafod meysydd newid arfaethedig a dewis safle yn unol â'r Strategaeth Ddewisol.

Gellir dod o hyd i restr o holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych yn Atodiad 3.

**3.9 Cyrff Ymgynghori Penodol ac Adrannau Llywodraeth y DU**



DRAFT

3.9.1 Caiff yr ymgyngoreion hyn eu gosod yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Grwpiau B2 a B3 (2015)) ac maen nhw'n cynnwys cyrff a chanddynt swyddogaethau penodol yn Sir Ddinbych fel darparwyr gwasanaethau, adrannau'r llywodraeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru. Gweler Atodiad 3 i gael rhestr lawn.

3.9.2 Bydd y cyrff sydd wedi'u cynnwys yn y grŵp hwn yn darparu cyngor manwl, proffesiynol ar gynigion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, ac ar addasrwydd a chyflawniad safleoedd datblygu. Byddant yn destun ymgynghoriad ac yn cael cyfle i roi sylwadau ar gamau ffurfiol allweddol (statudol) wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Gallai'r ymgyngoreion hyn hefyd ymddangos mewn Gwrandawiadau Archwilio o gael eu gwahodd gan yr Arolygydd, hyd yn oed os nad ydynt wedi mynegi gwrthwynebiad neu heb ddynodi eu bod yn dymuno ymddangos.

**3.10 Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac Ymgyngoreion Eraill**

3.10.1 Mae Cyrff Ymgynghori cyffredinol yn cynnwys cyrff gwirfoddol sy'n weithgar yn y Sir ac sy'n cynrychioli buddiannau amryw grwpiau gwahanol. Gall y rhain gynnwys cynrychiolwyr gwahanol grwpiau hiliol, crefyddol; ethnig ac anabledd yn ogystal â'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau busnes, yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Bydd llawer o'r rhain eisoes ar y gronfa ddata ond byddwn yn hapus i ychwanegu unrhyw grwpiau newydd unrhyw bryd.

3.10.2 Sefydliadau yw'r ymgyngoreion eraill nad ydynt yn cwympo i unrhyw un o'r categorïau uchod ond y mae dal ganddynt fudd cynrychioliadol yn y maes. Gall hyn gynnwys cyrff megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymdeithasau Dinesig.

3.10.3 Bydd y cyrff hyn yn destun ymgynghoriad ac yn cael cyfle i roi sylwadau ar gyfnodau ffurfiol allweddol (statudol) wrth baratoi i ddisodli'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n debygol y bydd nifer fawr o'r grwpiau hyn hefyd yn aelodau o grwpiau eraill ac eisoes ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol.

**3.11 Datblygwyr, Asiantau a Thirfeddianwyr**

3.11.1 Bydd datblygwyr, asiantau a thirfeddianwyr yn cael gwahoddiad i gyflwyno safleoedd ymgeisiol i'w hystyried yn ystod y cam ymgysylltu Cyn Adneuo. Bydd manylion y wybodaeth angenrheidiol i gyd-fynd ag unrhyw gais am safle ymgeisiol a'r meini prawf asesu unrhyw gyflwyniad yn eu herbyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor www.denbighshire.gov.uk ac ar gael ar gopi caled ar gais. Bydd yr alwad am safleoedd yn cael cyhoeddusrwydd mewn papurau newydd lleol ac ar wefan y Cyngor, yn ogystal â rhoi gwybod i'r holl gysylltiadau ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol.

**3.12 Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol**

3.12.1 Bydd manylion yr holl safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd yn gywir yn cael eu cofnodi ar Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol. Bydd hon yn cael ei gwneud yn gyhoeddus ochr yn ochr



DRAFT

ag ymgynghoriad Cyn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol. Ni fydd eiddo sy'n ffinio â safleoedd ymgeisiol yn cael gwybod yn unigol am gyflwyniad safle ymgeisiol.

**3.13 Adborth**

3.13.1
- Bydd pob sylw a wnaed yn briodol yn unrhyw un o gyfnodau ymgynghori ffurfiol y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael eu cydnabod trwy e-bost neu lythyr.
- Bydd pob sylw a wnaed yn briodol yn cael eu hadrodd i Grŵp Llywio Aelodau'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cabinet neu'r Cyngor Llawn yn dilyn y camau ymgynghori ffurfiol. Bydd crynodeb o'r sylwadau ynghyd ag ymateb a awgrymwyd gan y Cyngor ac unrhyw newidiadau a argymhellir ar gael yn gyhoeddus.
- Bydd unrhyw ddeisebau a ddaw i law yn cael eu cydnabod i gynigiwr y ddeiseb.

**3.14 Sut Byddwn yn Delio â'ch Sylwadau?**

3.14.1 Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn briodol yn ysgrifenedig trwy lythyr neu e-bost a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau penodedig ar gyfer unrhyw gyfnod ymgynghori ffurfiol. Bydd sylwadau'n cael eu hadrodd arnynt fel y nodir uchod.

3.14.2 Er mwyn i sylwadau gael eu ystyried yn rhai 'wedi'u gwneud yn briodol' yn y cyfnod Cyn Adneuo, dylent fod yn glir ynghylch beth yw eu byrdwn. Sylwch nad yw'r sylwadau a wnaed yn y cyfnod Cyn Adneuo yn cael eu hystyried gan yr Arolygydd yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus. Os nad aed i'r afael â phryder a godwyd yn y cyfnod Cyn Adneuo i'ch boddhad, dylid gwrthwynebu yn y Cyfnod Adneuo.

3.14.3 Yn y Cyfnod Adneuo, dylai pob sylw a wnaed yn briodol osod pa fater mae'n ymwneud ag ef, pa newid(iadau) sy'n cael ei geisio, y sail y gwneir y gwrthwynebiad hwnnw arno ac, os yn bosibl, y Prawf/Profion Cadernid maen nhw'n ymwneud â nhw. Gellir canfod manylion y Profion Cadernid ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol yn Atodiad 1. Gellir ystyried gwrthwynebiadau a wnaed yn briodol yn y Cyfnod Adneuo gan yr Arolygydd yn yr Archwiliad Cyhoeddus.

**3.15 Sylwadau Hwyr**

3.15.1 Bydd Cyngor Sir Ddinbych ond yn ystyried sylwadau a wnaed yn unol â'r cyfnod ymgynghori perthnasol, penodedig. Golyga hyn anfon sylwadau at Gyngor Sir Ddinbych ar bapur neu drwy e-bost, erbyn y dyddiad cau penodedig yng nghyhoeddurwydd yr ymgynghoriad. Er mwyn ei gofnodi'n sylw 'a wnaed yn briodol' fel Cynllun Datblygu Lleol, rhaid iddynt benodi'r materion maen nhw'n ymwneud â nhw yn y cyfnod Ymgynghori Cyn Adneuo. Dylent bennu yn y Cyfnod Adneuo'r materion maen nhw'n ymwneud â nhw a'r newid sy'n cael ei geisio, y rhesymau y cânt eu gwneud arnynt a, lle bo'n bosibl, y Prawf/Profion Cadernid maen nhw'n ymwneud â nhw.

3.15.2 Darperir cyngor ar gyflwyniadau safleoedd o dan 'Datblygwyr ac Asiantau a'r rhai sy'n cynnig safleoedd i'w datblygu.'



DRAFT

DRAFT

3.15.3 Dylai gwrthwynebiadau bennu'r newid a geisir, y rhesymau y cânt eu gwneud arnynt a lle bo'n bosibl, y Prawf/Profion Cadernid maen nhw'n ymwneud â nhw. Gellir ystyried gwrthwynebiadau a wnaed yn briodol yn y Cyfnod Adneuo yn yr Archwiliad. Nid ystyrir sylwadau a wnaed yn y Cyfnod Cyn Adneuo gan yr Arolygydd.

3.15.4 Os daw sylwadau'n hwyrach na'r dyddiad cau a chafwyd ymgais glir a dibynadwy i gyflwyno'r cyflwyniad mewn da bryd, gallai'r cyflwyniad barhau i gael ei ystyried yn un 'a wnaed yn briodol' ar yr amod y cyflenwir tystiolaeth wrthrychol briodol o bostio neu ddanfon i fodlonrwydd rhesymol yr Awdurdod.

3.15.5 Gall y rhai sydd â'r hawl statudol i ymddangos gerbron, a chael eu clywed gan yr Arolygydd archwilio (h.y. gwrthwynebwyr, y rhai sy'n ceisio newid y cynllun – dan adran 64 (6) Deddf 2004) fynd ar drywydd eu gwrthwynebiadau gan ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig os nad ydynt yn dymuno ymddangos yn yr Archwiliad. Mae gwrthwynebiadau yr aed ar eu trywydd fel hyn yn cario cymaint o bwysau ag Arolygwyr â'r rhai a wnaed ar lafar mewn Archwiliad (Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol Rhifyn 2 paragraff 7.4.4.2).

## 4. Monitro ac Adolygu

### 4.1 Cytundeb Cyflawni

Bydd y Cytundeb Cyflawni'n cael ei adolygu os:

- Bydd y broses paratoi Cynllun yn cwympo y tu ôl i'r amserlen (h.y. dros 2 fis)
- Os bydd angen newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau
- Os bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni gwaith paratoi'r Cynllun

4.1.1 Bydd y gwaith o gyflawni amcanion y Cytundeb Cyflawni'n cael ei asesu trwy bob cam o waith paratoi'r Cynllun.

4.1.2 Cyn pen 3 mis o gloi'r ymgynghoriad Adneuo, bydd amserlen wedi'i diweddaru sy'n troi amserau mynegol yn amserau pendant ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i gael eu cytundeb.

### 4.2 Cynllun Datblygu Lleol

4.2.1 Rhaid cynnal adolygiad mawr o'r Cynllun Datblygu Lleol bedair blynedd yn dilyn ei fabwysiadu am y tro cyntaf.

4.2.2 Bydd adroddiadau monitro blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflwyno erbyn 31 Hydref bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru sy'n cwmpasu perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (yn dod i ben ym mis Mawrth). Bydd yr adroddiadau ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych a bydd unrhyw faterion hollbwysig yn cael eu bwydo i adolygiad o'r Cynllun.

Gallai adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol olygu bod angen Cynllun Datblygu Lleol newydd neu fod angen ei addasu. Bydd Adroddiad Adolygu'n cael ei baratoi ymhen chwe mis o benderfyniad ar yr angen i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Yn ogystal, bydd adolygiad newydd neu rannol yn gofyn am newidiadau i'r Cytundeb Cyflawni trwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru.

## 5. Manylion Cyswllt

Tîm y Cynllun Datblygu Lleol
Cynllunio Strategol a Thai
Y Gwasanaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd
Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 9AZ

E-bost: cdll@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 01824 706916

Gwefan: http://www.denbighldp.co.uk/cymraeg/default.htm

**Cymorth Cynllunio**
Gwasanaeth gwirfoddol yw Cymorth Cynllunio sy'n gysylltiedig â'r Royal Town Planning Institute, sy'n cynnig cyngor rhad ac am ddim, annibynnol a phroffesiynol ar faterion cynllunio tref i grwpiau cymunedol ac unigolion sy'n methu fforddio cyflogi ymgynghorydd cynllunio. Dyma'r manylion cyswllt:

- Ffoniwch: 029 2062 5000
- E-bost trwy'r wefan ar http://www.planningaidwales.org.uk/contact-us/
- Neu ysgrifennwch at: Cymorth Cynllunio Cymru, Llawr Cyntaf, 174 Heol yr Eglwys Newydd, Y Mynydd Bychan, Caerdydd. CF14 3NB

DRAFT

## Atodiad 1 – Profion Cadernid

Cysyniad sylfaenol system y Cynllun Datblygu Lleol yw bod y cynllun yn gynnyrch proses drwyadl a chynhwysfawr o ymgysylltu â'r gymuned, lle mae'r awdurdod cynllunio wedi mireinio'r dewisiadau i gynhyrchu cynllun Cadarn yn eu barn nhw. Felly, bydd rhagdybiaeth fod y Cynllun Datblygu Lleol yn Gadarn oni ddangoswyd fel arall o ganlyniad i dystiolaeth a ystyriwyd yn yr Archwiliad.

O ganlyniad, bydd angen i'r sawl sy'n gwrthwynebu ddangos pam nad yw'r cynllun yn Gadarn. Bydd pawb sy'n gwneud sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hannog i gysylltu eu sylwadau â'r Profion Cadernid.

Serch hynny, cyfrifoldeb yr Arolygydd penodedig yn y cam Archwilio yw ystyried Cadernid y Cynllun Datblygu Lleol cyfan. Er y bydd Arolygwyr yn parhau i ystyried gwrthwynebiadau unigol, bydd hynny ar sail sut bydd y rhain yn mynd i'r afael â Chadernid cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol.

Bydd yr Archwiliad ar ffurf trafodaeth gyhoeddus lle bydd y materion i'w trafod yn cael eu nodi ymlaen llaw gan yr Arolygydd a bydd y cyfranogwyr yn cael eu gwahodd i gyfrannu. Bydd gwahanol fathau o weithdrefnau'n cael eu defnyddio ond yn drafodaethau neu'n wrandawiadau bord gron gan mwyaf. Gallai gwrandawiadau ffurfiol gael eu defnyddio os bydd yr Arolygydd yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol ac yn briodol. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu ar y weithdrefn briodol gan dybio y bydd yn anffurfiol.

Mae'r Profion Cadernid yn ymwneud â: thri maes:

- Ydy'r cynllun yn gweddu? (h.y. ydy hi'n glir fod y Cynllun Datblygu Lleol yn gyson â chynlluniau eraill?)
- Ydy'r cynllun yn briodol? (h.y. ydy'r Cynllun Datblygu Lleol yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
- A fydd y cynllun yn cyflawni? (h.y. ydyw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Profion Cadernid ar wefan yr Arolygiaeth http://planninginspectorate.gov.wales/?skip=1&lang=en mewn dogfen sy'n dwyn y teitl 'Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol: Canllaw Gweithdrefnol (Awst 2015)'.

DRAFT

## Atodiad 2 – Amserlen Risgiau

| **Mater** | **Lefel y Risg** | **Lliniaru** |
|---|---|---|
| Adnoddau ac argaeledd staff | Canolig | Ceisio cymorth timau/awdurdodau cynllunio eraill a blaenoriaethu recriwtio os bydd swyddi gwag yn codi |
| Argaeledd adnoddau ariannol | Isel | Mae cronfa wrth gefn mewn lle ar gyfer Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol a'i ddisodli. Bydd y costau'n cynnwys cyllidebau gwasanaeth/cyngor i'r dyfodol. |
| Newid deddfwriaeth, polisïau neu ganllawiau cenedlaethol | Uchel | Monitro polisïau a chanllawiau sy'n dod i'r amlwg ac ymateb fel y bo'n briodol. |
| Lefelau annisgwyl o uchel o ymatebion i'r ymgynghoriad / ymgysylltiad â'r ymgynghoriad | Canolig | Caniatáu am hyblygrwydd yn yr amserlen a sicrhau bod systemau gweinyddu'n weithredol cyn yr ymgynghoriad / ymgysylltiad. |
| Oedi wrth argraffu neu gyfieithu | Isel | Sicrhau y rhoddir digon o rybudd i geisiadau argraffu / cyfieithu. |
| Etholiadau lleol/cyffredinol | Isel | Ni ragwelir etholiadau lleol/cyffredinol yn ystod amserlen Adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol a'i ddisodli. Monitro ac ymateb fel y bo'n briodol. |
| Oedi wrth dderbyn ymatebion, gwybodaeth neu dystiolaeth | Canolig | Sicrhau ymgysylltiad cynnar gydag ymgyngoreion statudol a rhaglennu'r gwaith o gasglu tystiolaeth. |
| Diffyg consensws neu gytundeb ar faterion allweddol | Canolig | Sicrhau ymgysylltiad parhaus gyda rhanddeiliaid ac Aelodau allweddol. |
| Cylchoedd pwyllgor / bodloni amserlenni | Isel | Caniatáu am hyblygrwydd yn yr amserlen a sicrhau bod y camau Adolygu a disodli'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cynnwys mewn blaenraglenni gwaith. |
| Ni all yr Arolygiaeth Gynllunio fodloni'r amserlen | Isel | Cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio ar gamau allweddol paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| Her gyfreithiol | Isel | Sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion statudol. |

DRAFT

# Atodiad 3 – Grwpiau Ymgynghori

## Cyrff Ymgynghori Penodol ac Adrannau Llywodraeth y DU

Darparwyr seilwaith ynni
CADW
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Adran Strategaeth Busnes, Egni a Diwydiant
Yr Adran Drafnidiaeth
Dŵr Cymru
Y Swyddfa Gartref
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cyfoeth Naturiol Cymru
Network Rail
Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar y Cyd Conwy a Sir Ddinbych
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Pobl sy’n berchen ar gyfarpar electronig neu’n ei reoli
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros swyddogaethau a arferai gael eu hymarfer gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol)
Cynghorau Tref a Chymuned (a chynghorau tref a chymuned cyfagos) gweler y rhestr ar wahân isod
Holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru

## Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned – Sir Ddinbych

| | | |
|---|---|---|
| Aberchwiler | Diserth | Llanfair Dyffryn Clwyd |
| Betws Gwerful Goch | Efenechtyd | Llanferres |
| Bodelwyddan | Gwyddelwern | Llangollen |
| Bodfari | Henllan | Llangynhafal |
| Bryneglwys | Llanarmon-yn-Iâl | Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch |
| Cefn Meiriadog | Llanbedr Dyffryn Clwyd | Llanynys |
| Clocaenog | Llandegla | Nantglyn |
| Corwen | Llandrillo | Prestatyn |
| Cyffylliog | Llandyrnog | Rhuddlan |
| Cynwyd | Llantysilio | Rhuthun |
| Derwen | Llanelidan | Y Rhyl |
| Dinbych | Llanelwy | Trefnant |
| Tremeirchion Cwm a’r Waun | | |



DRAFT

**Cynghorau Tref a Chymuned Cyfagos**

| | | |
|---|---|---|
| Abergele | Llanefydd | Llansanffraid Glynceiriog |
| Cefn | Llanfair TH | Mwynglawdd |
| Ceiriog Uchaf | Llanfihangel GM | Nannerch |
| Cerrigydrudion | Llanfynydd | Nercwys |
| Cilcain | Llangernyw | Pen-y-cae |
| Chwitffordd | Llangwm | Pentrefoelas |
| Glyntraean | Llangynog | Rhiwabon |
| Gwernaffield | Llangywer | Treuddyn |
| Gwernymynydd | Llanrhaeadr-ym-Mochnant | Tywyn a Bae Cinmel |
| Llanasa | Llansannan | Ysgeifiog |
| Llandderfel | | |

**Cyrff Ymgynghori Cyffredinol – DS nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr**

| | |
|---|---|
| (i) Cyrff gwirfoddol sydd o fantais i'r ardal | **Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych** a'r grwpiau canlynol:<br>Clybiau Chwaraeon ac Adloniant<br>Cymdeithasau Trigolion a Thenantiaid<br>Dinasyddion Hŷn<br>Elusennau<br>Gofalwyr<br>Grwpiau Addysg a Hyfforddiant<br>Grwpiau Amgylcheddol<br>Grwpiau Anabledd<br>Grwpiau Celfyddydol<br>Grwpiau Crefyddol<br>Grwpiau Cymunedol<br>Grwpiau Ffydd<br>Grwpiau Garddwriaethol<br>Grwpiau Iechyd<br>Grwpiau Plant<br>Grwpiau Tai<br>Grwpiau Treftadaeth a Diwylliant<br>Pwyllgorau Neuaddau Pentref<br>Sgowtiaid<br>Y Digartref |
| (ii) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol yn yr ardal | Cyngor Ar Bopeth<br>Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru<br>Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig<br>Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<br>Y Gymdeithas Sipsiwn |
| (iii) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn yr ardal | Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Cyngor Hindŵiaid y DU<br>Cyngor Mwslimiaid Prydain Fawr<br>Eglwys Bresbyteraidd Cymru<br>Jewish Leadership Council<br>Yr Eglwys Babyddol yng Nghymru a Lloegr<br>Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru<br>Yr Eglwys Uniongred yng Nghymru |
| (iv) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn yr ardal | Anabledd Cymru<br>Cyngor Cymru i Bobl Fyddar<br>Cyngor Cymru i'r Deillion<br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br>Mind Cymru<br>Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl |
| (v) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n cynnal busnes yn ardal Sir Ddinbych. | British Wind Energy<br>Campaign for Real Ale<br>Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)<br>Cymdeithas Amaethyddol Siroedd Dinbych a Fflint<br>Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol<br>Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain<br>Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad<br>Cymdeithasau Twristiaeth Lleol a Rhanbarthol<br>Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi<br>Ffederasiwn Busnesau Bach<br>Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr<br>Fforwm Gwledig Cymru<br>Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig<br>Rail Freight Group<br>Undeb Amaethwyr Cymru<br>RenewableUK<br>Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| (vi) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymreig yn ardal Sir Ddinbych. | Cadw<br>Cymuned<br>Fforwm Gwledig Cymru<br>Cydbwyllgor a Phartneriaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy<br>Menter Iaith Sir Ddinbych<br>Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd/Powys |

**Ymgyngoreion Eraill - DS nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr**

Anabledd Cymru
Arolwg Daearegol Prydain
Awdurdod Glo
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
Awdurdod Hedfan Sifil
British Aggregates Association
Canolfan Ecoleg a Hydroleg
Cartrefi Cymunedol Cymru
Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Comisiwn Dylunio Cymru
Comisiwn Hawliau Anabledd
Comisiynydd y Gymraeg
Cwmnïau Dŵr
Cwmnïau Gweithredu Trenau
Cwmnïau Trydan, Nwy a Thelathrebion a Chwmni'r Grid Cenedlaethol Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor y Sipsiwn
Cymdeithas y Cerddwyr
Cymdeithasau Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (sy'n cynrychioli'r diwydiant gwastraff)
Cymdeithasau Preswylwyr
Cymorth Cynllunio Cymru
Cyrff Proffesiynol heb eu rhestru'n benodol (e.e. Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, Y Sefydliad Tai Siartredig, Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff)
Chwaraeon Cymru
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Glandŵr Cymru, perchnogion camlesi ac awdurdodau dyfrffyrdd
Grwpiau amgylcheddol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol
Grwpiau cymunedol, cadwraeth ac amwynder lleol, gan gynnwys Grwpiau Ymddiriedolaethau Byd Natur/Cymdeithasau Dinesig
Gwasanaethau Tân ac Achub
Gweithredwyr cludiant lleol
Gweithredwyr Meysydd Awyr
Gweithredwyr Porthladdoedd
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Meysydd Chwarae Cymru
Minerals Products Association
Post Office Property Holdings
Pwyllgor Ymgynghorol Cludiant i Bobl Anabl
Rail Freight Group
Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Siambrau Masnach, CBI lleol, Cymdeithasau Busnes lleol a changhennau lleol Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Swyddfa Ystâd y Goron
Swyddogion Cyswllt Pensaernïol yr Heddlu

DRAFT

Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Un Llais Cymru
Yr Asiantaeth Gwasanaethau Amgylcheddol (Gwastraff)
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Y Ffederasiwn Busnesau Bach

DRAFFT

## Atodiad 4 – Geirfa

| | |
|---|---|
| Adroddiad Monitro Blynyddol | Bydd hwn yn asesu i ba raddau y mae'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus (Rheoliad 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. |
| Sylfaenol | Disgrifiad o gyflwr presennol ardal i fesur newid yn ei erbyn. |
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | Cynllun sy'n gosod amcanion a gweithredoedd ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth, gyda thargedau mesuradwy, eu nod yw gwarchod a gwella natur ar draws cymunedau trwy ddwyn ynghyd yr holl fuddiannau gan gynnwys sectorau fel amaethyddiaeth a busnes yn ogystal â'r cymunedau eu hunain. Caiff gweithredoedd eu datblygu a'u symud ymlaen ar y cyd ac wrth wneud hynny, maen nhw'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol yn ogystal ag anghenion bioamrywiaeth. |
| Safle Ymgeisiol | Safleoedd Ymgeisiol yw rhai a enwebwyd gan unrhyw un i'w hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel dyraniadau mewn Cynllun Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg. |
| Cofrestr y Safleoedd Ymgeisiol | Paratowyd y gofrestr safleoedd ymgeisiol yn dilyn galwad am safleoedd ymgeisiol gan Gyngor Sir Ddinbych. |
| Cymuned | Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau eraill ac sydd felly'n ffurfio cymunedau diddordeb. |
| Cynllun Cynnwys Cymunedau | Mae'n gosod cynllun y prosiect a pholisïau Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer cynnwys cymunedau lleol, gan gynnwys busnesau, wrth baratoi ei Gynllun Datblygu Lleol. Cyflwynir y Cynllun Cynnwys i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni i gael cytundeb arno. |
| Strategaeth Gymunedol | Yn ofynnol gan Fesur 2009 Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhan 2: Rhannau 37-46) gyda'r nod o wella lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd eu hardaloedd. Gweler y "Cynllun Integredig Sengl". |
| Meithrin consensws | Proses deialog cynnar gyda grwpiau budd targedig i ddeall safbwyntiau perthnasol a chytuno cam gweithredu. |
| Ymgynghoriad | Proses ffurfiol lle caiff sylwadau eu gwahodd ar bwnc neu set o bynciau penodol, neu ddogfen ddrafft. |
| Corff Ymgynghori | Awdurdod gyda chyfrifoldebau amgylcheddol sy'n ymboeni ag effeithiau rhoi cynlluniau a rhaglenni ar waith ac y mae'n rhaid ymgynghori â nhw dan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Cadw. |
| Ymarfer ymgynghori | Prosiect ymgynghori sengl sy'n canolbwyntio ar amcan diffiniedig ac sydd fel arfer yn rhan o raglen ymgynghori gyffredinol. |
| Cytundeb Cyflawni | Dogfen sy'n cynnwys amserlen Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol ynghyd â'i Gynllun Cynnwys |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Cymunedau, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru am gytundeb. |
| Dogfennau Adneuo | Gweler "dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol" |
| Polisïau rheoli datblygu | Bydd cyfres o bolisïau seiliedig ar feini prawf yn sicrhau bod yr holl ddatblygu yn y maes yn bodloni'r nodau a'r amcanion a osodwyd yn y Strategaeth. |
| Ymgysylltiad | Proses sy'n annog penderfynu sylweddol mewn cymuned. Ymgais ragweithiol i gynnwys unrhyw grŵp penodol o bobl/rhan o'r gymuned. |
| Adroddiad Amgylcheddol | Dogfen sy'n ofynnol gan Reoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n dynodi, yn disgrifio ac yn arfarnu'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd o weithredu'r cynllun, gweler yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd. |
| Sail Dystiolaeth | Dehongliad o Sylfaen neu wybodaeth/data arall i ddarparu'r sail ar gyfer polisi'r cynllun. |
| Newid Ffocysedig | Newidiadau a gynigiwyd i'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo cyn cyflwyno sy'n eithriadol o gyfyngedig o ran nifer, sy'n adlewyrchu darnau tystiolaeth allweddol, ond nad ydynt yn mynd i galon y cynllun. |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Sgrinio ac asesiad priodol o ddewisiadau sy'n ofynnol dan Ran 6 Pennod 8 y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y diwygiwyd) (y Rheoliadau Cynefinoedd) - proses ailadroddol gydnabyddedig sy'n helpu penderfynu ar effaith arwyddocaol debygol ar gynllun neu raglen a (lle bo'n briodol) asesu effeithiau andwyol ar hygrededd safle Ewropeaidd.<br>Mae'n ofynnol i awdurdod medrus gynnal yr asesiad mewn perthynas â chynlluniau neu brosiectau sy'n debygol o gael effaith sylweddol (ar eu pen eu hunain ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar "safle Ewropeaidd" (gweler paragraff 5.1.2 TAN 5) neu fel mater o bolisi, "safle Ewropeaidd" arfaethedig neu safle Ramsar, dan ddarpariaethau Erthygl 6 (3) Cyfarwyddeb y CE 92/43/ECC (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), rheoliadau 61 a 102 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (fel y diwygiwyd) 2010, a rheoliad 25 Rheoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 2007. |
| Dangosydd | Mesur o newidynnau dros amser, a ddefnyddir yn aml i fesur cyflawniad amcanion. |
| Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol | Term a ddefnyddir yng Nghynllun Datblygu Lleol Cymru i gyfeirio at yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd, a luniwyd yn y cam Strategaeth Ddewisol. Mae hyn yn asesu dewisiadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn erbyn y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. Ehangir ar yr adroddiad yng nghyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo a'i orffen ochr yn ochr â'r Datganiad Mabwysiadu. |

| | |
|---|---|
| Cynnwys | Term generig sy'n cynnwys technegau cyfranogi ac ymgynghori. |
| Dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol (neu Adneuo) | Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio gan y cyhoedd, yr adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd, yr adroddiad ymgynghori cychwynnol, y gofrestr safleoedd ymgeisiol, Adroddiad yr Adolygiad (os yn briodol), unrhyw ddogfennau cefnogol perthnasol. |
| Cynllun Datblygu Lleol | Y cynllun datblygu statudol ofynnol ar gyfer pob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.<br>- Cynllun defnydd tir sy'n destun archwiliad annibynnol, a fydd yn ffurfio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol at ddibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ledled yr ardal ar gyfer mathau o ddatblygiad, dyraniadau tir, a lle bo angen polisïau a chynigion angenrheidiol ar gyfer meysydd newid a diogelwch allweddol. Rhaid dangos polisïau a dyraniadau'n ddaearyddol ar y Map Cynigion sy'n rhan o'r cynllun. |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Lleol h.y. Cyngor Sir neu Fwrdeistref, neu Awdurdod Parc Cenedlaethol. |
| Cynllun Lles Lleol | Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael eu sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol; ei fyrdwn yw y bydd pob un yn paratoi Cynllun Lles i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl erbyn mis Ebrill 2018 (rhan 39). |
| Materion sy'n Cymell Newid | Newid ar ôl cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol, lle mae'r Arolygydd penodedig yn casglu bod angen newid er cadernid ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r archwiliad. |
| Lliniaru | Mesurau i osgoi, lleihau neu wrthbwyso effeithiau andwyol sylweddol. |
| Amcan | Datganiad o'r bwriad, sy'n penodi'r cyfeiriad a ddymunir i'r newid mewn tueddiadau. |
| Cyfranogiad | Proses lle gall rhanddeiliaid a'r gymuned ryngwynebu gyda gwneuthurwyr cynlluniau. |
| Partneriaid | Adrannau awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill lle bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn helpu i gyflwyno rhai o amcanion eu strategaethau.<br>Hwyrach y bydd disgwyl i bartneriaid gyfrannu at ffurfio rhannau perthnasol o'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| Dogfennau cynnig cyn adneuo | Mae'r rhain yn cynnwys y weledigaeth, dewisiadau strategol, strategaeth ddewisol, polisïau allweddol, yr adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd, y gofrestr safleoedd ymgeisiol, yr Adroddiad Adolygu (os yn briodol). |
| Cam cyn adneuo | Y cyfnodau cyfranogi ac ymgynghori cyn adneuo; cyfeiria'r Llawlyfr at y Dewisiadau Strategol a'r cyfnod Strategaeth |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Ddewisol sy'n ymwneud â gweithdrefn y cynllun llawn; mae'r gostyngiad mewn gofynion yn ymwneud â gweithdrefn adolygu'r cynllun ffurf fer. |
| Datganiadau i'r Wasg | Anfonwyd at yr holl gyfryngau lleol, gan gynnwys papurau newydd, gorsafoedd newyddion radio a theledu. Hwyrach y bydd y cyfryngau'n dewis peidio ag argraffu na darlledu'r eitem newyddion. |
| Adroddiad Adolygu | Mae'r adroddiad statudol angenrheidiol dan adran 69 Deddf 2004 ac / neu Reoliad41; i gasglu ar weithdrefn adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a ddilynir ar sail asesiad clir o'r hyn a ystyriwyd a beth mae angen ei newid a pham, ar sail tystiolaeth. |
| Arfarniad Cynaliadwyedd Cwmpasu | Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylder yr Arfarniad Cynaliadwyedd, gan gynnwys yr effeithiau a'r dewisiadau cynaliadwyedd y mae angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio, a strwythur a chynnwys yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd. |
| Cytundeb Lefel Gwasanaeth | Cytundeb gydag asiantaeth statudol sy'n gosod y safonau y bydd yn anelu at eu bodloni, a'r costau sy'n codi. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n cytuno un gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas ag Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol, gan osod yr amserlenni tebygol a chost yr archwiliad a darparu cyfarwyddyd clir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar natur eu cyfrifoldebau eu hunain. |
| Effaith sylweddol | Effeithiau sy'n sylweddol yng nghyd-destun y cynllun (mae Atodlen 1 Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn rhoi meini prawf ar gyfer penderfynu ar arwyddocâd tebygol yr effeithiau ar yr amgylchedd). |
| Cynllun Integredig Sengl | Mae'n cyflawni dyletswyddau statudol a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru ("Pwrpas ar y Cyd – Cyflawniad ar y Cyd", LlC 2012), gan gynnwys Strategaethau Cymunedol; a baratowyd gan Fwrdd Gwasanaeth Lleol. Gweler "Cynlluniau Lles Lleol" a fydd yn disodli Cynlluniau Integredig Sengl". |
| Dyraniadau penodol i'r safle | Dyraniadau safleoedd (cynigion) ar gyfer defnyddiau penodol neu gymysg neu ddatblygiad a gafodd ei gynnwys mewn Cynllun Datblygu Lleol. Bydd polisïau'n dynodi unrhyw ofynion penodol ar gyfer cynigion unigol. Bydd dyraniadau'n cael eu dangos ar fap cynigion y Cynllun Datblygu Lleol. |
| Cadernid | Er mwyn cael ei fabwysiadu, rhaid i Gynllun Datblygu Lleol gael ei benderfynu i fod yn 'Gadarn' gan yr Arolygydd Archwilio (rhan 64 Deddf 2004). Dynodir profion ac archwiliadau Cadernid ym Mholisi Cynllunio Cymru (pennod 2) a'r Llawlyfr (pennod 8). |
| Rhanddeiliaid | Buddiannau sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y Cynllun Datblygu Lleol (ac/neu'r SEA) – ymwneud yn gyffredinol trwy gyrff cynrychioliadol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Term generig a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiadau amgylcheddol sy'n berthnasol i gynlluniau a rhaglenni. Mae proses yr Asesiad yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a'i ddiffinio ar lefel Ewropeaidd – Cyfarwyddeb 2001/42/EC. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 yn gofyn am "asesiad amgylcheddol ffurfiol o rai cynlluniau a rhaglenni, gan gynnwys y rhai ym maes cynllunio a defnydd tir". |
| Canllawiau Cynllunio Atodol | Gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r polisïau mewn Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r cynllun datblygu ac nid yw'n destun archwiliad annibynnol ond rhaid bod yn gyson ag ef a gyda pholisi cynllunio cenedlaethol. |
| Arfarniad Cynaliadwyedd | Arf i arfarnu polisïau i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae Adran 62(6) Deddf 2004 yn gofyn i bob Awdurdod Cynllunio Lleol i ymgymryd ag Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r math hwn o Arfarniad Cynaliadwyedd yn llawn ymgorffori gofynion Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Defnyddir y term yn y Llawlyfr hwn i gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, oni nodir yn glir fel arall. |
| Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd | Mae hyn yn cynnwys amcanion dynodedig Arfarnu Cynaliadwyedd yr asesir dewisiadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn eu herbyn. |
| Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (Adroddiad AC) | Dogfen y mae angen ei chynhyrchu fel rhan o'r broses AC i ddisgrifio ac arfarnu'r effeithiau sylweddol tebygol ar gynaliadwyedd gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol, sydd hefyd yn bodloni'r gofyniad am yr Adroddiad Amgylcheddol dan Reoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae rhan 62(6) Deddf 2004 yn gofyn i bob Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi adroddiad o ganfyddiadau AC y Cynllun Datblygu Lleol.<br>- Lluniwyd yr Adroddiad AC cyntaf ar y cyfnod Strategaeth Ddewisol (yr Adroddiad AC Interim), a ehangwyd yn y Cam Cynllun Datblygu Lleol Adneuo ac a orffennwyd ochr yn ochr â'r Datganiad Mabwysiadu. |
| Deddf 2004 | Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan adran 60 Deddf 2004, sy'n gosod fframwaith strategol i arwain datblygiadau ac ymyriadau polisi i'r dyfodol, p'un a yw'r rhain yn ymwneud ai peidio â rheoli cynllunio defnydd tir ffurfiol. Dan Adran 62(5)(b) Deddf 2004, rhaid i awdurdod cynllunio lleol ystyried Cynllun Gofodol Cymru wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol. |

DRAFT

DRAFT